# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>25 MAWRTH 2019<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>25 MARCH 2019<br>10.00 am** |
| **SIAMBR Y CYNGOR<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br>LLANGEFNI** | | **COUNCIL CHAMBER<br>COUNCIL OFFICES<br>LLANGEFNI** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 26)

Cyflwyno ar gyfer eu cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

- 18 Chwefror, 2019
- 7 Mawrth, 2019 (Arbennig)

**4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 27 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**5 CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL – CHWARTER 3, 2018/19** (Tudalennau 39 - 58)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

**6 ADRODDIAD CYNNYDD AR Y GWASANAETHAU PLANT A THEULUOEDD** (Tudalennau 59 - 100)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant.

**7 POLISI TALIADAU TAI DEWISOL** (Tudalennau 101 - 120)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151.

**8 CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI** (Tudalennau 121 - 162)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai.

**9 CYMERADWYO STRATEGAETH GOMISIYNU A CHYNLLUN GWARIO GRANT Y RHAGLEN CEFNOGI POBL** (Tudalennau 163 - 198)

Cyflwyno adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai.

**10 GRANT PLANT A CHYMUNEDAU 2019/20** (Tudalennau 199 - 222)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Dysgu, Pennaeth y Gwasanaethau

Plant a Theuluoedd a Phennaeth y Gwasanaethau Tai.

**11** **POLISI CLUDIANT YSGOLION** (Tudalennau 223 - 264)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

**12** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 265 - 266)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohono yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**13** **MODERNEIDDIO YSGOLION AR YNYS MÔN – ACHOS BUSNES LLAWN (ABLL) AR GYFER YSGOL GYNRADD NEWYDD YN LLE YSGOL BODFFORDD AC YSGOL CORN HIR** (Tudalennau 267 - 298)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror, 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, RG Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams |
| **YN BRESENNOL:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro<br>Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai)<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Dysgu<br>Pennaeth Dros Dro Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Rheolwr Uned Cefnogi Teuluoedd (ar gyfer eitem 19)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Aled Morris Jones, R. Llewelyn Jones, Kenneth Hughes, Shaun Redmond (o eitem 10), Dylan Rees, Peter Rogers |

---

### 1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro bod rhai aelodau o'r Pwyllgor Gwaith wedi ceisio ei chyngor mewn perthynas â datgan diddordebau sy'n codi yng nghyd-destun eitem 13 ar yr agenda - y Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol a'r Gyllideb ar gyfer 2019/20. Roedd hi wedi cynghori bod y diddordebau sydd i'w datgan yn rhai personol yn hytrach na’n rhai sy’n rhagfarnu a bod gan yr Aelodau dan sylw yr hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth ar yr eitem a phleidleisio arni.

Yna, datganodd yr aelodau canlynol ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 13 ar yr agenda -

Y Cynghorwyr Richard Dew, R. Meirion Jones a Robin Williams mewn perthynas â Phremiwm y Dreth Gyngor.
Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws a Carwyn Jones mewn perthynas â phris prydau ysgol.
Datganodd y Cynghorydd Carwyn Jones ddiddordeb personol hefyd mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen.

DRAFT

Datganodd y Prif Weithredwr ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 8 ar yr agenda.

**2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim i'w adrodd.

**3. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Ionawr, 2019 er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 28 Ionawr, 2019 fel rhai cywir.**

**4. ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 3 2018/19**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn ariannol 2018/19 ynghyd â chrynodeb o'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfan.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y sefyllfa ariannol ragamcanedig gyffredinol ar gyfer 2018/19 yn un o orwariant amcangyfrifedig o £ 1.589m, sy'n welliant sylweddol o gymharu â'r gorwariant o £ 2.66m a ragwelwyd yn Chwarter 2. Fodd bynnag, rhaid nodi, er bod y gorwariant ar wasanaethau hefyd wedi lleihau, rhagwelir y bydd gorwariant o £ 2.972m (2.61%) ar 31 Mawrth, 2019. Os yw'r tueddiad hwn yn parhau yn unol â rhagolygon Chwarter 3, mae Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol y Cyngor yn debygol o ostwng i £ 4.720m erbyn diwedd y flwyddyn, sydd ymhell islaw isafswm balans y gronfa wrth gefn gyffredinol sydd wedi'i osod ar £ 6.5m fel y'i cymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 28 Chwefror, 2018.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod y sefyllfa ariannol yn well yn Chwarter 3 yn bennaf oherwydd y canlynol -

- Mae data Chwarter 3 yn adlewyrchu cyfran uwch o wariant a gofnodwyd yn wirioneddol ac o ganlyniad, mae wedi'i seilio i raddau llai ar amcangyfrifon, sy'n golygu bod y ffigwr yn fwy cywir.
- Ym mis Tachwedd, 2018, anfonwyd nodyn briffio i Benaethiaid Gwasanaethau ar awdurdod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu hysbysu am yr angen i wneud arbedion. Roedd y nodyn hwn yn awgrymu nifer o fesurau yr oedd eu hangen i leihau gwariant / cynyddu incwm erbyn diwedd y flwyddyn e.e. gohirio recriwtio i swyddi gweigion, cyfyngu goramser a chyflwyno cynnydd mewn ffioedd yn gynharach. Mae'n ganmoladwy bod yr awgrymiadau hyn wedi'u gwneud a bod Penaethiaid Gwasanaeth wedi gweithredu ar y cyngor o ran y gwariant a oedd o fewn eu rheolaeth.
- Tanwariant mewn Cyllid Corfforaethol, yn benodol ar gostau cyllido cyfalaf – y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a chostau llog - sydd wedi helpu i leihau'r ffigwr gan oddeutu £ 500k.

Dywedodd y Swyddog, er gwaethaf y ffaith bod y gorwariant a ragamcenir yn welliant o gymharu â Chwarter 2, ni ddylid anghofio bod gorwariant o £3.5m yn debygol mewn perthynas â thri phrif wasanaeth y Cyngor - Addysg, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion. Mae'r arbedion ar Gyllid Corfforaethol yn ddigwyddiad annisgwyl unwaith ac am byth ac mae'n

DRAFT

annhebygol y byddant ar gael yn 2020/21; felly mae angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r diffyg ariannol, cost y gwasanaethau ac i reoli'r galw am wasanaethau. Er y gellir ariannu'r lefel hon o orwariant o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2018/19, bydd yn lleihau'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i ffigwr sydd yn is o lawer na'r isafswm a dderbynnir yn gyffredinol ac sy'n destun pryder, yn enwedig os bydd y patrwm o orwario yn parhau. Bydd yn angenrheidiol yn ystod y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2019/20 neu 2020/21 i ariannu'r lefel sylfaenol o orwario ac i ddechrau ar y broses o ail-gyflenwi'r balansau cyffredinol. Mae hon yn ymagwedd ddoeth ac mae'n angenrheidiol er mwyn sicrhau hyfywedd ariannol hirdymor y Cyngor.

Wrth ystyried yr adroddiad, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod yr ymdrechion a wnaed gan wasanaethau'r Cyngor i leihau gwariant yn y chwarter diwethaf. Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y gwasanaethau sy'n gorwario ar hyn o bryd - y Gwasanaethau Plant, ac yn benodol y gyllideb ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Gofal Cymdeithasol Oedolion, yn arbennig o agored i bwysau o ran y gofyn am y gwasanaeth gyda'r galw cynyddol yn ffactor allweddol yn y pwysau ariannol y mae'r gwasanaethau hyn yn eu profi. Nododd y Pwyllgor Gwaith ei fod yn hanfodol gwahaniaethu rhwng gwasanaethau sy'n "gorwario" a rhai sy'n cael eu "tan-ariannu". Bydd y penawdau cyllidebol hyn yn cael mwy o arian yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Nododd y Pwyllgor Gwaith fod effaith y llymder ariannol - sydd wedi arwain at leihau cyllideb y Cyngor dros flynyddoedd yn olynol - yn dod drwodd yn amlwg yn yr adroddiad, a phwysleisiodd os yw'r Cyngor am barhau i ddarparu gwasanaethau yn y modd a ddisgwylir ohono, yn enwedig ei gyfrifoldebau statudol o ran gofal cymdeithasol oedolion a phlant, yna mae'n rhaid iddo gael ei ariannu'n briodol. Mae angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Ganolog gydnabod hyn fel mater o flaenoriaeth.

Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio Cyllid at Lythyr Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru 2017/18 ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn dyddiedig 5 Chwefror, 2019 lle mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod "mai llymder yw'r her fwyaf arwyddocaol sy'n parhau i wynebu pob corff llywodraeth leol yng Nghymru a bod y pwysau ariannol hyn yn debygol o barhau yn y tymor canol." Mae'r Llythyr yn nodi bod "setliad cyllido llywodraeth leol 2018/19 wedi gweld setliad y Cyngor yn cynyddu 0.7% yn unig tra bod chwyddiant yn fwy na 2%. " Dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod yn credu mai un o brif achosion y straen ariannol y mae cynghorau'n ei brofi yw'r penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Ganolog dros gyfnod o flynyddoedd i leihau'r baich treth incwm, gan olygu bod ganddo lai o adnoddau i'w dyrannu i Lywodraeth Cymru sydd yn ei dro, yn golygu bod llai o arian ar gael i gynghorau Cymru gyda'r canlyniad bod baich trethi yn mynd ar y trethi lleol gan greu mwy o bwysau a chynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y Dreth Gyngor wrth i gynghorau geisio cau'r bwlch cyllido.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn atodiadau A a B yr adroddiad yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2018/19.**
- **Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2018/19 fel y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad.**
- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi-i-arbed yn Atodiad CH yr adroddiad.**
- **Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd ar gyfer 2018/19 yn Atodiad D.**
- **Nodi sut cafodd costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2018/19 yn Atodiadau DD ac E yr adroddiad.**

## 5. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF - CHWARTER 3 2018/19

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter 2018/19.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid mai cyfanswm y gwariant ar ddiwedd Chwarter 3 yw £ 19,043m yn erbyn Cyllideb Gyfalaf o £ 61.920m ar gyfer 2018/19. Rhagwelir tanwariant o £ 29.644m ar Raglen Gyfalaf 2018/19 gyda’r posibilrwydd y bydd yn llithro i Raglen Gyfalaf 2019/20 .Bydd yr arian ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2019/20. Er bod y mwyafrif o’r prosiectau ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau o fewn y gyllideb mae yna 4 prif brosiect y disgwylir iddynt danwario’n sylweddol yn 2018/19. Nodir y rhain yn yr adroddiad. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd unrhyw arian yn cael ei golli oherwydd yr oedi.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 nad oedd unrhyw ddatblygiadau sylweddol i’w hadrodd o ran gweithgarwch yn ymwneud â’r gyllideb gyfalaf ers Chwarter 2. Nid yw rhai cynlluniau wedi datblygu cystal â'r disgwyl ac nid yw eraill wedi cychwyn o gwbl oherwydd ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Efallai na fydd y gwelliannau i'r A5025, sef un o'r pedwar prif brosiect nad ydynt wedi dechrau eto yn cychwyn o gwbl, gan fod yr holl waith ar y prosiect wedi’i ohirio ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Swyddog hefyd y bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i sicrhau na chaiff unrhyw arian grant ei golli drwy sicrhau bod gwariant digonol yn digwydd erbyn diwedd y flwyddyn.

**Penderfynwyd nodi’r cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn Cyllideb Gyfalaf 2018/19 yn Chwarter 3.**

## 6. MONITRO CYLLIDEB Y CRT - CHWARTER 3 2018/19

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn nodi'r sefyllfa mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (HRA) ar gyfer trydydd chwarter 2018/19.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod sefyllfa ariannol refeniw yr HRA yn Chwarter 3 yn dangos tanwariant o £ 110k. Mae’r gwariant cyfalaf £ 4.1m yn is na’r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r gwarged a ragamcenir (sy'n cyfuno refeniw a chyfalaf) £ 7.9m yn well na'r gyllideb a hynny’n bennaf oherwydd bod gwariant cyfalaf wedi bod yn is na’r swm y cyllidebwyd ar ei gyfer. Mae'r CRT wedi'i neilltuo i bwrpas penodol ac ni ellir trosglwyddo ei arian wrth gefn i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol, sy'n golygu na ellir ei ddefnyddio i unrhyw bwrpas nad yw’n gysylltiedig â stoc dai'r Cyngor.

Nododd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 bod balans y gronfa wrth gefn HRA wedi'i glustnodi ar gyfer ei fuddsoddi mewn tai newydd a gaiff ei amlinellu yn y Cynllun Busnes CRT 30 mlynedd a gyflwynir i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth, 2019.

**Penderfynwyd nodi’r canlynol –**

- **Y sefyllfa a amlinellir yng nghyswllt perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 3, 2018/19.**
- **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2018/19.**

DRAFT

## 7. FFRAMWAITH AR RYDDHAD DEWISOL TUAG AT DRETHI BUSNES – ELUSENNAU A SEFYDLIADAU NAD YDYNT YN GWNEUD ELW

Cyflwynwyd i’w ystyried, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i ymestyn y Fframwaith Rhyddhad Dewisol tuag at Drethi Busnes i Elusennau a Sefydliadau nad ydynt yn Gwneud Elw i 2019/20.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod eiddo annomestig (ar wahân i rai eithriadau, megis amaethyddiaeth, addoldai, eiddo a ddefnyddir gan yr anabl ac ati) yn atebol i dalu trethi annomestig. Yr enw cyffredin ar y rhain yw cyfraddau busnes er nad yw pob trethdalwr yn fusnesau yn yr ystyr cyffredin. Mae’n rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru roi rhyddhad trethi mandadol i elusennau yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (DCLlL88), fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r adroddiad yn nodi trefniadau fframwaith arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2019/20.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod y Pwyllgor Gwaith, ar 19 Chwefror, 2018 wedi ymestyn ei Fframwaith Rhyddhad Dewisol tuag at Drethi Busnes ar gyfer Elusennau a Sefydliadau nad ydynt yn Gwneud Elw, gyda'r bwriad o gynnal ymgynghoriad ar y fframwaith yn ystod hanner cyntaf 2018/19 gyda fframwaith diwygiedig yn dod i rym ar 1 Ebrill, 2019. Er bod y ddogfen ymgynghori wedi'i chymeradwyo, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad gan fod y Gwasanaeth yn ymwybodol o gyhoeddiadau arwyddocaol posibl naill ai gan weinyddiaeth San Steffan neu weinyddiaeth ddatganoledig Caerdydd mewn perthynas â rhyddhad trethi pellach o bosib i fusnesau. Gallai cyhoeddiadau o'r fath fod wedi cael effaith ar yr ymgynghoriad y bwriadwyd ei gynnal. Dywedodd y Swyddog y manylir ar sylwedd y cyhoeddiadau a wnaed mewn gwirionedd yn 2018/19 yn yr adroddiad; mae'r ddogfen ymgynghori mewn perthynas â fframwaith rhyddhad dewisol tuag at drethi busnes y Cyngor wedi cael ei diwygio i gymryd i ystyriaeth y newidiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr, 2018. Gan fod posibilrwydd o oblygiadau cyllidebol i ymgynghoriad o'r fath ac oherwydd na chafodd y setliad ariannol terfynol ar gyfer 2019/20 ei dderbyn tan 19 Rhagfyr, 2018 a oedd yn cynnwys cymorth ychwanegol o £ 2.4m (heb ei neilltuo) i fusnesau bach yn genedlaethol yng Nghymru, nid yw’r amserlen yn caniatáu digon o amser i ymgynghori ac i ddiwygio’r fframwaith , gyda chostau posibl i'w trafod a'u hadlewyrchu yn y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2019/20. O ganlyniad, argymhellir mabwysiadu'r polisi presennol am flwyddyn arall a chynnal yr ymgynghoriad yn hanner cyntaf 2019/20 sy’n caniatáu digon o amser i ymateb ac ystyried unrhyw oblygiadau cyllidebol, os o gwbl, cyn i'r fframwaith newydd gael ei weithredu o 1 Ebrill, 2020.

Wrth nodi'r adroddiad, nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd bod angen diwygio'r cyfraddau busnes yn eu cyfanrwydd ar sail genedlaethol oherwydd eu bod, ar eu lefelau presennol, yn cael effaith andwyol ar fusnesau’r stryd fawr. Mae angen mynd i'r afael hefyd â'r anghysondeb rhwng y cyfraddau a delir gan fusnesau manwerthu ar y stryd fawr a busnesau manwerthu ar-lein. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 fod gallu cynghorau lleol i wneud gwahaniaeth mewn perthynas â chyfraddau busnes y stryd fawr yn gyfyngedig oherwydd daw’r rhan fwyaf o'r rheolau a'r rheoliadau sy'n effeithio ar gyfraddau busnes o Lywodraeth Cymru.

**Penderfynwyd –**

- **Mabwysiadu’r Fframwaith cyfredol mewn perthynas â Rhyddhad Dewisol tuag at Drethi Busnes – Elusennau a Sefydliadau Dielw fel y manylir yn Atodiad A yr adroddiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 yn unig a rhoi cyfarwyddyd i’r Pennaeth**

DRAFT

**Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i sicrhau bod y gweithdrefnau gweinyddol cyn 31 Mawrth, 2019 yn rhoi gwybod i'r elusennau a'r sefydliadau dielw perthnasol y bydd y polisi mewn grym ar gyfer 2019/20 yn unig ac y daw i ben ar 31 Mawrth, 2020.**

- **Bod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn cynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y fframwaith yn ystod hanner cyntaf 2019/20 gyda fframwaith diwygiedig yn dod i rym ar 1 Ebrill, 2020.**

**8. GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DIBRESWYL YN Y GYMUNED - FFIOEDD A THALIADAU 2019/20**

Cyflwynwyd ar gyfer ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y ffioedd a'r taliadau y bwriedir eu codi am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned ar gyfer 2019/20.

Dywedodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yr arferir adolygu'r taliadau mewn perthynas â gwasanaethau cartref yn flynyddol i gyd-fynd ag adolygiad Llywodraeth Ganolog o lefelau budd-daliadau a phensiynau. Mae'r adroddiad yn nodi'r ffioedd a'r taliadau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned y bwriedir eu codi yn 2019/20 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r ffioedd Gofal Cartref a amlinellir yn Nhabl 1 yr adroddiad.**

- **Cymeradwyo'r ffioedd ar gyfer Gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellir yn Nhabl 4 yr adroddiad.**

**Haen 1 bydd pawb yn talu £46.60**
**Haen 2 a 3 bydd pawb yn talu £92.93**

- **Cymeradwyo'r ffioedd Teleofal blynyddol fel yr amlinellir yn Nhabl 5 yr adroddiad.**

**Gwasanaethau a Chynnal a Chadw £110.80**
**Gwasanaethau yn unig £71.60**
**Costau gosod unwaith ac am byth £44.30**

- **Cymeradwyo cyfradd o £11.30/awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol**

- **Cadw'r ffi o £10 ar gyfer gweinyddu ceisiadau am Fathodyn Glas ac i ddarparu bathodynnau newydd yn lle rhai a gollwyd/a gafodd eu dwyn.**

- **Cynyddu'r ffi ar gyfer prynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol o 3% i £33.18**

- **Cymeradwyo cynnydd yn y ffioedd a delir am ofal cartref a gaiff ei gomisiynu ar gyfer pecynnau Gofal Anabledd Dysgu, sef talu £15.91 am dros awr o wasanaethau, a thalu £16.86 am wasanaethau o dan awr.**

DRAFT

## 9. CARTREFI AWDURDOD LLEOL I BOBL HŶN - GOSOD Y TÂL SAFONOL

Cyflwynwyd i'w ystyried - adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i osod lefel Tâl Safonol yr Awdurdod ar gyfer cartrefi gofal yr awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn rhwng Ebrill, 2019 a Mawrth, 2020.

Cyflwynodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad a'r argymhellion ynddo i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro / Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion fod y cynigion yn golygu cynnydd o 3% yn y tâl safonol (sef y ffi y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei chodi ar y preswylwyr hynny sydd â'r modd ariannol i dalu cost lawn eu gofal preswyl) yn unol â'r canllawiau ar gyfer cynyddu ffioedd a thaliadau a bennir gan Aelodau ynghyd â chyfran pob defnyddiwr o draean y cymhorthdal a roddir i'r sawl sy'n ariannu eu gofal eu hunain, gan leihau'r bwlch rhwng cost y ddarpariaeth a'r hyn y mae'r sawl sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn ei dalu. Dywedodd y Swyddog y rhoddwyd ystyriaeth i gynyddu'r tâl i gost lawn y ddarpariaeth, ond gwrthodwyd hynny ar y sail y byddai hyn yn golygu cynnydd sylweddol ac anghymesur i breswylwyr o'r tâl safonol o £ 601.82 yr wythnos yn 2018/19 i £ 752.58.

**Penderfynwyd –**

- **Tra bod y Cyngor yn cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â gofal preswyl, nid yw'r gwir gost o ddarparu'r gofal wedi ei adlewyrchu yn y ffi a godir ar drigolion.**
- **Yn unol â'r cynnig arbedion a wnaed, tynnu'r cymhorthdal a roddir i rai sy'n ariannu ei hunain dros y tair blynedd nesaf, bod y cynnydd ar gyfer y rheini sy'n cyfrannu tuag at gost eu gofal yn cael ei osod ar 3%, ynghyd â chyfran pob defnyddiwr o draean o'r cymhorthdal a roddir i'r rhai sy'n hunan-ariannu.**
- **Bod y ffi ar gyfer 2019/20 felly yn cael ei osod ar £601.82 +3% + (⅓ x £132.70) = £664.11.**

## 10. FFIOEDD CARTREFI GOFAL Y SECTOR ANNIBYNNOL 2019/20

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r ffioedd arfaethedig ar gyfer cartrefi gofal y sector annibynnol am 2019/20.

Dywedodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol bod gofyn i'r Awdurdod Lleol adolygu ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol bob blwyddyn i gyd-fynd â'r newidiadau y mae'r Llywodraeth Ganolog yn eu gwneud i fudd-daliadau a lefelau pensiwn. Wrth osod lefelau ar gyfer cartrefi gofal yn y sector annibynnol, mae angen i'r Cyngor ddangos ei fod wedi ystyried yn llawn gostau'r ddarpariaeth wrth bennu ei ffioedd gofal safonol. Gwneir hyn mewn cydweithrediad â'r Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd trwy ddefnyddio Methodoleg Ffi Rhanbarthol fel y gwnaed yn y blynyddoedd blaenorol. Bwriedir parhau i ddefnyddio'r model hwn ar gyfer 2019/20 sydd wedi adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol o ran pensiynau, cyflog byw cenedlaethol a chwyddiant. Fel rhan o'r broses o osod ffioedd ar gyfer 2019/20, ymgynghorodd Ynys Môn ar y ffioedd a gynigiwyd gan y fethodoleg a grynhoir yn Atodiad 2 yr adroddiad. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Swyddog Adran 151, mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio'r fethodoleg Ranbarthol ar gyfer Gofal Preswyl EMI; a'r elfen Gofal Nyrsio Sylfaenol mewn Gofal Cymdeithasol. Mae'r Gwasanaeth yn argymell cynnydd o 12% yn y dychweliad ar fuddsoddiad ar leoliadau Nyrsio EMI i gydnabod y pwysau yn y maes hwn. Yn gyson â'r cyfeiriad strategol y mae'r Cyngor ei gymryd o ran datblygu

DRAFT

dewisiadau amgen i ofal preswyl ar ffurf Tai Gofal Ychwanegol a gofal cartref, a chan roi ystyriaeth briodol i fforddiadwyedd y cynnydd a gynigir ar gyfer cartrefi gofal preswyl, bwriedir gosod cyfradd ar gyfer gofal preswyl i oedolion sy'n seiliedig ar ddychweliad buddsoddiad is o 9%.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro / Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion y bydd angen efallai ystyried cyflwyniadau unigol gan ddarparwyr ynghylch y ffioedd arfaethedig. Bydd eithriadau i'r cyfraddau ffioedd yn cael eu hystyried os oes tystiolaeth glir i nodi nad yw'r ffi a osodir yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol.

**Penderfynwyd –**

- **Cydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru fel y cafodd ei gweithredu hyd yma gan yr awdurdodau yng ngogledd Cymru fel y sail ar gyfer gosod ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2019/20 (Atodiad 2 yr adroddiad).**
- **Cymeradwyo'r cynnydd yn y lefelau ffioedd fel y nodir yn Nhabl 2 yr adroddiad.**
- **Yn yr un modd ag awdurdodau eraill, awdurdodi'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyllid i ymateb i unrhyw geisiadau gan Gartrefi i edrych ar eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Bydd rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Deilydd Portffolio, y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Phennaeth y Gwasanaethau Oedolion o'r cyllidebau cyfredol. Os na fydd modd dod i gytundeb, bydd y mater yn mynd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith.**

**11. CRT RHENTI TAI A THALIADAU'R GWASANAETH TAI 2019/20**

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo cynnydd mewn rhenti a thaliadau gwasanaeth ar gyfer 2019/20.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau fod Llywodraeth Cymru mewn llythyr dyddiedig Rhagfyr, 2018 yn cadarnhau ei fod wedi cytuno i gynnal Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol ar gyfer 2019/20 yn unig hyd nes y bydd canlyniad yr Adolygiad Cyflenwad Tai Fforddiadwy yn hysbys. Mae'r adolygiad yn ystyried yr angen i gyflwyno polisi rhent diwygiedig sy'n rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac yn cydbwyso'r angen am ddatblygiad parhaus gyda fforddiadwyedd i denantiaid. Disgwylir y bydd y Panel yn adrodd ei ganfyddiadau ym mis Ebrill, 2019.

**Penderfynwyd –**

- **Cymeradwyo'r cynnydd mewn rhent yn unol â tharged rhent Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gasglu dros 52 wythnos.**
- **Cymeradwyo cynnydd o 2.4% yn yr holl renti sydd rhwng £0.01 - £4.19 yn is na'r targed ynghyd â swm o hyd at uchafswm o £2.00 yr wythnos er mwyn cyrraedd y rhent targed.**
- **Cymeradwyo cynnydd o 2.4% yn yr holl renti sydd rhwng £3.58 - £4.66 yn is na'r targed a hefyd £2.00 ychwanegol yr wythnos.**
- **Bod y rhent ar gyfer yr 14 eiddo sydd â rhent uwch na'r lefel targed yn aros fel y mae.**
- **Cynyddu rhenti'r holl garejys 20c yr wythnos.**

- **Cymeradwyo'r taliadau gwasanaeth a nodir yn adran 3.3 yr adroddiad ar gyfer yr holl denantiaid sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.**

## 12. CRONFEYDD WRTH GEFN A BALANSAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid mai pwrpas yr adroddiad yw nodi asesiad y Swyddog Adran 151 ar lefel y balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer 2019/20 ac i wneud argymhellion ynghylch dyrannu balansau cyffredinol i'w defnyddio yn ystod 2019/20. Dywedodd yr Aelod Portffolio ei bod yn briodol yn y cyd-destun hwn i gyfeirio eto at Lythyr Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2017/18. Mae'r Llythyr yn amlygu sefyllfa cronfeydd wrth gefn y Cyngor ac yn nodi'r duedd ddiweddar o ostyngiad ym malansau cronfa gyffredinol y Cyngor sydd, ym marn yr Archwilydd Cyffredinol yn anghynaladwy ac sydd wedi ei nodi yn y llythyr fel rhywbeth y mae'r Swyddog Adran 151 a'r Cyngor wedi ei gydnabod fel risg. Mae'r Archiwlydd Cyffredinol yn cynghori bod "ystyriaeth barhaus o falansau wrth gefn wrth gefn a sut y gellir eu defnyddio i gefnogi cynlluniau ariannol yn arbennig o bwysig oherwydd nid yw'n gynaliadwy dibynnu ar gronfeydd wrth gefn i gefnogi costau parhaus y Gwasanaethau Gofal / Gwasanaethau Plant sy'n cael eu harwain gan alw. Unwaith y bydd y cronfeydd wrth gefn wedi lleihau, rhaid canfod  ffynonellau ariannol eraill neu wneud arbedion effeithlonrwydd." Aiff yr Archwilydd Cyffredinol yn ei flaen i ddweud bod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i geisio cydbwyso'r gyllideb refeniw yn 2019/20 heb ddefnyddio'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol a gwneud arbedion digonol a sicrhau eu bod yn gyraeddadwy, yn benderfyniad i'w groesawu.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, fod balans cronfa gyffredinol y Cyngor, ei gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a balansau ysgolion oddeutu £ 27m neu 22% o gyllideb net y Cyngor ar ddiwedd 2015/16; erbyn diwedd 2018/19, rhagwelir y byddant yn lleihau i £ 15m neu 12% o gyllideb net y Cyngor. Dywedodd y Swyddog fod cronfeydd wrth gefn yn cael eu cadw rhag ofn y bydd angen gwario ar unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl neu ddigwyddiadau heb eu cynllunio; tynnwyd ar y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2017/18 i helpu i gwrdd â gorwariant ar y gyllideb refeniw; mae'n debyg y byddant yn cael eu defnyddio eto i'r pwrpas hwn eleni oherwydd rhagamcenir y bydd gorwariant ar gyllideb refeniw 2018/19. Dyrennir arian hefyd i gyllidebau i gwrdd â chostau digwyddiadau yn ystod y flwyddyn e.e. defnyddiwyd y cronfeydd wrth gefn i gefnogi Tîm Etifeddiaeth yn y Gwasanaethau Plant i ddelio ag achosion hanesyddol ac fe'u defnyddiwyd hefyd yn 2017 i gwrdd â chost ychwanegol difrod llifogydd (y tu allan i gyllideb yr Adran Briffyrdd) yn dilyn y llifogydd difrifol ym mis Tachwedd y flwyddyn honno. Mae cronfeydd wrth gefn clustnodedig y Cyngor wedi'u neilltuo ar gyfer amryw o ddibenion penodol, e.e. cronfa wrth gefn yswiriant i gwrdd â'r amcangyfrif o hawliadau yn y dyfodol fel y gall y Cyngor dalu gor-daliadau nad ydynt wedi eu cynnwys yn yr yswiriant, cronfa wrth gefn ar gyfer Grantiau sy'n dal incwm grant nad yw wedi ei wario eto a gwarchodaeth ar gyfer prosiectau penodol unwaith ac am byth sy'n parhau am fwy na blwyddyn ac sydd ddim yn cael eu cyllido gan y gyllideb refeniw.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, er nad oes rheol gaeth ynghylch lefel y balansau cyffredinol y dylai cyngor eu dal, ystyrir yn gyffredinol bod 5% o gyllideb refeniw net y cyngor yn lefel dderbyniol, sef £ 6.76m yn achos Ynys Môn ar gyfer 2019/20. Amcangyfrif y bydd y balansau cyffredinol ar 31 Mawrth 2019 yn £ 4.7m sydd  £ 2m yn is na'r lleiafswm a gyfrifiwyd. Dywedodd y Swyddog ei fod yn derbyn nad oes modd cyllido ar

DRAFT

gyfer gwarged yn y gyllideb yn yr hinsawdd ariannol bresennol er mwyn dod â'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ôl i'r isafswm a bod rhaid i gynnydd yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol ddigwydd yn raddol dros gyfnod o 5 i 7 mlynedd. Mae cael lefel o falansau cyffredinol sydd islaw'r isafswm yn risg ariannol a pho hwyaf y cyfnod y mae'r balansau cyffredinol yn parhau i fod yn is na'r lefel hon, po fwyaf yw'r risg na fydd y Cyngor yn gallu ymdopi'n ariannol mewn argyfwng neu ddigwyddiad annisgwyl.

O ran yr argymhelliad bod y gronfa Trothwy Gofal yn cael ei throsglwyddo o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd i'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol, eglurodd y Swyddog y bu oedi o ran sefydlu'r Tîm Trothwy Gofal ac o ganlyniad, ni fydd balans o'r £ 250k a ddyrannwyd wedi ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon. O 2019/20, bydd y Tîm Trothwy Gofal yn cael ei ariannu o'r gyllideb refeniw yn barhaol, gan olygu y bydd modd rhyddhau'r arian a glustnodwyd yn ôl i'r Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith yr adroddiad a gwnaethpwyd y pwyntiau ganlyn -

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y sefyllfa'n heriol iawn ac y bydd y Cyngor yn debygol o gael trafferth i ddod â'r cronfeydd wrth gefn yn ôl i lefel dderbyniol pan mae'n parhau i wynebu gorfod gwneud toriadau i'r dyfodol rhagweladwy. Nid yw'r sefyllfa'n gynaliadwy oni bai fod y Cyngor yn derbyn setliad ariannol gwell gan Lywodraeth Cymru yn 2020/21 a thu hwnt.

  Er yn cydnabod na fydd y broses o adeiladu'r cronfeydd wrth gefn yn ôl i fyny i'r lefel o 5% yn ystod cyfnod o galedi arianniol yn hawdd, dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor anelu at wneud hynny fel rhan o'i gynllun ariannol dros y tymor canol. Ni fydd modd cyflawni hyn mewn un flwyddyn ariannol a gall gymryd rhwng 3 a 5 mlynedd neu fwy hyd yn oed, yn dibynnu ar fanylion y setliadau ariannol y bydd y Cyngor yn eu derbyn o 2020/21 ymlaen.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod angen dwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Ganolog drwy fynd ati'n egnïol i lobïo Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol Ynys Môn er mwyn sicrhau fod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hariannu'n decach. Pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith mai'r Cyngor sy'n gorfod gwneud dewisiadau anodd oherwydd cyllideb sy'n crebachu ac mai'r Cyngor wedyn sy'n gorfod amddiffyn y dewisiadau hynny gyda dinasyddion yr Ynys.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod cynyddu lefel y Dreth Gyngor yn cael effaith ar y cyhoedd. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ynghylch pa mor gynaliadwy yw'r dull sy'n defnyddio cronfeydd wrth gefn i leihau, neu osgoi cynyddu'r Dreth Gyngor ac a yw gwerthu asedau ar frys ("fire sale") yn opsiwn petai'r Cyngor yn cael ei hun dan bwysau ariannol heb ddigon o gronfeydd wrth gefn i dynnu arnynt.

  Dywedodd y Pennaeth Swyddogaethau (Adnoddau) / Adran 151 y bydd lefel balansau cyffredinol y Cyngor ar ddiwedd 2018/19 ar lefel sy'n is na'r lefel isaf a argymhellir. Byddai lleihau'r balansau cyffredinol hyd yn oed ymhellach yn cynyddu'r risgiau ariannol i'r Cyngor gan gyfyngu ar ei allu i ddelio gyda'r annisgwyl neu i fynd i'r afael â gorwariant ar y gyllideb fel y bu angen yn 2017/18 ac sy'n debygol o fod yn wir am flwyddyn ariannol 2018/19. Mae cyngor sydd wedi rhedeg ei gronfeydd wrth gefn i lawr, yn dechnegol, yn fethdalwr. Mewn achos o'r fath ni fyddai gwerthu asedau ar frys yn ateb y broblem oherwydd ni fyddai modd defnyddio'r derbyniadau cyfalaf a geid o'r gwerthiannau hyn i bwrpas refeniw er mwyn cefnogi gwasanaethau. Felly byddai'n rhaid i gyngor a fyddai'n cael ei hun mewn sefyllfa o'r fath leihau gwasanaethau i'r isafswm statudol er mwyn lleihau gwariant a chreu'r

DRAFT

amgylchiadau lle y gallai dalu ei ffordd wedyn. Dywedodd y Swyddog bod lefel cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor hwn, yn ei farn broffesiynnol ef, wedi cyrraedd pwynt tyngedfennol ac na ddylid caniatáu iddo ostwng ymhellach. Gallai gwneud hynny rhoi'r Cyngor mewn perygl ariannol petai'r annisgwyl yn digwydd.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r polisi cyffredinol ar gronfeydd wrth gefn a balansau a gafodd ei fabwysiadu ar 1 Mawrth, 2016, fel yn Atodiad A yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo'r newidiadau i'r polisi cyffredinol ar gronfeydd wrth gefn a balansau a gafodd ei fabwysiadu ar 1 Mawrth, 2016, fel yn Atodiad A.**
- **Gosod lefel isafswm y balansau cyffredinol ar gyfer 2019/20 ar £6.76m yn unol ag asesiad y Swyddog Adran 151.**
- **Cynllunio am gynnydd yn y balansau cyffredinol dros gyfnod o 3 i 5 mlynedd i sicrhau bod lefel wirioneddol y cronfeydd wrth gefn yn cyrraedd y lefel isafswm. Cyflawnir y cynnydd hwn drwy gyllidebu ar gyfer gwargedau blynyddol a gynllunnir.**
- **Cadarnhau parhad y cronfeydd wrth gefn presennol sydd wedi'u clustnodi.**
- **Cymeradwyo trosglwyddo'r gronfa Trothwy Gofal o'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i'r Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol.**

## 13. CYNLLUN A CHYLLIDEB ARIANNOL TYMOR CANOL 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 sy'n cynnwys y cynigion cyllideb refeniw manwl ar gyfer 2019/20 ar gyfer adolygiad terfynol y Pwyllgor Gwaith. Mae'r adroddiad hefyd yn diweddaru'r Cynllun Ariannol Tymor Canol sy'n darparu cyd-destun ar gyfer y gwaith ar gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor Sir i'w alluogi i fabwysiadu cyllideb ar gyfer 2019/20.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid yr adroddwyd yn flaenorol ar yr her o osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/20 a'i fod eisoes wedi disgrifio'r holl ffactorau negyddol sydd wedi digwydd ar yr un pryd - setliad ariannol is gan Lywodraeth Cymru, chwyddiant prisiau cyffredinol a chostau cynyddol, chwyddiant tâl a chostau cynyddol pensiynau athrawon fel rhai sy'n creu "storm berffaith" o heriau sy'n arwain at fwlch cyllido cychwynnol o £ 7.156m (cyn cynyddu'r Dreth Gyngor a gwneud arbedion). Nodwyd arbedion gwerth £ 3.747m a oedd yn cynnwys gostyngiad o £ 1.76m yn y gyllideb a ddatganolir i Ysgolion. Dywedodd yr Aelod Portffolio y daeth yn amlwg yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion cyllideb 2019/20 nad yw pobl yn hapus i doriadau gael eu gwneud yn y maes addysg neu os oes rhaid eu gwneud o gwbl, maent o'r farn y dylent eu cadw i'r isafswm. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried hyn a negeseuon eraill o'r ymgynghoriad cyhoeddus ac wedi ymateb iddynt trwy wneud addasiadau i'r cynigion arbedion fel yr amlinellir yn adran 9.1 yr adroddiad.

Dywedodd yr Aelod Portffolio fod y sefyllfa'n parhau i fod yn heriol iawn heb anghofio bod y Cyngor eisoes wedi gwneud arbedion o tua £ 25m ers 2013/14. Gellid dweud bod y Cyngor yn agos iawn at ddiwedd ei allu i wneud arbedion gwasanaeth a bod yn anodd iawn gweld lle gellir gwneud toriadau pellach heb i hynny gael effaith ddifrifol. Roedd gorwariant ar gyllideb refeniw'r Cyngor yn 2017/18 ac mae'n debygol y bydd gorwariant eto yn 2018/19 yn bennaf oherwydd y pwysau ar gyllideb y Gwasanaethau Plant. Gellir dadlau nad yw'r arian a neilltuwyd ar gyfer y Gwasanaethau Plant wedi cadw i fyny â'r galw sydd wedi dyblu dros y blynyddoedd diwethaf gyda chost lleoliadau plant yn yr achosion mwyaf cymhleth gymaint â

DRAFT

£ 5,000 yr wythnos. Yn ogystal, mae'r gostyngiad yn lefel  cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn golygu y gall fod yn broblemus mynd i'r afael ag unrhyw orwariant yn y gwasanaethau yn y dyfodol.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod yn cynnig y gyllideb fel y'i cyflwynwyd gyda chalon drom ond y realiti yw nad yw'r arian y mae awdurdodau lleol yn ei dderbyn gan y Llywodraeth Ganolog trwy Lywodraeth Cymru yn ddigonol ac wedi cael ei leihau flwyddyn ar ôl blwyddyn dros nifer o flynyddoedd. Dyfynnodd yr Aelod Portffolio o erthygl yn rhifyn 16 Chwefror o'r Guardian ar y system Dreth Gyngor yn Lloegr sy'n codi pwyntiau sy'n berthnasol i Gymru - mae'n tynnu sylw at y pwysau a roddwyd ar y system Treth Gyngor oherwydd y toriadau yn y cyllid a gaiff cynghorau sy'n golygu nad oes unman arall i droi ar gyfer codi refeniw am wasanaethau heblaw trwy gynyddu'r Dreth Gyngor sy'n effeithio'n sylweddol ar deuluoedd incwm isel. Mae'r erthygl yn cyflwyno'r achos dros ail-drefnu'r system ac yn y tymor byr ar gyfer codi trethi'n gyffredinol er mwyn cynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer llywodraeth leol, fel y gall gefnogi gwasanaethau lleol yn briodol a chymryd pwysau oddi ar y system Treth Gyngor.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod y broses ar gyfer gosod cyllideb 2019/20 wedi bod yn anodd o ran adlewyrchu'r costau a'r gofynion a wynebir gan wasanaethau ac yna gydbwyso'r rheini gyda'r incwm y mae'r Cyngor yn ei dderbyn trwy'r setliad cyllido a'r Dreth Gyngor. Mae'n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 bod y gyllideb a osodir yn adlewyrchu'r hyn y mae'r Cyngor yn ei ystyried yw gwir gostau darparu gwasanaethau, h.y. bod ei refeniw yn cwmpasu ei wariant, ac yn ei farn broffesiynol ef, ar ôl ystyried y risgiau fel y'u nodwyd yn yr adroddiad, roedd y cyllidebau'n gadarn ac yn rhai yr oedd modd eu darparu a bod gan y Cyngor yr adnoddau i dalu cost y gwasanaethau. Gan edrych ymlaen, nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw arwydd ynghylch lefel y cyllid a fydd ar gael yn y dyfodol, ac yn absenoldeb y wybodaeth hon, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canol yn parhau i gymryd na fydd gynnydd yn y Cyllid Allanol Cyfun dros y tair blynedd nesaf. Tybir y bydd y Dreth Gyngor yn codi 5% y flwyddyn; pe byddai'r cynnydd yn llai na'r ffigwr hwn, byddai angen arbedion ychwanegol o £ 0.41m ar gyfer pob 1%  islaw'r 5%. Felly, mae'r angen i nodi arbedion yn parhau i'r dyfodol. Dywedodd y Swyddog nad oedd unrhyw gadarnhad wedi dod i law a fydd Llywodraeth y DU yn cyllido'r costau pensiwn uwch ar gyfer Athrawon neu beidio, sydd, yn achos yr Awdurdod hwn, yn £ 800k. Mae'r gyllideb yn tybio na fydd unrhyw gyfraniad ar gael, ond os derbynnir cyllid ychwanegol, bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried sut i ddefnyddio'r arian ar yr adeg pan fydd y swm ychwanegol a ddyrennir yn hysbys.

Adroddodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, ar gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Chwefror, 2019, lle craffwyd ar gynigion cyllideb derfynol 2019/20. Roedd y Pwyllgor wedi nodi'r negeseuon allweddol o'r broses ymgynghori gyhoeddus gan nodi hefyd y byddai'r syniadau a gyflwynwyd yn cael eu craffu ymhellach gan y Panel Sgriwtini Cyllid fel sail ar gyfer arbedion posibl yn 2020/21 a thu hwnt. Roedd y Pwyllgor wedi gwneud argymhellion ynghylch sut y gellid gwella'r broses ymgynghori cyhoeddus trwy adlewyrchu'n well broffil demograffig yr ymatebwyr; trwy wahaniaethu rhwng defnyddwyr gwasanaeth / rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr gwasanaethu; trwy atal ymatebion lluosog / dyblyg gan ymatebwyr a thrwy ddangos sut mae canrannau gwahanol o gynnydd yn y Dreth Gyngor yn gysylltiedig â thoriadau neu enillion i wasanaethau. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi clywed sylwadau gan brifathrawon o'r sector uwchradd a'r cynradd a oedd wedi amlinellu'r effaith a gaiff y toriadau arfaethedig yn y gyllideb a ddatganolir i ysgolion ar ysgolion - roedd gan y Pwyllgor bryderon difrifol am y toriadau yng nghyllidebau'r ysgolion a'r canlyniadau ar ansawdd addysg. Wedi ystyried yr opsiynau'n ofalus, roedd y Pwyllgor wedi pleidleisio gan fwyafrif i argymell cynnydd o 10% yn y Dreth Gyngor er mwyn cynnal

DRAFT

gwasanaethau ac i leihau'r toriad yn y gyllideb a ddatganolir i ysgolion. Dywedodd y Cynghorydd Jones mai dyna oedd barn y mwyafrif o'r Pwyllgor ond nad oedd o reidrwydd yn adlewyrchiad o'i farn ef ei hun.

Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith yr adroddiad a gwnaethpwyd y pwyntiau a ganlyn -

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y pwysau ar y Dreth Gyngor yn cynyddu. Er bod y Cyngor hwn yn hanesyddol wedi bod ymysg yr awdurdodau oedd â'r Dreth Gyngor isaf yng Nghymru (18 allan o 22) a bod hynny, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyhoeddwyd hyd yn hyn, yn debygol o barhau hyd yn oed gyda'r bwriad i weithredu cynnydd o 9.5% (16 allan o 22), mae'n anodd gweld sut y gellir osgoi cynnydd ar lefel debyg yn y dyfodol os yw cyllid refeniw'r Cyngor yn parhau i gael ei dorri. Pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith, os yw'r Cyngor i gynnal gwasanaethau yn wyneb y costau a'r galw cynyddol, yr unig ffordd y gall wneud hynny yw trwy godi'r Dreth Gyngor oni bai bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar lefel sy'n bodloni'n llawn anghenion y Cyngor a'r pwysau y mae'n eu hwynebu.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y Cyngor dros amser wedi adeiladu ei gronfeydd wrth gefn trwy edrych ar ôl ei adnoddau'n ofalus. Mae'r cronfeydd wrth gefn bellach mewn perygl o ddisgyn i lefel annerbyniol o isel, gan olygu efallai na fydd gan y Cyngor ddigon o adnoddau yn y dyfodol i ddisgyn yn ôl arnynt pe bai'r annisgwyl yn digwydd. Wrth nodi bod y sefyllfa hon yn risg i les ariannol y Cyngor ac yn anghynaladwy yn y tymor hir, roedd y Pwyllgor Gwaith yn derbyn bod angen adfer cronfeydd wrth gefn y Cyngor i'r lefel isaf sy'n dderbyniol a bod ymrwymo i wneud hynny yn ymagwedd synhwyrol a darbodus i'w chymryd.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith mai'r broses o bennu cyllideb 2019/20 fu'r fwyaf heriol eto a'i bod wedi cynnwys cyfarfodydd, gweithdai a thrafodaethau dros nifer o fisoedd. Mae'r cynigion cyllidebol wedi cael eu hasesu, eu harchwilio, eu herio a'u mireinio gan gymryd i ystyriaeth yr ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar y modd y gosodir y gyllideb.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith, wrth ystyried canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion y gyllideb a barn y Pwyllgor Sgriwtini ar hynny, ei fod yn cydnabod y pryderon a godwyd yn arbennig mewn perthynas â thorri'r gyllideb a ddatganolir i'r ysgolion a'r effaith andwyol y gallai hynny ei gael ar y ddarpariaeth addysg mewn ysgolion. Nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach ei fod wedi ymateb i'r pryderon hynny ac wedi adolygu a diwygio'r cynigion yn unol â hynny mewn ymgais i leihau'r effeithiau ar wasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth gymaint ag y bo modd o fewn yr adnoddau sydd ar gael i weithio â nhw.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gydbwyso'i gyllideb yn unol â'r gofyn cyfreithiol ac yn parhau i ddarparu gwasanaethau yn unol â disgwyliadau a rhwymedigaethau statudol, mae'n rhaid ei hariannu'n briodol mewn ffordd sy'n adlewyrchu'n deg y gofynion hynny. Er mwyn cyflawni hyn, mae gofyn i bawb sy'n ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus, o ddefnyddwyr i ddarparwyr, lobïo Llywodraeth Cymru i sicrhau cydraddoldeb ariannol ar gyfer llywodraeth leol.
- Nododd a derbyniodd y Pwyllgor Gwaith yr argymhellion ar gyfer gwella'r broses ymgynghori gyhoeddus a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini.

**Penderfynwyd –**

- **Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb a'r adborth a gafwyd ohonynt fel yr amlinellir yn Adran 2 o Atodiad 1 ac yn Atodiad 2 yr adroddiad.**
- **Nodi'r crynodeb o'r asesiad effaith ar gydraddoldeb ar gynigion y gyllideb fel yr amlinellir yn Adran 11 ac yn Atodiad 5.**

- **Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, gan gynnwys y cyllid diwygiedig mewn ymateb i'r pwysau ar y gyllideb a'r arbedion arfaethedig fel cânt eu dangos yn Atodiad 1 ac yn Atodiad 3.**
- **Bod y toriad arfaethedig i'r gyllideb ddatganoledig i ysgolion yn cael ei ddyrannu yn ôl y rhaniad yng nghyllideb 2018/19. Byddai'r lleihad yn y gyllideb yn cael ei rannu rhwng y tri sector fel a ganlyn: £347k yn y sector cynradd; £252k yn y sector uwchradd; £27k yn y sector arbennig.**
- **Nod argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylid cadw isafswm o £6.7m yn y balansau cyffredinol ar gyfer 2019/20.**
- **Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed, fel maent wedi eu hamlinellu yn Adran 6 o Atodiad 1.**
- **Argymell cyllideb net ar gyfer y Cyngor Sir a'r cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor o ganlyniad, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol, yn cynnwys y Preseptau i Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Cymuned, yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor llawn ar 27 Chwefror, 2019.**
- **Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor.**
- **Cytuno y bydd unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau a arweinir gan y galw yn ystod y flwyddyn ariannol yn gallu tynnu ar gyllid o'r gyllideb digwyddiadau annisgwyl gyffredinol.**
- **Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb digwyddiadau annisgwyl gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn.**
- **Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 y grym i ryddhau hyd at £50k o'r gronfa digwyddiadau annisgwyl gyffredinol ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni chaniateir cymeradwyo unrhyw eitem dros £50k heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Gwaith.**
- **Argymell cynnydd o 9.5% yn lefel y Dreth Gyngor i'r Cyngor llawn.**
- **Cymeradwyo cynyddu'r Premiwm Treth Gyngor ar ail gartrefi o 25% i 35% a chynyddu'r Premiwm Treth Gyngor ar dai gwag o 25% i 100%.**
- **Derbyn argymhelliad y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, er mwyn gwella y broses ymgynghori yn y dyfodol ymhellach, y dylai'r broses adlewyrchu a/neu roi sylw i'r canlynol:**

- **Proffil demograffig yr ymatebwyr**
- **Gwahaniaethu rhwng defnyddwyr gwasanaeth/rhai nad ydynt yn ddefnyddwyr gwasanaeth**
- **Atal sefyllfa lle gall ymatebwyr gyflwyno ymatebion niferus neu ddyblygu ymatebion**
- **Sut mae gwahanol ganrannau o gynnydd yn y Dreth Gyngor yn gysylltiedig â thoriadau/enillion gwasanaeth.**

## 14. Y STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2019/20 I 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 sy'n ymgorffori Strategaeth Gyfalaf 2019/20 i 2021/22 er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod Cod Darbodus CIPFA , Medi 2017, fel y'i diwygiwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod gynhyrchu strategaeth gyfalaf. Yn y strategaeth hon, rhaid

nodi'r cyd-destun hirdymor y gwneir penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf a buddsoddi yn ei erbyn. Nod y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau yn gwneud penderfyniadau ynghylch cyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion y gwasanaeth ac yn cymryd i ystyriaeth mewn modd priodol stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

Dywedodd yr Aelod Portffolio fod yr Awdurdod mewn sefyllfa dda yn hyn o beth gan fod y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 wedi cynhyrchu Strategaeth Gorfforaethol gadarn i arwain y Rhaglen Gyfalaf ers 2016/17. Adeiladwyd ar y strategaeth hon i gynnwys gofynion newydd a gyflwynwyd gan y Cod nad oeddent wedi'u cynnwys yn barod.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod y Strategaeth Gyfalaf yn darparu crynodeb o'r dogfennau presennol mewn strategaeth gyfansawdd fel sy'n ofynnol dan y Cod. Mae'r Strategaeth yn cadarnhau egwyddorion cytunedig yr Awdurdod ar gyfer gwariant cyfalaf sy'n seiliedig ar fwrw ymlaen â’r rhaglen moderneiddio ysgolion; buddsoddi’n barhau i gynnal a chadw asedau cyfredol; cynnal lefel o waith ar gyfer gwella ffyrdd bob blwyddyn a chefnogi prosiectau sy'n denu cyllid grant a hefyd, brosiectau sy'n cynhyrchu arbedion refeniw. Mae'r Strategaeth yn cymryd i ystyriaeth y risgiau posibl sy'n codi yn arbennig o ran y cyfyngiadau tebygol ar gyllid dros y tair blynedd nesaf ac mae'n dangos sut i mae'n cysylltu â chynlluniau eraill y Cyngor ac yn benodol gyda Chynllun y Cyngor ar gyfer 2017/22; Y Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol.

**Penderfynwyd cymeradwyo –**

- **Y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2019/20 – 2021/22.**
- **Y gostyngiad yn y swm sy’n gymwys fel gwariant cyfalaf o de minimis o £30k i £10k fesul prosiect i ddod â’r gwariant cyfalaf de minimis yn unol â’r derbyniadau cyfalaf de minimis o £10k.**

## 15. DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2019/20

Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 yn cynnwys y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (RhT) ar gyfer 2019/20.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arfer orau yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys. Yn unol â'r Cod sy'n argymell bod y Datganiad ar y Strategaeth RhT yn cael ei graffu cyn ei gyflwyno i'w fabwysiadu, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi ystyried y Datganiad oherwydd mai’r pwyllgor hwnnw, yn unol â Chynllun Dirprwyo RhT y Cyngor, sy’n gyfrifol am y swyddogaeth hon. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi derbyn y Strategaeth yn ei gyfarfod ar 12 Chwefror, 2019, pan benderfynwyd ei hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb sylwadau ychwanegol. O ran diweddariadau i’r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, nad oes bwriad i wneud unrhyw newidiadau i egwyddorion a pholisïau craidd Datganiad 2018/19.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Adran 151 nad yw'r Strategaeth RhT arfaethedig ar gyfer 2019/20 wedi newid yn sylweddol o'r Strategaeth ar gyfer 208/19 a hynny’n bennaf oherwydd y ffaith nad yw'r sefyllfa economaidd a lefel y cyfraddau llog wedi newid i raddau sy’n golygu bod angen adolygu’r Strategaeth. Mae'r Strategaeth yn cadarnhau na fydd y

Cyngor yn benthyca mwy na sydd ei angen, neu cyn i unrhyw anghenion ddod i’r fei dim ond er mwyn elwa o fuddsoddiad y symiau ychwanegol a fenthycwyd ac y bydd, lle bo hynny'n bosibl, yn defnyddio ei falansau arian parod ei hun i fenthyca’n fewnol. Bydd ymagwedd y Cyngor tuag at fuddsoddi yn parhau i ganolbwyntio ar ddiogelwch cyfalaf fel blaenoriaeth ac yna ddychweliad ar fuddsoddiadau. Bydd yr ystyriaethau hyn yn penderfynu ble mae'r Cyngor yn buddsoddi ac am faint o amser y bydd yr arian yn cael ei ymrwymo.

Wrth nodi'r Strategaeth, gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad a oes cynlluniau’n cael eu gwneud ar gyfer y gwahanol senarios mewn perthynas â chanlyniad y broses Brexit, yn benodol y senario pe bai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd heb fargen sy'n debygol o gael effaith ar yr economi ac, o ganlyniad, ar yr hinsawdd benthyca a buddsoddi.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod yr Awdurdod wedi cymryd cyngor gan ei Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys sydd wedi asesu'r senarios posibl ar gyfer Brexit. Yn union ar ôl Brexit, mae’n bosib y bydd y swm y gall cyrff sector cyhoeddus ei fenthyca’n lleihau a gall cyfraddau llog ostwng. Dywedodd y Swyddog nad yw anghenion benthyca'r Awdurdod yn pwyso ar hyn o bryd a bod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod dros y blynyddoedd diwethaf yn parhau i fod yn gadarn – ym marn yr Awdurdod, isel iawn fydd y codiadau yn y cyfraddau llog a bydd hynny’n digwydd yn raddol sy’n golygu na fydd angen benthyca er mwyn manteisio ar gyfraddau llog isel. Dywedodd y Swyddog, er gwaethaf yr effaith economaidd y gallai Brexit ei chael, roedd yn hyderus bod y Strategaeth yn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu yn y ffordd orau bosibl.

**Nodi’r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2019/20 ac anfon y Datganiad ymlaen i’r Cyngor Llawn heb sylwadau ychwanegol.**

### 16. CYLLIDEB GYFALAF 2019/20

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn nodi'r cynigion terfynol ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2019/20 ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith ac ar gyfer eu hargymell i'r Cyngor llawn ar 27 Chwefror, 2019.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid na dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y rhaglen gyfalaf ddrafft yn ystod y cyfnod ymgynghori. Bydd y cyhoeddiad diweddar ynghylch gohirio prosiect Wylfa Newydd yn arwain at oedi o ran y prosiect i wella'r A5025 o'r Fali i Wylfa. Oherwydd nad yw'n glir pryd y bydd y prosiect yn ail-gychwyn, mae'r gwariant ar y prosiect gwella ffyrdd wedi'i ddileu o'r cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb. Roedd y cynnig i fod i gael ei gyllido'n llawn gan grantiau allanol ac mae'r addasiad angenrheidiol i'r cyllid hefyd wedi cael ei wneud. Roedd y setliad dros dro yn cynnwys Grant Cyfalaf Cyffredinol o £ 1.327m. Fodd bynnag, roedd y setliad terfynol yn cynnwys £ 0.378m ychwanegol, gan olygu bod swm y grant diwygiedig yn £2.065m. Gellid delio â'r grant cyfalaf ychwanegol mewn un o dair ffordd fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad gan gynnwys peidio â dyrannu'r grant yn 2019/20 a'i ddefnyddio yn lle hynny fel rhan o'r cyllid ar gyfer rhaglen gyfalaf 2020/21. O gofio bod yr arian ar gyfer 2020/21 yn debygol o fod yn gyfyngedig ac mai ychydig iawn o incwm a geir o dderbyniadau cyfalaf (ac eithrio gwerthu safleoedd ysgol lle mae'r derbyniad cyfalaf eisoes wedi'i ddyrannu), byddai'n ddoeth ac yn well defnyddio’r arian fel rhan o raglen gyfalaf 2020/21.

Dywedodd yr Aelod Portffolio, gan mai hon oedd yr eitem olaf ar raglen y cyfarfod a oedd yn ymwneud â'r gyllideb, yr hoffai achub ar y cyfle i ddiolch i staff y Gwasanaeth Cyllid am eu holl waith caled trwy gydol y broses o osod y gyllideb ac, yn benodol, am baratoi’r adroddiadau ar gyfer yr eitemau ar raglen y cyfarfod heddiw a oedd yn ymwneud â’r gyllideb.

DRAFT

**Penderfynwyd –**

- **Argymell i'r Cyngor Llawn y rhaglen gyfalaf a ganlyn ar gyfer 2019/20:**

| | **£'m** |
|---|---|
| **Cynlluniau ymrwymedig a ddygwyd ymlaen o 2018/19** | **6.429** |
| **Buddsoddi mewn asedau presennol** | **2.539** |
| **Ail-wynebu priffyrdd** | **1.359** |
| **Cynlluniau newydd ar gyfer 2019/20** | **2.146** |
| **Ysgolion 21ain Ganrif** | **4.809** |
| **Cyfanswm Cynlluniau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol** | **17.282** |
| **Cynlluniau Cyfalaf CRT** | **13.110** |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf 2019/20** | **30.392** |
| **Cyllidir drwy:** | |
| **Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2018/19** | **1.099** |
| **Benthyca â Chymorth** | **2.026** |
| **Benthyca â Chymorth:** | |
| **Ysgolion 21ain Ganrif** | **1.640** |
| **Benthyca Digymorth:** | |
| **Ysgolion 21ain Ganrif** | **0.402** |
| **Benthyca Digymorth CRT** | **1.000** |
| **Cyfanswm Benthyca Newydd** | **5.068** |
| **Grant Cyfalaf Cyffredinol** | **1.327** |
| **Grantiau Allanol** | **11.671** |
| **Grant Adnewyddu Priffyrdd** | **0.580** |
| **Cyfanswm Cyllid Grant** | **13.578** |
| **Cyllid wedi ei ailddyrannu o brosiectau eraill a ohiriwyd** | **1.197** |
| **Arian wrth gefn CRT** | **9.450** |
| **CYFANSWM CYLLID** | **30.392** |

- **Defnyddio balans y grant cyfalaf cyffredinol (£893k) fel rhan o gyllid rhaglen gyfalaf 2020/21.**

DRAFT

## 17. BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd i’w ystyried, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Hydref, 2019.

Rhoes y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y diweddariad isod i’r Pwyllgor Gwaith ar yr eitemau ar gyfer rhaglenni’r cyfarfodydd a gynhelir yn o fuan -

- Bydd y Gwasanaeth Dysgu yn adrodd ar y Cynllun Busnes Llawn mewn perthynas ag Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 25 Mawrth, 2019 a bydd yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn ymwneud ag Ysgol Henblas i'r un cyfarfod.Nid yw'r eitemau hyn wedi'u cynnwys ar y Rhaglen Waith fel y'i cyhoeddwyd.
- Mae Eitem 14 (Adroddiad ar yr ymgynghoriad statudol ar ostwng oedran mynediad Ysgol Henblas) sydd wedi'i threfnu i'w hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Ebrill, 2019 yn newydd i'r rhaglen waith, yr un modd ag eitemau 21 (Anableddau Dysgu - Trawsnewid Cyfleoedd Dydd ac Eitem 22 (Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol) a fydd yn cael eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 15 Gorffennaf, 2019.

**Penderfynwyd cadarnhau’r Flaen Raglen Waith wedi’i diweddaru am y cyfnod Mawrth i Hydref, 2019 gyda’r newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn ystod y cyfarfod.**

## 18. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro) yn amlinellu newid arfaethedig i baragraff 4.5.4 o Gyfansoddiad y Cyngor mewn perthynas â chynrychiolwyr addysg ar bwyllgorau sgriwtini. Mae'r newid arfaethedig yn golygu dileu Rheolau Gweithdrefn Sgriwtini sy’n ymwneud â’r ddarpariaeth i gael cynrychiolydd o grefyddau neu enwadau eraill [yn ogystal â chynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig a chynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru sy'n ofyniad cyfreithiol] ar bwyllgorau sgriwtini'r Awdurdod o ystyried nad yw hyn yn ofyniad deddfwriaethol a’i fod yn fater o ddewis lleol, ac yn wyneb y ffaith hefyd nad oes unrhyw ysgolion o enwadau crefyddol eraill ar Ynys Môn sy’n ei gwneud hi’n anodd i ddefnyddio'r ddarpariaeth ar gyfer y diffiniad o "gredoau neu enwadau eraill. "

Cynigiodd yr Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd argymell bod y Cyngor Llawn yn –**

- **Cytuno i dynnu’r gofyniad i gael “un cynrychiolydd o gredoau neu enwadau eraill” ar Bwyllgor Sgriwtini pan fydd yn delio â materion Addysg (h.y. pan mae’n cyfarfod fel Pwyllgor Sgriwtini Awdurdod Addysg Lleol) fel sydd wedi’i gynnwys ar hyn o bryd ym mharagraff 4.5.4.4 y Cyfansoddiad fel y gwelir yn Atodiad 1 yr adroddiad fel bod paragraff 4.5.4 yn darllen fel yr hyn sydd wedi’i gynnwys yn Atodiad 2 yr adroddiad.**
- **Awdurdodi Pennaeth Swyddogaeth y Cyngor (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i’r Cyfansoddiad i adlewyrchu’r ffaith fod y gofyniad a nodir uchod wedi’i dynnu.**

DRAFT

## 19. ADRODDIAD CYNNYDD A CHYNLLUN GWEITHREDU AR YR ASESIAD O DDIGONOLRWYDD GOFAL PLANT

Cyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Dysgu yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran digonolrwydd trefniadau gofal plant yn ardal yr Awdurdod ynghyd â chynllun gweithredu diwygiedig.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant mai dyma'r ail ddiweddariad a'r adroddiad cynnydd o ran digonolrwydd gofal plant yn dilyn yr asesiad llawn cyntaf a gynhaliwyd ym mis Ebrill, 2017; mae'n darparu gwybodaeth ar y modd y mae'r bylchau yn y ddarpariaeth a nodwyd ym mis Ebrill 2017, ac yn cael sylw. Mae'r cynllun gweithredu diwygiedig yn ystyried y ffaith bod y galw am wasanaethau gofal plant a'r farchnad gofal plant yn esblygu.

Dywedodd y Rheolwr Uned Cefnogi Teuluoedd fod yr asesiad yn cael ei gynnal bob blwyddyn a bod y sefyllfa bresennol yn sefydlog. Mae niferoedd y gwarchodwyr plant yn gymharol isel ac mae angen sicrhau digonolrwydd i alluogi rhieni yn enwedig menywod, i fynd i weithio neu i aros yn y gwaith. Mae cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru o 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio ac sydd â phlant 3 i 4 oed wedi arbed swm sylweddol i rieni o ran costau gofal plant ac mae hefyd werth tua £ 100k y mis i'r economi leol. Dywedodd y Swyddog, ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu, bod Awdurdod wedi clywed ei fod wedi bod yn llwyddiannus gyda chais cyfalaf i ddatblygu canolfannau gofal plant ar safleoedd ysgolion gyda'r nod o'i gwneud yn haws i rieni ddod o hyd i ofal plant sy'n ffitio o gwmpas y diwrnod gwaith ac oedran amrywiol eu plant. Mae'r fid yn werth £ 2.7m a bydd yn ariannu saith o ganolfannau gofal plant ar draws yr Ynys. Fel rhan o'r datblygiad, rhoddir sylw i ran ogleddol yr Ynys nad yw wedi cael ei hasesu hyd yma gyda'r nod o gydlynu gweithgarwch â'r broses moderneiddio ysgolion. Er bod amrywiaeth o ddarpariaethau ar gael ar yr Ynys, mae nifer y gwarchodwyr plant yn parhau i fod yr agwedd fwyaf problemus - gall y gwaith fod yn heriol a chydag oriau hir. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i greu diddordeb ac i gefnogi busnesau i sicrhau bod y gweithlu yn hygyrch a, chyda'r grant cyfalaf, i sicrhau bod busnesau'n gynaliadwy.

Wrth nodi'r adroddiad, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cydnabod pwysigrwydd gofal plant wrth ddod â rhieni i'r gweithlu sydd, o ganlyniad, yn rhoi hwb i'r economi leol. Er bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi bod cynnydd cadarnhaol wedi cael ei wneud, roedd yn derbyn fod lle i gryfhau'r trefniadau yn lleol yn enwedig o ran cynyddu nifer y gwarchodwyr plant ar draws y sir, ac y bydd y cynllun gweithredu diwygiedig yn mynd â materion yn eu blaen.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad cynnydd ar Ddigonolrwydd Gofal Plant a chymeradwyo'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu diwygiedig.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**



DRAFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones *(fel Aelod Lleol ar gyfer eitem 2 yn unig)*, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriadaethau, Y Gymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Dysgu<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Rheolwr Rhaglen (Trawsnewid Corfforaethol) (EB)<br>Rheolwr Rhaglen (Trawsnewid Corfforaethol) (CS)<br>Cyfreithiwr (Gofal Cymdeithasol ac Addysg) (SW)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Richard Griffiths, G.O. Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts. |

---

DRAFT

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Carwyn Jones ddatganiad o ddiddordeb personol a rhagfarnol mewn perthynas ag eitem 2 ar y rhaglen oherwydd bod ei gyfneither yn gweithio yn ysgol Biwmares a'i fam a'i wraig yn gweithio yn Ysgol Llandegfan. Dywedodd y Cynghorydd Jones ei fod wedi cael caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau ar 18 Gorffennaf, 2017 fel y gall gyflwyno barn y bobl leol drwy gydol y broses.

Gwnaeth y Cynghorydd Alun Roberts (nad yw'n aelod o'r Pwyllgor Gwaith) ddatganiad o ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 2 ar y rhaglen fel aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Biwmares.

**2. MODERNEIDDIO YSGOLION – ADRODDIAD YN DILYN CYHOEDDI'R RHYBUDD STATUDOL AR GYFER CAU YSGOL GYNRADD BIWMARES, EHANGU AC ADNEWYDDU YSGOL LLANDEGFAN AC YSGOL LLANGOED A CHYMERADWYO'R CYNNIG GWREIDDIOL**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Dysgu yn ymgorffori adroddiad ar wrthwynebiadau (Atodiad 1) yn dilyn cyhoeddi Rhybudd Statudol o fwriad yr Awdurdod i gau Ysgol Biwmares, ehangu ac adnewyddu Ysgol Llandegfan ac adnewyddu Ysgol Llangoed.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid bod yr Awdurdod, er mwyn cydymffurfio â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, wedi cyhoeddi Rhybudd Statudol o'i fwriad i gau Ysgol Biwmares, i ehangu

ac adnewyddu Ysgol Llandegfan ac adnewyddu Ysgol Llangoed. Cyhoeddwyd y Rhybudd Statudol ar 14 Ionawr, 2019 gyda chyfnod o 28 diwrnod i ddilyn ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynnig. Yn Atodiad 1 yr adroddiad, ceir crynodeb o'r 50 o wrthwynebiadau a dderbyniwyd ynghyd ag ymateb yr Awdurdod i bob gwrthwynebiad. Mae'r modd y mae'r Cyngor yn delio gyda gwrthwynebiadau i rybudd statudol yn cydymffurfio â'r weithdrefn a amlinellwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013 sy'n golygu bod angen i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo gyda newidiadau. Cafodd rhybudd statudol o fwriad yr Awdurdod i weithredu'r cynnig ei gyhoeddi'n wreiddiol ar 22 Tachwedd, 2018 a oedd yn golygu bod y cyfnod gwrthwynebu 28 diwrnod yn cau ar 27 Rhagfyr, 2018 a oedd yn cyd-dddigwydd â gwyliau'r ysgol. Er mwyn caniatáu mwy o amser i gydranddeiliaid ymateb, cyhoeddwyd rhybudd statudol pellach ar 14 Ionawr, 2019 a daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 10 Chwefror, 2019.

Dywedodd yr Aelod Portffolio y cychwynnwyd ar y broses o foderneiddio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol ym mis Mehefin, 2017 gydag ymgynghoriad anstatudol. Wedi hynny, cynhaliwyd proses ymgynghori statudol. Ar 26 Mawrth, 2018, penderfynodd y pwyllgor gwaith ohirio gwneud penderfyniad er mwyn cynnal ymgynghoriad statudol newydd ar y cynigion ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod cyfarfod heddiw, ble mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gadarnhau, gwrthod neu ddiwygio'r cynigon a gymeradwywyd ganddo ar 18 Gorffennaf, 2018 lle byddai Ysgol Llandegfan yn cael ei hehangu a'i hadnewyddu, Ysgol Biwmares yn cau ac Ysgol Llangoed yn cael ei hadnewyddu, yn benllanw proses faith lle rhoddwyd sylw manwl i ddyfodol addysg gynradd yn Ardal Seiriol sydd wedi golygu ymgynghori eang ar hyd y ffordd ynghyd a chyfnod o oedi er mwyn ail-gynnal ymgynghoriad.

Cyfeiriodd y Pennaeth Dysgu at y gwrthwynebiadau a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad ac y gellir eu crynhoi dan y themâu isod –

- Ar sail proses gan gynnwys y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriadau a'r modd y cyhoeddwyd y rhybudd statudol.
- Ar sail effeithiau posibl y cynnig ar dref Biwmares a'i demograffi.
- Yn seiliedig ar anghytundeb gyda'r opsiwn a ffefrir.
- Ar y sail nad oes digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i opsiynau eraill.
- Ar y sail y gallai'r cynigion arwain at rieni'n dewis anfon eu plant i ysgolion ar y tir mawr.
- Ar y sail nad oes digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015
- Ar y sail nad oes unrhyw grŵp cydranddeiliaid wedi cael ei sefydlu'n dilyn y penderfyniad na thrafodaethau wedi cael eu cynnal chwaith gyda'r Little Puffins neu Ti a Fi, rhywbeth a oedd yn rhan o benderfyniad y Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf, 2018.
- Ar sail traffig ac ystyriaethau'n ymwneud â theithio.
- Ar sail cywirdeb y data ac, yn benodol, y ffigwr a gyflwynwyd ar gyfer gwaith cynnal a chadw a oedd wedi ôl-gronni.

Dywedodd y Swyddog fod ymateb yr Awdurdod i bob un o'r gwrthwynebiadau a restrwyd yn yr Adroddiad ar y Gwrthwynebiadau yn nodi'r sail dros y modd y bu i'r Awdurdod weithredu mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau a godwyd. Yn achos rhai o'r materion, e.e. trafodaethau gyda chydranddeiliaid, sef Little Puffins a Ti a Fi yn dilyn gwneud y penderfyniad, dywedodd y Swyddog fod yr Awdurdod o'r farn y byddai'n briodol disgwyl hyd oni fyddai'r cyfnod gwrthwynebu wedi dod i ben cyn cychwyn trafodaethau o'r fath. Yr un modd o ran ystyriaethau teithio a thraffig, gallai datblygu cynlluniau cludiant ymlaen llaw fod wedi cael ei ystyried fel bod y penderfyniad ar y ddarpariaeth addysg yn yr ardal wedi cael ei

wneud yn barod. Bydd Asesiad Effaith Traffig yn cael ei gynnal i fynd i'r afael â materion traffig a theithio.

Soniodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid am e-bost a oedd wedi cael ei gylchredeg gan Gyngor Tref Biwmares i'r rhan fwyaf o aelodau'r Pwyllgor Gwaith y prynhawn blaenorol ble yr oedd nifer o bwyntiau'n cael eu codi. Roedd cynnwys yr e-bost, na fedrir ei ystyried fel rhan o'r gwrthwynebiadau ffurfiol oherwydd iddynt gael eu cyflwyno wedi i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben, yn adlewyrchu themâu'r gwrthwynebiadau a ymddengys yn yr Adroddiad Gwrthwynebiadau ffurfiol. Fodd bynnag, cyfeiriodd yr Aelod Portffolio yn benodol at y gwrthwynebiad a godwyd ym mhwynt 12 yr adroddiad ar y Gwrthwynebiadau fel pwynt technegol sy'n cyfeirio at y Pwyllgorau Sgriwtini a gynhaliwyd ar 2 Hydref, 2017, 12 Mawrth, 2018, 13 Gorffennaf, 2018 a 2 Awst, 2018 fel rhai nad oeddynt yn gwbl gyfansoddiadol. Codir y pwynt hwn hefyd yn yr e-bost gan Gyngor Tref Biwmares a ddywed bod y Pwyllgor Sgriwtini wedi gweithredu'n "ultra vires" neu'r tu draw i'w awdurdod cyfreithiol.

Eglurodd y Cyfreithiwr (Gofal Cymdeithasol) mai ystyr "ultra vires" yw "gweithredu'r tu draw i'w pwerau". Swyddogaeth y Pwyllgor Sgriwtini fel yr amlinellir hynny yng Nghyfansoddiad y Cyngor yw adolygu, craffu a gwneud argymhellion i'r Cyngor a/neu'r Pwyllgor Gwaith – nid yw o fewn ei bwerau neu ei sgôp i wneud penderfyniad; yn achos moderneiddio ysgolion, swyddogaeth i'r Pwyllgor Gwaith yw honno. Yn yr achos hwn felly, oherwydd nad oes gan y Pwyllgor Sgriwtini unrhyw bwerau i wneud penderfyniad, nid yw'r diffiniad o "ultra vires" yn berthnasol iddo. Y Pwyllgor Gwaith yw'r corff sy'n gwneud y penderfyniad ar faterion trefniadaeth ysgolion ac nid yw cyfansoddiad y Pwyllgor Gwaith yn cael ei herio.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ymhellach, fod yr Awdurdod wrthi'n rhoi sylw i'r pwynt a godwyd mewn perthynas â chyfansoddiad y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

Fe wnaeth y Cynghorwyr Alun Roberts, Lewis Davies a Carwyn Jones annerch y Pwyllgor yn rhinwedd eu rôl fel Aelodau Lleol. Fe wnaethant ailadrodd y gwrthwynebiadau a fynegwyd ganddynt yn gynharach yn y broses i'r penderfyniad i gau Ysgol Biwmares, gan gredu y byddai hynny'n cael effaith andwyol ar dref a chymuned Biwmares ac ar dwf a llewyrch yr ardal yn y dyfodol ac mai hwn yw'r ateb anghywir ar gyfer darparu addysg gynradd yn ardal Seiriol. Wrth ofyn i'r Pwyllgor Gwaith ailystyried ac ymchwilio'n fanylach i opsiynau eraill yn hytrach na chau Ysgol Biwmares, gwnaed y pwyntiau a ganlyn gan yr Aelodau Lleol -

- Nad yw'r opsiwn a ffefrir yn cynrycholi'r ateb gorau ar gyfer yr holl blant yn ardal Seiriol a bod yma ddiffyg gweledigaeth. Byddai'n well oedi ac ailystyried yn seiliedig ar well dealltwriaeth o'r hyn y mae rhieini ei eisiau a chan gymryd i ystyried yr holl ffactorau. Mae yna ormod o gwestiynau sydd heb gael eu hateb – *rhoddir sylw i'r pwynt hwn ym mharagraff 37 yr Adroddiad ar y Gwrthwynebiadau.*
- Nid yw'r opsiwn a ffefrir ychwaith yn darparu ateb creadigol ar gyfer ad-drefnu addysg gynradd yn yr ardal oherwydd mae'n anwybyddu'r cyfle i fabwysiadu datrysiad mwy arloesol, er enghraifft, model yn seiliedig ar gyfuno'r ysgol gynradd a chyfleuster gofal ychwanegl ar yr un safle – rhywbeth y mae'r rhieni ar gymuned yn ei gefnogi – *rhoddir sylw i'r pwynt hwn ym mharagraff 6 yr Adroddiad ar y Gwrthwynebiadau.*
- Nid yw'r pryderon a godwyd gan gydranddeiliaid wedi cael sylw digonol, yn benodol felly'r effeithiau y bydd cau Ysgol Biwmares yn eu cael ar Fiwmares o ran erydu rhagolygon y dref i fod yn gymuned fywiog, hyfyw a gwydn yn y dyfodol - *rhoddir sylw i'r pwynt hwn ym mharagraff 11 yr Adroddiad ar y Gwrthwynebiadau sy'n cadarnhau fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cael ei hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad statudol.*



DRAFT

- Bod y Pwyllgor Sgriwtini anghyfansoddiadol a gyfarfu ar bedwar achlysur i drafod y mater hwn wedi cael effaith negyddol ar yr holl broses ymgynghori– *rhoddir sylw i'r pwynt hwn ym mharagraff 12 yr Adroddiad ar y Gwrthwynebiadau a chafwyd cadarnhad gan y Cyfreithiwr uchod nad oes unrhyw oblygiadau o ran proses oherwydd nad oes gan y Pwyllgor Sgriwtini unrhyw bwerau i wneud penderfyniad.*
- Byddai'r gost o gynnal a chadw Ysgol Biwmares sy'n adeilad rhestredig yn wag yn costio mwy na chadw'r ysgol ar agor fel ysgol weithredol –*dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod y gyllideb ar gyfer Ysgol Biwmares oddeutu £250k; bydd rhai o'r costau wedi iddi gau, e.e. costau athrawon yn trosglwyddo i ble bynnag y bydd y disgyblion yn symud. Mae'r gyllideb ar gyfer Ysgol Biwmares wedi tynnu costau'r athrawon a'r disgyblion yn £70k ac o honno, bydd oddeutu £61k yn gostau sy'n gysylltiedig â'r adeilad ac yn cynnwys ynni, trethi, glanhau a chynnal a chadw. Byddai cau'r ysgol felly'n gostwng y gyllideb y byddai ei hangen gan oddeutu £70k, sy'n uwch na'r gost o adael yr adeilad yn wag. Byddai cost hynny, ar ôl costau diogelwch, yn isel ac yn llai na'r £70k fyddai'n cael ei arbed wrth gau'r ysgol.*
- Nid oedd y cyfan o'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd wedi cael eu rhestru yn yr Adroddiad ar y Gwrthwynebiadau a oedd yn cynnwys deiseb yn erbyn y bwriad i gau'r ysgol ynghyd â llythyrau ychwanegol o wrthwynebiad– *dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad fod dyddiad y ddeiseb yn hanesyddol a bod y materion a godwyd ynddi wedi cael sylw yn ystod y broses gyfan. O ran y gwrthwynebiadau a gyflwynwyd, eglurodd y Swyddog ei bod yn ddisgwyliedig dan y Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013 bod yr Awdurdod yn darparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau hynny – mae'r 50 gwrthwynebiad a restrir yn yr adroddiad yn cynrycholi'r themâu a godwyd yn y gwrthwynebiadau yn eu cyfanrwydd.*

Wrth ystyried yr adroddiad a'r gwrthwynebiadau a godwyd, nododd y Pwyllgor Gwaith yr isod –

- Bod y broses o wneud penderfyniad ar gyfer moderneiddio'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol wedi bod yn mynd rhagddo ers bron i ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, cynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol, dau ymgynghoriad statudol, 9 o gyfarfodydd cyhoeddus yn ward Seiriol rhwng Mehefin, 2017 a Mehefin, 2018 ynghyd â chyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini ble cafodd yr holl opsiynau ac ymatebion y cydranddeiliaid iddynt eu gwyntyllu, eu trafod, eu pwyso a'u mesur a'u sgorio yn erbyn dewisiadau amgen gan gynnwys opsiynau a gyflwynwyd gan gydranddeiliaid a chan Gorff Llywodraethu Ysgol Biwmares. Ym mis Mawrth, 2018, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith oedi'r broses er mwyn ail-gynnal ymgynghoriad statudol newydd ar y cynigion ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal. Nid yw'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd yn codi unrhyw faterion newydd o sylwedd nad ydynt eisoes wedi cael eu hystyried yn ystod y broses ymgynghori a gynhaliwyd; nid ydynt ychwaith yn cynnig opsiwn newydd.
- O'r herwydd, mae'n amserol yn awr i ddwyn y mater i'w derfyn oherwydd mae'r ansicrwydd sy'n cael ei greu drwy ymestyn y broses o wneud penderfyniad am gyfnod hir yn achosi annifyrrwch i'r holl gydranddeiliaid ac mae'n golygu na fedrir symud pethau yn eu blaenau. Mae'r datrysiad a ffefrir wedi cael ei gynnig ar ôl ymgynghori'n helaeth ar amrediad eang o opsiynau gan gymryd i ystyriaeth anghenion yr ardal a tybir mai hwn yw'r datrysiad gorau yn yr amgylchiadau sydd ohoni ac o ran cwrdd ag amcanion y rhaglen moderneiddio ysgolion. Bydd yn darparu dwy ysgol gynradd yn ardal Seiriol a fydd yn cael eu hadnewyddu i safon ysgolion yr unfed ganrif ar hugain.
- Bod y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion, wrth geisio newid y patrwm hir-sefydlog o addysg gynradd ar Ynys Môn yn golygu yn anorfod y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd a dyma un o'r penderfyniadau hynny.



DRAFT

- Bod y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref, 2018 wedi adolygu a diweddaru ei Strategaeth Addysg gan ail-ddatgan ei weledigaeth ar gyfer Ysgolion Môn fel sefydliadau effeithiol ac effeithlon sy'n darparu addysg sydd gyda'r gorau yn genedlaethol. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod y broses foderneiddio yn arwain ysgolion o'r maint iawn yn y lleoliadau iawn sy'n darparu'r amgylchedd dysgu gorau ar gyfer pob plentyn er mwyn sicrhau eu bod yn llwyddo hyd orau eu gallu.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Strategaeth Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn wedi cael ei thrafod gydag Arolygiaeth Estyn sydd wedi cydnabod y gwaith y mae'r Cyngor wedi ei wneud yn hyn o beth. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn awyddus i'r strategaeth barhau i gael ei gweithredu er mwyn gwireddu yr hyn sy'n weledigaeth i'r Cyngor cyfan, sef sicrhau bod holl blant yr ynys yn cael cyfle cyfartal i gael yr addysg orau bosibl, waeth ble ar yr Ynys y maent yn mynd i'r ysgol.

**Penderfynwyd -**

- **Cymeradwyo'r cynnig gwreiddiol, sef i adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llandegfan, cau Ysgol Biwmares ac adnewyddu Ysgol Llangoed.**
- **Awdurdodi Swyddogion i barhau gyda'r broses o adnewyddu ac ymestyn Ysgol Llangoed, cau Ysgol Biwmares, ac adnewyddu Ysgol Llangoed.**

***(Ni wnaeth y Cynghorydd Carwyn Jones gymryd rhan yn y bleidlais ar y mater).***

### 3. MODERNEIDDIO YSGOLION – ADRODDIAD AR Y GWRTHWYNEBIADAU: YSGOL Y GRAIG AC YSGOL TALWRN

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad gan y Pennaeth Dysgu yn cynnwys adroddiad ar y gwrthwynebiad (Atodiad 1) a gafwyd yn dilyn cyhoeddi Rhybudd Statudol i gynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle ar gyfer disgyblion o Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuenctid bod yr Awdurdod, er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, wedi cyhoeddi Rhybudd Statudol o'i fwriad i gynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle ar gyfer disgyblion o Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn. Cyhoeddwyd y Rhybudd Statudol ar 14 Ionawr, 2019 gyda chyfnod o 28 diwrnod i ddilyn ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau i'r cynnig. Yn Atodiad 1 yr adroddiad, ceir crynodeb o'r 23 o wrthwynebiadau a dderbyniwyd ynghyd ag ymateb yr Awdurdod i bob gwrthwynebiad. Mae'r modd y mae'r Cyngor yn delio gyda gwrthwynebiadau i rybudd statudol yn cydymffurfio â'r weithdrefn a amlinellwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion 2013 sy'n golygu bod angen i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynigion, eu gwrthod neu eu cymeradwyo gyda newidiadau.

Cyfeiriodd y Pennaeth Dysgu at y gwrthwynebiadau a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad ac y gellir eu crynhoi dan y themâu isod –

- Ar sail llefydd ysgol gan ddweud na fydd digon o lefydd yn yr ysgol newydd y bwriedir ei chodi.
- Ar y sail bod nifer y disgyblion sy'n mynychu Ysgol Talwrn wedi cynyddu ers yr ymgynghoriad.
- Ar sail traffig ac ystyriaethau teithio.
- Ar sail proses gan gynnwys y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad, yr asesiadau effaith a wnaed a'r modd y cyhoeddwyd y rhybudd statudol.



DRAFT

- Ar y sail bod safonau yn Ysgol Talwrn yn dda a bod yr ysgol wedi derbyn adroddiad cadarnhaol gan Estyn yn dilyn arolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar.
- Ar y sail na chafodd barn y disgyblion ei chymryd i ystyriaeth fel rhan o'r ymgynghoriad.
- Ar y sail y bydd yn anodd i blant drosglwyddo o ysgol wledig fechan i ysgol fawr mewn tref ac y bydd hynny'n heriol i'r plant dan sylw.

Dywedodd y Swyddog fod ymateb yr Awdurdod i bob un o'r gwrthwynebiadau a restrwyd yn yr Adroddiad ar y Gwrthwynebiadau yn nodi'r sail dros y modd y bu i'r Awdurdod weithredu mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau a godwyd. Yn yr un modd â'r achos blaenorol, bydd asesiad traffig a theithio'n cael ei gynnal yn dilyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno gwrthwynebiadau ac unwaith y bydd penderfyniad terfynol wedi'i wneud.

Wrth ystyried yr adroddiad a'r gwrthwynebiadau a godwyd, nododd y Pwyllgor Gwaith yr isod –

- Er bod nifer y disgyblion yn Ysgol Talwrn wedi cynyddu ers yr ymgynghoriad, cyd-ddigwyddodd hynny â chynnydd cyfatebol yn ystod yr un cyfnod o ran nifer y plant a ddaeth i'r ysgol o'r tu allan i'r dalgylch wedi i ysgolion Llangefni gyrraedd neu fynd dros eu capasiti. Mae nifer y disgyblion all-dalgylch sydd wedi eu cofrestru yn Ysgol Talwrn yn cyfrif am gyfran sylweddol o gyfanswm nifer y disgyblion yn yr ysgol.
- Bod safonau yn Ysgol Talwrn yn dda a bod y Pwyllgor Gwaith yn bwriadu i'r safonau hynny gael eu cynnal fel rhan o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer yr ardal hon yn Llangefni.
- Nid yw'r adroddiad ar y gwrthwynebiadau yn codi unrhyw faterion newydd na chawsant eu hystyried yn ystod y broses ymgynghori.
- Mae'n amserol i'r broses foederneiddio, ar gyfer yr ardal hon yn Llangefni, ddod i ben yn awr oherwydd mae wedi bod yn mynd rhagddi ers amser maith ers iddi gychwyn ym mis Rhagfyr 2016.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r penderfyniad gwreiddiol, sef i gynyddu capasiti Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn.**

**Gwneir hyn drwy –**

- **Ddefnyddio'r adeilad presennol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 h.y. Blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu;**
- **Adeiladu Bloc newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, sef Meithrin, Derbyn, Blynyddoedd 1 a 2;**
- **Ystyried ail-leoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg ar gampws Ysgol y Graig.**

  **Byddai'r bloc newydd yn rhan o Ysgol y Graig, nid yn uned ar wahân.Y trefniant newydd i weithredu fel un ysgol ac nid fel dwy uned ar wahân.**

**Cynghorydd Llinos Medi Huws**
**Cadeirydd**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **25 Mawrth 2019** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball**<br>**Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

| **A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau** |
|---|
| Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.<br><br>Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ebrill – Tachwedd 2019;**<br><br>Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgriwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;<br><br>Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| - |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw. |

| **DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **5** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **6** | **Eiddo** | |
| **7** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Amherthnasol. |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

| F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| FF - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ebrill - Tachwedd 2019. |

| G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

** Allwedd i'r Categoriau:*
*Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol*
*Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*Er gwybodaeth*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2019

Diweddarwyd 14 Mawrth 2019

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Ebrill - Tachwedd 2019** ar y tudalennau dilynol.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.**

** Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*SB = sesiwn briffio aelodau (Dyddiad neu IG= i'w gadarnhau)*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2019

Diweddarwyd 14 Mawrth 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 1 | **Prosiect Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol (LFFN)**<br><br>Dirprwyo i Gyngor arall yr awdurdod i gweithredu'r Prosiect. | Deilydd Portffolio Datblygiadau Mawr a Datblygu'r Economi. | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / Busnes y Cyngor | Dylan Williams<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd /<br>Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Penderfyniad Dirprwyiedig<br><br>Mawrth / Ebrill 2019 | |
| | | | | **Ebrill 2019** | | | |
| 2 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ebrill 2019 | |
| 3 | **Contract Rheoli Gwastraff**<br><br>Cymeradwyo'r amserlen, y broses a'r gyllideb ar gyfer darparu'r gwasanaeth rheoli gwastraff o Ebrill 2021 ymlaen. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith er mwyn cymeradwyo'r gylideb sydd ei hangen i gyllido cost y cyngor cyfreithiol a thechnegol angenrheidiol. | Adnoddau / Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth - Adnoddau a Swyddog Adran 151 /<br>Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo dros dro<br><br>Cyng Robin Williams<br>Cyng Bob Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ebrill 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*SB = sesiwn briffio aelodau (Dyddiad neu IG= i'w gadarnhau)*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2019

Diweddarwyd 14 Mawrth 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | **Ymddiriedolaeth Addysg Bellach – Adroddiad Blynyddol** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ebrill 2019 | |
| 5 | **Adroddiad ar yr ymgynghori statudol ar ostwng Oed Mynediad yn Ysgol Henblas**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Dysgu | Arwyn Williams<br>Pennaeth Dysgu<br><br>Cyng R Meirion Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Ebrill 2019 | |
| | | | | **Mai 2019** | | | |
| 6 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>20 Mai 2019 | |
| | | | | **Mehefin 2019** | | | |
| 7 | **Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2018/19**<br><br>Cymeradwyo'r adroddiad. | Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Ieuan Williams | I'w gadarnhau | Penderfyniad dirpwyiedig<br><br>Mehefin 2019 | |

* *Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*SB = sesiwn briffio aelodau (Dyddiad neu IG= i'w gadarnhau)*

Tudalen 32

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2019

Diweddarwyd 14 Mawrth 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| 8 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 9 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2018/19 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>Mehefin 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 10 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch4 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |

Tudalen 33

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*SB = sesiwn briffio aelodau (Dyddiad neu IG= i'w gadarnhau)*

# BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2019

Diweddarwyd 14 Mawrth 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | **Contract Rheoli Gwastraff**<br><br>Cymeradwyo'n derfynol y dull ar gyfer darparu'r gwasanaeth rheoli gwastraff o Ebrill 2021 ymlaen. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith er mwyn sicrhau bod manylion y gwasanaeth a ddarperir o Ebrill 2021 ymlaen yn cwrdd ag amcanion y Cyngor o ran rheoli gwastraff. | Adnoddau / Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau a Swyddog Adran 151 /<br>Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo dros dro<br><br>Cyng Robin Williams<br>Cyng Bob Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| 12 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>25 Mai 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>3 Mehefin 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>17 Mehefin 2019 | |
| **Gorffennaf 2019** | | | | | | | |
| 13 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |

*Allwedd:*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*SB = sesiwn briffio aelodau (Dyddiad neu IG= i'w gadarnhau)*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2019

Diweddarwyd 14 Mawrth 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 14 | **Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**<br><br>Cydsyniad i'r broses ymgysylltu. | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini<br><br>Dyddiad i'w bennu | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| 15 | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Dyddiad i'w bennu | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Gorffennaf 2019 | |
| | | | | **Medi 2019** | | | |
| 16 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 17 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*SB = sesiwn briffio aelodau (Dyddiad neu IG= i'w gadarnhau)*

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2019

Diweddarwyd 14 Mawrth 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2019/20 – Ch1 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| 19 | **Arolwg AGC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol** | | Gwasanaethau Plant | Fôn Roberts<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant<br><br>Cyng Llinos Medi | Panel Gwella Gwasanaethau Plant<br>22 Awst 2019<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>11 Medi 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>16 Medi 2019 | |
| **Hydref 2019** | | | | | | | |
| 20 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>28 Hydref 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*SB = sesiwn briffio aelodau (Dyddiad neu IG= i'w gadarnhau)*

Tudalen 36

## BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2019

Diweddarwyd 14 Mawrth 2019

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tachwedd 2019** | | | | | | | |
| 21 | **Cyllideb 2020/21 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>I'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>11 Tachwedd 2019 | |
| | | | | | | | |
| 22 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 23 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2019/20 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |
| 24 | **Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2019/20 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>I'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*SB = sesiwn briffio aelodau (Dyddiad neu IG= i'w gadarnhau)*

**BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**
Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2019

Diweddarwyd 14 Mawrth 2019

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Trawsnewid Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu**<br><br>Cam 2 – adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r broses ymgysylltu a chynigion Trawsnewid. | | Gwasanaethau Oedolion | Alwyn Jones Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini<br><br>Tachwedd 2019 | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Tachwedd 2019 | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*
*SB = sesiwn briffio aelodau (Dyddiad neu IG= i'w gadarnhau)*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **25 MAWRTH 2018** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2018/19)** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **CARYS EDWARDS** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Hwn yw'r trydydd cerdyn sgorio ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd hwy ac fel y cytunwyd arnynt ddechrau'r flwyddyn. Mae'n cydnabod perfformiad da iawn gan ein gwasanaethau, y perfformiad gorau yn erbyn ein dangosyddion perfformiad ar ddiwedd chwarter 3 ers inni ddechrau ar y ffurf yma o ddilyn a tracio perfformiad yn gyfredol fel Cyngor..

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

**1.3.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod Chwarter 4. Rhoddir pwyslais penodol ar y dangosyddion hynny sydd wedi dirywio o chwarter i chwarter er mwyn sicrhau nad yw perfformiad yn dirywio ymhellach yn ystod Ch4.

**1.3.2** Parhau i ganolbwyntio ar gynnal/gwella presenoldeb yn y gwaith gyda chefnogaeth y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol. Mae angen rhoi blaenoriaeth i wella'r lefelau salwch yn y:

- Gwasanaethau Oedolion,
- Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r
- Gwasanaeth Dysgu, sydd wedi mireinio'i gynllun gwella salwch ar gyfer ysgolion cynradd fydd yn cael ei wireddu yn ystod chwarter 4 ac 1 o'r flwyddyn newydd.

| | | |
|---|---|---|
| | **1.3.3** Dylai'r Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes sydd newydd ei sefydlu ystyried sut y dylid monitro'r Dangosyddion Gwasanaeth Cwsmer fel rhan o'u gwaith sy'n datblygu ar y Strategaeth Gofal Cwsmer er mwyn sicrhau bod ymagwedd ragweithiol tuag at wella gwasanaeth i gwsmeriaid.<br><br>**1.3.4** Gweithredu'r weithdrefn newydd yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer ymateb i gwynion er mwyn lleihau nifer y cwynion a gwella cyfradd yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion a wneir o fewn y terfynau amser.<br><br>**1.3.5** Parhau i graffu'n rheolaidd ar reolaeth ariannol gorfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau adferol i reoli'r cyllidebau hynny y gallant eu rheoli<br><br>**1.4** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod. | |
| **B -** | **Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** | |
| | Amherthnasol | |
| **C -** | **Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | |
| | Mae'r mater hwn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | |
| **CH -** | **A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | |
| | Ydi | |
| **D -** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | |
| | Ydi | |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cafodd y mater hwn ei ystyried gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Mae sylwadau AD wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | Bydd sylwadau yn dilyn y cyfarfod Sgriwtini Corfforaethol ar 18/3 yn cael eu trafod yn y cyfarfod hwn |
| **8** | **Sgriwtini** | |

| | | |
|---|---|---|
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A – Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 3, 2018/19 a'r Cerdyn Sgorio<br>Atodiad B – Dangosfwrdd Perfformiad Rhaglenni a Phrosiectau – Chwarter 3<br>Atodiad C – Yr Alldro Refeniw a Ragamcenir ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019 - Chwarter 3 | | |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| • Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2018/19 – Chwarter 2 (fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'i dderbyn ganddo ym mis Tachwedd 2018). | | |

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2018/19)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Datblygwyd y system hon o adrodd yn chwarterol ar y cerdyn sgorio ochr yn ochr â ffrwd waith flynyddol yr adroddiad perfformio i adnabod ac i roi gwybod i arweinwyr y Cyngor am gynnydd a wneir yn erbyn y dangosyddion sy'n dangos yn glir weithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sydd o gymorth i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad perfformiad.

1.2 Cafodd y dangosyddion sydd wedi eu cynnwys yn y cerdyn sgorio ar gyfer eleni eu penderfynu gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn dilyn arweiniad gan Benaethiaid Gwasanaeth ac mae'r cerdyn sgorio (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa bresennol ar ddiwedd Ch3, a bydd yn cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mawrth 2019.

## 2. CYD-DESTUN

**2.1** Hon yw'r chweched flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn modd cydlynol. Mae'r Cyngor yn gweld tueddiadau yn dod i'r amlwg mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hynny ac mae sylwadau'r UDA / y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cael effaith ar ddarpariaeth weithredol.

**2.2** Adlewyrchir yr effaith honno yn y modd y mae perfformiad y Cyngor yn cymharu'n ffafriol ar lefel genedlaethol yn erbyn nifer o ddangosyddion a gesglir yn flynyddol.

**2.3** Ceir dadansoddiad pellach o'r perfformiad cyffredinol drwy'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a gellir gweld copi ohono drwy fynd i'r wefan ganlynol: http://www.anglesey.gov.uk/councilplan

### 2.4 RHEOLI PERFFORMIAD

**2.4.1** Ar ddiwedd Ch2, mae'n galonogol nodi fod mwyafrif y dangosyddion perfformiad yn parhau i berfformio'n dda fel yr oeddent yn adroddiad Ch2. Mae hyn yn llawer gwell na'r sefyllfa yr oeddem ynddi ar ddiwedd Ch3 yn 2017/18. Y flaenoriaeth yn awr yw cynnal y perfformiad da hwn ar draws ein gwasanaethau yn Ch4.

**2.4.2** Er bod yr adroddiad hwn yn cyfleu stori bositif, nodir bod 3 o'r 30 dangosydd yr adroddir arnynt yn chwarterol yn tanberfformio yn erbyn eu targed blynyddol am y flwyddyn. Mae'r rhain wedi eu hamlygu'n Goch neu'n Ambr ar y cerdyn sgorio ei hun a chânt eu trafod isod.

**2.4.3** Y ddau ddangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion wnaeth danberfformio yn ystod Ch3 oedd –

(i) 11) PM20a – COCH – Canran yr oedolion a oedd wedi cwblhau cyfnod o ail-alluogi, oedd yn derbyn pecyn gofal a chymorth ar lefel is 6 mis yn ddiweddarach. Roedd y perfformiad yn yr achos hwn yn 33% ar ddiwedd Ch3 yn erbyn targed o 50%.

Mae'r dangosydd hwn yn delio gyda nifer fechan o achosion (3) ac o'r herwydd, gall perfformiad amrywio'n sylweddol o chwarter i chwarter. Yn Ch3, o ganlyniad i'r ymyrraeth ail-alluogi mae'r gwasanaeth wedi'i ddarparu,

bu cynnydd yn y pecyn gofal ar gyfer unigolyn ychwanegol sy'n cael ei gefnogi yn hytrach na phecyn gofal is. Mae hyn yn adlewyrchiad o natur y salwch sydd ganddynt.

Wrth i ni fynd i Ch4, byddwn yn adolygu'r gwasanaeth ail-alluogi cyfredol ac yn ystyried dulliau o gasglu data sy'n darparu canlyniadau a rhesymeg mwy manwl ar gyfer ymyraethau sy'n parhau.

(ii) 07) PAM/025 (PM19) – COCH – Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty tra'n aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed. Roedd perfformiad y dangosydd hwn yn 5.61 ar ddiwedd Ch3 yn erbyn targed blynyddol o 3.

Cydnabyddir y bu cyfraddau uchel o oedi wrth drosglwyddo gofal (DTOC) yn ystod dau chwarter cyntaf y flwyddyn yn arbennig. Yn adroddiad Cerdyn Sgorio Ch2, rhagwelwyd y byddai'r cytundeb Gofal Cartref sy'n seiliedig ar ardaloedd (a gomisiynwyd o'r newydd yn ddiweddar) yn cael effaith gadarnhaol ar y ffigyrau. Gellir gweld hyn yn y perfformiad yn Ch3 (1.53) lle gwelwyd gwelliant ar y perfformiad yn Ch2 (1.79) a Ch1 (2.30). Mae hyn yn welliant sylweddol o 0.77 diwrnod ar gyfradd Ch1 ac mae'n cydnabod bod y cytundeb gofal cartref newydd yn cael effaith ffafriol ar berfformiad y dangosydd yma.

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio tuag at sicrhau bod gennym ddigon o gapasiti ail-alluogi i gwrdd â galw sy'n cynyddu i oroesi unrhyw bryder mewn perfformiad yn ystod Ch4. Gallai ffigurau DTOC sy'n cynyddu hefyd fod o ganlyniad i godio cleientiaid yn anghywir, ac rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i sicrhau proses fwy cadarn ar gyfer codio data.

**2.4.4** Mae un dangosydd yn y Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd wedi tanberfformio yn ystod Ch3 –

21) PAM/018 – AMBR – Canran yr holl geisiadau cynllunio sy'n cael eu penderfynu mewn pryd. Roedd y perfformiad cronnus hyd at ddiwedd Ch3 yn 82% yn erbyn targed o 90%. Roedd y perfformiad yn Ch3 yn unig yn 74% a dyma yw'r prif reswm pam ei fod nawr o dan y targed.

Y prif resymau am y tanberfformiad oedd oherwydd absenoldeb Uwch Swyddog Cynllunio yn ystod cyfran helaeth o'r chwarter, a llwyth gwaith trwm wrth siapio'r system gynllunio newydd tra'n ymdopi â gofynion GDPR hefyd.

Er mwyn gwella'r perfformiad yn Ch4, byddwn yn sicrhau bod systemau mewn lle i gytuno ar amserlen bendant ar gyfer unrhyw estyniad mewn amser lle bod modd gwneud penderfyniad cynnar ar geisiadau tra bydd ceisiadau diffygiol yn cael eu penderfynu trwy eu gwrthod.

**2.4.5** Mae gweddill y dangosyddion yr adroddir arnynt yn yr adran rheoli perfformiad ar gyfer Ch3 i gyd yn **WYRDD** neu'n **FELYN** ac maent wedi perfformio'n dda o gymharu â'u targedau. Mae nifer o dueddiadau at i lawr yn parhau er gwaethaf gwelliant yn Ch3 o gymharu â Ch2. Bydd rhaid i Wasanaethau fonitro'r tueddiadau hyn wrth fynd i Ch4 er mwyn sicrhau bod y perfformiad da hyd yma yn cael ei gynnal.

**2.4.6** Cafodd y data cymharydd cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ystod Ch3, fodd bynnag, unwaith eto eleni nid oedd y cyhoeddiad yn ystadegol ddibynadwy ac mae'r ffigyrau a ryddhawyd yn rhai arbrofol. Mae'r adroddiad yn datgan "*mae'r ystadegau hyn yn cael eu cyhoeddi fel ystadegau arbrofol yn adlewyrchu graddfa'r newid sy'n dal i ddigwydd mewn gwasanaeth cymdeithasol a newidiadau system sy'n parhau".* O ganlyniad, nid oeddem yn gallu adolygu'r targedau oherwydd hyn, fodd bynnag mae'r targedau cyfredol yn parhau i fod yn rhai heriol am y flwyddyn.

**2.4.7** *Er mwyn cynnal a gwella ein perfformiad a'n statws cenedlaethol fel cyngor sy'n cyflawni,* ***mae'r UDA yn argymell –***

**2.4.7.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod Chwarter 4. Rhoddir pwyslais penodol ar y dangosyddion hynny sydd wedi dirywio o chwarter i chwarter er mwyn sicrhau nad yw perfformiad yn dirywio ymhellach yn ystod Ch4.

**2.4.8** Mae Atodiad B yn dangos yr holl raglen waith y mae'r ddau Fwrdd Trawsnewid Corfforaethol yn ei goruchwylio. Mae'r materion a amlygwyd yn cael eu rheoli a'u tracio'n briodol drwy'r Byrddau sy'n cyfarfod yn chwarterol.

## 2.5 RHEOLI POBL

**2.5.1** Mae rheoli ein pobl yn agwedd hollbwysig o reolaeth gorfforaethol y Cyngor sydd (os caiff ei rheoli'n ddigonol) yn ein galluogi ni i barhau gyda'n nod o wella ein gwasanaethau ar gyfer pobl Ynys Môn. Mae gweithlu da ac iach yn golygu y gallwn ddarparu gwasanaethau da sy'n gwella.

**2.5.2** Mae presenoldeb yn y gwaith yn faes sy'n cael ei adrodd yn fisol a'i ddadansoddi er mwyn sicrhau gwelliant. Roedd Chwarter 3 yn dangos sgôr o 2.69 Diwrnod Gwaith wedi'u Colli (WDL) fesul aelod staff ALIC sydd bron union yr un fath â'r sgôr yn Chwarter 3 2017/18. Y sgôr gronnus o Ch1 i Ch3 yw 7.44 Diwrnod Gwaith wedi'u Colli fesul aelod staff ALIC (dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio o dan rheoli pobl).

**2.5.3** Mae sicrwydd o hyd fod Gwasanaethau yn dilyn gweithdrefnau yn unol â'u polisi rheoli absenoldeb. Gellir gweld hyn yn y canlyniadau Ch3 ar gyfer Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a Chyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (eitemau 6-8 ar y cerdyn sgorio o dan rheoli pobl).

**2.5.4 Mae'r UDA felly'n argymell –**

**2.5.4.1** Parhau i ganolbwyntio ar gynnal/gwella presenoldeb yn y gwaith gyda chefnogaeth y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol. Mae angen rhoi blaenoriaeth i wella'r lefelau salwch yn y:

- Gwasanaethau Oedolion,
- Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r
- Gwasanaeth Dysgu, sydd wedi mireinio'i gynllun gwella salwch ar gyfer ysgolion cynradd fydd yn cael ei wireddu yn ystod chwarter 4 ac 1 o'r flwyddyn newydd

## *2.6* GWASANAETH CWSMER

***2.6.1*** Hyd at ddiwedd Ch3, fe wnaeth defnyddwyr ddefnyddio technoleg AppMôn i gyflwyno 3k o adroddiadau (ar faterion yn cynnwys tipio anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaeth neu gwynion, palmentydd wedi torri, ffurflenni bas data clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu). Mae hyn wedi cynyddu o'r 1.5k o adroddiadau ar gyfer Ch3 17/18. Daeth 84% o'r adroddiadau hyn drwy'r wefan sydd yn y broses o gael ei diweddaru a'i hadnewyddu.

**2.6.2** Dangosydd newydd ar gyfer eleni yw nifer y defnyddwyr cofrestredig sydd gennym ar AppMôn a Gwefan y Cyngor sydd wedi cynyddu o dros 1700 ar ddiwedd Ch2 i 6607 ar ddiwedd Ch3. Mae hyn yn beth positif gan fod y cynnydd hwn wedi digwydd er gwaethaf oedi yng nghyflwyniad gwefan newydd y Cyngor oherwydd anawsterau technegol. Rhagwelir unwaith y bydd y wefan newydd yn ei lle y bydd hyn yn annog mwy o ddefnydd o ffurflenni ar-lein a chyswllt ar-lein. Disgwylir hefyd y bydd y niferoedd sy'n talu dros y we yn cynyddu.

**2.6.3** Fe gynyddodd nifer ein dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol unwaith eto yn ystod Ch3 i 29k. Mae hyn wedi'i rannu rhwng Facebook (13k o ddilynwyr), Twitter (15k o ddilynwyr) ac Instagram (1k). Mae'r dulliau hyn o gyfathrebu yn parhau i gynyddu a rhagdybir y bydd y llif gwybodaeth a gylchredir ac a dderbynnir trwy'r sianelau hyn yn parhau i gynyddu ymhellach, gan olygu newid felly yn y modd y mae trigolion ac eraill yn cyfathrebu gyda ni fel Cyngor. Gwelwyd enghraifft dda o pa mor bellgyrhaeddol yw Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod yr Ymgynghoriad ar Gynigion Cychwynnol y Gyllideb a wnaed ar ddiwedd 2018 lle derbyniwyd dros 5000 o ymatebion i'r cynigion, nifer sylweddol uwch nag mewn unrhyw flwyddyn flaenorol.

**2.6.4** O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, oherwydd salwch tymor hir o fewn y tîm sy'n casglu'r ystadegau ar ran y Cyngor, nid ydym yn gallu adrodd ar Gwynion gan Gwsmeriaid nac ar geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer y chwarter (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n adrodd yn wahanol). Er nad oes gennym yr ystadegau ar gael o'r gwasanaethau a gesglir ar ran y Cyngor, mae'r Gwasanaethau yn parhau i fonitro'r Cwynion a'r ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn yr un modd ag y maent wedi'i wneud yn y gorffennol. Bydd y ffigyrau diwedd blwyddyn yn cael eu cyflwyno yn yr adroddiad Ch4 a fydd yn cynnwys yr ystadegau coll ar gyfer Ch3.

**2.6.5** Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, roedd 5 cwyn Cam 2 (Gwasanaethau Oedolion [4], Gwasanaethau Plant a Theuluoedd [1]) a 38 o Gwynion Cam 1 (Gwasanaethau Plant [27], Gwasanaethau Oedolion [11]) wedi'u derbyn hyd at ddiwedd Ch3. O'r cwynion hyn, mae cyfanswm o 50% (Coch ar y cerdyn sgorio) wedi derbyn ymateb o fewn yr amserlen gyda 19 o ymatebion hwyr (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd [13] a Gwasanaethau Oedolion [6]). Er bod y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi methu ag anfon ymatebion ysgrifenedig o fewn yr amserlen ar gyfer 13 o'r 27 cwyn Cam 1, yn achos 22 o'r 27 (81%) cynhaliwyd trafodaeth gyda'r achwynydd o fewn yr amserlenni.

***2.6.6 Mae'r UDA felly'n argymell –***

***2.6.6.1*** *Dylai'r Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes sydd newydd ei sefydlu ystyried sut y dylid monitro'r Dangosyddion Gwasanaeth Cwsmer fel rhan o'u gwaith sy'n datblygu ar y Strategaeth Gofal Cwsmer er mwyn sicrhau bod ymagwedd ragweithiol at wella gwasanaeth i gwsmeriaid.*

***2.6.6.2*** *Gweithredu'r weithdrefn newydd yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer ymateb i gwynion er mwyn lleihau nifer y cwynion a gwella cyfradd yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion a wneir o fewn y terfynau amser.*

## 2.7 RHEOLAETH ARIANNOL

**2.7.1** Rhagwelir cyfanswm o £1.589m o orwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019, gwelliant sylweddol ar y gorwariant o £2.660m a ragwelwyd yn Chwarter 2. Mae £2.972m o'r gorwariant a ragwelir ar gyfer 2018/19 ar gyllidebau gwasanaeth, sydd wedi eu gwneud i fyny o nifer o orwariannau a thanwariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i wynebu pwysau sylweddol ar eu cyllidebau'n debyg i 2017/18 (y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae cyllidebau'r Gwasanaethau Oedolion hefyd dan bwysau oherwydd galw sy'n cynyddu. Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r materion ac maent yn gweithio i leihau lefel y gorwariant sydd o fewn eu rheolaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir i Cyllid Corfforaethol danwario £1.210m a disgwylir i'r Dreth Gyngor, sy'n cynnwys y Premiwm Dreth Gyngor, gasglu gwarged o £0.173m. Felly daw hynny â'r gwariant cyffredinol i lawr i £1.589m. Mae lefel ragamcanedig y gorwariant yn 1.21% o gyllideb net y Cyngor. Mae pryder ynghylch effaith y lefel hon o orwariant ar y balansau cyffredinol petai'n digwydd mewn gwirionedd.

**2.7.2** Mae'r gorwariant rhagamcanedig yn welliant o gymharu â chwarter 2 ond ni ddylid anghofio'r gorwariant o £3.5m a ragwelir ar 3 prif wasanaeth y Cyngor (Addysg, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion) ac mae angen cymryd camau i roi sylw i'r diffyg ariannol, y gost o ddarparu'r gwasanaeth a rheoli'r galw am wasanaethau. Mae rheolwyr yn ymwybodol o'r materion hyn ac yn gweithio i gau'r bwlch rhwng y gyllideb a gwariant drwy gynyddu'r gyllideb a ddyrennir yn 2019/20, cynyddu capasiti drwy ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd eraill, llai costus a cheisio lleihau'r galw am wasanaethau.

**2.7.3** Er y gellir cyllido'r lefel hon o orwariant o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2018/19, bydd yn erydu'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol i lefel sydd ymhell islaw'r isafswm derbyniol. Yn ystod y broses o osod y gyllideb am 2019/20 neu 2020/21, bydd angen cyllido'r gorwariant a chychwyn y broses o geisio rhoi arian yn ôl yn y balansau cyffredinol. Dyma ymagwedd ddarbodus sy'n angenrheidiol i warchod hyfywedd ariannol y Cyngor yn y tymor hir.

**2.7.4** Gall rhagolygon newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei. Fodd bynnag, bydd craffu rheolaidd gan yr UDA a chamau lliniaru gan Benaethiaid Gwasanaeth o gymorth i'r gwasanaethau reoli'r cyllidebau y mae ganddynt reolaeth drostynt.

**2.7.5** O'r herwydd, mae'r UDA yn argymell –

**2.7.5.1** Bod rheolaeth ariannol gorfforaethol yn parhau i gael ei graffu'n rheolaidd a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau adferol i gynorthwyo'r gwasanaethau i reoli'r cyllidebau hynny y gallant eu rheoli.

## 3. ARGYMHELLION

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

**3.1.1** Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru er mwyn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod Chwarter 4. Rhoddir pwyslais penodol ar y dangosyddion hynny sydd wedi dirywio o chwarter i chwarter er mwyn sicrhau nad yw perfformiad yn dirywio ymhellach yn ystod Ch4.

**3.1.2** Parhau i gynnal/gwella presenoldeb yn y gwaith gyda chefnogaeth y Cydlynydd Absenoldeb Salwch Corfforaethol. Rhoddir blaenoriaeth i wella lefelau salwch yn yr isod:

- Gwasanaethau Oedolion
- Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo; a'r
- Gwasanaeth Dysgu, sydd wedi mireinio'i gynllun gwella salwch ar gyfer ysgolion cynradd fydd yn cael ei wireddu yn ystod chwarter 4 ac 1 o'r flwyddyn newydd

**3.1.3** Dylai'r Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes sydd newydd ei sefydlu ystyried y modd y dylid monitro'r Dangosyddion ar gyfer Gwasanaeth cwsmer fel rhan o'u gwaith sy'n datblygu ar y Strategaeth Gofal Cwsmer er mwyn sicrhau ymagwedd ragweithiol tuag at wella gwasanaeth cwsmer.

**3.1.4** Bod y weithdrefn newydd yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer ymateb i gwynion yn cael ei gweithredu er mwyn lleihau nifer y cwynion a gwella cyfradd yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion sy'n cael eu darparu o fewn yr amserlen ofynnol.

**3.1.5** Parhau i graffu'n rheolaidd ar reolaeth ariannol gorfforaethol a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau adferol i i reoli'r cyllidebau hynny y gallant eu rheoli.

**3.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q3 2018/19

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tueddu / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Targed Bl / Yr Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result | Chwartel 17/18 Quartile |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) PAM/029 (PM33) - Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Gwyrdd / Green | ↑ | 5.66% | 8.25% | 11% | 9% | 5% | - |
| 02) PAM/028 (PM24) - Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | ↓ | 89% | 90% | 90% | 67.57% | 89.17% | - |
| 03) SCC/025 - Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | ↑ | 80% | 83% | 83% | 63.32% | 79.35% | - |
| 04) PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 229 | 320 | 320 | 326.5 | 266 | - |
| 05) SCC/010 - Canran y cyfeiriadau sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | Melyn / Yellow | ↓ | 17% | 15% | 15% | - | - | - |
| 06) SCC/006 - Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 97% | 94% | 94% | - | - | - |
| 07) PAM/25 (PM19) - Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | Coch / Red | ↓ | 5.61 | 3 | 3 | 6.58 | 6.05 | - |
| 08) SCA/018b - Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 94.70% | 93% | 93% | 96% | 94.40% | - |
| 09) SCA/002b - Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth | Gwyrdd / Green | ↓ | 16.45 | 19 | 19 | 17.44% | 20.51% | - |
| 10) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↑ | 92.43% | 90% | 90% | 93.25% | 90.48% | - |
| 11) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Coch / Red | → | 33.33% | 50% | 50% | 59.26% | 62.60% | - |
| 12) PM20b - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Melyn / Yellow | ↓ | 61.01% | 62% | 62% | 62.65% | 33.30% | - |
| 13) PAM/007 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | Melyn / Yellow | | 93.14% | 93.30% | 93.30% | 93.30% | 94.80% | Uchaf / Upper |
| 14) PAM/008 - Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | Gwyrdd / Green | | 95.12% | 93.90% | 93.90% | 93.90% | 94.60% | Uchaf / Upper |
| 15) PAM/010 (STS/005b) - Canran y strydoedd sy'n lân | Gwyrdd / Green | ↑ | 95.63% | 94% | 94% | 93% | 93% | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 16) PAM/030 (WMT/009b) - Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Melyn / Yellow | ↓ | 70.53% | 74% | 72% | 72.2% | 65.8% | Uchaf / Upper |
| 17) PAM/035 - Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | ↑ | 0.16 | 1 | 1 | - | - | - |
| 18) PAM/043 - Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | - | → | 180kg | - | 210kg | - | - | - |
| 19) PAM/017 (LCS/002b) - Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 y boblogaeth | Gwyrdd / Green | ↑ | 404k | 369k | 515k | 508k | 464k | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 20) PAM/023 (PPN/009) - Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | 95% | 98% | 98% | Uchaf / Upper |
| 21) PAM/018 - Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Ambr / Amber | ↓ | 82% | 90% | 90% | 86% | - | Isaf / Lower |
| 22) PAM/019 - Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Gwyrdd / Green | ↓ | 73% | 65% | 65% | 47% | - | Isaf / Lower |
| 23) PAM/041 - Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↑ | 70% | 50% | 50% | - | - | - |
| 24) PAM/042 - Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | Gwyrdd / Green | ↑ | 83% | 80% | 80% | - | - | - |
| 25) PAM/012 - Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | ↑ | 57.08% | 55% | 55% | - | - | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 26) PAM/013 - Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↓ | 61 | 56 | 75 | 75 | - | Uchaf / Upper |
| 27) PAM/014 - Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | ↑ | 8 | 3 | 4 | 4 | - | - |
| 28) PAM/015 (PSR/002) - Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↓ | 172.7 | 175 | 175 | 177 | 238.8 | Uchaf / Upper |
| 29) PAM/037 - Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | ↑ | 9.95 | 12 | 12 | - | - | - |
| 30) PAM/038 - Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 100% | 100% | - | - | - |
| 31) PAM/009 - Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEET) [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | Isaf / Lower |
| 32) PAM/032 - Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 33) PAM/033 - Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 34) PAM/034 - Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg (iaith gyntaf) [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 35) PAM/040 - Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |
| 36) PAM/024 (PM13a) - Canran yr oedolion sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | TBC Hydref / October |
| 37) PAM/026 (PM15) - Canran y gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | TBC Hydref / October |
| 38) PAM/027 (PM13c) - Canran y plant sy'n fodlon a'u gofal a'r cymorth [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | TBC Hydref / October |
| 39) PAM/020 (THS/012a) - Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | - | - | - | - | 3% | 3.20% | 2.30% | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 40) PAM/021 (THS/012b) - Canran y prif ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | - | - | - | - | 5% | 4.40% | 3.20% | Canolrif Uchaf / Upper Median |
| 41) PAM/020 (THS/012c) - Canran y prif ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael [Blynyddol] | - | - | - | - | 10% | 8.90% | 10.10% | Canolrif Isaf / Lower Median |
| 42) PAM/039 - Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag [Blynyddol] | - | - | - | - | - | - | - | - |

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q3 2018/19

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | - | - | 53 | 71 | 71 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau | - | - | 5 | - | 9 | 8 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | - | - | - | - | 28 | 25 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | - | - | - | 80% | 92% | 93% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Coch / Red | → | 50% | 80% | - | - |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | - | - | 38 | - | 51 | 54 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | - | - | - | - | 112 | 191 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | - | - | - | - | 753 | 566 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | - | - | - | 80% | 78% | 77% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | - | - | - | - | 919 | 1037 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 6607 | | | |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 3026 | | 2k | 1k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↓ | 8.6k | | 11k | |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↓ | 4.1k | | 5k | |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 29k | 25k | 25k | 21k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↓ | 607k | | 820k | 715k |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 17/18 Result | Canlyniad 16/17 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2255 | - | 2252 | 2258 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1260 | - | 1244 | 1303 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Ambr / Amber | ↓ | 7.44 | 6.98 | 9.96 | 11.68 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 3.27 | - | 4.63 | 4.89 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 4.17 | - | 5.32 | 6.79 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Coch / Red | ↓ | 8.75 | 6.76 | 10.39 | - |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 3.61 | - | 4.85 | - |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 5.14 | - | 5.55 | - |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↓ | 6.39 | 6.76 | 9.67 | - |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 3.37 | - | 5.32 | - |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 3.02 | - | 4.35 | - |
| 06) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen | Melyn / Yellow | ↓ | 79% | 80% | 73% | 84% |
| 07) % o Cyfweliadau DIG a gynhalwyd | Ambr / Amber | ↓ | 88% | 95% | 85% | - |
| 08) % o Gyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP) a gynhaliwyd | Ambr / Amber | ↑ | 71% | 80% | 69% | - |
| 09) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynddol) | - | - | - | - | 11% | - |
| 10) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Ch4) | - | - | - | 80% | 90.50% | - |
| 11) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl) | - | - | - | - | - | 98% |
| 12) Nifer o staff Asiantaeth | - | - | 12 | - | 12 | 26 |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol | Coch / Red | ↑ | £99,185,657 | £102,306,176 | 3.15% | | |
| 02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw) | Coch / Red | ↑ | £130,900,250 | | | £132,490,051 | 1.21% |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf) | | | £45,560,000 | | | £23,472,000 | -48.48% |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Ambr / Amber | ↑ | £2,521,500 | | | £2,261,500 | -10.31% |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Gwyrdd / Green | | -£14,797,787 | -£17,642,382 | 19.22% | | |
| 06) Swm a fenthycwyd | | | £11,063,000 | | | £7,194,000 | -34.97% |
| 07) Chost benthyca | | ↓ | £4,494,993 | | | £4,030,882 | -10.33% |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | | ↓ | | 91.67% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | ↑ | | 99.00% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | → | | 98.70% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | | 97.30% | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | ↑ | - | 100.65% | - | - | - |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd | - | ↑ | - | 101.47% | - | - | - |

Atodiad B

Mae’r ddogfen yma wedi’i gynnwys yn adroddiad chwarterol y cerdyn sgorio sy’n cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a’r Pwyllgor Gwaith bob chwarter i ddarparu diweddariad lefel uchel byr ynghylch statws y gwaith sydd yn berthnasol ac yn adrodd i’r -

- **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaeth, a’r**
- **Bwrdd Rhaglen Llywodraethiant Corfforaethol**

Yr allwedd CAG ar gyfer y ddogfen uchod yw fel a ganlyn –

CAG:

| | |
|---|---|
| Wedi ei gwblhau | Prosiect wedi ei gwblhau |
| Ar y trywydd iawn | Prosiect yn datblygu yn ôl y disgwyl ac mae ar y trywydd iawn |
| Ar ei hôl hi | Mae prosiect angen penderfyniadau / cymorth allweddol |
| Hwyr | Mae’r prosiect yn hwyr a thu ôl i’r amserlen ddisgwyliedig |
| Gwyn | Nid yw’r prosiect wedi dechrau |

Atodiad B

| Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Gwasanaeth | | |
|---|---|---|
| **Rhaglenni** | **Prosiectau Unigol** | **RAYG a Diweddariad** |
| **Moderneiddio Ysgolion** | **Bro Rhosyr a Bro Aberffraw** | Mae'r amserlen ar gyfer adeiladu **Ysgol Santes Dwynwen** yn Niwbwrch ar drywydd iawn ac fe'i bwriadir agor ar ddiwedd mis Ebrill 2019. |
| | **Llangefni** | **Ysgol Bodffordd, Ysgol Corn Hir ac Ysgol Henblas**<br>Cyhoeddwyd rhybudd statudol a derbyniwyd yr Achos Busnes Amlinellol gan Lywodraeth Cymru .<br>**Ysgol y Graig a Ysgol Talwrn**<br>Mae dyluniad a chost yn cael eu datblygu. Cyhoeddwyd rhybudd statudol. |
| | **Seiriol  De Ddwyrain** | Datblygwyd y dyluniad a'r gost i ymestyn **Ysgol Llandegfan** ac **Ysgol Llangoed**. Cyhoeddwyd rhybudd statudol. |
| | **Ysgol Syr Thomas Jones ac ysgolion Cynradd ardal Amlwch** | Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu rhwng 05/11/18 – 14/12/18. Gweithio ar ddadansoddi'r canlyniadau. |
| | **Ôl-16** | Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu rhwng 19/11/18 – 16/12/18. Gweithio ar ddadansoddi'r canlyniadau. |
| **Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn – Prosiect Opsiynau Gwella Llety** | **Gofal Ychwanegol Llangefni** | Panel i barhau i asesu unigolion amfod yn gymwys ar gyfer Hafan Cefni yn unol a'r meini prawf. |
| | **Gofal Ychwanegol De'r Ynys** | Penderfynwyd yn y Pwyllgor Gwaith bod Safle Ysgol Biwmares yn cael ei ddefnyddio er mwyn datblygu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol.<br><br>Nawr bod penderfyniad wedi'i gytuno mewn perthynas â dyfodol Ysgol Biwmares, bydd datblygiad y safle yn cael ei ystyried. |
| | **Tai a chefnogaeth mewnol** | Bwriad newydd y prosiect ydi i gadw'r gwasanaeth yn fewnol i'r Cyngor ond i ailfodelu er mwyn sicrhau arbedion ariannol. |
| | **Tai a Chefnogaeth Allanol** | Bwriad y prosiect fydd i ailfodelu ac ail ddylunio'r gwasanaethau mewn ymgynghoriad agos gyda gofynion y Rhaglen Cefnogi Pobl |
| | **Tendro Gwasanaeth Gofal Cartref** | Cwblhau'r rhaglen o drosglwyddo defnyddwyr gwasanaeth o'r hen ddarparwr i'r un newydd (66 o ddefnyddwyr). Cychwyn trefniadau monitro newydd mewn partneriaeth a iechyd. |
| | **Gofal Dydd Mewnol** | Datblygu'r weledigaeth ar gyfer cyfleoedd dydd a'r amserlen weithredu. Cytunwyd i flaenoriaethu'r camau gweithredu ar godi tynged cleientiaid Adnoddau Dynol sy'n rhan o'r rhaglen arbedion ar gyfer 2019. |

| | | |
|---|---|---|
| **Trawsnewid llyfrgelloedd, gwasanaeth ieuenctid, amgueddfeydd, diwylliant a Market Hall** | **Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant** | Melin Llynnon a'r Tai Crynion– Hysbysebiad yn y cylchgrawn arbenigol yn Mehefin 2018 i geisio denu diddordeb masnachol.<br><br>Carchar a Llys Biwmares – Gweithio mewn partneriaeth gyda Cyngor Tref Biwmares ar amserlen i drosglwyddo'r asedau i Cyngor Tref Biwmares |
| | **Ailfodelu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd** | Gweithio ar y broses ail strwythuro staff i fod mewn lle erbyn Ch2<br><br>Gweithio ar y broses o drosglwyddo'r llyfrgelloedd cymunedol yn Biwmares a Rhosneigr<br><br>Mae llyfrgelloedd Moelfre ac Niwbwrch nawr wedi cau.<br><br>Bydd Cemaes yn parhau ar agor am y flwyddyn ar ôl i'r gymuned leol gytuno ar gyllid i barhau â'r ddarpariaeth llyfrgell dros y tymor byr |
| | **Market Hall** | Mi fydd y prosiect wedi'i gwblhau erbyn Mai 2019. Mae problemau gyda gwaith Cam 2 wedi gohirio'r prosiect. |
| **Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | | Safle Star – tendr yn dechrau Chwefror 2019 ac i fod ar y safle erbyn mAI 2019. |
| **Cynyddu lefelau ailgylchu** | | Gweler y Dangosyddion Perfformiad 16 + 17 ar y Cerdyn Sgorio i weld cyrhaeddiad |
| **Gwaith lliniaru llifogydd** | | Mae gwaith adeiladu wedi cychwyn ym Miwmares.<br><br>Gwaith Nant y Felin a Pentraeth wedi cael ei ohirio i ddechrau ym mis Mawrth 2019. |
| **Strategaeth Moderneiddio Hamdden** | | Mae Ymgynghoriad Cyhoeddus wedi'i gwblhau ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd |

| **Bwrdd Rhaglen Llywodraethiant Corfforaethol** | | |
|---|---|---|
| **Rhaglen / Prosiect** | **Prosiectau Cysylltiedig** | **RAYG a Diweddariad byr** |
| **Cyswllt Adnoddau - Northgate (AD)** | | MyView Dashboard – Ystyried sesiynau hyfforddi agoriadol yn y flwyddyn newydd i gefnogi staff sydd eto i fewngofnodi. Nid oes hygyrchedd yn llyfrgell Llangefni, mae cyfrifiaduron newydd yn cael eu gosod ym mis Chwefror 2019. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Payslips – Os mae staff wedi ceisio argraffu slipiau cyflog yn y llyfrgell, mae Bwrdd Prosiect wedi cytuno i'w argraffu.<br><br>Web Recruitment – yn fyw ar y 09/11/18. Wedi trefnu adolygiad 3 mis yn Ionawr 2019 i weld y cynnydd<br><br>Mileage and Expenses – cyflwyno ceisiadau hawlio teithio electronig yn llawn ym mis Ionawr 2019 (eithrio gofalwyr cartref).. |
| **Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid** | **Rhaglen Ehangu Cyswllt Môn / Cyswllt Wyneb Yn Wyneb** | Prosiect ar y trywydd iawn yn dilyn uwchraddio holl gyfrifiaduron yn y llyfrgelloedd.<br><br>Peilot i gychwyn Ionawr 2019 yn Amlwch a Phorthaethwy am 4 mis ac yna adolygiad o'r data a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd gyda argymhellion ar gyfer y dyfodol. |
| | **Cyswllt Dros Y Ffôn + Newid Sianel** | (ON HOLD) Mae pob canolfan cyswllt wedi llwyddo mynd yn fyw heb unrhyw anhawster i'r cyhoedd<br><br>Mae yna welliant o'r niferoedd o alwadau sydd yn cael ei methu yn cael ei dystiolaethu yn y gwasanaethau hynny sydd wedi mynd yn fyw (hyd at 80% llai o alwadau yn cael ei methu). |
| | **CRM** | Telephony Integration – Mae uwchraddio ShoreTel yn newid yn sylweddol profiad y defnyddiwr<br><br>Waste Management – Datblygwyd y fanyldeb. Disgwyl pris.<br><br>Blue Badge Integration – Cynnydd da. Fflurflenni wedi'u hadeiladu a'u hintegreiddio. |
| **Modelau Cyflawni Amgen** | | Mae gwaith ar MCA dal i barhau ac yn dal i archwilio opsiynau newydd .<br><br>Cytundeb Tacsi Ysgol – wedi mynd yn fyw Ionawr 2019, prosiect ar amser ac wedi'i gwblhau.<br><br>Torri Gwair Ysgol – wedi mynd yn fyw Ionawr 19, prosiect ar amser ac wedi ei gwblhau,.<br><br>Ail-dendro Caffi Oriel Mon – allan i dendr a bidiau yn cau wythnos yn dechrau 14/01/19. |
| **Effeithlonrwydd Ynni** | | Cyflwynwyd cynllun 2018/19 i'r Bwrdd Trawsnewid a mae'r cynllun yn gweithredu.<br><br>Gwaith datblygu adfer pellach yn mynd rhagddo i nodi cyfleoedd ar gyfer y blynyddoedd i ddod. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Rhaglen Refit Cymru wedi dechrau yn dilyn penodi Larkfleet fel partner i Refit. |
| **Strategaeth TGCh** | | Strategaeth TG Digidol – 'Ynys Ddigidol' wedi cael ei chymeradwyo ac yn berthnasol i 2016-2020.<br><br>Problemau gyda'r wefan – gweithio gyda'r cyflenwr i ddatrys y problemau. |
| **Cynllun Gwella Sgriwtini** | | Ar y trywydd iawn |
| **Strategaeth Cyfathrebu** | | Datblygwyd Strategaeth Gyfathrebu Ddiwygiedig – addasu'r drafft presennol ac aros am adborth pellach. |

**ATODIAD C**

## Alldro Refeniw Rhagamcanol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2019 – Chwarter 3

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Ch3 2018/19 Blwyddyn Gyllidol hyd yma | Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch3 2018/19 Amrywiant | Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch3 Amcan-gyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2019 | Alldro Amcan gyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor /(Tan) wariant yn Ch3 | Rhagamcanion Gor / (tan)wariant fel % o Gyllideb Gyfan 2018/19 yn Ch2 | Alldro Rhagamcanedig 31 Mawrth 2019 – gor/tanwariant yn Ch1 | 2018/19 Gor/Tanwariant Rhagamcanedig ac fel % o'r Gyllideb Gyfan | Gor/ Tanwariant Drafft y Flwyddyn Ddiethaf 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion | 43,129 | 32,845 | 32,845 | (0) | 0.00% | 43,129 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Ganolog | 4,285 | 4,347 | 4,887 | 540 | 12.42% | 4,874 | 589 | 627 | 540 | 13.74% | 893 |
| Diwylliant | 1,321 | 1,131 | 1,078 | (53) | -4.70% | 1,221 | (100) | (113) | (70) | -7.57% | (147) |
| | | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 24,599 | 18,068 | 19,407 | 1,339 | 7.41% | 25,634 | 1,035 | 866 | 112 | 4.21% | 215 |
| | | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 8,318 | 6,802 | 8,696 | 1,893 | 27.83% | 10,327 | 2,009 | 2,032 | 1,283 | 24.15% | 1,778 |
| | | | | | | | | | | | |
| **Tai** | 1,052 | 1,538 | 1,410 | (128) | -8.33% | 1,007 | (45) | (15) | 25 | -4.28% | 7 |
| | | | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,340 | 5,891 | 6,206 | 315 | 5.35% | 6,233 | (107) | (84) | 5 | -1.69% | (100) |
| Eiddo | 978 | 869 | 906 | 37 | 4.27% | 1,014 | 36 | 70 | 142 | 3.68% | 55 |
| Gwastraff | 7,490 | 5,727 | 5,305 | (422) | -7.37% | 7,233 | (257) | 3 | 20 | -3.43% | (63) |
| | | | | | | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,733 | 1,700 | 1,563 | (137) | -8.04% | 1,614 | (119) | (50) | 0 | -6.87% | (10) |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 1,950 | 1,534 | 1,358 | (176) | -11.46% | 1,900 | (50) | 45 | 46 | -2.56% | 9 |
| | | | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,251 | 959 | 943 | (16) | -1.64% | 1,236 | (15) | (8) | 0 | -1.20% | (61) |
| TGCh | 2,354 | 1,751 | 1,872 | 121 | 6.91% | 2,466 | 112 | 247 | 327 | 4.76% | 45 |

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Ch3 2018/19 Blwyddyn Gyllidol hyd yma | Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch3 2018/19 Amrywiant | Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch3 Amcan-gyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2019 | Alldro Amcan gyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor /(Tan) wariant yn Ch3 | Rhagamcanion Gor / (tan)wariant fel % o Gyllideb Gyfan 2018/19 yn Ch2 | Alldro Rhagamcanedig 31 Mawrth 2019 – gor/tanwariant yn Ch1 | 2018/19 Gor/Tanwariant Rhagamcanedig ac fel % o'r Gyllideb Gyfan | Gor/ Tanwariant Drafft y Flwyddyn Ddiethaf 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 826 | 487 | 417 | (70) | -14.36% | 671 | (155) | (111) | (89) | -18.76% | (158) |
| **Adnoddau** | 2,840 | 2,380 | 2,244 | (136) | -5.71% | 2,806 | (34) | (19) | 29 | -1.20% | (3) |
| **Busnes y Cyngor** | 1,528 | 1,091 | 1,052 | (39) | -3.54% | 1,524 | (4) | (6) | 28 | -0.26% | 181 |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 3,430 | 3,152 | 3,304 | 152 | 4.82% | 3,292 | (138) | (137) | (144) | -4.02% | (103) |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 657 | 492 | 503 | 11 | 2.19% | 672 | 15 | 14 | 0 | 2.28% | (81) |
| **Effaith Ragamcanedig y Costau na fedrir eu rheoli** | | | | | | | 200 | 200 | 200 | | 159 |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | 114,082 | 90,764 | 93,996 | 3,232 | 3.56% | 117,054 | 2,972 | 3,561 | 2,454 | 2.61% | 2,616 |
| Ardollau | 3,361 | 3,361 | 3,361 | 0 | 0.00% | 3,361 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (2) |
| Gostyngiadau Dewisol yn y Dreth | 60 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 62 | 2 | 3 | 3 | 4.16% | 0 |
| Cyllido Cyfalaf | 7,541 | 3,359 | 2,981 | (378) | 0.00% | 6,485 | (1,056) | (461) | (331) | -14.00% | (449) |
| Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 1,004 | 1,004 | 1,203 | 199 | 19.80% | 911 | (93) | 0 | 0 | -9.26% | 106 |
| Cyfraniad y Gwasanaethau Cefnogaeth i'r CRT | (693) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (693) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (82) |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 5,546 | 698 | 765 | 68 | 9.68% | 5,482 | (63) | (95) | (84) | -1.14% | (849) |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | 16,819 | 8,421 | 8,310 | (111) | -1.32% | 15,609 | (1,210) | (553) | (412) | -7.19% | (1,276) |
| **Cyfanswm 2018/19** | **130,900** | **99,186** | **102,306** | **3,120** | **3.15%** | **132,662** | **1,762** | **3,008** | **2,042** | **1.35%** | **1,340** |

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | 2018/19 Cyllideb Flynyddol | Ch3 2018/19 Blwyddyn Gyllidol hyd yma | Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch3 2018/19 Amrywiant | Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac wedi'i ymrwymo | Ch3 Amcan-gyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2019 | Alldro Amcan gyfrifedig 31 Mawrth 2019 Gor /(Tan) wariant yn Ch3 | Rhagamcanion Gor / (tan)wariant fel % o Gyllideb Gyfan 2018/19 yn Ch2 | Alldro Rhagamcanedig 31 Mawrth 2019 – gor/tanwariant yn Ch1 | 2018/19 Gor/Tanwariant Rhagamcanedig ac fel % o'r Gyllideb Gyfan | Gor/ Tanwariant Drafft y Flwyddyn Ddiethaf 2017/18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| | | | | | | | | | | | |
| **<u>Cyllido</u>** | | | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (22,574) | (17,365) | (17,365) | (0) | 0.00% | (22,574) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| Y Dreth Gyngor | (34,440) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (34,395) | 45 | (101) | (55) | -0.13% | 116 |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (648) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (866) | (218) | (247) | (243) | 33.54% | 0 |
| Grant Cymorth Refeniw | (73,238) | (56,337) | (56,337) | (0) | 0.00% | (73,238) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2018/19** | **(130,900)** | **(73,701)** | **(73,701)** | **(0)** | **0.00%** | **(131,073)** | **(173)** | **(348)** | **(298)** | **0.00%** | **116** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr Alldro gan gynnwys effaith cyllido** | **0** | **25,484** | **28,605** | **3,120** | **12.24%** | **1,590** | **1,589** | **2,660** | **1,744** | **1.21%** | **1,456** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 25 Mawrth 2019 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Ffôn:<br>E-bost: | Elin Williams, Rheolwr Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>01248 751813<br>ElinWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**ARGYMHELLION**

- I gadarnhau fod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â'r camau a gymerwyd i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a chyflymder y cynnydd ac i gadarnhau ei fod yn fodlon i'r gwasanaeth symud ymlaen â'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd fydd yn cymryd lle'r Cynllun Gwella Gwasanaeth presennol.

- I gadarnhau fod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

**Cefndir**

Fel Aelodau Etholedig, rydych yn llwyr ymwybodol o gefndir y Cynllun Gwella Gwasanaeth a'r ffaith ei fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Panel Gwella Gwasanaethau Plant ac yn ymwybodol hefyd fod y gwasanaeth wedi cael ei ailarolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ddiweddar.

Ers yr adroddiad diwethaf, mae'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd wedi canolbwyntio ar:

**1. Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

Ar ôl i AGC ddychwelyd i ailarolygu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd dros gyfnod o bythefnos yn ystod mis Hydref 2018, cyhoeddwyd adroddiad terfynol AGC ar 10 Rhagfyr 2018. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at *welliant sylweddol* a wnaed gan y Cyngor yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a chafodd yr adroddiad hwn ei groesawu.

Roedd yr adroddiad yn cyd-fynd â hunanasesiad y gwasanaeth, a gyflwynwyd i AGC cyn yr arolygiad, ac mae hefyd yn cyd-fynd â'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach a nodwyd yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGG) h.y. materion â statws CAMG ambr neu felyn yn y CGG.

Mae'r adroddiad yn nodi gwelliannau yn ogystal â 14 o feysydd sydd angen eu datblygu. Nid oedd unrhyw un o'r meysydd a nodwyd yn yr adroddiad yn 'newydd' i'r gwasanaeth ac, yn ogystal ag adnabod y gwasanaeth yn dda ar hyn o bryd, credir ein bod hefyd yn meddu ar weledigaeth glir a chadarn o lle y dylai'r gwasanaeth anelu at ei gyrraedd.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwelliant o ran rhoi sylw i gamau gweithredu yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth rhwng mis Chwefror 2017 a mis Tachwedd 2018:

| **CAMG** | **Chwefror 2017** | **Mai 2018** | **Medi 2018** | **Tachwedd 2018** |
|---|---|---|---|---|
| Coch | 21 | 0 | 0 | 0 |
| Ambr | 0 | 5 | 3 | 2 |
| Melyn | 0 | 10 | 8 | 6 |
| Gwyrdd | 0 | 6 | 10 | 13 |

Wrth symud ymlaen, cytunwyd i gau'r CGG cyfredol a chreu Cynllun Datblygu Gwasanaeth ar gyfer 2019-2022. Bydd yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu heb eu cwblhau o'r CGG cyfredol sydd angen eu datblygu ymhellach ynghyd â'r 14 maes i'w datblygu a nodwyd yn adroddiad ail-arolygiad AGC. Bydd y gwasanaeth cyfan yn gweithio dan y Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd, fydd yn cael ei gytuno gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth; y Panel Gwella Gwasanaethau Plant; y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith.

Bydd y gwasanaeth yn cymryd y camau a ganlyn hefyd:

- Ymgysylltu'n rhagweithiol gyda mwy o blant, pobl ifanc a theuluoedd er mwyn sicrhau fod llais y plentyn yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud fel gwasanaeth.
- Adolygu polisïau cyfredol er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu diweddaru ac yn addas i bwrpas, a sicrhau fod llais plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys ym mholisïau'r gwasanaeth.
- Adolygu a chryfhau ymhellach y trefniadau Sicrhau Ansawdd o fewn y gwasanaeth.
- Bydd y Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn parhau i gyfarfod a darparu her er mwyn sicrhau fod gwelliannau pellach yn cael eu gwneud o fewn y

gwasanaeth.

- Parhau i gynnal Ymweliadau Laming fel bod aelodau'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant, sydd yn cynnwys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Etholedig, yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o'r gwasanaeth.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid a pharhau i gryfhau cysylltiadau a threfniadau cydweithio.

*Er mwyn cael gwybodaeth fwy manwl am yr adroddiad yn dilyn ailarolygiad AGC, gweler Atodiad A am gopi o* Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru: Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Sir Ynys Môn Rhagfyr 2018 *ac Atodiad B am gopi o'r adroddiad* 'Adroddiad Arolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd' *a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 28 Ionawr 2019.*

**2. <u>Recriwtio a Chadw Staff</u>**

Mae'r gwasanaeth yn parhau i hysbysebu swyddi a recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol profiadol. Mae gweithwyr newydd wedi cychwyn gweithio yn y gwasanaeth ac ar hyn o bryd, dim ond un swydd wag sydd angen ei llenwi.

Llwyddodd y gwasanaeth i benodi Cyfreithiwr arbenigol ym maes Gofal Plant fydd yn cychwyn yn y swydd ar 1 Ebrill 2019. Pwrpas hyn yw cryfhau'r trefniadau presennol a chael Cyfreithiwr yn bresennol yn llawer cynharach yn yr Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus (ACC), yn unol â'r canllawiau.

**3. <u>Tai Grŵp Bach</u>**

Ym mis Tachwedd 2018, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith gynllun y gwasanaeth i ddatblygu darpariaeth Tai Grŵp Bach (TGB) ar yr Ynys.

Mewn TGB, bydd plant yn byw gyda'i gilydd mewn amgylchedd 'cartrefol' ac yn byw bywyd tebyg i blant sy'n byw gartref h.y. mynd i'r ysgol, byw yn y gymuned, cael cymdogion a ffrindiau ac ati. Cynlluniwyd y TGB i ddarparu gofal yn yr amgylchedd lleiaf cyfyngedig posib ac i integreiddio plant a phobl ifanc i'r gymuned; gwella ansawdd eu bywyd a lleihau'r stigma ynghylch plant nad ydynt yn byw gyda'u teuluoedd neu Ofalwyr Maeth. Bydd hyn hefyd yn sicrhau fod deilliannau allweddol i blant yn cael eu cwrdd cyn belled ag sy'n bosib, yn yr ystyr eu bod yn parhau i fyw ar yr Ynys ac yn parhau i fynychu ysgolion lleol. Bydd hyn hefyd yn golygu y bydd modd i bobl ifanc, a fyddai o bosib yn cael eu rhoi mewn lleoliadau preswyl ymhell o Ynys Môn, fyw mewn cartrefi cyffredin yn hytrach nag mewn sefydliad preswyl.

Gallai TGB olygu bod rhai o'r plant mewn gofal sy'n byw 'tu allan i'r sir' ar hyn o bryd, ac sy'n annhebygol o gael eu hailintegreiddio neu eu lleoli â theulu, ffrindiau,

gofalwyr maeth neu deuluoedd mabwysiadu yn y dyfodol agos, yn dychwelyd i'r Ynys.

Bydd pob TGB yn derbyn dau blentyn ar y mwyaf. Y rheswm am hyn yw er mwyn caniatáu i'r ddarpariaeth ymdoddi i'r gymdeithas leol a pheidio â chael ei ystyried fel cartref plant. Bydd staff lleol (addas) yn cael eu hannog i wneud cais i weithio mewn TGB ac argymhellir fod swyddi yn cael eu creu ar gyfer pobl leol sy'n adnabod y cymunedau'n dda.

Mae gan y gwasanaeth gynlluniau i agor dau Dŷ Grŵp Bach yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, a dau arall yn 2020/21. Rhagwelir y bydd y TGB yn creu arbedion ariannol sylweddol i'r Awdurdod Lleol. Disgwylir y bydd arbedion gwerth tua £115,116 yn cael eu gwneud yn 2019/20 ac arbedion ychwanegol o tua £435,519 yn 2020/21. Nodir fod yr arbedion yn seiliedig ar agor dau TGB o 1 Medi 2019 ac er mwyn cyflawni hynny bydd rhaid i dai addas gael eu cadarnhau ac i broses gofrestru AGC gael ei chwblhau mewn tri mis neu lai. Nid yw'r arbedion yn cynnwys unrhyw gostau addasu fyddai angen eu gwneud ar yr eiddo.

Mae eiddo ym mherchnogaeth yr Awdurdod Lleol wedi cael eu hadnabod ac mae gwaith addasu wedi cychwyn ar y tai. Mae gwaith yn cael ei gwblhau mewn perthynas ag adnabod y plant fyddai'n cael eu hystyried yn addas ar gyfer TGB. Rydym hefyd yn cychwyn y broses o recriwtio staff. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ymgysylltu â staff a phobl ifanc ynghylch enw lleol ar gyfer y cynllun.

**4. <u>Pecyn Gofalwyr Maeth</u>**

Mae gan y Cyngor gynlluniau i recriwtio a chadw mwy o Ofalwyr Maeth er mwyn sicrhau bod mwy o leoliadau ar gael i gwrdd â'r galw cynyddol am leoliadau ar gyfer plant mewn gofal. Ar hyn o bryd, mewn rhai achosion, mae'r Cyngor yn lleoli plant gyda Gofalwyr Maeth preifat drwy asiantaethau preifat, ac o ganlyniad mae'r Cyngor yn talu pris uwch oherwydd nad oes digon o Ofalwyr Maeth ar gofrestr y Cyngor i gwrdd â'r galw. Golyga hyn fod y lleoliadau'n ddrytach.

Ym mis Tachwedd, cytunodd y Pwyllgor Gwaith i gynnig pecyn mwy cystadleuol o lwfansau a chymhellion, a rhagwelir y bydd hynny'n ei gwneud yn haws i recriwtio Gofalwyr Maeth i'r Cyngor ac yn creu arbedion.

Cytunodd y Pwyllgor Gwaith y byddai'r pecyn yn cynnig:

- Cynnydd o 10% yn y Lwfans Maethu;
- Gostyngiad o 50% yn y Dreth Gyngor;

- Cerdyn Aelodaeth Gwasanaethau Hamdden Ynys Môn yn rhad ac am ddim;
- Tocyn parcio rhad ac am ddim ar gyfer meysydd parcio'r cyngor.

**Rôl Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol**

Ar ôl i Dr. Caroline Turner adael ei swydd fel Prif Weithredwr Cynorthwyol, penodwyd Mr. Alwyn Jones yn Gyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol ar ran Cyngor Sir Ynys Môn. Bydd Alwyn yn ymgymryd â'r rôl statudol hon ochr yn ochr â'i swydd fel Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yr Awdurdod.

Penodwyd Mr. Fôn Roberts yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

| **B - Pa opsiynau eraill yr oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis y dewis hwn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| **C - Pam mae hyn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r gwasanaeth angen cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith eu bod yn fodlon â'r camau a gymerwyd i fynd ati i weithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaeth a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.<br><br>Mae'r gwasanaeth hefyd angen cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith eu bod yn fodlon i'r gwasanaeth symud ymlaen â'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth newydd fydd yn cymryd lle'r Cynllun Gwella Gwasanaeth presennol. |

| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Mae hyn wedi ei gymeradwyo gan yr UDA. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** | Fel yr uchod. |

| | | |
|---|---|---|
| | (gorfodol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Fel yr uchod. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| 5 | **Eiddo** | Amherthnasol |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| 7 | **Caffael** | Amherthnasol |
| 8 | **Craffu** | Mae'r adroddiad yn mynd i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 19 Mawrth 2019. |
| 9 | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| 10 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | Amherthnasol |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | Amherthnasol |
| 3 | **Trosedd ac Anrhefn** | Amherthnasol |
| 4 | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| 7 | **Arall** | Amherthnasol |
| | | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A: *Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru: Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Sir Ynys Môn, Rhagfyr 2018:*

https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-12/181210-gwasanaethau-plant-ynys-mon-cy.pdf

181210-gwasanaet
hau-plant-ynys-mon

Atodiad B: *Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd:*

Adroddiad Arolwg
CIW- Pwyllgor Gwai

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth**

| **bellach):** |
|---|
| |

CC-016749-LB / 229501

Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Arolygiad o Wasanaethau Plant
# Cyngor Sir Ynys Môn

Rhagfyr 2018

© Hawlfraint y Goron 2018 WG36549 ISBN digidol 978-1-78964-494-4

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Trosolwg o'r canfyddiadau | 5 |
| Meysydd i'w datblygu | 6 |
| Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth | 9 |
| Asesu | 12 |
| Gofal a chymorth ac adolygiad | 15 |
| Diogelu | 18 |
| Arwain, rheoli a llywodraethu | 20 |
| Methodoleg | 23 |
| Cydnabyddiaethau | 23 |

## Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad o wasanaethau plant yng Nghyngor Sir Ynys Môn ddiwethaf ym mis Tachwedd 2016. Nododd yr arolygiad fod goruchwyliaeth y rheolwyr o drefniadau diogelu, mynediad ac asesu yn annigonol a bod angen i'r newid o ran gwella'r ffordd roedd help, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad yn cael eu rhoi i blant a theuluoedd yn Ynys Môn ddigwydd yn gyflymach, gan gynnal y gwelliannau. Yn sgil y pryderon difrifol a nodwyd, penderfynodd AGC ailarolygu gwasanaethau plant Ynys Môn o fewn 12 i 18 mis i gyhoeddi'r adroddiad.

Datblygodd y cyngor raglen wella a phenododd dîm cymorth annibynnol i fonitro'r cynnydd a chynnig cyngor ymgynghorol.

Cynhaliodd AGC yr ailarolygiad hwn o wasanaethau plant yn ystod mis Hydref 2018.

Mae ein harolygiad yn seiliedig ar yr wyth datganiad llesiant a'r canlyniadau llesiant cysylltiedig a amlinellir yn nogfen Llywodraeth Cymru *Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth* (Mawrth 2016). Mae'n adeiladu ar y safonau ansawdd cysylltiedig ar gyfer awdurdodau lleol a nodir yn y *Cod Ymarfer mewn perthynas â Mesur Perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol a gyhoeddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).* Yn ogystal, yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd gallu'r awdurdod lleol i wella drwy ddadansoddi'r modd y caiff ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol eu harwain a'u llywodraethu.

Bydd yr ailarolygiad hwn yn canolbwyntio ar y ffordd y caiff teuluoedd eu grymuso i gael gafael ar wasanaethau gofal a chymorth ac ar ansawdd y canlyniadau a gyflawnir i blant y mae angen help, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad arnynt.

Gwnaethom werthuso ansawdd yr ymarfer, y prosesau gwneud penderfyniadau a'r gwaith amlasiantaeth gan gynnal ffocws clir ar effaith y gwasanaethau ar blant a theuluoedd, mewn perthynas â'r canlynol:

- cael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys darparu gwasanaethau atal/cymorth cynnar
- asesu;
- diogelu;
- cynllunio/adolygu gofal a chymorth

Ac

- ansawdd y trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu sydd ar waith ac sy'n datblygu ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd.

Roedd yr arolygwyr wedi darllen ffeiliau achos, cyfweld â staff a chynnal arolwg staff, cyfweld â rheolwyr a chyfweld â gweithwyr proffesiynol o asiantaethau partner. Siaradodd yr arolygwyr â phlant a'u teuluoedd lle bo hynny'n bosibl. Gwnaethom geisio siarad â phlant, pobl ifanc a/neu eu teuluoedd/gofalwyr er mwyn gwrando ar eu barn am ansawdd y gwasanaethau y maent wedi'u derbyn a'u profiadau o hynny.

## Trosolwg o'n canfyddiadau

- Dangosodd gwasanaethau plant y cyngor welliant sylweddol mewn sawl maes allweddol ond roedd angen gwneud gwaith pellach mewn rhai meysydd eraill. Mae morâl y staff yn uchel ac mae brwdfrydedd ac ymroddiad ar bob lefel i barhau i weithio'n galed er mwyn gwella a darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'r plant.

- Mae'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth wedi gwella'n sylweddol ers ein harolygiad diwethaf ac mae bellach yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae nifer y staff wedi cynyddu o fewn y gwasanaeth a chaiff sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig' eu cynnal yn fwyfwy hyderus a llwyddiannus. Dechreuir cronolegau fel mater o drefn ar y cam cynnar hwn a chaiff atgyfeiriadau eu trosglwyddo i dimau eraill fel y bo'n briodol. Ar y cyfan, mae penderfyniadau a chofnodion achosion yn amserol ac yn gymesur.

- Ar y cyfan, mae ymatebion diogelu yn amserol ac yn gymesur. Mae lle i wella'r broses o goladu a chofnodi tystiolaeth a dadansoddiad o risg. Nid oeddem bob amser yn hyderus bod yr holl ddarnau allweddol o wybodaeth ar gael ar yr adeg gywir er mwyn helpu'r rheolwyr i wneud penderfyniadau da yn gyson. Gall hyn arwain at oedi diangen wrth lunio cynlluniau i blant.

- Mae'r gwasanaeth gwella ansawdd wedi cael budd o fwy o staff a chymorth proffesiynol allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ysgogiad newydd hwn wedi arwain at ddatblygu nifer o bolisïau a gweithdrefnau. Mae angen i rai polisïau a gweithdrefnau fod yn fanylach er mwyn sicrhau eu bod yn sicrhau'r gwelliannau mwyaf posibl. Mae peth tystiolaeth o ddolen adborth rhwng archwilio achos ac ymarfer. Fodd bynnag, nid ydym eto'n hyderus fod systemau archwilio achos a goruchwylio cyfredol yn nodi nac yn gwella'n gyson ymarfer nad yw'n cyrraedd y safonau a ddisgwylir mewn deddfwriaeth.

- Mae gwelliannau o ran goruchwyliaeth rheolwyr ac atebolrwydd proffesiynol ar bob lefel yn parhau i dynnu sylw at achosion lle collwyd cyfleoedd i gefnogi

plant mewn blynyddoedd blaenorol. Mae ymrwymiad cadarn a thystiolaeth uniongyrchol bod yr awdurdod lleol yn mynd ati i ddiwallu anghenion y plant hyn mewn ffordd ragweithiol a systematig. Mae hyn wedi arwain at gynnydd amlwg yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a chynnydd cyfatebol yn llwyth gwaith timau.

- Nid oes digon o leoliadau addas ar gyfer plant. Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau bod opsiynau o ran lleoliadau yn diwallu anghenion penodol plant yn eu cymuned. Clywsom am blant ag anghenion cymhleth sy'n derbyn cymorth arbenigol y tu allan i'r sir, a siarad â nhw. Dywedwyd wrthym y gall y lleoliadau hyn fod yn ddrud iawn a bod angen iddynt gael eu comisiynu'n ofalus a'u monitro'n agos er mwyn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu. Mae'r wasanaeth yn ystyried mesurau penodol wedi ei gynllunio i fynd i'r afael â'r prinder.

- Mae systemau arwain a llywodraethu cryf i'w cael o fewn y cyngor. Gallai aelodau'r cyngor ddangos eu cyfraniad tuag at wella gwasanaethau plant. Dangoswyd eu gwybodaeth am yr heriau allweddol sy'n wynebu'r cyngor a sut maent yn rhyngweithio er mwyn cael effaith ar blant a'u teuluoedd. Mae'r uwch swyddogion yn amlwg, ar gael ac yn gyrru gwelliannau. Mae partneriaid ar y bwrdd diogelu rhanbarthol, Heddlu Gogledd Cymru a chydweithwyr gweithredol yn y Bwrdd Iechyd yn gadarnhaol ynghylch y newidiadau maent wedi eu gweld yn Ynys Môn, gan ddisgrifio diwylliant agored newydd a chydweithio da.

## Meysydd i'w datblygu

### Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

1. Dylid achub i'r eithaf ar y cyfle i roi adborth i'r bobl sy'n gwneud atgyfeiriadau. Mae ffurflen electronig eisoes ar gael a gellid ei defnyddio'n fwy cyson er mwyn gwella'r broses o gyfathrebu â'r bobl sy'n gwneud atgyfeiriadau a gwella enw'r gwasanaeth.

2. Sicrhau bod cronolegau yn cael eu diweddaru'n gyson er mwyn helpu ymarferwyr i gael gafael ar wybodaeth achos berthnasol ac arwyddocaol mewn modd amserol.

### Asesu

3. Sicrhau nad yw'r plentyn unigol yn cael ei golli yn y drafodaeth achos ehangach am amgylchiadau'r teulu. Rhaid canolbwyntio'n fwy ar anghenion a

dymuniadau'r plant unigol, yn ogystal â'r effaith arnynt, a lliniaru'r risg(iau) a wynebir ganddynt.

4. Rhaid i system oruchwylio gadarn ac amserol, o ansawdd da, ac archwiliadau o asesiadau unigol ddod yn fater o drefn o fewn y gwasanaeth er mwyn gyrru gwelliannau i'r gwasanaeth. Rhaid i'r system oruchwylio ac archwiliadau gynnwys myfyrio ar y defnydd o wybodaeth broffesiynol, tystiolaeth a sgiliau gwaith cymdeithasol.

5. Rhaid i'r gwaith o gasglu, cofnodi a dadansoddi tystiolaeth gyrraedd lefel gyson uchel er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus a sicrhau nad yw achosion lle mae plant yn dioddef niwed sylweddol yn cael llithro. Mae angen i'r rheolwyr fod yn hyderus ac yn gefnogol wrth arfarnu dogfennaeth ysgrifenedig anghyflawn neu annigonol mewn ffordd feirniadol.

6. Mae angen i blant allu meithrin cydberthnasau â gweithwyr cymdeithasol maent yn gallu ymddiried ynddynt, ac mae angen lleihau nifer y gweithwyr cymdeithasol y mae'n rhaid i bob plentyn ailadrodd ei stori iddynt. Rhaid i weithwyr cymdeithasol sicrhau bod pob achos o ryngweithio â phlentyn yn cyfrif a gallu dangos tystiolaeth o'u gwaith.

**Gofal a chymorth ac adolygiad**

7. Mae angen gwneud mwy o waith i gefnogi swyddogion diogelu ac adolygu annibynnol er mwyn sicrhau bod ganddynt y gallu a'r hyder i gynnig her effeithiol pan na fydd gwasanaethau yn cyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer plant unigol.

8. Mae angen sicrhau bod pwyslais cynnar yn cael ei roi ar wella cysondeb cysylltiad ac ymgysylltiad y swyddogion hyn â phlant cyn adolygiadau er mwyn sicrhau bod lleisiau'r plant yn cael eu clywed yn glir ac yn effeithiol.

9. Rhaid gwella'r broses o gynllunio gofal ac ymgysylltu â phlant a gofalwyr er mwyn sicrhau bod cynlluniau a lunnir ar y cyd yn gyson. Rhaid i blant a gofalwyr dderbyn y cymorth a gynigir iddynt mewn cynlluniau gofal a chymorth.

10. Parhau i archwilio a phrysuro cyfleoedd presennol i gynyddu nifer yr opsiynau o ran lleoliadau sydd ar gael i blant ar yr ynys, ynghyd â'r amrywiaeth ohonynt. Mae angen i gyfleoedd lleoliadau newydd fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth broffesiynol o anghenion y plant.

11. Datblygu ffyrdd o sicrhau nad yw plant sy'n derbyn gofal dan anfantais oherwydd y pwysau sydd ar staff i ymateb i bryderon diogelu newydd mewn achosion eraill.

**Arwain a llywodraethu**

12. Parhau i ddatblygu dulliau cadarn o sicrhau ansawdd ar draws y gwasanaeth.

13. Annog cydweithio pellach rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau addysg er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael Cynlluniau Addysg Personol amserol sy'n adlewyrchu pwysigrwydd addysg i allu pob plentyn i gyrraedd ei botensial.

14. Sicrhau bod cyfleoedd i gymryd eiliad a myfyrio ar y strwythur newydd gan gynnwys her adeiladol o ran p'un a yw profiad a chanlyniadau plant yn cael eu gwasanaethu orau gan nifer yr arweinwyr ymarfer nad ydynt yn ddeiliaid achos a nifer y newidiadau mewn gweithwyr cymdeithasol a brofir gan bob plentyn.

**Camau nesaf**

15. Ym marn AGC mae gan y cyngor ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w datblygu a nodwyd i'w cynnwys yn ei gynlluniau datblygu.

16. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch ymgysylltu parhaus gyda'r awdurdod lleol. Gall hyn gynnwys adolygiad desg o nifer fach o achosion a archwiliwyd yn yr arolygiad hwn er mwyn tracio cynnydd y plant.

## 1. Trefniadau mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**
Mae'r awdurdod yn gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu, deall, cydlynu, diweddaru a gwneud y defnydd gorau o adnoddau gwybodaeth, cymorth a chyngor sydd ar gael yn eu hardal yn y sectorau statudol, gwirfoddol a phreifat. Gall pawb, gan gynnwys gofalwyr, gael gafael ar wybodaeth gynhwysfawr am wasanaethau a chael cyngor a chymorth yn gyflym, gan gynnwys gwybodaeth am eu cymhwysedd a'r ymateb y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae trefniadau effeithiol ar waith i oedi neu atal yr angen am ofal a chymorth. Mae pobl yn ymwybodol o bwyntiau cyswllt allweddol ac yn gallu eu defnyddio'n hawdd. Mae'r gwasanaeth yn gwrando ar bobl ac yn dechrau gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae trefniadau cyfeirio effeithiol yn rhoi dewis i bobl o ran y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, yn enwedig gwasanaethau ataliol. Mae partneriaid yn deall y trefniadau ar gyfer cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol statudol ac mae'r bobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth yn gweithredu'n effeithiol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

1.1 Mae Teulu Môn, gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Ynys Môn wedi cael budd o fuddsoddiad a datblygiad sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nodwyd bod y gwasanaeth yn cynnig ymatebion cymesur ac amserol 'ar garreg drws' yn gyffredinol. Sefydlwyd Teulu Môn yn sgil uno swyddogaethau gwahanol y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y Tîm o Amgylch y Teulu, a thîm dyletswydd ac asesu'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd.

1.2 Gwelsom dystiolaeth o gynnydd yn nifer y staff o fewn y gwasanaeth, gan gynnwys mwy o arweinwyr ymarfer. Mae'r tri arweinydd ymarfer yn cydweithio o dan un rheolwr gwasanaeth ac yn rhannu rôl gwneud penderfyniadau. Dywedodd y staff wrthym yn gyson fod hyn yn welliant cadarnhaol, a oedd yn eu helpu i gael cyngor amserol a datblygu eu gwaith yn fwy effeithlon.

1.3 Gwnaethom gyfarfod â staff o'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a chlywsom am eu profiad cadarnhaol o amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a gweld lefel glodwiw o gefnogaeth rhwng y naill a'r llall o fewn y tîm. Arsylwyd ar staff yn defnyddio'r sgwrs *"yr hyn sy'n bwysig"* a'r pum cam tuag at gymhwysedd yn unol â chanllawiau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

1.4 Nodwyd gwelliant o ran cofnodi atgyfeiriadau a chasglu tystiolaeth. Clywsom gan staff a ddywedodd fod gweithio gyda'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi helpu gyda gwaith dadansoddi a chyfeirio, am fod gwybodaeth, dealltwriaeth

ymarferol a sgiliau yn cael eu rhannu rhwng y tîm. Clywsom fod y fath gydweithredu yn hwyluso trosglwyddiad prydlon i'r Tîm hwn yn briodol, gan olygu bod modd gwneud gwaith ataliol amserol gyda phlant a theuluoedd.

1.5 Ers symud i Wasanaethau Plant yn ddiweddar o addysg, mae'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi newid ei drothwyon ymyrryd, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth mwy penodol ar gyfer plant a theuluoedd sydd angen cymorth. Dywedodd y rheolwyr wrthym eu bod o'r farn bod hyn yn well defnydd o'r adnoddau sydd ar gael ar yr ynys.

1.6 Nodwyd bod gwell cyfathrebu a chydweithio rhwng gwasanaethau plant ac ysgolion. Dywedodd un pennaeth wrthym fod Teulu Môn yn fwyfwy defnyddiol pan fo angen gwneud atgyfeiriad. Nawr teimla y gall godi'r ffôn a thrafod atgyfeiriadau posibl gyda'r gwasanaeth. Gwelwyd y gwelliant hwn yn dilyn cyflwyniadau gan bennaeth Gwasanaethau Plant i benaethiaid yn eu hannog i atgyfeirio ar sail y ffaith bod gwasanaethau i gefnogi gwaith ataliol bellach ar gael lle mae eu hangen.

1.7 Dywedwyd wrthym y bydd y trothwy cliriach a'r gwelliant mewn cyfathrebu yn darparu gwasanaeth ataliol gwell i blant a'u teuluoedd ar Ynys Môn a all fod yn fwy amharod i ddefnyddio gwasanaethau neu a allai fod wedi bod yn anodd eu cyrraedd. Mae'n rhy gynnar dweud p'un a yw'r lefel hon o dargedu yn briodol i gymryd camau ymyrryd cynnar ac atal plant a'u teuluoedd rhag cyrraedd argyfwng.

1.8 Nododd Arweinydd Ymarfer Teulu Môn sut mae hyrwyddo'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth mewn nosweithiau rhieni a digwyddiadau cymunedol yn darparu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael er mwyn normaleiddio teuluoedd sy'n cael cymorth cyn iddynt gyrraedd argyfwng. Ni fydd effaith hyn yn glir am beth amser.

1.9 Mae dechrau cronolegau yn y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth pan gaiff atgyfeiriadau eu gwneud gyntaf yn ddatblygiad cadarnhaol a all helpu i wneud penderfyniadau amserol a gwybodus yn y dyfodol. Nodwyd nad oedd pob cronoleg yn gyfredol. Gwelsom fod gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod hynny'n digwydd a bod staff yn diweddaru pob un.

1.10 Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn gwella'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth newydd er mwyn galluogi gweithwyr i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth cynhwysfawr i'r cyhoedd. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhan o'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac mae staff wrthi'n rhoi gwybodaeth Ynys Môn yng nghyfeiriadau adnoddau ar-lein DEWIS. Bydd angen adnoddau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn parhau'n gyfredol.

1.11 Roedd yn gadarnhaol gweld y gweithiwr Lles a Cynhwysiad yn cael ei gynnwys fel rhan o'r gwasanaeth, gyda'i rôl yw ymateb i atgyfeiriadau, cyfeirio at wasanaethau cymunedol ac ataliol a mapio ardaloedd lle mae angen. Dylai'r wybodaeth leol sydd gan y gweithiwr hwn wneud cyfraniad defnyddiol at yr asesiad o anghenion y boblogaeth.

1.12 Mae'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn rhan annatod o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Clywsom staff yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg am yn ail yn rheolaidd, a hynny i safon uchel.

## 2. Asesu

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**

Mae pawb sydd â'r hawl i gael asesiad o'u hanghenion gofal a chymorth yn cael asesiad yn eu hiaith ddewisol. Mae pob gofalwr sy'n ymddangos fel pe bai ganddo anghenion cymorth yn cael cynnig asesiad o anghenion, ni waeth pa fath o ofal a ddarperir, ei sefyllfa ariannol na'r lefel o gymorth a all fod ei hangen. Caiff anghenion pobl eu hasesu'n amserol sy'n hybu eu hannibyniaeth a'u gallu i wneud dewsiadau. Mae asesiadau'n ystyried canlyniadau personol a barn, dymuniadau a theimladau'r person sy'n cael ei asesu a phobl eraill berthnasol, gan gynnwys y rheini sydd â chyfrifoldeb rhieni. Gwneir hyn i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol ac yn hybu eu llesiant a'u diogelwch eu hunain a llesiant a diogelwch pobl eraill. Mae asesiadau'n rhoi dealltwriaeth glir o'r hyn fydd yn digwydd nesaf ac yn arwain at gynllun sy'n berthnasol i'r anghenion a nodir. Caiff camau gweithredu a argymhellir, a gynlluniwyd i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl, eu nodi ac maent yn cynnwys yr holl gamau a all gael eu cymryd drwy wasanaethau cymunedol neu ataliol yn ogystal â gwasanaethau arbenigol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

2.1 Dywedwyd wrthym, a gwelodd yr arolygwyr, y ffordd roedd yr ailstrwythuro a ddigwyddodd ym mis Hydref 2017 yn cael effaith gadarnhaol ar ymarfer. Dywedodd y staff wrthym fod y trefniadau Grŵp Ymarfer newydd ag arweinwyr ymarfer yn welliant cadarnhaol. Dywedwyd wrthym eu bod yn gwerthfawrogi eistedd yn yr un ystafell â'u harweinwyr ymarfer a bod hyn yn ei gwneud hi'n haws cael gafael ar gymorth nawr bod y rheolwyr yn llawer mwy amlwg.

2.2 Ceir ystod eang o sgiliau ymhlith gweithwyr cymdeithasol y cyngor. Hefyd mae cymysgedd o weithwyr profiadol, gweithwyr sydd newydd gymhwyso a gweithwyr asiantaeth. Nodwyd dystiolaeth mewn ffeiliau goruchwylio o staff yn dweud bod llwythi achos yn rhy uchel. Gwnaethom hefyd siarad â staff a ddywedodd wrthym eu bod yn cael lefel dda o gefnogaeth a bod eu llwythi achos yn dderbyniol.

2.3 Gwelsom fod gan lawer o blant fwy nag un gweithiwr cymdeithasol a dywedwyd wrthym fod achosion cymhleth yn cael eu rhannu ag arweinwyr ymarfer, ac y gallai'r gweithiwr cymdeithasol o'r Tîm Teuluoedd Gwydn fod yn gweithio gyda'r plentyn hefyd. Am y rheswm hwn roedd yn anodd i'r arolygwyr ddweud p'un a oedd y llwythi achos yn briodol ai peidio. Bydd yr uwch reolwyr am ystyried pryderon a godwyd gan weithwyr a chymryd camau i ymateb i'r staff.

2.4 Gwnaethom glywed am ymdrechion positif yr uwch reolwyr i wella ymarfer ac atebolrwydd proffesiynol ar bob lefel, a gwelsom hynny. Rydym yn ymwybodol

bod hyn yn heriol i rai aelodau o staff, tra bod llawer wedi dweud wrthym eu bod wedi gweld y cymorth ychwanegol a'r cefnogaeth i wella ddefnyddiol.

2.5 Mae cynnwys 'tîm etifeddiaeth' fel rhan o'r ailstrwythuro wedi hwyluso ffocws penodol ar achosion lle bu 'llithro' sylweddol. Gwelsom sawl achos lle mae'r tîm hwn wedi canolbwyntio o'r newydd ar blant penodol ac yn cymryd camau i sicrhau bod plant yn cael y cymorth y dylent fod wedi gallu cael budd ohono mewn blynyddoedd blaenorol. Gwelsom fod y gwaith hwn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r plant yn eithaf cyflym.

2.6 Roedd ansawdd yr asesiadau'n anghyson, gan amrywio o fod yn dda iawn i rhai fod angen gwella. Yn yr enghreifftiau gorau gwelsom dystiolaeth o ansawdd uchel wedi'i chyflwyno'n dda gyda dadansoddiad parhaus. Roedd enghreifftiau da iawn yn cyflwyno darlun clir o'r plentyn a dealltwriaeth o'r hyn sy'n bwysig iddynt, gan nodi'r risgiau a'r cryfderau.

2.7 Roedd yr asesiadau a'r cynlluniau da iawn hyn mewn gwrthgyferbyniad mawr ag eraill lle cynhaliwyd ymweliadau statudol â phlant gan weithwyr nad oeddent wedi cyfarfod â'r plentyn yn flaenorol, ac nid oedd y recordiad dilynol yn ychwanegu fawr ddim, os o gwbl, at ddealltwriaeth yr wasanaeth o bryderon uniongyrchol y plentyn na'i uchelgeisiau at y dyfodol.

2.8 Ni welom gydberthynas rhwng ansawdd y gwaith ysgrifenedig a phrofiad y gweithiwr. Gwelsom rai asesiadau da iawn a ysgrifennwyd gan Weithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso.

2.9 Ni waeth beth oedd profiad yr unigolyn na'i gyfnod o wasanaeth, ni welsom fod ansawdd y recordiad na'r dadansoddiad proffesiynol yn cael eu herio'n ddigon cyson i sicrhau nad oedd profiadau blaenorol yn cael eu hailadrodd.

2.10 Gwelsom rai enghreifftiau o waith uniongyrchol da gyda'r plant, lle canolbwyntiwyd ar sicrhau eu bod yn gallu mynegi eu pryderon a bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Gwnaethom hefyd archwilio achosion lle nad oedd digon o dystiolaeth o geisio na chlywed lleisiau'r plant. Roedd hyn yn arbennig o wir lle roedd brodyr a chwiorydd neu deuluoedd wedi'u cysylltu drwy briodas neu gydberthnasau cymhleth. Nid oedd hyn yn dderbyniol.

2.11 Ar adegau fel hyn gwelsom achosion lle'r oedd y plentyn mewn perygl o gael ei golli yn y drafodaeth eang oedd yn cael ei chynnal o'i gwmpas. Roedd hyn yn cynnwys asesiadau lle mai dim ond unwaith neu ddwy y cyfeiriwyd at y plentyn mewn nodiadau yn ei ffeil achos ei hun. Eglurwyd mai natur a strwythur y ffurflenni rhanbarthol oedd yn gyfrifol am hyn. Ni waeth beth fo'r rheswm nid oedd hyn yn dderbyniol i'r arolygwyr.

2.12 Gwnaethom siarad â phlant a gofalwyr maeth ac yn y nodiadau achos gwelsom sut roeddent wedi cael sawl gweithiwr cymdeithasol gwahanol. Hefyd gwelsom fod sawl gweithiwr cymdeithasol ynghlwm wrth yr un achosion. Efallai fod hyn o ganlyniad anuniongyrchol i'r Grŵpiau Ymarfer yn y strwythur newydd. Nododd rhai o'r plant fod hyn yn peri dryswch iddynt ac nid oeddent yn siŵr â phwy y dylent siarad os oedd pethau yn mynd o chwith. Gofynnodd un plentyn i'r arolygwyr “beth yw'r pwynt o gael gweithiwr cymdeithasol a enwir os na fyddaf byth yn eu gweld nhw a bod pobl eraill yn dal i droi i fyny yn lle hynny ".

2.13 Wrth drafod â'r gweithwyr cymdeithasol, roedd yn amlwg eu bod yn canolbwyntio ar y plant ond nid oedd y cofnodion ysgrifenedig bob amser yn nodi ansawdd y gwaith cadarnhaol, gan gynnwys gwaith uniongyrchol gyda'r plant fel rhan o'r asesiadau.

## 3. Gofal a chymorth ac adolygiad

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**
Mae pobl yn cael gofal, cefnogaeth, help a diogelwch amlasiantaethol amserol ac effeithiol lle bo hynny'n briodol. Caiff pobl sy'n defnyddio gwasanaethau eu cefnogi gan gynlluniau gofal a chymorth sy'n hybu eu hannibyniaeth, eu dewis a'u llesiant, yn helpu i'w cadw'n ddiogel ac yn adlewyrchu'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Caiff pobl eu helpu i ddatblygu eu galluoedd a goresgyn rhwystrau i gynhwysiant cymdeithasol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

3.1 Mae gan yr awdurdod lleol le i wella ymhellach er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael cynllun gofal a chymorth amserol fel sy'n ofynnol yng nghanllawiau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Nodwyd bod ansawdd y cynlluniau'n amrywio. Dywed staff eu bod yn ei chael hi'n anodd ymdrin â'r ddogfennaeth cynllunio gofal sydd wedi'i datblygu'n rhanbarthol, yn sgil cyflwyno'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Dywedwyd wrth yr arolygwyr fod gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r ffurflenni a'r system TG newydd.

3.2 Mae'r cyngor yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i leoliadau sy'n diwallu anghenion unigol y plant. Mae hyn wedi arwain at roi lleoliadau y tu allan i'r sir i rai plant, ac mae rhai wedi'u rhoi mewn lleoliadau 'ffit gorau' yn hytrach na lleoliad o'u dewis. Gwelsom blant yn cael eu rhoi gyda'u rhieni eu hunain am nad oedd lleoliad amgen ar gael, sydd wedyn yn gofyn am gymorth dwys er mwyn rheoli'r risgiau.

3.3 Mae angen atgyfnerthu'r ymgysylltu a'r gwaith uniongyrchol gyda phlant er mwyn eu galluogi i feithrin gwell dealltwriaeth o'u cynlluniau gofal. Hefyd mae angen gwella'r ymgysylltu â phlant ar lefel fwy strategol. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda sefydliad cenedlaethol er mwyn helpu i ddatblygu'r gwaith hwn, a sicrhau bod y gwasanaeth yn cael budd o ddysgu'n uniongyrchol gan y plant sy'n dibynnu ar wasanaethau.

3.4 Nodwyd bod y Tîm Teuluoedd Gwydn yn glir o ran ei gylch gwaith ac yn hyderus o ran ei allu. Gallai'r tîm ddangos y gwaith manwl uniongyrchol roedd wedi'i wneud gyda phlant a theuluoedd ac roedd ganddo enghreifftiau da o'r 'llythyrau myfyriol' a ddefnyddiwyd fel dull o ymgysylltu â phlant a'u rhieni.

3.5 Mae'r awdurdod lleol wedi datblygu dull mwy cadarn o gynllunio parhad ar gyfer achosion sydd wedi 'llithro' fel y nodwyd yn arolygiad blaenorol AGC. Cafodd y tîm etifeddiaeth ei gyflwyno yn ystod yr ailstrwythuro ym mis Hydref 2017 er mwyn canolbwyntio o'r newydd ar blant lle goddefwyd esgeulustod hirdymor

sy'n annerbyniol. Gwelsom dystiolaeth o fireinio gwaith cynllunio, gwella'r broses o reoli achosion a goruchwyliaeth gan reolwyr, gan gynnwys trefniadau panel. Roedd yr ymyriadau hyn yn arwain at waith cynllunio mwy cadarn a thymor hwy ar gyfer plant.

3.6 Mae'r rheolwyr yn derbyn, er bod y rhan fwyaf o achosion o'r fath wedi'u nodi bellach, y gall fod eraill lle mae oedi annerbyniol ac mae angen eu nodi cyn gynted â phosibl.

3.7 Nodwyd cyllid er mwyn penodi cyfreithiwr ychwanegol i gynyddu'r cyngor cyfreithiol sydd ar gael i dimau ac mae'r swydd hon yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. Dylai hyn gynyddu'r cymorth amserol sydd ar gael i weithwyr cymdeithasol a gwella canlyniadau i'r plant yn uniongyrchol.

3.8 Dangosodd yr awdurdod lleol ei fod yn ymrwymedig i ddychwelyd plant a phobl ifanc i'w cartrefi yn llwyddiannus lle mai hyn oedd orau. Roedd trefniadau ar waith i gefnogi isgyfeirio ac uwchgyfeirio achosion lle'r oedd yn ddiogel gwneud hynny. Roedd y gweithwyr yn cydnabod pwysigrwydd bond y rhieni a'r plant ac roeddent yn rhagweithiol wrth gynnig cyfleoedd i'r plant aros gyda'u rhieni a chynnig cymorth sylweddol.

3.9 Dylai'r broses adolygu ganolbwyntio ar y plentyn gydag unrhyw her o ran ei hawliau yn cael ei huwchgyfeirio lle bo'n briodol. Gwelsom bolisi newydd sy'n cael ei ddatblygu er mwyn cynorthwyo Swyddogion Diogelu Adolygu Annibynnol i uwchgyfeirio pryderon. Bydd cyflwyno'r cymorth hwn yn llwyddiannus, ynghyd â mathau eraill o gymorth, i Swyddogion Adolygu Annibynnol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ganddynt yr hyder a'r gallu i fonitro perfformiad yr awdurdod lleol fel rhiant corfforaethol.

3.10 Mae adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau ar y cyfan. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu trefniadau adolygu a chynnig cyfleoedd cyson i'r plant gyfarfod â'r swyddog adolygu cyn adolygiad. Byddai hyn yn cynnig y cyfle i ystyried dymuniadau'r plentyn o ran sut a ble y cynhelir yr adolygiad, a chanlyniadau dymunol y plentyn.

3.11 Gwelsom achosion lle cynlluniwyd gwaith stori bywyd ond ni ddigwyddodd. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol wrthym nad yw'r gwaith hwn yn cael blaenoriaeth oherwydd y gofynion croes o ran eu llwyth achos. Mae bylchau yn y math hwn o waith, a'r cyfleoedd prin i gyfarfod â Swyddogion Diogelu Adolygu Annibynnol, yn golygu nad achubir i'r eithaf ar gyfleoedd i glywed lleisiau'r plant na gwneud synnwyr o'u straeon. Clywsom beth tystiolaeth gan blant a rhieni lle clywyd eu lleisiau, ac fe'u cofnodwyd mewn asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth, ond ni wnaeth y camau gweithredu cysylltiedig gan ymarferwyr

ddwyn ffrwyth. Ni chafodd unigolion yr ymateb roeddent yn teimlo roedd ei angen ac roeddent yn ei ddisgwyl.

3.12 Dathlwyd plant oedd wedi derbyn gofal ac wedi mynd ymlaen i addysg uwch neu yrfa o'u dewis, gyda disgwyliad clir mai dyma ddylai fod yn uchelgais i bob plentyn sy'n derbyn gofal. Nodwyd nad oedd Cynlluniau Addysg Personol bob amser ar waith nac yn gyfredol yn achos pob plentyn. Dywedodd rhai o'r rheolwyr wrthym eu bod eisoes yn ymwybodol o hyn ac yn deall pwysigrwydd sicrhau yr aed i'r afael ag ef.

3.13 Caiff gwasanaethau eirioli eu comisiynu i blant ar Ynys Môn gan yr awdurdod lleol ond mae'r defnydd ohonynt yn anghyson. Mae angen gwneud mwy o waith er mwyn sicrhau bod gweithwyr a phlant yn ymwybodol o'r cyfle i gael cymorth a sut i gael gafael ar y gwasanaeth. Cawsom wybod gan y gwasanaeth eirioli ei fod yn hyderus y cawsai camau eu cymryd gan yr awdurdod lleol i wella dealltwriaeth y gweithlu o'r gofyniad i gynnig eiriolaeth mewn rhai achosion.

## 4. Diogelu

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**
Mae strategaethau diogelu lleol effeithiol yn cyfuno elfennau ataliol ac amddiffynnol. Lle bo pobl yn cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio, neu'n wynebu risg o hynny, maent yn derbyn ymatebion amlasiantaeth brys a gaiff eu cydlynu'n dda. Mae camau gweithredu sy'n deillio o gynlluniau diogelwch neu reoli risg yn llwyddo i leihau risgiau gwirioneddol neu bosibl. Ni chaiff pobl eu gadael mewn amgylcheddau anniogel na pheryglus. Caiff polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn eu deall a'u gwreiddio'n dda ac maent yn helpu i sicrhau ymateb amserol a chymesur i bryderon sy'n dod i'r amlwg. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn noddi diwylliant dysgu lle gellir ystyried newid perfformiad proffesiynol ac ymddygiad asiantaethau a'u gwella mewn ffordd agored ac adeiladol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

4.1 Roedd diogelu plant yn cael ei flaenoriaethu o fewn yr adran. Ar y cyfan gwelsom weithwyr cymwys a oedd yn cael eu cefnogi, a ddarparai ymatebion amserol a chymesur.

4.2 Yn ddiweddar, roedd yr awdurdod lleol wedi ail-gyflwyno model rheoli risg newydd er mwyn diogelu plant, yn seiliedig ar fodel Bruce Thornton. Mae hyfforddiant, gan gynnwys sesiynau mentora a hyfforddi ar gyfer staff unigol, wedi cyd-fynd â'r dull newydd o weithredu a dywedodd y staff wrthym ei fod yn welliant cadarnhaol i'w hymarfer.

4.3 Gwelsom fod y ddogfennaeth risg newydd wedi'i chwblhau ar sawl achlysur. Nodwyd nad oedd rhai asesiadau yn ddigon manwl o ran tystiolaeth ac mai prin y dadansoddwyd y risgiau. Gwelsom fod cyfleoedd yn cael eu colli i gwblhau asesiadau o gyflwr y cartref. Byddai asesiadau mwy cyflawn, o ansawdd gwell, yn helpu i wneud penderfyniadau ynghylch risg.

4.4 Dywedodd y rheolwyr wrthym am y gwaith cadarnhaol roeddent yn ei wneud ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant a phrofiadau niweidiol mewn plentyndod. Gwnaethom hefyd siarad â Heddlu Gogledd Cymru, aelodau o Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru a staff gweithredol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd pawb yn gadarnhaol iawn am y cydberthnasau gwaith agored newydd â Chyngor Sir Ynys Môn a'r cydweithio a welwyd. Gallai pawb ddisgrifio gwahanol waith achos a fu'n llwyddiannus oherwydd gwell cydweithio. Gwelsom dystiolaeth o gydweithio yn yr achosion a archwiliwyd gennym.

4.5 Soniodd yr un partneriaid am ddatblygiad polisi uwchgyfeirio anghydfod sydd yn cael ei ddefnyddio gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Mae

wedi cael ei ddefnyddio yn llwyddiannus ym Ynys Môn ac wedi cyflawni canlyniad cadarnhaol i'r plentyn a'r asiantaethau dan sylw.

4.6 Clywsom fod mwy o waith i'w wneud i wella ansawdd atgyfeiriadau gan bartneriaid i wasanaethau plant. Mae hyfforddiant ar y cyd yn cael ei gynllunio er mwyn sicrhau bod digon o wybodaeth briodol ar gael i alluogi gweithwyr cymdeithasol i wneud penderfyniadau gwybodus a diogelu plant.

## 5. Arwain, rheoli a llywodraethu

**Yr hyn rydym yn disgwyl ei weld**
Mae trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu'n cydymffurfio â chanllawiau statudol ac, ar y cyd, yn sefydlu strategaeth effeithiol i ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau o ansawdd da i bobl. Mae diwallu anghenion pobl am wasanaethau o ansawdd yn ffocws clir i gynghorwyr, rheolwyr a staff. Caiff gwasanaethau eu harwain yn dda, ceir cyfeiriad clir a chaiff newid ei arwain mewn ffordd gadarn. Mae rolau a chyfrifoldebau ym mhob rhan o'r sefydliad yn glir. Mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i roi help, gofal a chefnogaeth i bobl a chyflawni ei gyfrifoldebau rhianta corfforaethol. Caiff pobl leol eu cynnwys yn effeithiol. Mae gan arweinwyr, rheolwyr ac aelodau etholedig wybodaeth a dealltwriaeth ddigonol o ymarfer a pherfformiad i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol.

**Crynodeb o'r canfyddiadau**

5.1 Gallai arweinwyr a rheolwyr y cyngor ddangos dealltwriaeth dda o'r angen i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymuned, ynghyd ag ymrwymiad cryf i wneud hynny. Gallent egluro heriau presennol a chynyddol allweddol yn eu cymunedau a'r cyfleoedd a'r heriau a gyflwynir gan ddeddfwriaeth gofal cymdeithasol.

5.2 Roedd gan yr Aelodau Etholedig ddealltwriaeth glir o'u rôl a, chyda swyddogion, maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau fel Rhieni Corfforaethol. Roedd yr aelodau yr un mor eglur ynghylch yr angen am atebolrwydd ar bob lefel a phwysigrwydd systemau a phrosesau sicrhau ansawdd a all nodi unrhyw ddirywiad mewn perfformiad neu gyfleoedd a gollwyd, a chefnogi gwelliant cyn i'r sefyllfa waethygu.

5.3 Mae gwasanaethau plant yn cael budd o uwch dîm rheoli parhaol a sefydlog sydd ag ystod eang o brofiad a gwybodaeth. Drwy grwpiau ffocws a holiaduron dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr, a dywedodd llawer wrthym pa mor falch oeddent gyda'r newidiadau yn y gwasanaeth a sut roeddent yn mwynhau bod yn rhan o ddiwylliant cadarnhaol â chyfeiriad clir.

5.4 Dangosodd y prif aelod a'r aelodau etholedig eraill ddealltwriaeth dda o'r agenda ataliol sy'n rhan gynhenid o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac ymrwymiad i gefnogi plant a'u teuluoedd i fod yn wydn. Clywsom am gardiau aelodaeth hamdden am ddim a chyfleoedd ymarferol eraill oedd yn cael eu datblygu'n gorfforaethol er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Gallai'r aelodau egluro a phwyso a mesur eu pryderon am

ganlyniadau anfwriadol llai o gyllid mewn rhai meysydd yn effeithio ar fywydau'r plant, a'r gwaith da a wneir gan y Tîm Teuluoedd Gwydn er mwyn cadw teuluoedd gyda'i gilydd.

5.5 Awgrymodd yr aelodau eu bod yn cefnogi cydweithio rhwng gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant. Mynegwyd rhai aelodau pryder ynghylch plant nad ydynt yn mynychu'r ysgol, sy'n absennol ac a all fod wedi mynd 'ar goll' yn y system. Cydnabuwyd bod hwn yn faes a allai gael budd o fwy o waith.

5.6 Dangosodd yr aelodau ymrwymiad i wella gwasanaethau ar gyfer plant drwy gytuno ar gylch gorchwyl y Panel Gwella Plant cyn yr etholiad diwethaf yn syth ar ôl arolygiad diwethaf AGC. Mae'r panel gwella wedi parhau i gyfarfod yn fisol a noda'r aelodau eu bod yn fwy hyderus a bod y panel yn gynhyrchiol, gan roi cipolwg iddynt ar hynt y gwasanaeth.

5.7 Mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn cydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud gan yr awdurdod lleol ac maent yn amlwg yn deall yr angen i barhau i wella er mwyn cyrraedd sefyllfa lle mae gwasanaethau plant yn gyson dda, ni chaiff achosion lithro, a lle mae pob plentyn yn cael ei ddiogelu rhag cael ei gam-drin.

5.8 Cydnabyddir y nifer gynyddol o blant sy'n derbyn gofal ac mae cynlluniau yn cael eu llunio i ddatblygu gwasanaeth gadael gofal er mwyn bodloni'r galw cynyddol. O ystyried y nifer gynyddol o blant fydd yn gadael gofal dros y blynyddoedd i ddod, mae angen i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ar fyrder er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi yn ystod cyfnod o newid a all fod yn anodd.

5.9 Mae nifer o ddogfennau allweddol sydd wedi cael eu datblygu o'r newydd neu eu hadolygu gan gynnwys: strategaeth y gweithlu, fframwaith perfformiad safonau ymarfer, strategaeth atal a pholisi goruchwylio. Nodwyd y gallai rhai o'r polisïau gael budd o fwy o waith. Fodd bynnag, gallent gyfrannu at sicrhau gwelliannau o'u gweithredu, eu cefnogi a'u trosi'n arfer dyddiol.

5.10 Ar y cyfan, roedd y staff yn gadarnhaol ac yn frwdfrydig am eu profiad o weithio i'r awdurdod lleol. Dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr gweladwy, hawdd mynd atynt, a'u bod yn gallu codi pryderon yn ôl y gofyn. Roeddent yn ymwybodol o'r amrywiaeth o ddogfennaeth newydd ac er eu bod yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith ar rai, yn enwedig y polisi goruchwylio, gwnaethant eu croesawu fel camau cadarnhaol ar daith wella.

5.11 Erys heriau o ran recriwtio gweithwyr cymdeithasol profiadol a dibynnu ar staff asiantaeth. Er bod nifer y staff asiantaeth yn lleihau â'r sefyllfa yn gwella, mae'r newidiadau cyson o ran staff yn arwain at ganlyniadau gwael i'r plant.

Dywedwyd wrth yr arolygwyr am gynlluniau recriwtio a'r cysylltiadau cadarnhaol â Phrifysgol Bangor, sy'n cefnogi'r awdurdod lleol o ran denu gweithwyr cymdeithasol o ansawdd uchel sydd newydd gymhwyso. Cawsom wybod hefyd am fentrau newydd i ddatblygu gweithwyr cymdeithasol yr awdurdod lleol ei hun. Gyda'i gilydd, disgwylir i'r prosiectau hyn ddatrys y prinder gweithwyr cymdeithasol yn yr ardal awdurdod lleol.

5.12 Nodwyd bod ansawdd y gwaith o archwilio achosion yn anghyson. Ar adegau canolbwyntiwyd ar lynu wrth ddyddiadau allweddol yn hytrach nag ansawdd y gwaith na'r canlyniad i'r plentyn. Hefyd gwelsom archwiliadau lle na nodwyd diffygion mewn achosion, er enghraifft roedd un achos wedi cael ei gau gyda'r gwaith heb ei gwblhau. Prin iawn oedd y sylwadau ar ansawdd y dystiolaeth neu ymarfer proffesiynol.

5.13 Rydym yn ymwybodol o ymdrechion yr uwch reolwyr i wella'r broses oruchwylio ac rydym yn ymwybodol o bolisi goruchwylio diwygiedig. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd a bod y rheolwyr yn gefnogol iawn. Yn yr achosion a welsom roedd ansawdd y gwaith goruchwylio yn amrywio ac un ffeil yn rhy negyddol. Ni allem fod yn hyderus bod yr holl waith goruchwylio yn effeithiol wrth wella ymarfer neu hyder gweithwyr cymdeithasol.

## 6. Methodoleg

### Gwaith maes

Cynhaliwyd 10 diwrnod o weithgarwch gwaith maes.

Gwnaethom ddewis ffeiliau achos i'w holrhain a'u hadolygu o sampl o achosion. Adolygwyd cyfanswm o 48 o ffeiliau; o'r rhain, cynhaliwyd cyfweliadau olrhain dilynol â gweithwyr cymdeithasol ac aelodau teulu yn achos 18 ohonynt a chynhaliwyd grŵp ffocws olrhain mewn perthynas â rhai ohonynt a oedd yn cynnwys partneriaid amlasiantaeth.

Gwnaethom gyfweld â phlant, rhieni a pherthnasau.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o gyflogeion yr awdurdod lleol, aelodau, uwch swyddogion, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Prif Weithredwr.

Gwnaethom gyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner yn cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector.

Gwnaethom adolygu sampl o 9 ffeil goruchwylio staff.

Gwnaethom adolygu 74 o ganlyniadau arolwg staff.

Gwnaethom adolygu dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar sampl o'r cwynion a wnaed am wasanaethau plant.

### Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i'r bobl ganlynol a wnaeth roi o'u hamser a chyfrannu at yr arolygiad hwn; plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, staff, rheolwyr ac aelodau a sefydliadau partner.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 28 Ionawr 2019 |
| **Pwnc:** | Adroddiad ar Arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | Elin Williams, Rheolwr Rhaglen Trawsnewid y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>01248 751813<br>ElinWilliams@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Mae'n berthnasol i bob Aelod |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**Cefndir**

Yn ystod mis Hydref 2018, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ail arolygiad manwl o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Cynhaliwyd yr ail arolygiad hwn yn dilyn arolygiad a gynhaliwyd yn ystod mis Tachwedd 2016 a ddaru arwain i AGC gael "pryderon sylweddol" am y gwasanaethau darparwyd i blant yn Ynys Môn.

Yn dilyn arolygiad 2016, aeth Cyngor Sir Ynys Môn ati ar unwaith i weithredu Cynllun Gwella Gwasanaeth (CGC) 3 blynedd a gafodd ei fonitro'n agos gan AGC. Gwnaed nifer o newidiadau yn ystod y daith tuag at welliant, gan gynnwys sefydlu Panel Gwella'r Gwasanaethau Plant sydd wedi bob yn cyfarfod yn fisol ac sy'n cynnwys Aelodau Etholedig yn ogystal ag Uwch Swyddogion yn y Cyngor. Mae'r Uwch Dîm Rheoli Gwasanaethau Plant a Theuluoedd hefyd wedi cael ei gryfhau ac mae'r gwasanaeth wedi cael ei hailstrwythuro. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i recriwtio a dal gafael mewn staff yn ystod y cyfnod hwn gyda hynny yn ei dro wedi cynyddu'r capasiti o ran staffio. Mae gan y gwasanaeth bellach Fframwaith Sicrwydd Ansawdd mewn lle; Fframwaith Perfformiad mewn lle; model risg ac mae Polisi Goruchwyliaeth newydd wedi cael ei weithredu. Mae rheolwyr â throsolwg cryfach ac mae'r gwasanaeth wedi gweithio gyda phartneriaid i wella'r trefniadau cydweithio. Bu Tîm Cymorth Annibynnol yn cefnogi'r gwasanaeth i wneud y gwelliannau yn ystod y cyfnod hwn.

Bu i'r Cynllun Gwella Gwasanaeth ymgorffori'r 14 o argymhellion gwnaed gan AGC yn Mawrth 2017. Ar y cychwyn roedd 21 o flaenoriaethau yn Goch yn y CGC ym mis Chwefror 2017, ac mae pob un wedi cael eu gyrru ymlaen, ac erbyn hyn, nid oes yr un ohonynt yn Goch. Mae'r 21 blaenoriaeth wedi symud ymlaen i 13 yn Wyrdd (wedi cwblhau); 6 yn Felyn (ar y trywydd iawn) a 2 yn Ambr (mwy o waith i'w wneud):

| CAMG | Chwefror 2017 | Mai 2018 | Medi 2018 | Tachwedd 2018 |
|---|---|---|---|---|
| Coch | 21 | 0 | 0 | 0 |
| Ambr | 0 | 5 | 3 | 2 |
| Melyn | 0 | 10 | 8 | 6 |
| Gwyrdd | 0 | 6 | 10 | 13 |

**Ailarolygiad o Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Hydref 2018**

Roedd yr ailarolygiad hwn yn canolbwyntio ar y ffordd y caiff teuluoedd eu grymuso i gael gafael ar wasanaethau gofal a chymorth ac ar ansawdd y canlyniadau a gyflawnir i blant y mae angen help, gofal a chymorth a/neu amddiffyniad arnynt.

Fe aeth AGC ati i werthuso ansawdd yr ymarfer, y prosesau gwneud penderfyniadau a'r gwaith amlasiantaeth gan gynnal ffocws clir ar effaith y gwasanaethau ar blant a theuluoedd, mewn perthynas â'r canlynol:

- cael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys darparu gwasanaethau atal/cymorth cynnar
- asesu;
- diogelu;
- cynllunio/adolygu gofal a chymorth

Ac

- ansawdd y trefniadau arwain, rheoli a llywodraethu sydd ar waith ac sy'n datblygu ac yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd.

Mae’r adroddiad ar arolygiad mis Hydref 2018, a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2018, yn dwyn sylw at y *gwelliant sylweddol* a wnaed gan y Cyngor yn ystod y 2 flynedd flaenorol ac fe groesawyd yr adroddiad hwn. Roedd yr adroddiad yn gyson ar hunan-asesiad y gwasanaeth a gyflwynwyd i AGC cyn yr arolygiad ac fe’i adlewyrchir hefyd y meysydd wedi eu nodi yn y CGC fel gwaith sy’n parhau i fod angen sylw, h.y. materion sy’n ambr ac yn felyn yn y CGC.

Mae’r adroddiad yn nodi gwelliannau sy’n cynnwys:

- *Mae morâl y staff yn uchel ac mae brwdfrydedd ac ymroddiad ar bob lefel i barhau i weithio'n galed er mwyn gwella a darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'r plant;*

- *Mae'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) wedi gwella'n sylweddol ers ein harolygiad diwethaf ac mae bellach yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae nifer y staff wedi cynyddu o fewn y gwasanaeth a chaiff sgyrsiau 'yr hyn sy'n bwysig' eu cynnal yn fwyfwy hyderus a llwyddiannus. Dechreuir cronolegau fel mater o drefn ar y cam cynnar hwn a chaiff atgyfeiriadau*

*eu trosglwyddo i dimau eraill fel y bo'n briodol. Ar y cyfan, mae penderfyniadau a chofnodion achosion yn amserol ac yn gymesur;*

- *Mae'r gwasanaeth gwella ansawdd wedi cael budd o fwy o staff a chymorth proffesiynol allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r ysgogiad newydd hwn wedi arwain at ddatblygu nifer o bolisïau a gweithdrefnau*;

- *Mae gwelliannau o ran goruchwyliaeth rheolwyr ac atebolrwydd proffesiynol ar bob lefel yn parhau i dynnu sylw at achosion lle collwyd cyfleoedd i gefnogi plant mewn blynyddoedd blaenorol. Mae ymrwymiad cadarn a thystiolaeth uniongyrchol bod yr awdurdod lleol yn mynd ati i ddiwallu anghenion y plant hyn mewn ffordd ragweithiol a systematig;*

- *Mae systemau arwain a llywodraethu cryf yn CSYM. Gallai aelodau'r cyngor ddangos eu cyfraniad tuag at wella gwasanaethau plant. Dangoswyd eu gwybodaeth am yr heriau allweddol sy'n wynebu'r cyngor a sut maent yn rhyngweithio er mwyn cael effaith ar blant a'u teuluoedd. Mae'r uwch swyddogion yn amlwg, ar gael ac yn gyrru gwelliannau. Mae partneriaid ar y bwrdd diogelu rhanbarthol, Heddlu Gogledd Cymru a chydweithwyr gweithredol yn y Bwrdd Iechyd yn gadarnhaol ynghylch y newidiadau maent wedi eu gweld yn Ynys Môn, gan ddisgrifio diwylliant agored newydd a chydweithio da.*

**<u>Meysydd i'w Datblygu</u>**

Mae'r adroddiad yn nodi 14 o feysydd y mae angen eu datblygu. Mae'r tabl isod yn nodi'r hyn y mae'r gwasanaeth yn eu wneud ynghylch pob un ohonynt. Fel y soniwyd uchod, nid yw'r un o'r meysydd a nodir isod yn 'newydd' i'r gwasanaeth oherwydd teimlir ein bod nid yn unig yn adnabod y gwasanaeth yn dda fel y mae rŵan ond bod gennym hefyd weledigaeth glir a chadarn o ble y dylai fod:

| Rhif | Maes ar gyfer ei ddatblygu | Sefyllfa'r Gwasanaeth | CAMG |
|---|---|---|---|
| 1 | **Trefniadau Mynediad: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**<br><br>Dylid achub i'r eithaf ar y cyfle i roi adborth i'r bobl sy'n gwneud atgyfeiriadau. Mae ffurflen electronig eisoes ar gael a gellid ei defnyddio'n fwy cyson er mwyn gwella'r broses o gyfathrebu â'r bobl sy'n gwneud atgyfeiriadau a gwella enw'r gwasanaeth. | Mae Teulu Môn *wedi cael budd o fuddsoddiad a datblygiad sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf* a'n bod *wedi nodi bod y gwasanaeth yn cynnig ymatebion cymesur ac amserol 'ar garreg drws' yn gyffredinol*. Mae'r gwasanaeth yn cytuno â hyn a bydd yn parhau i ddatblygu Teulu Môn ymhellach. Rydym eisoes wedi creu swyddogaeth ychwanegol yn WCCIS ac wedi ychwanegu capasiti at Teulu Môn i sicrhau bod yr holl atgyfeirwyr perthnasol yn cael adborth. | (gwyrdd) |
| 2 | **Trefniadau Mynediad:** | Nid yw'r holl gronolegau'n gyfredol, ond | (melyn) |

CC-016749-LB/229501

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**<br><br>Sicrhau bod cronolegau yn cael eu diweddaru'n gyson er mwyn helpu ymarferwyr i gael gafael ar wybodaeth achos berthnasol ac arwyddocaol mewn modd amserol. | rydym yn gweithio i sicrhau y bydd yr holl gronolegau'n cael eu diweddaru'n gyson. Bydd hyn o gymorth i arweinwyr ymarfer gael at wybodaeth mewn modd amserol. | |
| 3 | **Asesu**<br><br>Sicrhau nad yw'r plentyn unigol yn cael ei golli yn y drafodaeth achos ehangach am amgylchiadau'r teulu. Rhaid canolbwyntio'n fwy ar anghenion a dymuniadau'r plant unigol, yn ogystal â'r effaith arnynt, a lliniaru'r risg(iau) a wynebir ganddynt. | Dywedodd AGC *gwnaethom hefyd archwilio achosion lle nad oedd digon o dystiolaeth o geisio na chlywed lleisiau'r plant. Roedd hyn yn arbennig o wir lle roedd brodyr a chwiorydd neu deuluoedd wedi'u cysylltu drwy briodas neu gydberthnasau cymhleth*…<br>… *gwelsom achosion lle'r oedd y plentyn mewn perygl o gael ei golli yn y drafodaeth eang oedd yn cael ei chynnal o'i gwmpas. Roedd hyn yn cynnwys asesiadau lle mai dim ond unwaith neu ddwy y cyfeiriwyd at y plentyn mewn nodiadau yn ei ffeil achos ei hun*. Mae'r gwasanaeth yn gweithio i roi blaenoriaeth i'r mater hwn. Mae problemau mewn perthynas â'r ffurflenni rhanbarthol sy'n cael eu defnyddio hefyd yn cael eu harchwilio. | |
| 4 | **Asesu**<br><br>Rhaid i system oruchwylio gadarn ac amserol, o ansawdd da, ac archwiliadau o asesiadau unigol ddod yn fater o drefn o fewn y gwasanaeth er mwyn gyrru gwelliannau i'r gwasanaeth. Rhaid i'r system oruchwylio ac archwiliadau gynnwys myfyrio ar y defnydd o wybodaeth broffesiynol, tystiolaeth a sgiliau gwaith cymdeithasol. | Mae'r gwasanaeth yn gweithredu Polisi Goruchwyliaeth newydd sy'n rhoi sylw i nifer o'r materion a nodwyd gan AGC. Mae anghysonderau ar hyn o bryd ond mae'r gwasanaeth yn adolygu trefniadau Sicrwydd Ansawdd a bydd yn sicrhau bod argymhellion AGC yn cael eu gweithredu fel rhan o'r trefniadau newydd. Disgwylir i arweinwyr ymarfer sicrhau y bydd goruchwyliaeth ac archwiliadau o safon uchel, sy'n gadarn ac yn amserol yn cael eu cynnal. Mae'r holl staff yn awr wedi derbyn hyfforddiant ar y Polisi Goruchwyliaeth newydd a daw hwn yn weithredol o | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Chwefror 2019. | |
| 5 | **Asesu**<br><br>Rhaid i'r gwaith o gasglu, cofnodi a dadansoddi tystiolaeth gyrraedd lefel gyson uchel er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus a sicrhau nad yw achosion lle mae plant yn dioddef niwed sylweddol yn cael llithro. Mae angen i'r rheolwyr fod yn hyderus ac yn gefnogol wrth arfarnu dogfennaeth ysgrifenedig anghyflawn neu annigonol mewn ffordd feirniadol. | Mae gwaith yn cael ei wneud gydag arweinwyr ymarfer i sicrhau bod y broses o gasglu, cofnodi a dadansoddi tystiolaeth o safon sy'n gyson uchel. Mae'r gwasanaeth yn adolygu trefniadau Sicrwydd Ansawdd a bydd yn sicrhau bod argymhellion AGC yn cael eu gweithredu fel rhan o'r trefniadau newydd. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau goruchwylio ac archwilio rhwng arweinwyr ymarfer ac aelodau'r tîm. | |
| 6 | **Asesu**<br><br>Mae angen i blant allu meithrin cydberthnasau â gweithwyr cymdeithasol maent yn gallu ymddiried ynddynt, ac mae angen lleihau nifer y gweithwyr cymdeithasol y mae'n rhaid i bob plentyn ailadrodd ei stori iddynt. Rhaid i weithwyr cymdeithasol sicrhau bod pob achos o ryngweithio â phlentyn yn cyfrif a gallu dangos tystiolaeth o'u gwaith. | Mae gwaith yn cael ei wneud gyda'r gwahanol dimau i sicrhau bod pob cyswllt gyda phlentyn yn cyfrif. Roedd AGC yn cydnabod bod *tystiolaeth o gynnydd yn nifer y staff o fewn y gwasanaeth, gan gynnwys mwy o arweinwyr ymarfer. Mae'r tri arweinydd ymarfer yn cydweithio o dan un rheolwr gwasanaeth ac yn rhannu rôl gwneud penderfyniadau. Dywedodd y staff wrthym yn gyson fod hyn yn welliant cadarnhaol, a oedd yn eu helpu i gael cyngor amserol a datblygu eu gwaith yn fwy effeithlon*. Roedd AGC hefyd yn gweld *sut yr oedd yr ailstrwythuriad a weithredwyd ym mis Hydref 2017 yn cael effaith gadarnhaol ar ymarfer*. Dywedodd AGC hefyd *gwelsom fod gan lawer o blant fwy nag un gweithiwr cymdeithasol a dywedwyd wrthym fod achosion cymhleth yn cael eu rhannu ag arweinwyr ymarfer, ac y gallai'r gweithiwr cymdeithasol o'r Tîm Teuluoedd Gwydn fod yn gweithio gyda'r plentyn hefyd*. Mae'r gwasanaeth yn cytuno gydag argymhelliad AGC<br>*y bydd yr uwch reolwyr am ystyried pryderon a godwyd gan weithwyr a* | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | *chymryd camau i ymateb i'r staff.* Bydd y gwasanaeth yn parhau i sefydlogi'r gweithlu er mwyn sicrhau y gall plant adeiladu perthynas gyda gweithwyr cymdeithasol. | |
| 7 | **Gofal a chymorth ac adolygiad**<br><br>Mae angen gwneud mwy o waith i gefnogi swyddogion diogelu ac adolygu annibynnol er mwyn sicrhau bod ganddynt y gallu a'r hyder i gynnig her effeithiol pan na fydd gwasanaethau yn cyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer plant unigol. | Mae'r gwasanaeth wrthi'n adolygu trefniadau Sicrwydd Ansawdd a bydd yn sicrhau bod argymhellion AGC yn cael eu gweithredu fel rhan o'r trefniadau newydd. Mae capasiti'r tîm diogelu ac adolygu wedi cael ei gynyddu'n ddiweddar a fydd o gymorth i gefnogi swyddogion o ran capasiti. | |
| 8 | **Gofal a chymorth ac adolygiad**<br><br>Mae angen sicrhau bod pwyslais cynnar yn cael ei roi ar wella cysondeb cysylltiad ac ymgysylltiad y swyddogion hyn â phlant cyn adolygiadau er mwyn sicrhau bod lleisiau'r plant yn cael eu clywed yn glir ac yn effeithiol. | Nododd AGC fod *adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau ar y cyfan. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu trefniadau adolygu a chynnig cyfleoedd cyson i'r plant gyfarfod â'r swyddog adolygu cyn adolygiad*. Mae'r gwasanaeth yn cytuno â hyn ac yn gwneud trefniadau i sicrhau bod hyn yn cael ei sefydlu'n gadarn fel rhan o'r broses adolygu. Bydd y capasiti ychwanegol yn nhîm yr IRSO hefyd yn galluogi'r IRSO i ymgysylltu gyda phlant cyn neu ar ôl eu hadolygiad LAC. | |
| 9 | **Gofal a chymorth ac adolygiad**<br><br>Rhaid gwella'r broses o gynllunio gofal ac ymgysylltu â phlant a gofalwyr er mwyn sicrhau bod cynlluniau a lunnir ar y cyd yn gyson. Rhaid i blant a gofalwyr dderbyn y cymorth a gynigir iddynt mewn cynlluniau gofal a chymorth. | Mae'r gwasanaeth yn cytuno bod angen gwneud mwy o waith mewn perthynas ag ymgysylltu gyda phlant a gofalwyr ac i sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth a gyd-gynhyrchir yn cael eu datblygu'n gyson. Mae'r ymagwedd yn hyn o beth yn anghyson ar hyn o bryd.<br><br>Mae'r gwasanaeth eisoes wedi cychwyn gweithio ar hyn o ran Cynlluniau Amddiffyn Plant a bydd gwaith yn cychwyn ym mis Ionawr 2019 o ran | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Cynlluniau Gofal a Chymorth a Chynlluniau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. | |
| 10 | **Gofal a chymorth ac adolygiad**<br><br>Parhau i archwilio a phrysuro cyfleoedd presennol i gynyddu nifer yr opsiynau o ran lleoliadau sydd ar gael i blant ar yr ynys, ynghyd â'r amrywiaeth ohonynt. Mae angen i gyfleoedd lleoliadau newydd fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth broffesiynol o anghenion y plant. | Mae cynyddu nifer ac amrediad yr opsiynau o ran lleoliadau ar yr ynys yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth. Bydd ymgyrch yn cychwyn yn y flwyddyn newydd i ddenu mwy o ofalwyr maeth drwy gyflwyno pecyn buddion newydd i ofalwyr maeth sy'n cynnwys gostyngiad 50% yn y Dreth Gyngor; parcio am ddim ym meysydd parcio'r Awdurdod Lleol; cynydd o 10% yn y Lwfans Maethu a cherdyn aelodaeth am ddim i'r cyfleusterau hamdden. Rydym hefyd yn agor dau o Gartrefi Grŵp Bychan a fydd yn darparu lleoliadau lleol a, gyda gobaith, yn golygu y bydd rhai o'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi eu lleoli'n all-sirol yn gallu dychwelyd i'r ynys.<br><br>Hefyd, mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Tai, rydym yn cynllunio i agor 'Fflat Hyfforddiant Gadael Gofal' ar gyfer pobl ifanc sy'n barod i adael gofal ond sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn amgylchedd â chymorth cyn cymryd arnynt eu tenantiaethau eu hunain. | |
| 11 | **Gofal a chymorth ac adolygiad**<br><br>Datblygu ffyrdd o sicrhau nad yw plant sy'n derbyn gofal dan anfantais oherwydd y pwysau sydd ar staff i ymateb i bryderon diogelu newydd mewn achosion eraill. | Dywedodd AGC eu bod *wedi gweld gwelliant o ran cofnodi atgyfeiriadau a chasglu tystiolaeth. Clywsom gan staff a ddywedodd fod gweithio gyda'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi helpu gyda gwaith dadansoddi a chyfeirio, am fod gwybodaeth, dealltwriaeth ymarferol a sgiliau yn cael eu rhannu rhwng y tîm. Clywsom fod y fath gydweithredu yn hwyluso trosglwyddiad prydlon i'r Tîm hwn yn briodol, gan olygu bod modd gwneud gwaith ataliol amserol gyda phlant a theuluoedd*. Dull yw hwn sy'n | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | sicrhau nad yw plant sy'n derbyn gofal dan anfantais a bydd y gwasanaeth yn parhau i ddatblygu dulliau eraill. | |
| 12 | **Arwain a llywodraethu**<br><br>Parhau i ddatblygu dulliau cadarn o sicrhau ansawdd ar draws y gwasanaeth. | Dywedodd AGC *gwelsom rai enghreifftiau o waith uniongyrchol da gyda'r plant, lle canolbwyntiwyd ar sicrhau eu bod yn gallu mynegi eu pryderon a bod eu lleisiau yn cael eu clywed*. Dywedwyd hefyd yn yr adroddiad *wrth drafod â'r gweithwyr cymdeithasol, roedd yn amlwg eu bod yn canolbwyntio ar y plant ond nid oedd y cofnodion ysgrifenedig bob amser yn nodi ansawdd y gwaith cadarnhaol, gan gynnwys gwaith uniongyrchol gyda'r plant fel rhan o'r asesiadau.* Mae'r gwasanaeth yn derbyn fod anghysonderau ac mae'n adolygu'r trefniadau Sicrwydd Ansawdd a bydd yn cryfhau/gwella'r trefniadau cyfredol. | |
| 13 | **Arwain a Llywodraethu**<br><br>Annog cydweithio pellach rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau addysg er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael Cynlluniau Addysg Personol amserol sy'n adlewyrchu pwysigrwydd addysg i allu pob plentyn i gyrraedd ei botensial. | Mae'r gwasanaeth, mewn cydweithrediad â chydweithwyr o ysgolion a'r Gwasanaeth Dysgu eisoes yn rhoi sylw i'r mater hwn er mwyn sicrhau bod gweithdrefn gadarnach yn ei lle o ran sicrhau bod gan bob plentyn Gynllun Addysg Bersonol. | |
| 14 | **Arwain a Llywodraethu**<br><br>Sicrhau bod cyfleoedd i gymryd eiliad a myfyrio ar y strwythur newydd gan gynnwys her adeiladol o ran p'un a yw profiad a chanlyniadau plant yn cael eu gwasanaethu orau gan nifer yr arweinwyr ymarfer nad ydynt yn ddeiliaid achos a nifer y newidiadau mewn gweithwyr cymdeithasol a brofir gan bob plentyn. | Nododd AGC *bod ystod eang o sgiliau ymhlith gweithwyr cymdeithasol CSYM, gyda chymysgedd o weithwyr profiadol, gweithwyr sydd newydd gymhwyso a gweithwyr asiantaeth. Nodwyd tystiolaeth mewn ffeiliau goruchwylio o staff yn dweud bod llwythi achos yn rhy uchel. Gwnaethom hefyd siarad â staff a ddywedodd wrthym eu bod yn cael lefel dda o gefnogaeth a bod eu llwythi achos yn dderbyniol.* Bydd y gwasanaeth yn adolygu effeithiolrwydd y strwythur newydd, amserlen i'w chytuno. | |

**Camau Nesaf**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15 | **Camau Nesaf**<br><br>Ym marn AGC mae gan y cyngor ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae AGC yn disgwyl i'r awdurdod lleol ystyried y meysydd i'w datblygu a nodwyd i'w cynnwys yn ei gynlluniau datblygu. | Mae’r gwasanaeth yn cytuno â datganiad AGC fod dealltwriaeth dda o gryfderau a meysydd y mae angen eu gwella. Bydd Cynllun Gwella Gwasanaeth newydd yn ystyried ac yn ymgorfforir meysydd y mae angen eu gwella er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu datblygu ymhellach. Bydd Panel Gwella Gwasanaethau Plant yn parhau i fonitro’r Cynllun Gwella Gwasanaeth. | |
| 16 | **Camau Nesaf**<br><br>Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch ymgysylltu parhaus gyda'r awdurdod lleol. Gall hyn gynnwys adolygiad desg o nifer fach o achosion a archwiliwyd yn yr arolygiad hwn er mwyn tracio cynnydd y plant. | Mae’r gwasanaeth yn croesawu’r cyfle i barhau i weithio ag AGC. | |

**Camau i’w cymryd**

- Datblygu Cynllun Gwella Gwasanaeth newydd y cytunir arno gan Uwch Dîm Rheoli’r Gwasanaeth; y Panel Gwella Gwasanaethau Plant; y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a’r Pwyllgor Gwaith. Bydd yn cynnwys unrhyw gamau gweithredu sy’n parhau i fod angen sylw o’r CGC cyfredol.
- Ymgysylltu’n fwy egnïol gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog i bopeth a wnawn fel gwasanaeth.
- Adolygu polisïau cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn addas i’r pwrpas a sicrhau bod llais plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael ei gynnwys ym mholisïau’r gwasanaeth.
- Adolygu a chryfhau ymhellach y trefniadau Sicrwydd Ansawdd yn y gwasanaeth.
- Y Panel Gwella Gwasanaethau Plant i barhau i gyfarfod a herio i sicrhau y gwneir gwelliannau pellach i’r gwasanaeth.
- Parhau i gynnal Ymweliadau Laming fel bod aelodau’r Panel Gwella Gwasanaethau Plant sy’n cynnwys aelodau’r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Etholedig â dealltwriaeth ddyfn o’r Gwasanaeth.

- Parhau i weithio gyda phartneriaid a pharhau i gryfhau perthnasau a threfniadau cydweithio.

**ARGYMHELLION**

- ➢ Cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar eu Harolygiad o Wasanaethau Plant Ynys Môn.
- ➢ Cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn ac yn cytuno â safiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a'r camau y bwriedir eu cymryd i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhoi sylw i'r meysydd hynny y mae angen eu datblygu.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir i bobl Ynys Môn o ansawdd da. Felly, mae hi i fyny i'r Pwyllgor Gwaith ystyried a derbyn Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru ar yr Arolygiad a nodi y camau y bwriedir eu cymryd gan Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae aelodau o'r UDA wedi cymeradwyo'r adroddiad yma. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Fel yr uchod. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Amherthnasol |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | Cyflwynodd Arolygiaeth Gofal Cymru eu canfyddiadau ar eu harolygiad diweddar o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, 2019.<br><br>Roedd yr Aelodau'n falch o'r adroddiad gan yr Arolygiaeth Gofal ac yn cytuno â'i gynnwys. Nodwyd nad oedd yr adroddiad yn dweud unrhyw beth nad oeddem eisoes yn ymwybodol ohono. Rhoddodd aelodau'r Pwyllgor sicrwydd i Arolygiaeth Gofal Cymru y byddwn yn defnyddio'r argymhellion o'u hadroddiad ynghyd â'r hunan-asesiad a ddarparwyd gan y Gwasanaeth i baratoi Cynllun Gwella newydd – fel y gellir sicrhau gwelliannau pellach.<br><br>Ar ôl ystyried yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, penderfynodd y pwyllgor:<br><br>Argymell i'r Pwyllgor Gwaith:<br><br>1. Ei fod yn derbyn yr adroddiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar yr arolygiad diweddar o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.<br><br>2. Ei fod yn cytuno gyda, ac yn derbyn safiad y Gwasanaeth a'r camau y bwriedir eu cymryd i sicrhau bod y Gwasanaeth yn rhoi sylw i'r meysydd hynny y mae angen eu datblygu. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Amherthnasol |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru: Arolygiad o Wasanaethau Plant Cyngor Sir Ynys Môn, Rhagfyr 2018:<br><br>https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-12/181210-gwasanaethau-plant-ynys-mon-cy.pdf#<br><br>181210-gwasanaethau-plant-ynys-mon |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **25 MAWRTH, 2019** |
| **PWNC:** | **Y POLISI TALIADAU TAI DEWISOL AR GYFER 2019/20 A'R BLYNYDDIOEDD DILYNOL** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS (AELOD PORTFFOLIO - CYLLID)** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES (PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A'R SWYDDOG ADRAN 151)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **RUSSELL WILLIAMS, RHEOLWR BUDD-DAL**<br>**01248 752212**<br>**RussellWilliams@ynysmon.gov.uk** |
| | **AMHERTHNASOL** |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

**ARGYMHELLION**

Cymeradwyo'r Polisi Lleol diwygiedig ar gyfer y Cynllun Taliadau Tai Dewisol (TTD) am 2019/20 a'r blynyddoedd dilynol (gweler Atodiad A). I nodi bydd y cynllun a gymeradwyir yn berthnasol am y blynyddoedd dilynol a bydd yn dod yn ôl gerbron y Pwyllgor Gwaith ond pan fydd angen diwygiadau yn y dyfodol.

Sicrhau bod y cyfanswm a gaiff ei wario ar TTD yn y blynyddoedd ariannol yn parhau i gyfateb yn fras i'r swm a ddyrannwyd ar gyfer y cynllun gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP).

**RHESYMAU A CHEFNDIR**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor Gwaith am weithrediad y cynllun TTD yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19 a'i hysbysu o unrhyw newidiadau ar gyfer y dyfodol.

**TALIADAU TAI DEWISOL**

Mae TTD yn rhoi 'cymorth ariannol pellach' i hawlwyr gwrdd â'u costau tai, ar ben unrhyw fudd-daliadau lles eraill y maent yn eu derbyn, os yw'r Awdurdod Lleol yn ystyried bod cymorth ychwanegol o'r fath yn angenrheidiol.

Rhaid gwneud taliadau TTD o fewn y cyfyngiadau ariannol cyffredinol a bennir gan yr AGP. Bydd yr AGP yn rhoi swm i'r Awdurdod Lleol (ALl) bob blwyddyn *(Cyfraniad y Llywodraeth)* tuag at weinyddu'r cynllun. Gall ALl ychwanegu 150% at Gyfraniad y Llywodraeth (*cyfanswm a ganiateir*) os ydynt yn dymuno. Byddai unrhyw daliadau sy'n uwch na'r cyfanswm a ganiateir yn anghyfreithlon.

**NEWIDIADAU A ARGYMHELLIR I'R POLISI TTD AR GYFER 2019/20 (a'r blynyddoedd dilynol)**

Yn dilyn mesurau diwygio lles Ebrill 2013, cynyddodd y galw am TTD yn sylweddol ond ymddengys ei fod yn lleihau yn awr. Er mwyn gwneud y defnydd mwyaf defnyddiol o'r gyllideb hon ac effaith canllawiau diwygiedig yr AGP ar gyfer dyfarniadau, diweddarwyd polisi TTD y Cyngor a'i ddiwygio bob blwyddyn.

Mae'r Awdurdod yn parhau i dderbyn nifer sylweddol o hawliadau gan hawlwyr sydd wedi eu heffeithio gan Raglen Diwygio Lles y Llywodraeth ond bu gostyngiad bychan yn nifer yr hawliadau a dderbyniwyd. Bu gostyngiad hefyd yn y cyllid sydd ar gael gan lywodraeth ganolog. Llynedd, cafodd polisi'r Awdurdod ei newid i ddarparu cymorth gyda chlirio dyledion rhent lle yr oedd hynny'n rhwystro pobl rhag symud i lety mwy addas. Mae profiad yn ystod y flwyddyn wedi dangos bod angen diwygio'r polisi ymhellach yn hyn o beth er mwyn cefnogi pobl i aros yn eu tai, lle tybir bod y denantiaeth yn gynaliadwy, trwy gyfrannu at dalu dyledion rhent ble mae hynny o fudd i'r halwyr. Dyma'r unig newid y bwriedir ei wneud ar gyfer 2019/20 ac manylir ar hyn ym mharagraff 2.10 y polisi.

**DADANSODDIAD O FLWYDDYN 2018/19 HYD YMA**

Y grant gan yr AGP i'r Cyngor ar gyfer TTD yn 2018/19 oedd £153,307. Caniateir gwario mwy na'r swm hwn ond byddai'n rhaid i'r Cyngor ei gyllido.

Mae cyfuniad o alw amrywiol a chanllawiau diwygiedig yr AGP yn golygu ei bod yn gynyddol anodd i daro cydbwysedd priodol rhwng gwario'r cyfan o'r cyllid sydd ar gael gan yr AGP ar gyfer TTD a sicrhau nad oes unrhyw orwariant sylweddol nad oes gan y Cyngor unrhyw ddarpariaeth ar ei gyfer yn y gyllideb.

Y prif ffactorau i'w nodi o ran gweinyddu'r cynllun TTD am y flwyddyn ariannol hon yw:-

- Roedd gostyngiad sylweddol yn nifer y ceisiadau a ddyfarnwyd o ganlyniad i'r meini prawf Maint Cymdeithasol. I lawr i 92 o achosion o gymharu â 213 y llynedd.

- Bu gostyngiad yn nifer yr achosion a dderbyniwyd gan hawlwyr oherwydd y cyfyngiadau Lwfans Tai Lleol yn y sector preifat. Fodd bynnag, roedd eu cyfran o'r holl wariant TTD yn parhau'n gyson, ac yn arwydd bod pob hawliad yn werth mwy. Ar gyfer 2018/19, roedd hyn yn cyfri am 48% o'r holl achosion a 46% o'r holl wariant TTD. Mae hyn yn cymharu gyda 38% o'r achosion a ddyfarnwyd a 47% o'r taliadau a wnaed ar gyfer y flwyddyn flaenorol. O ran y cynnydd mewn gwariant gwirioneddol, dyfarnwyd £6,916 yn ychwanegol.

- Mae galw cyson i gwrdd â chostau 'unwaith ac am byth', fel blaendal rhent, costau symud a rhent ymlaen llaw .

- Roedd gostyngiad yn y nifer o hawliadau a ddyfarnwyd oherwydd cap budd-daliadau (14 o achosion o gymharu â 33 y llynedd).

- Dim ond 1 achos gafwyd lle cafodd taliad mewn perthynas â dyledion rhent ei dalu o ganlyniad i'r newid a wnaed i'r polisi y llynedd i ganiatáu hyn. Arweiniodd hyn at daliad o £1,600 tuag at ddyledion rhent gyda hynny'n caniatáu i'r hawlydd symud i eiddo mwy fforddiadwy. Y gobaith oedd cynorthwyo mwy o hawlwyr yn y modd hwn a dyna pam mae'r newidiadau i'r polisi ar gyfer eleni'n cael eu cynnig.

Ar 1 Mawrth, 2019, 'roedd y gwariant cyffredinol ar TTD (arian a wariwyd ac a ymrwymwyd) yn dod i gyfanswm o £142,433 (92% o'r cyllid sydd ar gael). Mae hyn yn gadael swm o £10,874 i'w wario dros weddill y flwyddyn ariannol hon. Rhagwelir y byddwn yn agos at wario'r cyfan o'r gyllideb hon.

Mae'r grant gan yr AGP ar gyfer TTD yn 2019/20 wedi lleihau eto a bydd yr Awdurdod yn derbyn £143,208.

Cafwyd 457 o geisiadau am TTD hyd at 1 Mawrth 2019 (o gymharu â 556 y llynedd), ac o'r rheiny:-

- cymeradwywyd 59% ar gyfer eu talu (45% yn 2017/18).

Mae'r tablau isod yn dangos sut mae Diwygiadau Lles wedi effeithio ar wariant TTD ac i ba ddiben y ceiswyd am TTD (Cesglir y data hwn ar gyfer, ac ar gais, yr AGP) : -

**Tabl 1 - Effaith Diwygio Lles**

| Rheswm dros dalu | Nifer y taliadau | Gwariant |
|---|---|---|
| Gosod Cap ar Fudd-daliadau o dan y drefn Diwygio Lles | 14 | £9,855 |
| Cyflwyno Meini Prawf Maint Cymdeithasol (Treth Ystafell Wely) oherwydd Diwygio Lles yn y Sector Tai Cymdeithasol | 92 | £44,469 |
| Cyfyngiadau Lwfans Tai Lleol yn y Sector Preifat oherwydd Diwygio Lles | 132 | £65,831 |
| Taliadau a wnaed nad oeddent yn gysylltiedig â Diwygio Lles | 43 | £22,278 |
| **CYFANSWM** | **281** | **£142,433** |

**Tabl 2 – Pwrpas y dyfarniad TTD**

| Pwrpas y dyfarniad TTD | Nifer y dyfarniadau |
|---|---|
| Helpu i sicrhau ac i symud i lety arall h.y. blaendal rhent | 50 |
| Helpu gyda chostau rhentu tymor byr tra bod yr hawlydd yn sicrhau llety arall ac yn symud i mewn | 21 |
| Helpu gyda chostau rhentu tymor byr tra bod yr hawlydd yn chwilio am waith | 162 |
| Helpu gyda chostau rhentu parhaus ar gyfer gofalwr maeth | 0 |
| Helpu gyda chostau rhentu parhaus ar gyfer person anabl mewn llety wedi'i addasu | 2 |
| Helpu gyda chostau rhentu parhaus (mae hyn yn cynnwys unrhyw bwrpas perthnasol arall) | 46 |
| **CYFANSWM** | **281** |

Derbyniwyd 181 o geisiadau gan hawlwyr a oedd eisoes yn derbyn TTD, sy'n arwydd o lefel y ddibyniaeth ar yr arian hwn. Mae hyn yn cyfateb i 39% o'r holl geisiadau a dderbyniwyd. O'r rhain, dyfarnwyd TTD i 130 ohonynt. Mae hyn yn gynnydd o ran y gyfran o geisiadau ail-adroddus a gafwyd o gymharu â llynedd (33%).

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Bwriad y Pwyllgor Gwaith, ers nifer o flynyddoedd, yw gwario hyd at y swm grant a roddwyd gan yr AGP, neu'n agos i'r swm hwnnw. Ar gyfer 2017/18, roedd tanwariant mewn perthynas â'r grant ac fe dderbyniodd yr Awdurdod beth cyhoeddusrwydd negyddol. Er bod nifer y ceisiadau a dderbyniwyd wedi gostwng ymhellach yn ystod y flwyddyn, dylid ystyried datblygu'r polisi ymhellach fel y gellir dyrannu'r cyfan o'r gyllideb TTD. Byddai peidio adolygu a diwygio'r polisi yn arwain at gwestiynau'n cael eu gofyn am sut mae'r Awdurdod yn defnyddio ei ddyraniad gan yr AGP. Ni ddisgwylir y bydd y newidiadau polisi yn golygu y bydd y gwariant yn uwch na'r grant gan yr AGP am 2019/20.

DRAFT

| C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith ? |
|---|
| Mae'r mesurau diwygio lles a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2013 wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am TTD. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch maint ac effaith y newidiadau, fe ddiweddarwyd y polisi TTD a'i ddiwygio gan y Pwyllgor Gwaith yn seiliedig ar y profiad o weithredu'r polisi am y bum mlynedd ariannol diwethaf. Mae newidiadau mewn deddfwriaeth, patrwm y ceisiadau a'r taliadau wedi golygu y bu angen gwneud newidiadau pellach i'r polisi am 2019/20 (er mai mân-newidiadau yn unig oeddynt). |

| CH - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'n gyson â Chynllun Corfforaethol y Cyngor am 2017 – 2022 ac mae'n cyfrannu at Amcanion 1 a 2 y Cynllun. |

| D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ? |
|---|
| Nid oes cyllideb benodol ar gyfer TTD dros ben lefel y grant gan yr AGP. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, y bwriad yw sicrhau bod gwariant cyffredinol ar y cynllun yn cyfateb i'r swm grant a neilltuwyd gan yr AGP, sef £143,208 ar gyfer 2019/20, neu'n agos at hynny. |

| | DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Awdur yr adroddiad |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** (gorfodol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| | **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Troseddau ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | Cynhaliodd y Gwasanaeth Asesiad Effaith Cychwynnol ar gyfer ei Gynllun TTD arfaethedig. Mae'r Asesiad hwn yn nodi'r grwpiau sy'n debygol o gael cymorth o dan y Polisi TTD, a hynny'n seiliedig ar Asesiadau Effaith yr AGP ei hun ynghylch y grwpiau yr effeithir arnynt gan Ddiwygiadau Lles Lywodraeth y DU.<br><br>Mae'r ymgynghoriad a'r asesiad effaith cychwynnol yn cynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus fel y nodir hi yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac maent ar gael o'r Adain Refeniw a Budd-daliadau, Swyddogaeth Adnoddau. |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |

DRAFT

| 7 | **Arall** | |
|---|---|---|

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Polisi Taliadau Tai Dewisol 2019/20 a'r blynyddoedd dilynol .

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad os gwelwch yn dda am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Canllawiau Taliadau Tai Dewisol gan yr AGP (gan gynnwys Canllawiau Arfer Da ar gyfer Awdurdodau Lleol) Rhagfyr 2016;
- Asesiad Effaith Cychwynnol, Adroddiad Canlyniad a Chynllun Gweithredu'r Swyddogaeth Adnoddau (Refeniw a Budd-daliadau) - Hydref 2012

DRAFT

**ATODIAD A**

# POLISI TALIADAU
# TAI DEWISOL
# 2019/20 (a blynyddoedd dilynol)

| Dyddiad | Fersiwn | Enw |
|---|---|---|
| Ionawr 2014 | 1.0 | Kevin Spice |
| Awst 2015 | 1.1 | Kevin Spice |
| Ionawr 2016 | 1.2 | Kevin Spice |
| Chwefror 2017 | 1.3 | Russell Williams |
| Chwefror 2018 | 1.4 | Russell Williams |
| Mawrth 2019 | 1.5 | Russell Williams |

## 1. CEFNDIR

**1.1** Bwriad y Cynllun Taliadau Tai Dewisol (TTD) yw rhoi *'cymorth ariannol pellach'* i gwsmeriaid sy'n derbyn Budd-daliadau Tai neu'r Elfen Tai o Credyd Cynhwysol tuag at eu costau tai, pan fydd yr Awdurdod Lleol (ALl.) o'r farn bod cymorth o'r fath yn angenrheidiol.

**1.2** Y Rheoliadau sy'n darparu ar gyfer talu TTD yw Rheoliadau Cymorth Ariannol Yn Ôl Disgresiwn 2000. Er bod y Rheoliadau'n rhoi disgresiwn eang i ALl ynglŷn â sut y maent yn gweinyddu'r cynllun, mae'n rhaid gwneud penderfyniadau yn unol ag egwyddorion da ar gyfer gwneud penderfyniadau gweinyddol. Wrth benderfynu a yw am ddyfarnu taliad, y mae'n rhaid i'r ALl weithredu yn deg, yn rhesymol ac yn gyson bob amser.

**1.3** Mae'n ofynnol bod pob dyfarniad TTD yn cael ei wneud o fewn y terfynau ariannol cyffredinol a bennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP). Bydd yr AGP yn dyfarnu swm blynyddol i'r Awdurdod Lleol (C*yfraniad y Llywodraeth)* tuag at weinyddu'r cynllun. Yn ychwanegol at Gyfraniad y Llywodraeth, gall yr Awdurdod Lleol wario hyd at 150% ychwanegol (*y cyfanswm a ganiateir*) mewn TTD. Byddai unrhyw daliadau dros ben y cyfanswm a ganiateir yn anghyfreithiol.

**1.4** Ni ddylai'r swm o arian sydd ar ôl yn y 'pot' TTD fod yn ffactor yn y broses o wneud penderfyniadau; rhaid gwneud pob penderfyniad ar ei rinweddau ei hun, heb roi sylw i'r ffaith a fydd dyfarniad yn cael ei ariannu gan yr elfen Cyfraniad Llywodraeth neu'r elfen cyfraniad ALl o'r Cyfanswm a Ganiateir. Rhaid i'r broses o wneud penderfyniadau fod yn deg, yn dryloyw ac yn gyson drwy gydol y flwyddyn.

**1.5** Bydd dyfarniadau TTD bob tro'n daliadaeth niwtral. Bydd ceisiadau'n cael eu trîn mewn ffordd gyfartal petaent yn ymwneud â tenantiaid y sector breifat neu'r sector gymdeithasol. Y prif benderfynydd, bob tro, ar gyfer gwneud dyfarniad bydd amgylchiadau unigol yr ymgeisydd.

**1.6** Mae'n rhaid dychwelyd unrhyw arian o'r TTD sydd heb gael ei wario i'r AGP ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**1.7** Mae'r Credyd Cynhwysol wedi ei gyflwyno yn Ynys Môn nawr. Er gwybodaeth, nodir na ellir gwneud Taliad Tai Dewisol hyd nes y bydd yr hawl i'r elfen costau tai o'r Credyd Cynhwysol (neu'r Budd-dal Tai) wedi ei sefydlu.

## 2. AT BA DDIBENION Y GELLIR DEFNYDDIO TTD?

**2.1** Nid yw costau tai yn cael eu diffinio yn y rheoliadau, felly mae hynny'n rhoi disgresiwn eang i ALl ddehongli'r term. Yn ychwanegol at ymrwymiadau rhent, gellir dehongli costau tai i gynnwys y canlynol hefyd:-

- Rhent ymlaen llaw;
- Blaendaliadau;
- Costau lwmp swm sy'n gysylltiedig ag anghenion tai, er enghraifft costau symud tŷ;
- Taliadau tuag at ddyledion rhent mewn rhai amgylchiadau. Ni fydd hyn yn berthnasol mewn achosion pan oedd yr hawlydd yn derbyn digon o Fudd-Dal Tai / Costau Tai Credyd Cynhwysol i dalu'r cyfan o'u rhent ar y pryd. (gweler 2.9 /2.10 am ragor o fanylion.)

Lle gwneir taliadau ‘costau lwmp swm’, ni fydd angen iddynt gael eu had-dalu gan y derbynnydd, cyn belled ag y’i defnyddir am y pwrpas a fwriedir.

**2.2** Dyma rai o’r amgylchiadau penodol lle gall TTD fod yn berthnasol:-

- Gostyngiadau mewn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol lle mae’r trefniant capio budd-daliadau wedi cael ei defnyddio;
- Gostyngiadau mewn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol oherwydd tanddefnyddio yn y sector rhentu cymdeithasol;
- Gostyngiadau mewn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol o ganlyniad i gyfyngiadau ar y Lwfans Tai Lleol;
- Talu diffyg yn y rhent er mwyn atal teulu rhag digartrefedd tra bydd Gwasanaeth Tai’r Awdurdod yn edrych ar wahanol bosibiliadau;
- Cyfyngiadau gan y Swyddog Rhent, er enghraifft Rhent Cyfeiriadol Lleol neu gyfradd rhannu ystafell;
- Didyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynnol;
- Hawlwyr sy’n maethu plant ac y mae’r Cymhorthdal Ystafell Sbâr (“dreth ystafell wely”) yn effeithio arnynt;
- Hawlwyr sydd â phroblemau iechyd penodol a allai arwain at wariant ychwanegol iddynt neu hawlwyr sydd angen lle byw ychwanegol;
- Gostyngiad yn yr hawl o ganlyniad i effaith taprau incwm;
- Darparu taliadau lwmp swm mewn perthynas â chostau ‘unwaith ac am byth’ fel blaendaliadau, rhent ymlaen llaw, neu gostau symud. Pan yn ystyried dyfarniadau TTD am y costau yma, dylai’r swyddog asesu fodloni ei hun bod yr eiddo newydd yn fforddiadwy ac yn addas i anghenion y tenant a bod yna reswm dilys am y symud;
- Lle nid yw’r rhent yn fforddiadwy bellach oherwydd newid perthnasol mewn amgylchiadau sydd tu draw i reolaeth yr ymgeisydd, e.e. colli swydd;
- Lle mae’r hawlydd wedi cymryd y denantiaeth o eiddo newydd ond heb symud i mewn eto ac mae’n parhau i dderbyn Budd-dal Tai. Fe ystyrir y rhesymau pam nad yw’r hawlydd wedi symud i mewn eto er mwyn sefydlu os yw hyn yn rhesymol. Bydd casgliad yn cael ei wneud a allent fod wedi symud ar ddechrau’r denantiaeth;
- Er mwyn rhwystro aelwyd rhag bod yn ddigartref tra bod y tîm opsiynau tai yn ymchwilio i opsiynau tai eraill.

**2.3** Bwriedir TTD fel rhwyd ddiogelwch i bobl sy’n cael anawsterau i dalu eu costau tai. Ni ddylid edrych ar y cynllun fel ffordd i ganiatáu i ymgeiswyr gynnal ffordd o fyw ar lefel y maent wedi arfer â hi. I’r perwyl hwnnw, gall y swyddog asesu ddewis lleihau neu wrthod TTD mewn achosion lle mae’n amlwg nad yw’r ymgeisydd yn fodlon i wneud cyfaddawd rhesymol o ran eu gwariant a ffordd o fyw.

**2.4** Pan yn asesu TTD, dylai’r ymgeiswyr gwblhau datganiad ariannol yn rhestru holl incwm a gwariant yr aelwyd. Fe ystyrir incwm o bob ffynhonell, petaent fel arfer yn cael eu diystyru neu beidio ar gyfer prawf modd budd-daliadau lles prif-lif. Os nodir fod ad-daliad yn ei le ar gyfer gordaliad Budd-dal Tai, yna rhoddir ystyriaeth i pu’n a all y raddfa gostyngiad gael ei leihau.

**2.5** Fel arfer, mesur tymor byr yw dyfarniadau TTD gyda’r bwriad o roi digon o amser i’r ymgeisydd i :-

- Geisio cael llety arall fydd yn rhatach (ni fydd yn berthnasol i denantiaid mewn tai cymdeithasol);

- Negodi rhent is gyda'u landlord (ni fydd yn berthnasol i denantiaid mewn tai cymdeithasol);
- Chwilio am waith;
- Addasu gwariant eu haelwyd.

Ni ddylid edrych ar TTD fel ychwanegiadau amhenodol tuag at ddiffygion rhent; bydd dyfarniadau'n cael eu gwneud fel arfer am gyfnod o 26 wythnos. Ni fydd ail ddyfarniadau neu rai dilynol yn cael eu gwneud ond lle y gall yr ymgeisydd ddangos eu bod wedi gwneud pob ymdrech i wella eu sefyllfa ariannol a bod unrhyw fethiant i wneud hynny oherwydd rhesymau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, bydd amgylchiadau'r ymgeisydd angen dyfarniad hirach neu amhenodol o TTD. Mewn amgylchiadau o'r fath, fe adolygir y dyfarniad yn gyfnodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw newid mewn amgylchiadau a all gael effaith ar y dyfarniad.

**2.6** Gall un maes o anhawster wrth asesu cymhwysedd am TTD godi, efallai, yng nghyswllt ymgeiswyr gyda phroblemau cam-drin alcohol ac/neu sylweddau. Efallai y bydd yr unigolion hyn yn byw bywydau dryslyd a all achosi iddynt wneud penderfyniadau gwael, yn cynnwys gwario ar eitemau a fyddai, i'r rhan fwyaf o bobl, i'w gweld yn rhai afresymol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn o anghenraid atal gwneud dyfarniad TTD.

Y prif feini prawf wrth wneud penderfyniad mewn achosion o'r fath fydd penderfynu a yw'r ymgeisydd yn derbyn cymorth priodol i ddelio gyda'u problemau. Os ydynt yn cael cefnogaeth ar raglen ffurfiol a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth swyddogol, **<u>efallai</u>** y bydd yn berthnasol i ystyried gwneud dyfarniad o TTD. Dylai dyfarniadau mewn amgylchiadau o'r fath gael eu cefnogi gan dystiolaeth ddogfennol gan y sefydliad sy'n gweithio gyda'r ymgeisydd.

Yn ogystal, bydd cyfran incwm yr aelwyd sydd wedi ei neilltuo ar gyfer yr eitemau yma hefyd yn ffactor berthnasol yn y broses gwneud penderfyniad.

**2.7** Rhaid i swyddogion asesu TTD gymryd amgylchiadau unigol i ystyriaeth bob amser pan yn asesu pa mor rhesymol yw gwariant aelwyd. Er enghraifft, gall rhai cyflyrau meddygol neu anableddau fod angen lefelau uchel o wariant ar rai eitemau; ni ddylai hyn o anghenraid atal gwneud dyfarniad. Fodd bynnag, lle bo amgylchiadau o'r fath yn berthnasol, efallai y bydd y swyddog asesu angen i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r gwariant a honnir.

**2.8** Yn dilyn diddymu Budd-daliadau y Dreth Gyngor yn 2013, **ni ellir talu TTD bellach tuag at Atebolrwydd y Dreth Gyngor.** Gellir gwneud gostyngiadau dewisol yn atebolrwydd y Dreth Gyngor o dan Adran 13A(1)(C) Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ac mae'r Cyngor llawn wedi mabwysiadu polisi Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor ar 28 Chwefror 2018 i ystyried ceisiadau am ostyngiadau dewisol yn yr atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor.

**2.9** Bydd taliadau tuag at ôl-ddyledion rhent lle mae'r ôl ddyled yn rwystr i symud i eiddo llai, ond yn cael ei ystyried lle: -

- Darperir dadansoddiad o'r ôl-ddyledion rhent i sefydlu pryd yr aeth y cyfrif rhent i ddyled a'r rheswm am y dyledion;
- Darperir datganiad yn dweud am ba gyfnod y mae'r cais am daliad tuag at yr ôl-ddyledion;
- Mae'r hawlydd yn byw yn yr eiddo lle mae'r ôl-ddyledion rhent;

DRAFT

- Mae'n rhaid i'r hawlydd allu darparu prawf o gynnig o lety llai, mwy fforddiadwy;
- Byddai talu TTD yn cynorthwyo gyda symud i lety mwy fforddiadwy a chynaliadwy lle roedd yr ôl-ddyledion rhent yn rhwystro hynny'n flaenorol;
- Mae landlord yn darparu manylion eiddo sy'n fwy addas a chynaliadwy ynghyd â datganiad yn cadarnhau bod yr hawlydd yn cael ei ystyried ar gyfer yr eiddo hwn;
- Bydd y Swyddog TTD yn penderfynu a yw'r denantiaeth newydd yn fforddiadwy ac ni fydd ond yn ystyried talu mewn achosion lle sefydlwyd fforddiadwyedd

**2.10** Bydd taliadau tuag at ôl-ddyledion rhent ble bydd hyn yn cynorthwyo'r hawlydd i aros yn ei eiddo ond yn cael ei ystyried lle : -

- Darperir dadansoddiad o'r ôl-ddyledion rhent i sefydlu pryd yr aeth y cyfrif rhent i ddyled a'r rheswm am y dyledion ;
- Darperir datganiad yn dweud am ba gyfnod y mae'r cais am daliad tuag at yr ôl-ddyledion;
- Mae'r hawlydd yn byw yn yr eiddo lle mae'r ôl-ddyledion rhent
- Rhaid i'r landlord gadarnhau y bydd prosesau adfer yn cael ei dechrau / parhau os na fydd y dyledion rhent yn cael ei lleihau;
- Bydd taliad o TTD yn cynorthwyo'r hawlydd i gynnal ei denantiaeth;
- Bydd y Swyddog TTD yn penderfynu os yw'r denantiaeth newydd yn fforddiadwy ag ond yn ystyried taliad o TTD mewn achosion ble mae wedi ei sefydlu fod y denantiaeth yn fforddiadwy.

Fel arfer telir TTD tuag at Ddyledion Rhent yn uniongyrchol i'r landlord. Os oedd yr hawlydd eisoes yn derbyn TTD tuag at gwrdd â'r gwahaniaeth rhwng y rhent a godir a'r budd-dal a delir, adolygir y dyfarniad yn seiliedig ar y sefyllfa ariannol newydd er mwyn penderfynu a yw'r denantiaeth yn fforddiadwy ai peidio, sy'n sail i benderfynu ar ddyfarnu TTD. Fel arfer ni wneir unrhyw daliadau pellach am yr un rheswm wedi hynny.

## 3. MEINI PRAWF AR GYFER DYFARNU TTD

**3.1** Cyn gwneud dyfarniad, mae'n rhaid i'r ALI fod yn fodlon bod yr hawlydd yn gymwys i dderbyn:-

- Budd-dal Tai; **neu**
- Chredyd Cynhwysol sy'n cynnwys elfen costau tai; **a**
- Bod ganddynt atebolrwydd am rent; **a**
- Bod angen cymorth ariannol pellach at gostau tai.

Yn sgîl cyflwyno Credyd Cynhwysol, mae'n rhaid i ALI ystyried ceisiadau am TTD oddi wrth gwsmeriaid nad ydynt yn derbyn budd-daliadau tai. Pan fo cwsmer sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gwneud cais am TTD, dylai'r swyddog asesu sicrhau :-

- Nad yw'r dyfarniad Credyd Cynhwysol yn cynnwys elfen o gostau tai; **a**
- Nad yw swm y TTD yn uwch na rhent wythnosol cymwys yr ymgeisydd; **a**
- Fe sefydlir gwerth y 'costau tai' a gynhwysir yn y dyfarniad Credyd Cynhwysol.

DRAFT

## 4. PETHAU NA ELLIR DEFNYDDIO TTD AR EU CYFER

**4.1** Mae rhai elfennau o rent ymgeisydd na ellir eu cynnwys o fewn y costau tai ar gyfer TTD gan eu bod yn cael eu gwahardd yn benodol gan y rheoliadau. Mae'r elfennau sy'n cael eu gwahardd yn cynnwys:-

- Taliadau anghymwys am wasanaethau;
- Codiadau rhent oherwydd dyledion rhent sydd heb eu talu;
- Rhai sancsiynau penodol a gostyngiadau mewn budd-daliadau.

**4.2** Yn ychwanegol at yr uchod, ni fydd TTD yn cael ei dalu ar gyfer diffygion sy'n deillio o:-

- Ddewis yr ymgeisydd i fyw mewn ffordd na all yn amlwg mo'i fforddio (efallai y bydd angen ymweld â'r cartref i asesu eu ffordd o fyw);
- Ad-dalu rhai gordaliadau budd-daliadau lles a dirwyon (gweler hefyd 6.13).

## 5. Y BROSES O WNEUD CAIS

**5.1** Mae'r rheoliadau yn mynnu bod cais am TTD yn cael ei gyflwyno cyn y gall yr ALI ystyried dyfarnu taliad.

**5.2** Bydd yr ALI yn weithgar yn hybu'r cynllun TTD gyda phartneriaid mewnol ac allanol yn ogystal â gyda rhai sy'n hawlio Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol. Bydd polisi TTD y Cyngor ar gael ar-lein ac mewn ffurf papur. Darperir copïau o'r polisi hefyd i gydranddeiliaid mewnol ac allanol. Pan fydd staff yn gweld sefyllfaoedd lle gallai TTD fod yn berthnasol, dylent bob tro wahodd y cwsmer neu eu cynrychiolydd i wneud cais.

**5.3** Dylid gwneud ceisiadau mewn ysgrifen a gellir eu derbyn gan yr Adain Refeniw a Budd-daliadau neu unrhyw adran o'r ALI sy'n gweithredu ar ei rhan. Lle gwneir cais i adran arall heblaw'r Adain Refeniw a Budd-daliadau, bydd y cais yn cael ei anfon ymlaen i'r adain honno i gael penderfyniad.

**5.4** Gyda'r cais am TTD dylid cynnwys datganiad o incwm a gwariant yr ymgeisydd er mwyn penderfynu a yw'n dioddef o galedi ariannol. Os gofynnir, efallai y bydd angen i'r hawlydd ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gadarnhau'r gwariant a honnir. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r rhai sy'n gwneud cais am daliadau 'unwaith ac am byth' ddarparu datganiadau banc i gefnogi eu cais am TTD.

**5.5** Pan fo'r cais am TTD yn ymwneud â chostau symud, bydd yr ymgeisydd yn darparu dau ddyfynbris ar gyfer cost y symud.

**5.6** Bydd ceisiadau am TTD yn cael eu gwneud fel arfer gan y person sydd â hawl i Fudd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, gellir hefyd dderbyn hawliadau gan drydydd partïon, fel eiriolwyr neu rai wedi eu penodi i weithredu ar ran yr hawlydd os ydynt yn fregus.

## 6. Y BROSES O WNEUD PENDERFYNIAD

**6.1** Dylai pob cais am TTD gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. Dylai penderfyniadau fod yn deg ac yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Ni ddylai faint o arian sydd yn y 'pot' TTD fod yn ystyriaeth yn y broses o wneud penderfyniadau.

DRAFT

**6.2** Pan yn asesu hawl TTD, bydd budd-daliadau lles a lwfansau sydd fel arfer yn cael eu di-ystyru yn ystod prawf modd **yn** cael eu trin fel incwm ar gyfer dibenion TTD. Yr unig eithriad fydd yr Elfen Symudedd o'r Lwfans Byw Anabledd (LBA) os yw'r hawlydd yn defnyddio'r lwfans i dalu am gerbyd dan y cynllun symudedd. Tra ystyrir LBA a Taliadau Annibyniaeth Personol yn cael eu dosbarthu fel incwm, dylai'r swyddog asesu hefyd sicrhau fod unrhyw wariant aelwyd ychwanegol sy'n ymwneud â salwch neu anabledd yr hawlydd yn cael ei ystyried pan yn gwneud penderfyniad ar y cais.

**6.3** Lle gall yr ymgeisydd ddangos bod y budd-daliadau/lwfansau wedi cael eu defnyddio at y dibenion penodol y bwriadwyd hwy ar eu cyfer, er enghraifft, yr angen am wariant ychwanegol oherwydd anabledd neu gyflwr meddygol, gall y swyddog asesu ddewis eu hanwybyddu fel ffynhonnell incwm wrth asesu TTD.

**6.4** Ar adegau, gall y swyddog asesu ofyn i Swyddog Ymweld Refeniw a Budd-daliadau alw yng nghartref yr ymgeisydd er mwyn cael darlun cliriach o amgylchiadau ac amodau byw'r ymgeisydd.

**6.5** Pe bai'r swyddog asesu yn penderfynu bod y gwariant a nodir gan yr ymgeisydd ar gyfer rhai eitemau penodol yn **afresymol** ormodol, mae ganddynt ddisgresiwn i anwybyddu'r rhan honno, neu'r cyfan, o'r gwariant hwnnw wrth wneud yr asesiad ariannol. Wrth benderfynu hyn, rhaid rhoi esboniad o'r penderfyniad. Yn yr un modd, pan fydd y swyddog yn barnu bod yr ymgeisydd yn byw uwchlaw ei incwm mewn ffordd afresymol, gall ddewis gadael y gwariant hwnnw allan o'r cyfrifiad. Eto, rhaid rhoi esboniad.

**6.6** Mewn rhai amgylchiadau, bydd ymgeisydd yn darparu proffiliau gwariant sydd yn amlwg yn afrealistig o isel neu nad ydynt yn cynnwys gwariant a fyddai fel arfer i'w weld mewn unrhyw aelwyd. Mewn achosion o'r fath, dylai'r swyddog asesu ystyried cynyddu'r proffil gwariant gan swm tybiannol priodol er mwyn sicrhau na fydd yr ymgeisydd dan ormod o anfantais yn ystod y broses asesu TTD.

**6.7** Dylai'r swyddog asesu wneud yn sicr bod yr holl wybodaeth berthnasol ganddynt mewn perthynas â'r cais cyn dod i benderfyniad. I'r perwyl hwn, os na chynhelir ymweliad cartref, dylid gwneud pob ymdrech i gyfweld yr ymgeisydd, naill ai wyneb yn wyneb neu ar y ffôn, er mwyn cael darlun mwy cywir o'u hamgylchiadau.

**6.8** Ni fwriedir i TTD fod yn ateb tymor hir ar gyfer diffygion rhent. Felly, ni fydd taliadau 26 wythnos o TTD fel arfer yn cael eu hadnewyddu oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

**6.9** Wrth asesu hawl i TTD, dylid ystyried fforddiadwyaeth y denantiaeth dan sylw. Mewn rhai amgylchiadau, bydd yn glir fod amgylchiadau ariannol yr ymgeisydd yn hollol anghynaliadwy; ni fyddai dyfarniad TTD yn cael unrhyw effaith ar allu'r hawlydd i aros yn eu cartref waeth bynnag unrhyw gyfaddawdu y byddant yn ei wneud. Mewn amgylchiadau o'r fath, **gall** y cais gael ei wrthod ar y sail nad yw'n cynrychioli'r defnydd gorau o'r gyllideb gyfyngedig. Fel arall, gellir gwneud dyfarniad cychwynnol er mwyn caniatau amser i'r ymgeisydd i wneud trefniadau llety arall. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau o'r fath, anhebygol fyddai dyfarniadau pellach.

**6.10** Fel arfer, caiff didyniadau ar gyfer pobl sy'n byw gyda'r hawlydd ond nad ydynt yn ddibynnol arno eu trin fel incwm i'r aelwyd. Fodd bynnag, **gall** y swyddog asesu, mewn rhai amgylchiadau penodol, ddewis anwybyddu'r didyniad hwn fel incwm. Yn gyffredinol, pan fo'r didyniad yn ymwneud â rhywun sydd mewn gwaith, dylid ei drin fel incwm bob amser. Fodd bynnag, os bydd y didyniad yn ymwneud â rhywun sy'n derbyn budd-daliadau, **gall** y swyddog asesu ddewis ei anwybyddu fel incwm os yw'n teimlo nad oes unrhyw ragolygon rhesymol y bydd yr unigolyn yn cyfrannu at gostau'r aelwyd **ac** y bydd methiant i'w anwybyddu yn peri caledi ariannol i'r sawl sy'n hawlio TTD.

**6.11** Ni fwriadwyd TTD i fod yn ychwanegiad di-ben-draw i ddiffyg mewn rhent. Felly, bydd asesu cymhwyster am ail-ddyfarniad, neu ddyfarniad dilynol, i'r un cyfeiriad yn gofyn am ystyried ffactorau ychwanegol i'r rhai a ystyriwyd ar gyfer y cais cychwynnol. Rhaid i'r swyddog asesu ystyried a yw'r ymgeisydd wedi gwneud pob ymdrech resymol i wella ei amgylchiadau ers dyfarnu'r TTD cychwynnol. Bydd ffactorau sydd i'w hystyried yn cynnwys:-

- Ymdrechion i leihau gwariant ar yr aelwyd - a yw gwariant ar yr aelwyd wedi gostwng ers i'r dyfarniad TTD gwreiddiol gael ei wneud? Os nad yw'r gwariant wedi gostwng, a oes yna reswm dilys?;
- Ymdrechion i ail-negodi'r rhent contract. A yw'r tenant wedi rhoi caniatâd i'r Cyngor gysylltu â'i landlord? (ni fydd yn berthnasol i denantiaid tai cymdeithasol);
- Ymdrechion i geisio cael llety llai o faint os ydynt yn denantiaid tai cymdeithasol hefo gormod o le. Er enghraifft:-
    - A ydynt wedi gofyn i'w landlord cymdeithasol am drosglwyddiad i eiddo llai?;
    - A ydynt ar restr trosglwyddo eu darparwr tai?;
    - Os nad oes llety arall ar gael yn y sector gymdeithasol, gallent ystyried symud i'r sector rhentu breifat?

Bydd asesu'r elfen hon o geisiadau ailadroddus yn fater goddrychol; rhaid ystyried pob achos ar ei rinweddau ei hun. Lle y mae'n cael ei dderbyn bod yr ymgeisydd wedi gwneud pob ymdrech resymol i wella ei sefyllfa, **neu** fod yr amgylchiadau oedd yn rhwystro iddynt wneud hynny yn rhai oedd y tu hwnt i'w rheolaeth, efallai y bydd yn briodol gwneud dyfarniad pellach. Fodd bynnag, lle ei bod yn glir nad yw'r ymgeisydd wedi gwneud unrhyw ymdrech i wella eu hamgylchiadau, ni fydd dyfarniad pellach fel arfer yn briodol.

**6.12** Bydd rhai achosion lle bo amgylchiadau'r ymgeisydd o fath na fyddai'n rhesymol nac yn ymarferol i'r ymgeisydd am TTD symud cartref, dod o hyd i waith na gostwng eu gwariant ar yr aelwyd, er enghraifft, rhywun gydag anableddau sy'n byw mewn eiddo a addaswyd ar gyfer eu hanghenion. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd dyfarniad am gyfnod hwy neu amhenodol yn briodol. Dylai dyfarniadau o 12 mis gael eu gwneud a'u hadolygu'n flynyddol er mwyn penderfynu a fu newid mewn amgylchiadau fyddai'n atal ymestyn TTD am gyfnod pellach.

**6.13** Ni fydd gwariant ar ddirwyon llys neu ordaliadau budd-daliadau lles yn cael eu hystyried yn yr asesiad ariannol; ni ellir rhoi unrhyw argraff bod TTD yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwnnw. Mae eithriad i'r rheol yn berthnasol i Gredyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith. Lle mae ad-dalu gordaliadau blynyddoedd blaenorol o Gredyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith yn cael eu hadennill o'r dyfarniad cyfredol, yna mae'r taliad net o Gredyd Treth yn cael ei drin fel incwm. Mae hyn yn unol â rheoliadau Budd-daliadau Tai. Ni ystyrir taliadau o ôl-ddyledion trwydded teledu fel dirwy at y diben hwn.

**6.14** Bydd y cwestiwn a ddylid derbyn gwariant sy'n ymwneud â thalu dyledion yn asesiad TTD ai peidio yn aml yn un cynhennus. Tra bydd ad-dalu dyledion yn amlwg yn gosod pwysau ariannol ychwanegol ar sawl aelwyd, ni ddylid edrych ar TTD fel ffordd o dalu dyledion o'r fath. Bydd swyddogion asesu TTD angen ystyried swm y ddyled sydd ar ôl yn ogystal â sut a phryd y daeth y ddyled i fodolaeth cyn iddynt wneud eu penderfyniad. Bydd rhai o'r ffactorau yng nghyswllt gwariant ar dalu dyled yn cynnwys:-

- A yw'r ymgeisydd wedi gofyn a gaiff ail-drafod dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth? Er enghraifft cytundebau cardiau credyd;
- A ydynt wedi ceisio cael cyngor proffesiynol ar sut i glirio eu dyledion neu leihau ei had-daliadau?
- A oedd modd i'r ymgeisydd dalu'r arian dyledus cyn dechrau hawlio budd-daliadau?
- A aethpwyd i'r dyledion hyn trwy fenthyca neu wario'n anghyfrifol tra roedd yr ymgeisydd yn derbyn budd-daliadau lles?
- Lefel y ddyled sydd ar ôl i'w thalu a chyfran incwm yr aelwyd sydd wedi ei neilltuo ar gyfer talu'r ddyled honno.

**6.15** Mewn achosion lle mae perygl i'r ymgeisydd fod yn ddigartref, dylai staff Refeniw a Budd-daliadau ymgynghori gyda'r Tîm Opsiynau Tai er mwyn penderfynu a oes ffordd arall o weithredu neu ffynhonnell ariannol arall a allai fod yn fwy perthnasol na TTD.

**6.16** Lle bo'r ymgeisydd mewn perygl ar unwaith o gael ei droi allan o'i lety, dylai'r cais TTD gael ei 'dracio'n gyflym'. Ni fydd hyn yn cael ei ystyried ond pan fydd y cais yn dod gan gorff swyddogol fel CAB, Adran Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac ati. Lle mae tracio cyflym yn briodol, dylai'r mater gael ei ddatrys yn llawn ymhen tri diwrnod gwaith.

**6.17** Os nad yw'r holl wybodaeth gefnogol ar gael pan fernir bod angen tracio cyflym, dylid dyfarnu TTD am gyfnod o fis hyd nes y ceir y dystiolaeth gefnogol sydd ei hangen. Rhaid dweud wrth yr ymgeisydd mai dyfarniad dros dro ydyw ac nad oes unrhyw warant y bydd TTD yn parhau unwaith y ceir yr holl wybodaeth sydd ei hangen.

**6.18** Os gwelir, ar ôl derbyn yr holl wybodaeth, na fyddai'r TTD wedi cael ei ddyfarnu, ni ddylai unrhyw daliad tracio cyflym a wnaed eisoes gael ei adennill.

**6.19** Lle gwneir cais TTD oherwydd diffyg rhwng Budd-dal Tai a rhent contract, dylid gwneud pob ymdrech i sefydlu a oes unrhyw bosibilrwydd bydd y landlord yn cytuno i ostwng y rhent contract neu beidio (ni ellir gwneud hyn ond gyda chaniatâd yr hawlydd). Bydd y cais TTD yn mynd yn ei flaen fel arfer; fodd bynnag, os llwyddwyd, yn dilyn negodi, i sicrhau gostyngiad yn y rhent, bydd unrhyw TTD a ddyfernir yn cael ei leihau neu ei ddileu fel bydd yn briodol.

**6.20** Pan fo'r cais am TTD ar gyfer cymorth tuag at ddiffyg mewn rhent y sector breifat, dylid gofyn i ymgeisydd roi eu caniatâd i'r Cyngor gysylltu â'u landlord i weld os oes unrhyw sgôp i negodi gostyngiad yn y rhent. Os gwrthodir caniatâd, dylid dweud wrth yr ymgeisydd y gall peidio â rhoi caniatâd heb achos da olygu y gallai eu cais am TTD gael ei wrthod.

**6.21** Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen trafod y cais TTD gydag adrannau neu asiantaethau eraill cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y mater. Mewn achosion o'r fath, rhaid cael caniatâd yr hawlydd bob amser i'r wybodaeth gael ei rhannu.

DRAFT

**6.22** Bydd hyd y dyfarniad yn cael ei benderfynu gan y person sy'n delio â'r hawliad. Fel arfer, bydd dyfarniadau am gyfnod o 26 wythnos; ond, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd dyfarniad penagored yn berthnasol. Lle mae dyfarniad yn un amhenodol, dylid ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau na fu unrhyw newid o bwys yn yr amgylchiadau. Fe all newid yn amgylchiadau'r sawl sy'n derbyn y TTD yn ystod cyfnod y dyfarniad arwain at leihau neu derfynu'r dyfarniad.

**6.23** Yn arferol bydd y taliad yn cael ei wneud i'r hawlydd; fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn briodol talu i drydydd parti:-

- Talu rhent ymlaen llaw, blaendal neu daliadau tuag at ddyledion rhent i'r landlord;
- Talu i'r landlord os ystyrir bod yr hawlydd yn fregus ac os yw eisoes yn talu Budd-daliadau Tai i'r landlord;
- Talu i gwmni cludiant am symud dodrefn;
- Trwy roi credyd yn y cyfrif rhent ar gyfer diffygion mewn Ad-daliadau Rhent;
- Landlord lle y mae eisoes ddyledion rhent sy'n gyfartal â rhent 8 wythnos neu fwy.

**6.24** O dan Gredyd Cynhwysol, y dull diofyn o dalu bob tro fydd yn uniongyrchol i'r hawlydd. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i'r elfen 'lwfans tai' o'r dyfarniad Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, fe ellir talu'r landlord petai'r hawlydd yn cwrdd â'r meini prawf I bobl fregus sy'n berthnasol i'r Trefniadau Taliadau Arall. Mae'r ddarpariaeth yn berthnasol i denantiaid y sector breifat a'r sector gymdeithasol. Bydd rhaid i ymgeiswyr TTD sy'n derbyn Credyd Cynhwysol nodi i bwy dylid gwneud y taliadau elfen 'lwfans tai' o'r Credyd Cynhwysol.

**6.25** Dyled ystyried ceisiadau TTD yng ngoleuni hanes presennol a blaenorol yr ymgeisydd. Bydd y ffactorau i'w hystyried yn cynnwys:-

- A ydynt wedi derbyn blaendaliadau yn ôl wedi eu tenantiaeth flaenorol?;
- A oedd yr ymgeisydd yn medru fforddio'r gofynion rhent wrth symud i mewn i'r eiddo am y tro cyntaf?;
- A ydynt yn symud yn aml i dai sydd â rhent afresymol o uchel?;
- A oes ganddynt hanes o rentu eiddo sy'n fwy o faint nag y mae ei angen arnynt?;
- A yw'r ymgeisydd neu'r partner yn disgwyl plentyn ac yn symud i eiddo mwy mewn disgwyliad bod angen ystafell wely ychwanegol?;
- A oes unrhyw amgylchiadau meddygol neu deuluol a fyddai'n cyfiawnhau taliadau TTD?;
- A yw'r ymgeisydd wedi dangos bod ymdrechion rhesymol wedi cael eu gwneud i ddarganfod eiddo arall rhatach?;
- Oes yna amgylchiadau eithriadol neu annisgwyl sy'n cyfiawnhau gwobrwyo TTD?;
- P'un a fydd rhywun ar yr aelwyd yn cyrraedd 'oed critigol'. Er enghraifft, plentyn yn cyrraedd oedran lle maent yn gymwys am ddefnydd unigol o ystafell wely ychwanegol; neu unigolyn oedran gweithio sydd mewn tenantiaeth gymdeithasol yn dod yn oedran pensiynadwy.

**6.26** Mewn rhai amgylchiadau, gall dyfarniadau TTD fod yn rhai amodol ar i'r ymgeisydd gytuno i gamau a all helpu i wella eu problemau ariannol. Ni ellir gorfodi'r ymgeisydd i gymryd y camau sy'n cael eu hawgrymu. Fodd bynnag, dylid dweud wrthynt y gall methiant â chytuno gydag unrhyw un o'r camau sy'n cael eu hawgrymu arwain at wrthod y ceisiadau er bod yna achos ariannol dros wneud dyfarniad. Gall amgylchiadau o'r fath gynnwys:-

- Methu â derbyn atgyfeiriad am gymorth / cyngor i gydranddeiliad mewnol neu allanol yng nghyswllt gallu ariannol, cyllidebu, rheoli dyled ac ati;
- Methiant i roi awdurdod i’r Cyngor gysylltu â’u landlord i geisio negodi gostyngiad mewn rhent.

Bydd dyfarniadau TTD amodol yn oddrychol ac fe allant fod yn rhai cynhennus o ran natur; dylid cymryd gofal bob amser i sicrhau bod unrhyw gamau amodol a roddir ar yr ymgeisydd yn rhai teg a rhesymol ac nad ydynt yn gosod disgwyliadau afrealistig arnynt.

**6.27** Gyda thaliadau lwmp swm, ni fydd angen sefydlu cymhwysedd i dderbyn Budd-daliadau Tai/ elfen costau tai o’r Credyd Cynhwysol yn y cyfeiriad ar gyfer y cais. Cyn belled â bod yr ymgeisydd yn derbyn budd-dal tai neu gredyd cynhwysol yn eu cyfeiriad blaenorol (hyd yn oed os oedd yr eiddo tu allan i ffin yr Awdurdod Lleol), gellir gwneud TTD. Dylid cynnal gwiriadau i weld a yw’r Awdurdod Lleol lle'r oedd yr ymgeisydd yn byw cynt eisoes wedi gwneud TTD ar gyfer symud tŷ.

**6.28** Pan yn ystyried cais am flaendal, rhent ymlaen llaw neu gostau symud, dylid ystyried y meini prawf canlynol:-

- Oes rheswm teilwng i’r ymgeisydd symud cartref? Gall ceisiadau am gostau unwaith-ac-am-byth fod am symiau sylweddol o arian, yn enwedig os yw’r ymgeisydd yn gwneud cais am flaendal, rhent ymlaen llaw a chostau symud. Cyn i geisiadau gael eu hystyried, dylai’r swyddog asesu fodloni ei hun fod cyfiawnhad dros symud. Gall rhesymau dros symud gynnwys :-

    - Rhesymau meddygol, e.e. angen eiddo heb grisiau;
    - Gormod o bobl yn byw yn y tŷ;
    - Dianc rhag trais yn y cartref;
    - Cael eu troi allan o denantiaeth blaenorol.

  Ni ddylid gwneud taliadau TTD tuag at gostau’n ymwneud â symud lle mae’r ymgeisydd, yn syml, ond yn dymuno symud i eiddo arall heb gyfiawnhad dilys.

- A fydd yr eiddo newydd yn fforddiadwy? Ni ddylid ystyried TTD ond lle bo’r eiddo newydd yn fforddiadwy ac yn addas ar gyfer anghenion yr hawlydd;
- Oes blaendal rhent i fod i gael ei ddychwelyd o’r denantiaeth flaenorol?;
- Petai cais am gostau symud, oedd cyfeiriad blaenorol yr ymgeisydd wedi ei ddodrefnu neu heb ddodrefn? Os oedd wedi ei ddodrefnu, oes angen am wasanaeth symud llawn?;
- Oes gan yr ymgeisydd rhywun all eu helpu hefo’r costau neu’r symud?

  Os nad yw’r dyfarniad TTD yn cwrdd yn llawn â chost yr hawliad, efallai bydd yn briodol i gyfeirio’r ymgeisydd i’r Gronfa Cymorth Dewisol am gymorth ychwanegol drwy Daliad Cymorth Mewn Argyfwng. Lle gwneir cyfeiriadau o’r fath, mae’n bwysig i adael i’r ymgeisydd wybod nad oes warant bydd y cais yn llwyddiannus.

**6.29** Os yw’r cais am flaendal/rent ymlaen llaw/costau symud yn un ar gyfer eiddo y tu allan i Ynys Môn, y mae’n dal i fod yn bosibl gwneud taliad os oes gan yr hawlydd hawl i fudd-dal tai neu gredyd cynhwysol o fewn yr ardal ar hyn o bryd.

**6.30** Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn briodol gwneud TTD ar gyfer dau gartref, e.e. dianc rhag trais yn y cartref.

DRAFT

**6.31** Gellir ystyried ôl-dalu taliadau ond ni ellir dyfarnu TTD ar gyfer cyfnod cyn 2ail Gorffennaf 2001. Rhaid i bob cais am ôl-dalu ddangos rheswm digonol parhaus.

## 7. TERFYNAU AMSER

**7.1** Ceisir am TTD am fod yr ymgeisydd yn dioddef caledi ariannol o ganlyniad i anhawster cwrdd â'u costau tai. O ganlyniad, mae'n hollbwysig bod ceisiadau yn cael sylw mor gyflym ag y bo modd. Os nad oes amgylchiadau eithriadol yn atal hynny, dylai pob cais am TTD gael ei benderfynu o fewn mis i'w dderbyn.

**7.2** Lle bydd y swyddog sy'n gweinyddu'r TTD yn barnu y byddai ymweliad â'r tŷ yn briodol, dylid gwneud hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol fel nad achosir unrhyw oedi diangen yn y broses o benderfynu.

**7.3** Efallai na fydd angen ymweliad cartref os yw'r holl dystiolaeth gefnogol am incwm a gwariant wedi ei gynnwys gyda'r cais TTD **ac** nad oes unrhyw awgrym o wariant afresymol neu bod yr ymgeisydd yn byw y tu hwnt i'w fodd mewn dull afresymol.

## 8. MAINT Y TTD

**8.1** Bydd maint a hyd y dyfarniad yn amrywio yn ôl amgylchiadau'r unigolyn. Gall fod ar ffurf taliad "unwaith ac am byth" neu yn daliadau rheolaidd am gyfnod. Mewn rhai achosion, gallai fod yn briodol gwneud dyfarniad parhaus. Pan wneir dyfarniad o'r fath, dylid ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau na fu unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai fod yn berthnasol i'r dyfarniad.

**8.2** Gall lefel y dyfarniad glirio'r cyfan neu ran o ddiffyg mewn rhent neu gynorthwyo tuag at gostau derbyn tenantiaeth newydd. Fodd bynnag, ni chaiff dyfarniadau fod yn uwch na rhent cymwys yr hawlydd (ni fydd hyn yn berthnasol gyda thaliadau "unwaith-ac-am-byth", megis blaendaliadau, rhent ymlaen llaw neu gostau symud).

**8.3** Lle gwneir taliadau "unwaith-ac-am-byth" ar gyfer rhent ymlaen llaw neu flaendaliadau rhent, dylai'r ymgeisydd gael gwybod bod yn rhaid defnyddio'r taliad ar gyfer y dibenion a nodir. Os na ddefnyddiwr y taliad ar gyfer y dibenion a nodir, gall hynny arwain at orfodi'r hawlydd i dalu'r swm yn ôl.

## 9. APELIO

**9.1** Nid yw TTD yn rhan o'r cynllun Budd-dal Tai, felly, nid yw'r hawliau apêl arferol yn bodoli. Fodd bynnag, mae egwyddorion cyfiawnder naturiol yn mynnu y dylai fod proses ffurfiol o adolygu pan fydd yr ymgeisydd yn anghytuno gyda phenderfyniad yr Awdurdod Lleol.

**9.2** Lle bydd yr ymgeisydd yn anghytuno â'r penderfyniad i beidio â dyfarnu TTD, neu gyda maint neu hyd y dyfarniad, gallent ofyn bod y penderfyniad yn cael ei ailystyried. Bydd y mater yn cael ei ailystyried gan swyddog gwahanol ar lefel uwch.

**9.3** Os bydd yr ymgeisydd yn anghytuno â dyfarniad y swyddog adolygu, gall ofyn bod y mater yn cael ei gyfeirio at banel o Aelodau etholedig y Cyngor i gael penderfyniad terfynol ar y mater.

DRAFT

**9.4** Wrth ystyried eu penderfyniad, dylai Aelodau etholedig ofalu bod eu penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi TTD y Cyngor a'u bod yn ymwybodol na ddylai unrhyw ddyfarniad arwain at wariant uwchlaw 'cyfanswm a ganiateir' y Cyngor.

**9.5** Os yw'r ymgeisydd yn anghytuno â phenderfyniad Panel Apêl y Cyngor, yr unig opsiwn sydd ganddynt am adolygiad pellach fydd i'r gwasanaeth Ombwdsmon Llywodraeth Leol os ydynt yn anfodlon â'r ffordd cafodd y mater ei drin, neu Adolygiad Barnwrol os teimlant fod y penderfyniad yn gyfreithiol anghywir.

## 10. HYSBYSIADAU

**10.1** Pan fydd cais am TTD wedi cael ei benderfynu, mae'n rhaid hysbysu'r ymgeisydd am y canlyniad yn ysgrifenedig. Dylai llythyrau hysbysiad fod yn ddigonol fanwl i alluogi'r ymgeisydd gyflwyno apêl petaent yn anghytuno â'r penderfyniad. Bydd yr hysbysiadau'n cynnwys y canlynol:-

- Maint y dyfarniad;
- A yw'r dyfarniad i gael ei dalu mewn lwmp swm neu dros gyfnod;
- Y cyfnod y bydd y dyfarniad yn para, gan gynnwys y dyddiad y daw i ben, os yn berthnasol;
- Y dull o dalu;
- I bwy y mae'r taliad i'w wneud;
- Lle bo'r taliad am lai na maint y diffyg, eglurhad sut y penderfynwyd ar y ffigwr hwnnw;
- Eglurhad mai bwriad y dyfarniad yw: -
    - Rhoi amser i'r ymgeisydd chwilio am gartref arall sy'n rhatach;
    - Rhoi amser i'r ymgeisydd gytuno ar rent is gyda'r landlord;
    - Helpu i liniaru caledi ariannol yn y tymor byr/tymor canol;
- Egluro y gellir hawlio'n ôl unrhyw ddyfarniadau a wneir ar sail gwybodaeth anghywir, camliwio neu fethiant i ddatgan ffeithiau perthnasol;
- Egluro ei bod yn ofynnol i'r ymgeisydd roi gwybod i'r Adain Budd-daliadau Tai os yw eu hamgylchiadau ariannol yn newid yn ystod cyfnod y dyfarniad TTD. Gall methiant i hysbysu newidiadau arwain at ad-dalu'r TTD;
- Eglurhad o'r broses apêl.

**10.2** Lle gwneir dyfarniad er mwyn talu blaendal, dylid cynnwys gwybodaeth am ddyletswydd gyfreithiol y landlord i warchod y blaendal mewn cynllun gwarchod blaendal tenantiaeth a gymeradwyir gan y llywodraeth.

**10.3** Lle gwrthodwyd TTD, mae'n rhaid i'r hysbysiad gynnwys digon o wybodaeth i ganiatáu i'r ymgeisydd benderfynu a yw am ofyn i'r mater gael ei ailystyried neu yw am wneud apêl. Dylai'r hysbysiad ddatgan yn glir y rhesymau am y penderfyniad a nodi pa ffactorau a gymerwyd i ystyriaeth wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw.

**10.4** Hefyd, dylai'r hysbysiad nodi'n glir fod hawliau apêl sy'n ymwneud â phenderfyniadau TTD yn gwbl ar wahân i hawliau apêl ar gyfer budd-daliadau tai a chredyd cynhwysol.

**10.5** Lle bo TTD yn cael ei dalu gyda'r budd-dal tai, rhaid i'r hysbysiadau ddangos yn glir faint sy'n fudd-dal tai a faint sy'n TTD.

**10.6** Pan fo cyfnod dyfarniad TTD i fod i ddod i ben, byddir yn hysbysu'r hawlydd o hynny un mis cyn terfynu'r dyfarniad. Byddant hefyd yn derbyn ffurflen gais am ddyfarniad arall tebyg. Fodd bynnag, dylid ei gwneud yn glir nad oes unrhyw warant y bydd cais arall yn llwyddiannus, hyd yn oed pe bai amgylchiadau'r hawlydd yn parhau heb newid.

**10.7** Lle bo'r ymgeisydd wedi rhoi eu caniatâd i'r landlord gael gwybod am ganlyniad y cais TTD, bydd yr Awdurdod yn hysbysu'r landlord o'r ceisiadau llwyddiannus **a'r** canlyniadau aflwyddiannus.

## 11. CYLCHOEDD TALU

**11.1** Bydd cylchoedd talu yn amrywio yn ôl amgylchiadau'r ymgeisydd a'r rhesymau am y dyfarniad. Lle dyfernir taliad 'unwaith-ac-am-byth', dylid gwneud y ffaith honno yn eglur i'r ymgeisydd yn yr hysbysiad.

**11.2** Yn arferol, bydd taliadau cyfnodol yn cael eu gwneud bob pedair wythnos; fodd bynnag, gall taliadau wythnosol fod yn berthnasol pe bai'r ymgeisydd yn dangos ei fod yn cael problemau gyda rheoli arian neu gyllidebu.

**11.3** Lle bo'r ymgeisydd yn derbyn Credyd Cynhwysol, bydd angen alinio'r cylchoedd talu hefo'r taliad misol o Gredyd Cynhwysol.

## 12. GORDALIADAU A HAWLIO TALIADAU YN ÔL

**12.1** Lle dyfernir TTD o ganlyniad i gamgymeriad, gamliwio neu fethiant i ddatgelu ffeithiau perthnasol, boed trwy dwyll neu beidio, gellir hawlio'n ôl unrhyw ordaliad.

**12.2** Ni ellir hawlio gordaliadau TTD o unrhyw fudd-daliadau eraill a roddwyd. Yr unig ddull o gael yr arian yn ôl yw gofyn i'r hawlydd am ad-daliad. Gall hyn fod trwy system mân ddyledwyr y Cyngor, trwy asiantaethau casglu dyledion neu drwy'r llysoedd.

**12.3** Does dim angen talu yn ôl TTD a ddyfarnwyd am flaen-daliadau rhent cyhyd bod y TTD wedi cael ei ddefnyddio at y pwrpas priodol.

**12.4** Ni ddylid ceisio adennill dyfarniadau TTD a wnaed 'ar gyfrif' o dan y broses tracio cyflym.

## 13. CADW COFNODION

**13.1** Mae'n ofynnol i'r Adran Gwaith a Phensiynau fonitro sut y mae TTD yn cael eu defnyddio gan y cwsmeriaid y mae diwygiadau lles yn effeithio arnynt. O ganlyniad, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gadw cofnod o'r prif resymau dros wneud dyfarniadau. Dylid cofnodi pob dyfarniad TTD o dan y categorïau canlynol:-

- I gefnogi cwsmeriaid y mae cap ar fudd-daliadau yn effeithio arnynt;
- I gefnogi cwsmeriaid y mae meini prawf maint y sector tai rhent cymdeithasol yn effeithio arnynt;
- I gefnogi cwsmeriaid y mae diwygiadau'r Lwfans Tai Lleol yn effeithio arnynt;
- Unrhyw reswm arall.

**RUSSELL WILLIAMS**
**RHEOLWR BUDD-DALIADAU** **MAWRTH 2019**

DRAFT

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **25ain o Fawrth 2019** |
| **Pwnc:** | **Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2019-2049** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Ned Michael**<br>**01248 752289** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-

**A1.** Cynllun Busnes 2019-2049 ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), ac yn arbennig cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2019-2020 fel y nodir i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru;

**A2.** Y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer Tai am 2019-2020 fel y nodir yn y Gyllideb Cyfalaf.

**A3**. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Deilydd Portffolio Tai, Pennaeth Gwasanaeth Tai a'r Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau a'r Swyddog Adran 151, i gytuno dyluniad a geiriad terfynol y Cynllun Busnes 2019 - 2049, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Rhesymau**

**1.0 Cefndir**

**1.1** Mae'r Adroddiad a'r Cynllun Busnes hwn wedi cael ei baratoi mewn ymgynghoriad gyda Swyddogion o'r Gwasanaeth Cyllid. Cynllun Busnes yw'r prif gyfrwng ar gyfer cynllunio ariannol mewn perthynas â chyflawni a rheoli stoc dai'r Cyngor. Yn arbennig, mae'r Cynllun Busnes yn nodi:-

- sut bydd y Cyngor yn dod â'r cyfan o'i stoc i fyny i Safonau Ansawdd Tai Cymru – mae rhai eiddo'n parhau i gael eu categoreiddio fel 'methiannau derbyniol';
- y modd y mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal safonau SATC a rhagori arnynt a
- y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cynyddu'r stoc tai Cyngor.

**1.2** Mae'r Cyngor, drwy'r CRT, yn berchen ar, ac yn rheoli 3,819 o eiddo ac ychydig dros 700 o garejys, ar hyd a lled yr Ynys. Dros gyfnod y Cynllun Busnes hwn fe fyddwn yn gweld y nifer stoc yn cynyddu i dros 5000 o unedau.

1.3 Mae’r Cynllun Busnes CRT yn cyfrannu at y themâu sylfaenol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae’n cyfrannu yn bennaf at y themâu sy’n ymwneud â Thrawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn, Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi ac Adfywio ein Cymunedau a Datblygu’r Economi.

1.4 Fel rhan o'r Cytundeb Gwirfoddol a lofnododd Awdurdodau Lleol gyda Llywodraeth Cymru, trafodwyd a chytunwyd ar hyblygrwydd i fenthyca sydd yn caniatáu ar gyfer adeiladu tai Cyngor o’r newydd a chynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru.

1.5 Mae’r CRT yn parhau i gael ei glustnodi’n benodol ar gyfer swyddogaethau Landlord y Cyngor sy’n gysylltiedig â’r stoc dai Cyngor. Mae hyn yn golygu na chaiff y Cyngor roi cymhorthdal i dai Cyngor o’r gronfa gyffredinol.

**2.0 Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC)**

2.1 Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gwrdd â SATC ers 2012, yr ail Awdurdod yng Nghymru i gyflawni'r safon ar y pryd.

Dywed Safon Ansawdd Tai Cymru y dylai bob aelwyd gael y cyfle i fyw mewn tai o ansawdd da sydd:

· Mewn cyflwr da.
· Yn ddiogel.
· Wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran defnyddio tanwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda.
· Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
· Wedi eu rheoli'n dda.
· Wedi eu lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel.
· Yn cwrdd â gofynion penodol yr aelwyd i’r graddau y mae hynny’n bosib (e.e. gofynion pobl ag anableddau penodol).

**3.0 Rhaglen Gyfalaf 2019-2020**

3.1 Mae Rhaglen Gyfalaf o £11.792m wedi ei gynnwys o fewn y Cynllun Busnes, mae hyn yn cynnwys £7.4m ar gyfer gwaith mewnol / allanol, gwaith risg tân, asbestos, addasiadau i'r anabl a gwaith effeithlonrwydd ynni. Mae'r gyllideb hefyd yn caniatáu ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â SATC yn llawn drwy dargedu methiannau derbyniol, gwaith amgylcheddol ac ati. Gweler Atodiad 3 am fwy o fanylion.

3.2 Mae darpariaeth o £4.003m wedi ei gynnwys yn y gyllideb refeniw ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

3.3 Yn ogystal mae £4.392m yng nghyllideb 2019-20120 ar gyfer rhaglen ddatblygu tai cyngor newydd ac i brynu cyn tai cyngor ar yr Ynys. Mae’r Cynllun Busnes yn rhagdybio y bydd 45 o unedau’n cael eu datblygu yn 2019-2020, 45 o unedau yn 2020-2021, 85 o unedau yn 2021-2022

sydd yn cynnwys 40 o unedau Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol.

**4.0 Model Ariannol a Rhagdybiaethau**

4.1 Rhaid cefnogi'r Cynllun Busnes ar gyfer y CRT gyda model ariannol 30 blynedd ac Ymhelaethir ar y model ym mhennod 7 o'r Cynllun Busnes.

Cyflwynir dadansoddiad sensitifrwydd gyda'r Cynllun Busnes ac mae'n dangos pa mor gadarn yw'r cynllun. Mae'r rhain yn seiliedig ar ragdybiaethau a pharamedrau allweddol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn darogan pa adnoddau fydd ar gael a pha adnoddau sydd ei angen i barhau i gwrdd â SATC ac i adeiladau tai cyngor newydd, gan anelu at roi sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd tymor hir y Cyfrif Refeniw Tai.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Polisi Rhent Tai Cymdeithasol yn Ebrill 2015 ar gyfer awdurdodau lleol a bydd yn weithredol am gyfnod o 5 mlynedd. Mae'r polisi'n anelu at sicrhau cydgyfeiriant rhent rhwng y Cyngor a Chymdeithasau Tai dros gyfnod o amser. Rhagdybir y byddwn fel Cyngor yn cyrraedd lefelau rhent cydgyfeiriant gyda'r Cymdeithasau Tai erbyn 2022-2023.

4.2 Mae incwm rhenti a'r polisi ar gyfer gosod rhenti lleol yn ffactor sylweddol o ran hyfywedd y Cynllun Busnes yn y dyfodol. Mae polisi rhent tai cymdeithasol Cymru wedi ei ddatganoli gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig sydd ar hyn o bryd yn cael ei gynyddu'n flynyddol yn seiliedig ar CPI cyhoeddwyd ar gyfer Medi pob blwyddyn ynghyd a 1% a hyd at £2 yr wythnos tuag at gyrraedd cydgyfeiriant rhent. Ar gyfer 2019/20 penderfyniad Llywodraeth Cymru oedd cynnydd o 2.4% sef CPI mis Medi a peidio a chynnwys y +1%.

4.3 Risg i hyfywedd y Cynllun Busnes yw ymestyn Credyd Cynhwysol a gychwyn yn Ynys Môn ym mis Rhagfyr 2018. Yn y Cynllun Busnes, nodir y camau gweithredu yr ydym yn bwriadu eu cymryd gyda sefydliadau partner i gefnogi Tenantiaid er mwyn lliniaru'r effaith o ran yr incwm a gasglir.

4.4 Rhoddwyd prawf ar gadernid y cynllun busnes i roi ystyriaeth y risgiau yn unigol a gyda'i gilydd a bod y cynllun busnes yn parhau i fod yn hyfyw dros y cyfnod o 30 blynedd.

4.5 Yn dilyn ymadael o'r system CRT, mae'r Cyngor bellach yn cadw'r holl incwm a gaiff o renti yn y CRT ac yn ei ddefnyddio i gwrdd â gwariant, dyledion gwasanaeth ac i fuddsoddi mewn gwasanaethau a thai ychwanegol.

Mae'r gyllideb gyfalaf a refeniw ar gyfer y 5 mlynedd nesaf wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad hwn yn Atodiad 2.

4.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu manylion am y cynnydd lefelau rhent am 2019-2020, sef chwyddiant o 2.4% ynghyd a hyd at £2 yr wythnos i eiddo sydd gyda rhent is na'r rhent targed.

| |
|---|
| Bu i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnydd hwn i renti 2019/20 yn ystod cyfarfod y 18fed o Chwefror.  Mae'r cynnydd hyn wedi ei gynnwys o fewn cyllideb incwm rhent 2019/20. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cynllun Busnes yn cael ei gymeradwyo gan yr UDA. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Mae'r Swyddog Adran 151 wedi ei fodlonni bod y rhagdybiaethau yn y cynllun busnes yn rhesymol ac yn cydymffurfio gyda chanllawiau LlC a bod y cynllun busnes yn hyfyw ac yn adlewyrchu'r sefyllfa ariannol gyfredol sy'n wynebu'r CRT. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Mae'r holl aelwydydd sy'n byw mewn Tai Cyngor yn cael budd o SATC, y rhaglen gyfalaf a chymorth i baratoi ar gyfer newidiadau diwygio lles. |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad 1 – Drafft Cynllun Busnes CRT 2019 -2049 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Adroddiad ar yr Arolwg o Gyflwr y Stoc, 2017 |



# CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI

2019 - 2049

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| | Cynnwys | Rhif Tud |
|---|---|---|
| 1.0 | Cyflwyniad | |
| 2.0 | Amcanion y Cynllun Busnes | |
| 3.0 | Dadansoddiad o'r Cynllun Busnes | |
| 4.0 | Rheoli Asedau | |
| 5.0 | Monitro a Gwerthuso | |
| 6.0 | Rheoli Risg | |
| 7.0 | Y Cynllun Ariannol ar gyfer y CRT | |
| 8.0 | Y Cynllun Gweithredu ar gyfer y CRT - targedau gweithredol 2018/201 | |

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
**Dadansoddiad Sensitifrwydd**

**Atodiad 2**
**Model ariannol 30 mlynedd**

**Atodiad 3**
**Datganiad Amgylcheddol**


DRAFFT

## 1.0 Cyflwyniad

Nod y Cynllun Busnes ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai, a elwir yn CRT drwy'r ddogfen hon, yw cynllunio ymlaen i sicrhau bod yna gynllun ariannol ymarferol ar gyfer ein stoc o dai Cyngor, sef 3819 o unedau (fel ar ddiwedd mis Rhagfyr 2018).

Yn gyntaf ac yn bennaf, mae'r Cynllun Busnes yn nodi'n glir ein cyfeiriad a'n blaenoriaethau am y 5 mlynedd nesaf, ond gan gadw mewn cof effeithiau ein penderfyniadau tymor byr yn y tymor canol a'r tymor hir. Ein nod yn ystod y 5 mlynedd nesaf yw parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i'n tenantiaid, gan sicrhau ei fod yn gost effeithiol ac yn gwella'n barhaus, a hynny drwy weithio'n agosach gyda'n tenantiaid, ein cymunedau a'n partneriaid datblygu.

Mae'r CRT yn ariannu'r holl waith y mae'r Cyngor yn ei wneud fel landlord y stoc dai. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwaith cynnal a chadw, gwaith cyfalaf a gwelliannau amgylcheddol, uchafu incwm rhent, rheoli stadau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sicrhau bod tenantiaid yn cael cymaint o gyfleoedd â phosib i ddylanwadu ar ein blaenoriaethau, ynghyd ag ychwanegu at ein stoc dai er mwyn cyfrannu tuag at gwrdd â'r angen am dai cymdeithasol ar yr Ynys.

Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal CRT statudol, neilltuedig, gan gyfrifo am incwm a gwariant ar dai Cyngor ar wahân i incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â Chronfa'r Cyngor.

Mae'r Cynllun Busnes yn cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i

- gynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) a mynd i'r afael â 'methiannau derbyniol',
- mynd i'r afael â meysydd lle mae angen gwella perfformiad a chanlyniadau, gan sicrhau gwelliannau pellach yn y gwasanaeth ar gyfer ein tenantiaid,
- darparu gwasanaethau ar gyfer ein tenantiaid sy'n cynnig gwerth am arian, a hynny mewn cyfnod o ostyngiadau cynyddol mewn gwariant cyhoeddus,
- cynyddu atebolrwydd trwy ymgysylltu mwy gyda staff, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Aelodau Etholedig a rhanddeiliaid allweddol,
- sicrhau bod darpariaeth ddigonol i liniaru rhai o effeithiau posib y drefn Diwygio Lles ar y cymunedau lleol, drwy eu galluogi i helpu eu hunain yn hytrach na chreu diwylliant o ddibyniaeth, a
- cyflawni ein rhaglen ddatblygu ar gyfer adeiladu tai Cyngor newydd.



DRAFFT

Mae'n cydymffurfio â gofynion Cynllunio Busnes Llywodraeth Cymru ar gyfer y gyfundrefn hunan ariannu ynghylch Cyfrifon Refeniw Tai Awdurdodau Lleol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016.

Trwy ddarllen y Cynllun cewch sicrwydd bod y Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn effeithlon.

**Gweledigaeth y Gwasanaeth**

Ein Gweledigaeth yw:

***Cartrefi o ansawdd: cymunedau cynaliadwy***

ac mae'n seiliedig ar ein gwerthoedd fel gwasanaeth sy'n rhan annatod o'n gwaith ac sy'n gyrru'r ddarpariaeth gwasanaeth, fel ein bod yn :

- ♣ canolbwyntio ar gwsmeriaid ac yn atebol
- ♣ cynnig gwerth am arian
- ♣ ymrwymo i weithio mewn partneriaeth
- ♣ arloesol yn ein dull o weithio

**Ein Blaenoriaethau Bydd:**

- Adfywio stadau;
- Adeiladu o'r newydd, gan gynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy;
- Llety ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft pobl hŷn, pobl â phroblemau iechyd meddwl;
- Mynd i'r afael â'r rhaglen effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd.

Ymgynghorwyd ar y blaenoriaethau hyn gyda'n tenantiaid a'r Aelodau Etholedig.

Cyflwynwyd y Cynllun i Bwyllgor Gwaith y Cyngor, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd Gwasanaethau Tai. Mae Swyddog 151 y Cyngor wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun.

Nod y Cynllun yw rhoi hyder i gyllidwyr, tenantiaid ac Aelodau Etholedig bod adnoddau a gwasanaethau'r CRT yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae rhagor o wybodaeth am bob agwedd ar y cynllun hwn ar gael gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW. E-bost Tai@ynysmon.gov.uk

DRAFFT

**Cynllunio ar gyfer y dyfodol**

Mae Tai yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor o safbwynt “Siapio Lle” a chynyddu’r cyflenwad o dai o ansawdd. Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Tai ac arno gynrychiolwyr o'r lefel uchaf o blith yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau.

Byddwn yn ymgynghori’n briodol gyda Gwasanaethau eraill ac adrodd yn rheolaidd i’r Bwrdd Gwasanaethau Tai a’r Grŵp Tir ac Asedau mewn perthynas â unrhyw gyfleon datblygu tai cyngor newydd. Byddwn yn dewis safleoedd datblygu tai cyngor newydd mewn cydweithrediad ar Grŵp Tir ac Asedau fel rhan allweddol o gyflawni ein Strategaeth Cynllunio Lle.

Yn sicr, mae mwy o bwyslais ar Ddeddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gwaith ataliol a chanlyniadau sy’n canolbwyntio ar lesiant ac sy’n hyrwyddo annibyniaeth i’r cwsmer. Dros amser, bydd y cysylltiadau rhwng y tair Deddf yn dod yn gliriach trwy gynllunio gwasanaethau ar y cyd. Un peth sy’n sicr yw bod materion Tai yn hollbwysig o ran cyflawni canlyniadau’r tair Deddf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi targed uchelgeisiol o ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod ei thymor nesaf. Mae gan y Cyngor rôl hanfodol i'w chwarae wrth gyfrannu tuag at y targed hwn. Amlygir hyn yn y cytundeb y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a’r Awdurdodau Lleol wedi ymrwymo iddo fel ffordd o sicrhau bod modd cyrraedd y targed hwn.

**Y Farchnad Dai Lleol**

Mae adroddiad diweddar ar Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru yn dangos bod gennym rôl o ran darparu tai addas i bobl fregus yn ein cymdeithas. Y bylchau a nodwyd yw:

- Diffyg llety i bobl sengl
- Nifer gyfyngedig o hosteli
- Prinder darpariaeth arbenigol ar gyfer unigolion sydd â chyflyrau meddygol parhaus
- Bylchau mewn gwasanaethau cymorth

**Amcanion strategol**

Mae tai yn chware rôl bwysig iawn yn y Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn cyfrannu at nifer o’r amcanion.

- Wrth adeiladu tai newydd a gwella ein stoc bresennol byddwn yn creu effaith yn lleol a chynnig buddion cymunedol.

- Bydd darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol yn sicrhau bod pobl hyn yn cael eu cefnogi i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau.

DRAFFT

- Byddwn yn rhoi cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan er mwyn gwella gwasanaethau a rhoi sgiliau a hyder i bobl allu gymryd rhan yn eu cymunedau drwy sefydlu grwpiau cyfranogiad tenantiaid.

Mae dwy Strategaeth sydd yn bwydo fewn i allu cyflawni hyn, sef y Strategaeth Tai a'r Strategaeth Cyfranogiad Lleol. Mae strategaethau hyn yn nodi sut y byddwn yn cydweithio i ddarparu cyflenwad o dai fforddiadwy a sut gall tenantiaid gymryd rhan yn hyn.

**Y Cyd-destun Strategol a'r Cysylltiad gyda Chynlluniau eraill**

Mae datblygu ein gwasanaethau fel landlord, ynghyd a chynyddu ein stoc tai yn parhau i fod yn flaenoriaethau strategol i'r Cyngor, a gellir gweld hynny yn nodweddion y dogfennau strategol allweddol.

Yn ogystal â'r Cynllun Corfforaethol, gellir gweld tystiolaeth o'r hyn yn y Cynllun Trawsnewid, Strategaeth y Cyngor ar gyfer Rheoli Asedau, y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, y Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, y Strategaeth TGCh Gorfforaethol a Chynlluniau Gwasanaethau unigol.

**Cysylltiadau gyda Strategaeth Dai Lleol**

Mae'r Strategaeth hon yn nodi amcanion y Cyngor ar gyfer pob math o ddeiliadaethau tai ar yr ynys i gwrdd ag anghenion tai a nodwyd ac i sicrhau safonau tai uchel ar gyfer pob dinesydd. Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn un ffordd bwysig o'r gyflawni amcanion cyffredinol hyn a bydd cysylltiadau agos rhwng y ddwy ddogfen.

DRAFT

## 2.0 Amcanion y Cynllun Busnes

**2.1** Fel landlord, rydym yn dymuno i'n tenantiaid fyw mewn llety o ansawdd dda, sy'n fforddiadwy, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac sydd mewn cymunedau diogel a chynaliadwy.

Mae hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i'n nod o ostwng tlodi ac anghydraddoldeb yn ein cymunedau. Mae gan yr Adran Dai hefyd ran bwysig i'w chwarae mewn perthynas â'r economi; mae codi tai newydd a thrwsio'r stoc gyfredol yn creu swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi.

Mae'n her barhaus i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, a hynny mewn ffordd sy'n costio llai ond sy'n parhau i gwrdd â disgwyliadau o ran perfformiad ac yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannol cynyddol.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n tenantiaid i ofyn iddynt ba wasanaethau y maent yn eu dymuno eu cael a sut y buasent yn hoffi iddynt gael eu darparu. Byddwn yn eu cynnwys yn y gwaith o wella'r gwasanaethau trwy adolygu a monitro safonau gwasanaethau. Byddwn hefyd yn gwneud gwell defnydd o adborth a gawn gan gwsmeriaid er mwyn bwrw ymlaen i wella gwasanaethau ymhellach.

**2.2 Mae ein ffocws ar gyfer 2018/2019 wedi bod ar: -**

- Gwaith mewn paratoad i weithrediad newidiadau Diwygio Lles a Chredyd Cynhwysol oedd yn cael ei weithredu ar draws yr Ynys yn ystod 2018/19 ac am effeithio nifer sylweddol o'n tenantiaid.
- Cychwyn ar ein rhaglen o adeiladu tai cyngor newydd gyda gwaith adeiladu wedi cychwyn ar 25 o gartrefi newydd ar 5 o safleoedd ynghyd a phrynu 15 o gyn tai cyngor oedd wedi eu colli o'r stoc dai Cyngor drwy'r hawl i brynu.
- Yn ystod y flwyddyn llawer o waith wedi mynd ymlaen yn gwella trefniadau phrosesau Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth ar gyfer ein rheolwyr gwasanaeth.
- Fel Gwasanaeth rydym wedi gwneud llawer o gynnydd mewn perthynas â gweithredu Safonau Iaith y Cyngor.
- Cwblhau'r gwaith o allanoli'r swyddogaeth storfa ar gyfer ein Huned Cynnal a Chadw Tai yng Ngaerwen.
- Yn dilyn mabwysiadu Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mynd ar afael a datrys phroblemau ymddygiad gwrth gymdeithasol dwys o fewn dwy stad yn benodol yn ystod y flwyddyn er mwyn gwella amgylchedd byw tenantiaid ar y stadau penodol.
- Parhau i fuddsoddi'n sylweddol ar waith allanol a gwelliannau amgylcheddol i stadau wrth anelu at wireddi safonau SATC+.

DRAFFT

## 2.3 Ein Blaenoriaethau Allweddol dros y 2 flynedd nesaf (2019/2021) wedi nodi isod:

- Mewn cydweithrediad a'r Grŵp Tir ac Asedau Corfforaethol Cynyddu'r cyflenwad o dai Cyngor ar yr Ynys drwy lansiad ein Rhaglen Datblygu Tai Cyngor a fydd yn cynnwys cyfuniad o adeiladu o'r newydd ar diroedd y Cyngor a phecynnau dylunio ac adeiladwyr gyda datblygwyr preifat ynghyd a phrynu'n ôl cyn tai Cyngor.

- Byddwn yn cytuno'r cynllun prosiect ar gyfer datblygu trydydd Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yr Ynys fydd yn cael ei adeiladu yn ardal Seiriol ac yn cael ei ddatblygu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai.

- Mewn cydweithrediad a Gwasanaethau Plant byddwn yn edrych ar sefydlu 2 Gartref Grŵp ar yr Ynys.

- Yn dilyn ail fodelu cynllun Llawr y Dref symud ymlaen i osod y cynllun yn ei newydd wedd sydd yn cynnwys 3 uned arbenigol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion er mwys asesu gallu unigolion sy'n barod i symud ymlaen o ddarpariaeth cefnogaeth 24 awr i fyw yn fwy annibynnol.

- Gwaith paratoi ar gyfer newidiadau sylweddol bydd yn ein hwynebu wrth weithredu newidiadau Deddf Rhentu Cymru.

- Yn ystod y flwyddyn byddwn yn canolbwyntio ar wella gwaith ataliol mewn perthynas â atal achosion digartrefedd ar yr Ynys yn unol â gofynion Deddf Tai (Cymru), 2014.

- Byddwn yn cynnal asesiad o'r anghenion tai lleol ac yn llunio ein Strategaeth Tai Lleol 2019 – 2024.

- Parhau i fynd a'r afael o unedau sydd ddim yn cwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru fel methiannau derbyniol.

- Parhau i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth mewn meysydd lle mae perfformiad yn wael a / neu lle mae canlyniadau arolygon boddhad cwsmeriaid yn dangos yr angen i wella canlyniadau gwasanaeth, gan gynnwys gwelliannau o ran yr amser a gymerir i ailosod eiddo gwag.

## 2.4 Cyd-destun Tai Lleol

### Angen am dai

Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn rhoi gwybodaeth i'r Awdurdod am yr anghenion tai yn ei ardal. Diweddarwyd Asesiad 2013 yn 2015 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2016. Mae diweddariad 2015 yn nodi bod angen 398 o

DRAFT

anheddau fforddiadwy ychwanegol bob blwyddyn ar Ynys Môn am y 5 mlynedd nesaf (gan gynnwys tai cymdeithasol a thai canolraddol megis rhannu perchnogaeth a llety rhent canolraddol).

Nid yw'r Asesiad yn cymryd i ystyriaeth effeithiau posib Wylfa Newydd ar y farchnad dai leol. Mae gwaith ychwanegol yn cael ei wneud gan y Cyngor mewn perthynas â hynny.

### 2.5 Y Gofrestr Dai Gyffredin

Mae'r Gwasanaethau Tai yn cadw Cofrestr Dai Gyffredin ar ran Partneriaeth Dai Ynys Môn sy'n cynnwys y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid i ni, sef Grŵp Cynefin, Pennaf a Tai Gogledd Cymru.

Yn mis Mawrth 19 'roedd y rhestr aros yn cynnwys : -

322 o geisiadau byw ar y gofrestr dai, 22 yn y Band Brys, 184 ym Mand 1, 1 ym Mand 2 a 115 ym Mand 3.

Mae'r Gwasanaethau Tai yn gosod tua 250 o unedau llety o'i stoc dai ac mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gosod 79 o unedau.

Mae ein Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gallu cael mynediad ar-lein i'r Rhestr Aros am Dai fel bod modd iddynt weld enwebiadau am eu heiddo pan ddônt ar gael.

Rydym hefyd wedi datblygu Cofrestr Tai Hygyrch at ddiben cofnodi ymgeiswyr sydd angen eiddo wedi ei addasu. Bydd y gofrestr yn ein cynorthwyo i ni wneud defnydd gorau o'r stoc drwy andnabod tai sydd wedi eu haddasu ar gyfer ymgeiswyr sydd mwyaf addas ar gyfer yr eiddo pan ddônt yn wag.

### 2.6 Darparu tai addas

Mae'n anochel y bydd rhai ardaloedd yn gweld y bydd galw mawr am eiddo ac y bydd rhai tai yn fwy anodd eu gosod. Cymhlethir hyn gan leoliad a maint y stoc y Cyngor.

Mae rhagor o wybodaeth am broffil daearyddol, maint a math y stoc i'w gweld drwy fynd i'r ddolen ganlynol:
http://www.angleseyhousing.co.uk/index.php?section=information&option=areas

DRAFFT

## 2.7 Bylchau yn y Ddarpariaeth Tai Cymdeithasol/Tai Cyngor

### Dadansoddiad o’r rhestr aros o gymharu â’r stoc

Cyngor Sir Ynys Môn yw’r landlord cymdeithasol mwyaf yn Ynys Môn.

Mae yna 4733 o unedau o dai cymdeithasol ar Ynys Môn. Dyma’r ganran o’r stoc y mae pob landlord yn berchen arni:

| Landlord | Nifer yr Unedau | Canran o’r Stoc |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3819 | 81% |
| Grŵp Cynefin | 524 | 11% |
| Tai Gogledd Cymru | 143 | 3% |
| Clwyd Alyn | 248 | 5% |
| **Cyfanswm** | 4734 | 100% |

Mae’r isod yn ddadansoddiad o stoc y Cyngor o gymharu â’r gofrestr dai un stafell wely ar gyfer tai cymdeithasol.

| Cyfyngiad Oed | Canran | Dim Cyfyngiad Oed | Canran | Cyfanswm Unedau |
|---|---|---|---|---|
| 1451 | 38% | 2367 | 62% | 3818 |

| 1 Llofft | % o’r stoc | % ar y rhestr aros | 2 Lofft | % o’r stoc | % ar y rhestr aros | 3 Llofft | % o’r stoc | % ar y rhestr fer | 4 Llofft | % o’r stoc | % ar y rhestr aros |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 720 | 19% | 52% | 1351 | 35% | 34% | 1664 | 44% | 8% | 68 | 2% | 6% |

Mae’r tabl yn dangos bod cryn wahaniaeth rhwng y canrannau ar y rhestr aros sydd angen llety 1 llofft a llety 3 llofft o gymharu gyda proffil y stoc sydd ym mherchenogaeth y Cyngor.

Mae 54% o’r holl ymgeiswyr ar y rhestr fer angen eiddo 1 llofft ond dim ond 19% o’r stoc cyfredol sy’n eiddo un llofft. Er mai 5% o’r rheiny sydd ar y rhestr aros angen llety 3 lofft, mae 44% o stoc cyfredol y Cyngor yn eiddo 3 llofft.

Dylid nodi bod 627 o’r 715 o unedau 1 llofft yn rhai i bobl dros 60 oed (h.y. yn dai gwarchod neu’n dai i bensiynwyr) – mae hyn yn cynrychioli 88% o’r stoc 1 llofft. Fodd bynnag, mae canran y bobl sydd angen llety 1 llofft ac sydd dros 60 oed yn llawer is na hyn.

DRAFT

## 3.0 Dadansoddiad o'r Cynllun Busnes

Ar 31 Ionawr 2019, roedd gan y Cyngor stoc o 3819 o dai a 766 o garejis.

| Stoc Dai'r Cyngor | 2017/18 | 2018/19 | Prynwyd yn ystod 2018/19 ond heb eu gosod eto |
|---|---|---|---|
| Fflatiau 1 ystafell wely | 320 | 321 | 1 |
| Fflatiau 2 ystafell wely | 405 | 409 | 2 |
| Fflatiau 3 ystafell wely | 16 | 17 | |
| Tŷ / byngalo 1 ystafell wely | 397 | 399 | |
| Tŷ / byngalo 2 ystafell wely | 943 | 945 | 1 |
| Tŷ / byngalo 3 ystafell wely | 1637 | 1647 | 1 |
| Tŷ / byngalo 4 neu 6 ystafell wely | 77 | 81 | |
| CYFANSWM | 3784 | 3819 | 5 |

## 3.1 Cyflawni Gwasanaethau Rheoli Tai

### 3.1.1 Cyfranogiad Tenantiaid

Mabwysiadwyd Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2018-23 yn ystod 2018 sydd yn cael ei fonitro drwy'r Cynllun Gweithredu blynyddol yng nghyfarfodydd Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn (MTOV).

Mae'r strategaeth wedi adnabod y meysydd allweddol isod:

- Darparu ystod o opsiynau ystyrlon yng nghyswllt cymryd rhan i sicrhau bod tenantiaid yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch polisïau, amodau a gwasanaethau tai
- Defnyddio technoleg ddigidol i foderneiddio'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid

- Rhoi gwybod i denantiaid o wasanaethau sy'n cael effaith arnynt
- Sicrhau y caiff Cyfranogiad Tenantiaid ei gydnabod fel gweithgaredd craidd yn yr Adran
- Cefnogi Tenantiaid y mae Diwygiad Lles yn cael effaith arnynt

### 3.1.2 Canlyniadau llwyddiannus yn y maes Cyfranogiad Tenantiaid

Mae prif lwyddiannau Cyfranogiad Tenantiaid yn ystod 2018-19 yn cynnwys yr isod:

- cymryd rhan gyda diwrnod hwy i'r teulu gyda Mon Actif
- Gweithio gyda Digartref Ynys Mon a Llais Ni i gael adborth ar Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol a Lleol
- Hyrwyddo cynllun Cronfa Amgylcheddol
- Hyrwyddo a rhoi gwybod i denantiaid bod Hawl i Brynu yn dŵad i ben
- Cynnal digwyddiadau 'Technoleg, Te a Chacen'
- 17 diwrnod 'llnau wedi eu trefnu gyda 27 o sgipiau wedi ei llenwi
- Mynychu Sioe Mon
- Cyhoeddi Cylchlythyr Tenantiaid
- 5 tenantiaid newydd wedi gwirfoddoli i fod aelodau o grwpiau / panel Gwasanaethau Tai
- Fforwm Cynnal a chadw hefo tenantiaid wedi ei gynnal ac adolygu polisi trwsio
- Panel Digidol ar gyfer tenantiaid wedi eu trefnu

### 3.1.3 Galluogi ein tenantiaid i dalu eu rhent

Mae modd casglu rhent mewn nifer o wahanol ffyrdd gan gynnwys Debyd Uniongyrchol, archebion sefydlog, Paypoint, Swyddfa'r Post, yn uniongyrchol o gyflogau, drwy gerdyn debyd neu gredyd dros y ffôn, tôn gyffwrdd awtomatig, taliadau ar-lein.

Rydym ar hyn o bryd yn cynnig dyddiadau talu ar gyfer Debyd Uniongyrchol ar unrhyw ddiwrnod o'r mis mewn paratoad ar gyfer Credyd Cynhwysol. Bydd hyn yn golygu y gall tenantiaid dalu eu rhent fel a phryd y maent yn derbyn y taliad Credyd Cynhwysol. Mae dros 1260 o denantiaid yn talu trwy ddebyd uniongyrchol, sy'n oddeutu 33% o'n stoc.

### 3.1.4 Tlodi a Chynhwysiad Cymdeithasol

**Diwygio Lles**

Mae tenantiaid yn dweud wrthym eu bod y dymuno i'r Gwasanaethau Tai barhau i'w cefnogi drwy'r newidiadau mewn budd-daliadau lles. Ers Rhagfyr,2018 mae Credyd Cynhwysol wedi ei ymestyn i bawb sy'n hawlio budd-daliadau ar yr Ynys.  Bydd hyn

DRAFFT

yn newid diwylliant i hawlwyr budd-daliadau ac er mwyn cefnogi ein Tenantiaid drwy'r newidiadau hyn, byddwn:

- Yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cynghori a rhoi cymorth ymarferol i'r tenantiaid cyfredol a darpar denantiaid;
- Yn darparu cymorth cyn-tenantiaeth ac yn cefnogi ac yn nodi'n gynnar y tenantiaid hynny a all gael anhawster talu eu rhent ar amser;
- Yn darparu cefnogaeth a chyngor i denantiaid sydd wedi cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y newidiadau Credyd Cynhwysol a gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill megis CG Môn, CAB, Shelter Cymru;
- Yn gweithio'n agos gyda'r Adran Waith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith ar ymestyn Credyd Cynhwysol;
- Yn helpu tenantiaid i sicrhau eu bod yn cael yr incwm mwyaf posib a'u bod yn gallu rheoli cyllideb eu haelwydydd;
- Yn darparu amrediad o opsiynau talu cyfleus er mwyn ei gwneud yn haws i denantiaid dalu eu rhenti;
- Yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Digartref i gynllunio ac arbrofi gyda mentrau a fydd yn cefnogi llety a chymorth i bobl sengl, yn enwedig i bobl dan 35 oed sydd wedi eu heffeithio gan Ddiwygio Lles.

**Tlodi Tanwydd**

Mae tlodi tanwydd (lle mae pobl yn gwario rhagor na 10% o incwm y cartref ar filiau tanwydd) yn parhau i fod yn broblem i nifer o deuluoedd. Er mwyn cynorthwyo ein tenantiaid i arbed arian ar eu biliau tanwydd, byddwn:

- Yn hyrwyddo amrediad o fentrau i gefnogi tenantiaid i fynd i'r afael â thlodi tanwydd;
- Yn parhau i ymestyn cynlluniau a fydd yn gwneud ein cartrefi'n fwy ynni-effeithlon, gyda'r nod o sicrhau cynnydd yn nifer yr eiddo sydd â sgôr ynni sy'n uwch na 65.

**Cefnogi pobl i mewn i gyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli a gwaith**

Mae cefnogi pobl i mewn i gyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli a gwaith yn cynyddu incwm y teulu, ond daw hefyd â manteision o safbwynt iechyd a llesiant i unigolion a'u teuluoedd. Mae nifer o gyfleon gwaith ar gael ar yr Ynys a nifer o fentrau wrthi'n cael eu datblygu i helpu i gefnogi tenantiaid a'u teuluoedd i fanteisio ar gyfleon hyfforddiant a gwaith yn y dyfodol. Er mwyn cefnogi ein Tenantiaid, byddwn:

DRAFFT

- Yn cefnogi tenantiaid sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir i mewn i waith drwy raglenni megis Cymunedau ar gyfer Gwaith ac Opus;
- Yn parhau i weithio, datblygu a hyrwyddo cyfleon dysgu gydol oes gyda Choleg Llandrillo-Menai, Môn CF ac Opus lle bydd Tenantiaid efallai yn dymuno manteisio ar y cyfleon a'r gefnogaeth;
- Yn gweithio gyda Chanolfan Byd Gwaith i wneud y mwyaf o'r cyfleon cyflogaeth sydd ar gael

**Cynhwysiad Digidol**

Mae ein Tenantiaid yn dweud wrthym yr hoffent i ni wneud mwy i'w helpu i wella eu sgiliau a'u galluoedd digidol. I'r perwyl hwn, byddwn:

- Yn hyrwyddo mynediad Tenantiaid i'r porth 'Fy Nghartref' fel y gallent edrych ar eu cyfrifon rhent, gwneud taliadau, rhoi gwybod i ni am waith trwsio y mae angen ei wneud a monitro cynnydd yn hynny o beth;
- Yn ceisio darganfod pa wasanaethau yr hoffai ein Tenantiaid gael mynediad iddynt ar y rhyngrwyd;
- Yn gweithio gyda chydweithwyr yn ein Gwasanaeth Gwybodaeth a Thechnoleg i ymestyn strategaeth ddigidol y Cyngor a buddsoddi mewn cyfleusterau wi-fi yn y cyfan o'n lolfeydd cymunedol dros y 12-18 mis nesaf

### 3.1.5 Lefelau Rhent

Yn seiliedig ar y 'rhent targed' diwygiedig ym mholisi Llywodraeth Cymru ar Renti Tai Cymdeithasol, dyma rent targed Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer pob math o eiddo yn 2019/20:-

| Math o Eiddo | Rhent Targed ar gyfer 2019/20 |
|---|---|
| Fflatiau Un Ystafell (Bedsits) | £70.14 |
| Fflat un Ystafell Wely | £78.91 |
| Fflat dwy Ystafell Wely | £87.68 |
| Fflat tair Ystafell Wely | £96.44 |
| Fflat pedair Ystafell Wely | £105.21 |
| Tŷ un Ystafell Wely | £87.22 |
| Tŷ dwy Ystafell Wely | £96.90 |
| Tŷ tair Ystafell Wely | £106.60 |

DRAFFT

| | |
|---|---|
| Tŷ pedair Ystafell Wely | £116.29 |
| Tŷ pump Ystafell Wely neu fwy | £125.98 |

Gan ddefnyddio'r ffigyrau uchod, mae 3,805 eiddo (99.6%) dan y rhent targed, 14 eiddo uwchben y rhent targed.

### 3.1.6 Diogelu

Mae Deddfwriaeth Llywodraeth yn rhoi dyletswydd ar bob sefydliad i hyrwyddo diogelu. Fel staff Cyngor Sir Ynys Môn, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo llesiant a diogelu plant ac oedolion yn ein cymunedau sydd, fe ystyrir, naill ai'n 'fregus' neu 'mewn perygl', waeth beth yw ein swyddogaethau unigol.

Mae disgwyliad statudol bod ein staff a'r asiantaethau hynny yr ydym yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth / ymyriadau ar ein cyfer, yn dilyn pecyn hyfforddiant diogelu Gofal Cymdeithasol Cymru. Trefnir yr hyfforddiant yma ar gyfer gwasanethau mewnol y Cyngor ynghyd â mudiadau allanol sy'n cael eu comisiynu ganddom, trwy'n Adran Adnoddau Dynol.

Dyma linc i'r pecyn hyfforddiant a gwybodaeth bellach:- https://socialcare.wales/learning-and-development/safeguarding

### 3.1.7 Pwynt Mynediad Sengl Cefnogi Pobl

Mae Un Pwynt Mynediad Sengl / Swyddog Porth bellach yn weithredol ers Hydref 2017 ar gyfer derbyn cyfeiriadau Cefnogi Pobl. Mae'r broses wedi ein galluogi i:

- Adnabod, monitro a rheoli symudiad yn broses atgyfeirio i mewn i wasanaethau cefnogaeth sy'n ymwneud â thai yr ariennir trwy Raglen Cefnogi Pobl;
- Hwyluso mynediad gwell a haws i wasanaethau ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth mwyaf bregus;
- Darparu teclyn rheoli mwy cadarn er mwyn gwella'r gwaith o fonitro darparwyr gwasanaeth;
- Hwyluso a gwella cyfathrebu ac arferion gwaith rhwng y timau Cefnogi Pobl ac Opsiynau Tai a'r Tîm Un Pwynt Mynediad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Sicrhau bod agwedd fwy strategol yn cael ei chymryd tuag at ddatblygu gwasanaethau a datrysiadau tai cynaliadwy, a bod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn ymateb i anghenion presennol ac anghenion sy'n codi.

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20 rydym yn gobeithio adeiladu ar cynnydd sylweddol sydd wedi ei wneud eisoes trwy:

- Weithio'n agosach gyda Swyddogion Digartrefedd a darparwyr cefnogaeth i adnabod achosion, ble mae angen cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i bobl fregus sy'n cael eu lleoli mewn llety dros dro e.e. gwely a brecwast. Bydd cefnogaeth cyn-denantiaeth o'r fath yn cael ei gynnig yn syth ar ôl cwblhau

DRAFFT

asesiad digartrefedd, er mwyn ceisio lleihau'r cyfnod a'r gost o orfod aros mewn llety gwely a brecwast.

- Hwyluso gwell a cryfach proses ar gyfer trefniadau symud ymlaen i eiddo amgen, yn enwedig pan y bo person bregus yn gadael llety â chefnogaeth, fel hostel neu loches.

- Adeiladu ymhellach ar y gwaith o ddarparu cymorth i ddarparwyr Cefnogi Pobl, unwaith y bydd yr angen i symud ymlaen wedi ei adnabod, trwy ddefnyddio'r Polisi Gosod ar gyfer tai cymdeithasol, a chyfeirio achosion ymlaen ble'n briodol, yn amserol at Swyddog Cydweithio gyda Landlordiaid Sector Breifat, er mwyn cynnig amrediad o opsiynau llety.

- Cydweithio gydag Opsiynau Tai (Gosodiadau) i ddatblygu proses i sicrhau bod darparwyr cefnogaeth ar gyfer tenantiaid mewn llety â chefnogaeth yn ymwybodol bod cynnig llety wedi ei wneud, ac felly osgoi'r posibilrwydd o'r cynnig gael ei dynnu'n ôl neu wrthod, fyddai'n arwain at symud un band yn is, neu ohirio'r cais am gyfnod o chwe mis. Bydd angen sicrhau caniatâd y tenant ymlaen llaw cyn y gellir gweithredu hyn.

### 3.1.8 Cymorth fel y bo'r Angen

Dyfarnwyd cytundeb o'r newydd i'r Gwasanaethau Tai ym mis Tachwedd 2018, trwy arian Rhaglen Cefnogi Pobl. Bydd y ddarpariaeth fewnol ar gyfer cynnig gwasanaeth cefnogaeth sy'n ymwneud a thai ar draws pob daliadaeth llety, gan allu ymestyn y ddarpariaeth gwasanaeth ymhellach na'r cyfnod cyfredol o ddwy flynedd, pe byddai unigolyn neu deulu dal yn fregus. Yn ogystal, gall rhywun sydd wedi gweld ei g/wasanaeth yn dod i ben cyn y ddwy flynedd ond mewn peryg o fod angen cyfnod arall o gefnogaeth, dderbyn y gefnogaeth yma hefyd, fel modd o ymyrraeth fuan a thymor byr, er mwyn atal argyfwng ac ymyrraeth lefel uwch.

Gellir cael mynediad yn ôl a blaen i'r gwasanaeth yma, cyn belled nad oes cyfnod o fwy na blwyddyn wedi mynd heibio ers derbyn cefnogaeth o'r blaen. Serch hynny nid yw'n fwriad ymestyn y gwasanaeth am gyfnod di-ddiwedd a chreu dibyniaeth, ond cydnabyddir y bydd rhai pobl angen ymyrraeth tymor byr o bryd i'w gilydd yn eu bywydau. Y bobl sydd fwyaf tebygol o elwa o wasanaeth o'r fath yw'r rheini ag anawsterau dysgu nad ydynt yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer cofrestru anabledd dysgu, iechyd meddwl lefel isel, megis gor-bryder ac arwyddion cynnar o iselder a phobl hŷn sydd ar eu pennau eu hunain a'r rhai hynny sydd â thueddiadau anhrefnus ar draws y meysydd gwasanaeth.

### 3.1.9 Ail Fodelu Gwasanaethau Camdriniaeth yn y Cartref.

O fis Ebrill 2019, bydd dwy raglen grant ataliol ac ymyrraeth gynnar yn dod yn weithredol, sef y Grant Cefnogaeth sy'n ymwneud â Thai a'r Grant Plant a Theuluoedd. Rhyngddynt bydd 10 grant unigol yn ymuno ar draws y ddwy raglen. Dylai hyn arwain at gydweithio agosach rhwng asiantaethau megis Gwasanaethau

DRAFT

Tai  Gwasanaethau Cymdeithasol. Eisoes, mae Grŵp Tasg a Gorffen sy'n cynnwys Swyddogion a Rheolwyr o fewn y Cyngor, Heddlu Gogledd Cymru, darparwyr arbenigol lleol ayyb  wedi ei sefydlu i edrych ar ail fodelu gwasanaethau ar gyfer goroeswyr camdriniaeth yn y cartref.

Bydd darn o waith yn cael ei dreialu, pryd y bydd cynllun peilot yn cynnig ymyrraeth ddwys i nifer fechan o deuluoedd sydd dioddef neu  wedi goroesi camdriniaeth yn y cartref. Bydd y model yn seiliedig ar ddarpariaeth Gwasanaeth Cefnogaeth Integredig Deuluol (IFSS) ac yna bydd y canlyniadau a'r deilliannau yn cael eu cymharu yn erbyn yr ymyrraeth mwy traddodiadol a ddarperir i deuluoedd ar hyn o bryd. Yn dilyn y gwerthusiad, bydd penderfyniad pellach wedyn yn cael ei wneud ar sut y byddwn yn symud ymlaen i ail fodelu a chomisiynu gwasanaeth a fydd yn dod ac adnoddau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ac unrhyw asiantaeth arall briodol at ei gilydd i ddarparu gwasanaeth holl-gynhwysol, modern, fydd yn cynnig gwell gwerth am arian, yn osgoi dyblygu ac yn addas i bwrpas.

Bwriedir mynd allan i dendr yn ystod chwarter 2 o 2019/20 gyda'r nod o gael y gwasanaeth ar ei newydd wedd, yn weithredol o'r 1af Hydref 2019.

DRAFFT

## 4.0 Rheoli Asedau

### Y gyrwyr allweddol ar gyfer y Gwasanaeth Trwsio a Chynnal a Chadw

Mae pwyslais wedi bod ar drawsnewid y modd mae'r gwasanaeth cynnal a chadw yn cael ei gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf ac rydym wedi gwneud hyn drwy:

- Sicrhau bod asedau'n cael eu cynnal a'u cadw mewn ffordd fwy effeithlon sydd wedi'i chynllunio, sy'n gynaliadwy ac sy'n fforddiadwy
- Darparu gwasanaeth trwsio a chynnal a chadw cost effeithiol sydd ag ethos 'yn gywir y tro cyntaf'.
- Sicrhau bod cartrefi'n cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel ac yn bodloni'r holl oblygiadau statudol
- Datblygu'r fframwaith rheoli perfformiad er mwyn i'r gwasanaeth trwsio allu cyflawni canlyniadau go iawn ar gyfer ei gwsmeriaid.
- Sefydlu gwasaneth cynnal a chadw sy'n seiliedig ar apwyntiadau.

**Dyma rhai lluniau o stadoedd hynaf ein stoc gyda dyddiad adeiladu o 1900 :**



Field Street, Brynsiencyn



Chapel Street, Brynsiencyn



Rhenc Newydd, Niwbwrch

DRAFT

**Dyma mathau o eiddo a oedran ein stoc mewn bandiau**

| | All HRA Properties |
|---|---|
| ***Houses and Bungalows*** | |
| Traditionally built pre-1945 | 319 |
| Traditionally built 1945 - 1964 | 1221 |
| Traditionally built post 1965 | 1329 |
| All system built (non-traditionally built) | 176 |
| New build or acquisitions since April 2015 | 34 |
| ***Total Houses and Bungalows*** | **3079** |
| ***Flats and Maisonettes*** | |
| Pre 1945 low rise flats (1-2 storeys) | 15 |
| Post 1945 low rise and all medium rise flats | 624 |
| High rise flats (6 storeys +) | 91 |
| New build or acquisitions since April 2015 | 10 |
| ***Total Flats and Maisonettes*** | **740** |
| ***Total Houses and Flats*** | 3819 |

**4.1.1 Cydymffurfio gyda SATC a'r Strategaeth Fuddsoddi**

Cyngor Sir Ynys Môn oedd un o'r awdurdodau cyntaf i gwrdd â safonau SATC yn ôl yn 2012. Yn ôl "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru" gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw y bydd "pob aelwyd yng Nghymru … yn cael y cyfle i fyw mewn anheddau o ansawdd dda sydd" :-

- Rhan 1: Mewn cyflwr da.
- Rhan 2: Yn Saff a Diogel.
- Rhan 3: Wedi eu cynhesu'n ddigonol, yn defnyddio tanwydd yn effeithlon ac wedi'u hinswleiddio'n dda.
- Rhan 4: Gyda cheginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
- Rhan 5: Yn cael eu rheoli'n dda (ar gyfer tai ar rent).
- Rhan 6: Wedi'u lleoli mewn amgylcheddau diogel a deniadol.
- Rhan 7: Yn cwrdd yn addas ag anghenion penodol yr aelwyd i'r graddau y bo modd.

Mae cylch bywyd y cydrannau y caniatawyd ar eu cyfer yn ein rhagamcanion cost 30 mlynedd yn cynnwys:

- Cegin: 15 mlynedd
- Ystafell Molchi: 25 mlynedd
- Bwyleri: 15 mlynedd
- Gwresogyddion: 25 mlynedd
- Ail weirio llawn: 25 mlynedd

Rydym yn fodlon bod yr holl eiddo, lle bynnag bo hynny'n ymarferol bosibl, yn cwrdd â SATC ac eithrio'r rhai sy'n cael eu gwrthod neu rai sy'n cwrdd â meini prawf methiant

DRAFT

derbyniol. Bydd gwaith gwella ar eiddo a wrthodwyd yn y gorffennol yn cael ei wneud yn awtomatig ar adeg newid Tenantiaeth. Ni fedrwn ond ystyried cofnodi methiant derbyniol petai cost y gwaith unioni yn anymarferol o safbwynt economaidd.

Mae'r tabl canlynol yn cadarnhau ein sefyllfa bresennol o ran adnewyddu'r elfennau craidd:

| Elfen | Niferoedd a oedd wedi eu cynnwys yn yr arolwg sgopio gwreiddiol | Wedi'u cwblhau yn ystod y Cynllun SATC (Hydref 2008 - Rhagfyr 2012) | Wedi'u cwblhau ar adeg Newid Tenantiaeth (Ionawr 2013 - Gorffennaf 2017) | Tenantiaid a wrthododd (methiant derbyniol) | Niferoedd nad oeddent wedi eu nodi ar gyfer gwaith adnewyddu |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ceginau** | 3073 | 3123 | 339 | 176 | 149 |
| **Cyfanswm yr ystafelloedd ymolchi / cawodydd mynediad gwastad** | 2271 | 3071 | 272 | 112 | 352 |
| **Ailweirio** | 1543 | 2728 | 299 | 95 | 685 |

### 4.1.2 Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)

Yn ystod haf 2017 derbyniwyd cadarnhad bod SAC am gynnal archwiliad i benderfynu a oes gennym drefniadau effeithiol i barhau i gwrdd â SATC. Bu i swyddogion SAC ymweld a'r Cyngor yn ystod mis Hydref.

Cynhaliwyd archwiliad drwy adolygu dogfennau, cyfweld Cynghorwyr a swyddogion, a chyfweliadau gyda chyfran o'n tenantiaid o ddrws i ddrws. Anfonwyd llu o ddogfennau a gwybodaeth i SAC eu hadolygu cyn yr ymweliad safle. Roedd y wybodaeth yn cynnwys dogfennau allweddol megis ein Cynllun Busnes 30 mlynedd ddiweddaraf, ein Polisi Cydymffurfiaeth hefo SATC a'r Strategaeth Rheoli Asedau drafft sydd yn awr wedi ei mabwysiadu. Yn ychwanegol, rhoddwyd dogfennau/cronfeydd data i SAC roedd yn cadarnhau gwybodaeth fanwl am holl weithgareddau buddsoddi cyfalaf y Gwasanaeth Tai.

Yn ystod yr archwiliad roedd SAC yn canolbwyntio, ymysg rhai eraill, ar y meysydd canlynol:

DRAFT

- Ydi’r Cyngor wedi casglu gwybodaeth fanwl am gyflwr y stoc
- Oes gan y Cyngor raglen i gynnal a chadw'r stoc
- Ydi’r Cyngor yn monitro methiannau derbyniol ac yn ymdrechu i leihau niferoedd yn y categori yma
- Ydi buddsoddiad SATC yn cael effaith positif ar fywydau trigolion y stoc tai

### 4.1.3 Rhaglen Buddsoddiad Cyfalaf

Mae’r Rhaglen Cynnal a Chadw arfaethedig ar gyfer 2019/20 a welir yn y tabl isod sydd werth £7.4 miliwn yn clustnodi’r adnoddau cyfalaf sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Busnes. Mae’r rhaglen yn cael ei hategu gan ddata a gasglwyd yn annibynnol ar gyflwr y stoc a bydd yn cyfrannu tuag at y Strategaeth Rheoli Tai a’r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol.

Mae’r Rhaglen Buddsoddiadau Sector Cyhoeddus yn ffurfio rhan o’r Cynllun Cyfalaf Corfforaethol ar gyfer 2019/20. Mewn egwyddor, bydd yn mabwysiadu’r un broses bidio am gyfalaf flynyddol â’r Cynllun Cyfalaf Corfforaethol, gydag awdurdod yn cael ei ddirprwyo i’r Bwrdd Gwasanaethau Tai fel y gall flaenoriaethu a gwerthuso cynlluniau unigol.

DRAFT

| ***Cynllun*** | **2019/20 (£ '000)** | **2020/21 (£ '000)** | **2021/22 (£ '000)** |
|---|---|---|---|
| *Gwaith mewnol SATC ac Asbestos* | | | |
| *Ymrwymiadau ar gytundebau cyfredol* | | | |
| *Rhaglen Gynnal a Chadw Draddodiadol* | 7,400 | 6,695 | 6,896 |
| *Rheoli Risg Tân* | | | |
| *Gwaith Gwres Canolog* | | | |
| *Gwaith Amgylcheddol* | | | |
| *Gwaith Perfformiad Ynni* | | | |
| *Adeiladau Newydd* | 4,392 | 10,493 | 10,808 |
| *Gwaith Addasu yn y Sector Cyhoeddus* | | | |
| | **11,792** | **17,188** | **17,704** |

| ***Cyllido:*** | **2018/19 (£ '000)** | **2019/20 (£ '000)** | **2020/21 (£ '000)** |
|---|---|---|---|
| *Lwfans ar gyfer Gwaith Trwsio Sylweddol* | 2,660 | 2,660 | 2,660 |
| *Cyfraniadau Refeniw* | 7,600 | 14,528 | 9,544 |
| *Grant GTA* | 1,532 | | |
| *Benthyca* | | | 5,500 |
| | **11,792** | **17,188** | **17,704** |

### 4.1.4 Cynllun Buddsoddi Mewnol

Mae'r gyllideb yn dyrannu swm o £750k er mwyn mynd i'r afael â gwrthodiadau SATC, elfennau cyfalaf sy'n cael eu ad-newyddu ar adeg newid tenantiaeth ac ar gyfer y gwaith parhaus o osod ceginau, ystafelloedd ymolchi a gwneud gwaith ailweirio wrth iddynt ddod i ddiwedd eu cylch bywyd.

Mi fydd y gwaith yma yn cael effaith positif ar y niferoedd o fethiannau derbyniol rydym yn adrodd i Llywodraeth Cymru.

Bydd y gyllideb hon hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer rheoli asbestos yn barhaus yn y stoc dai neu, lle bo'n briodol, ar gyfer cael gwared ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

### 4.1.5 Gwaith Gwres Canolog

Ers 2016/17 rydym wedi cychwyn ar raglen i osod bwyleri newydd yn lle ein bwyleri hŷn sy'n gynyddol annibynadwy.

Fel rhan o'r gwaith, bydd arolwg o'r system wresogi bresennol yn cael ei gynnal ac os bydd angen gwresogyddion newydd, byddant yn cael eu newid fel rhan o'r rhaglen adnewyddu bwyleri. Fel hyn, gallwn sicrhau bod y systemau sydd wedi'u gosod yn addas i'r diben, o'r maint cywir ac mor effeithlon â phosibl ar gyfer ein tenantiaid. Unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, disgwylir y byddwn yn gweld gostyngiad yn y gost o alw allan ein peirianwyr gwresogi.

Yn ystod 2019/20, rydym wedi clustnodi cyllideb o £500k ar gyfer parhau â'r rhaglen hon a byddwn yn mynd ati i geisio newid tua 250 o fwyleri nwy.

### 4.1.6 Rheoli Risg Tân

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Gorchymyn Adnewyddu Rheoliadau Tân 2005 rydym wedi clustnodi swm o £200k ar gyfer diweddaru a/neu adnewyddu offer ymladd tân a systemau darganfod tân er mwyn cydymffurfio ag asesiadau risg tân. Yn ystod 2018/19, cynhaliodd ein contractwr arbenigol asesiadau risg tân a fydd yn sylfaen i'r cynlluniau gwariant ar gyfer 2019/20.

### 4.1.7 Gwaith Cynnal a Chadw Allanol Traddodiadol sydd wedi ei Raglennu

Mae cyfanswm y gyllideb sydd wedi ei chadw ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Raglennu yn £3.5 miliwn. Mae'r Gwasanaeth Tai yn disgwyl y bydd o leiaf 2 contract yn cael eu gosod yn 2019/20 a fydd yn cynnwys 100 eiddo.
Bydd caffael cynlluniau gwerth mwy na £500k yn parhau i gefnogi Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru a bydd yr effaith ar yr economi leol yn cael ei fesur drwy Declyn Budd Cymunedol Gwerth Cymru.

DRAFT

Nod y Gwasanaethau Tai yw bydd y contractau uchod a'r strategaeth gaffael yn rhoi pob cyfle i gontractwyr lleol bidio am waith buddsoddiadau cyfalaf.
Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i wario cymaint â phosib o'i gyllideb yn y gymuned leol a drwy wneud hynny mae'n hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Drwy ddefnyddio Gwerth Cymru, rydym yn disgwyl i'n contractwyr ddarparu rhai o'r buddion cymunedol canlynol:-

- Profiad gwaith drwy weithio gyda Cymunedau'n Gyntaf Môn a Coleg Menai Llandrillo
- Defnyddio llafur lleol
- Prentisiaid/hyfforddeion lleol
- Cyfleon ar gyfer busnesau bach a chanolig
- Defnyddio cadwyni cyflenwi lleol

Mae sgôp cyffredinol y gwaith a wnaed neu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn cynnwys ail-doi, gosod system rendro wedi'i hinswleiddio, gosod ffenestri a drysau newydd lle mae hynny'n briodol, gwaith allanol yn cynnwys llwybrau, ffensio a waliau terfyn.

Bydd gwelliannau i gartrefi yn sgil yr holl gontractau fel y dangosir yn y tabl isod yn golygu eu bod yn fwy cyfforddus ac yn edrych yn well, ac lle mae hynny'n berthnasol, byddant yn rhatach i'w gwresogi. Bydd gwaith cynnal a chadw allanol traddodiadol sydd wedi ei raglennu yn parhau i ffurfio sylfaen ein cynlluniau buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol.

| Contract | Nifer yr Eiddo | Amcangyfrif o'r Gwerth(£'000) |
|---|---|---|
| Min y Mor, Aberffraw & Awel y Mor, Rhosneigr | 55 | |
| Maes Gwyn, Llanddona & Pont y Brenin, Llangoed | 61 | |
| | **116** | |

**Bryn Tirion, Biwmares**

Engraifft o waith ail rendro gyda system insiwleiddio allanol ynghyd a ffenestri newydd, gwaith ail-doi a gwaith amgylcheddol cysylltiedig (llwybrau concrit newydd, ffensys, waliau terfyn ac ati) ar 17 o gartrefi.

Yn ychwanegol i'r gwaith traddodiadol yma, mi oedd y cynllun yn cynnwys gwaith sylweddol o ddarparu ffordd mynediad newydd yn ogystal a llecynau parcio i'n tenantiaid.

Mae rhaglenni buddsoddi Cyngor Sir Ynys Môn yn cael eu cefnogi gan Lwfans Atgyweiriadau Mawr Llywodraeth Cymru a bydd yn cyfrannu at y gwelliannau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

DRAFT

**<u>Lluniau cyn, yn ystod ac ar ôl dyddiad cwblhau</u>**







**Sylwadau gan ein tenantiaid nodwyd ar ffurflen boddhad ar ddiwedd y cynllun :**

Mae'n edrych yn hyfryd, gweithwyr cwrtais iawn. Rwyf yn falch iawn o'r gwaith

Rwyf wedi sylwi fod fy eiddo yn gynhesach o lawer

Dim cwynion, gweithwyr ffantastig

DRAFFT

**4.1.8 Gwaith Addasu yn y Sector Cyhoeddus**

Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys swm o £350k ar gyfer gwaith addasu sylweddol i'r anabl. Mae enghreifftiau nodweddiadol o'r gwaith yn cynnwys gosod lifftiau grisiau, darparu cawodydd mynediad lefel gwastad ac estyniadau.

**4.1.9 Gwaith Perfformiad Ynni**

Yn dilyn ymweliad Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod Hydref 2017, datblygwyd Cynllun Gweithredu i daclo methiannau derbyniol mewn cysylltiad â pherfformiad egni. Y Sgôr Ynni a bennwyd fel targed ar gyfer cydymffurfio a SATC dan y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yw 65.

Yn dilyn arolwg o sampl cynrychioliadol o 20% o'r stoc yn 2013, derbyniwyd cadarnhad nad oedd 726 o'n hanheddau yn cwrdd â'r sgôr ynni o 65. Ar y sail yma rydym yn adrodd ar fethiannau derbyniol yn y categori hwn i Lywodraeth Cymru.

Gan ystyried y gwaith a gwblhawyd eisoes a sgorau ynni gwell yr anheddau hynny yr ail fesurwyd eu perfformiad ynni, rydym yn hyderus y bydd gan y mwyafrif helaeth o'n heiddo a wasanaethir gan brif gyflenwad nwy neu wres canolog olew sgôr ynni o 65 neu fwy. Er mwyn gwirio'r datganiad hwn, rydym bron a gorffen ail fesur yr holl eiddo lle bu "methiant derbyniol" yn y categori hwn yn ystod 2018/19. Bydd unrhyw anheddau lle mae eu sgôr yn parhau i fod o dan 65 yn cael eu hasesu'n unigol i benderfynu a fyddai gwaith pellach yn ymarferol neu'n economaidd hyfyw.

Rydym yn bwriadu canolbwyntio ar ail fesur perfformiad ynni 'r holl eiddo sydd â gwresogyddion storio trydan fel ffynhonnell danwydd sylfaenol yn ystod 2019/20.

Yn ystod 2018/19 rydym wedi edrych yn ofalus ar ein heiddo a wasanaethir gan sustemau gwresogi LPG hefo'r bwriad o osod mesurau ynni adnewyddadwy, megis sustemau Solar PV. Ar gyfartaledd, eiddo yn y categori yma sydd hefo'r sgôr SAP isaf yn ein stoc tai. Dylid nodi bod y mwyafrif o'r eiddo yma naill ai'n fyngalos ar stadau tai gwarchod neu wedi ei dynodi'n benodol ar gyfer pensiynwyr.

Fel canlyniad i'r arolygon uchod, rydym wedi blaenoriaethu eiddo yn y categori yma ar gyfer waith Cynnal a Chadw Traddodiadol sydd wedi ei Raglennu yn ystod 2019/20. Yn ogystal, yn ystod Chwater 4 2018/19 gosodwyd cytundeb i osod systemau PV ar gyfran o'n heiddo a wasanaethir gan LPG. Y bwriad yw cwblhau y gwaith yma yn ystod 2019/20 ac mae'r gyllideb yn cynnwys £250k ar gyfer y gwireddu hynny.

**4.1.10 Gwaith Amgylcheddol**

Mae Safon Amgylcheddol SATC yn ei gwneud yn ofynnol i gartrefi gael eu lleoli mewn 'amgylchedd deniadol a diogel y gall preswylwyr gysylltu ag o a lle gallant fod yn falch o fyw yno'.

Er mwyn cyflawni amgylchiadau amgylcheddol byddwn yn parhau i ariannu'r Gronfa Gwella Amgylcheddol a Chymunedol lle gwahoddir tenantiaid i gyflwyno ceisiadau am arian tuag at welliannau cymunedol o'u dewis. Roedd 8 o geisiadau llwyddiannus yn 2018/19 ac 17 diwrnod glanhau stadau wedi eu cynnal.

Neilltuir cyfanswm o £500k tuag at welliannau amgylcheddol yn 2019/20. Bydd cyfran sylweddol o'r gyllideb hon yn cael ei ddefnyddio i gychwyn ar raglen 2 blynedd a fydd yn cynnwys dymchwel 202 o garejys nad ydynt bellach yn ymarferol i'w cynnal. Bydd y rhaglen hon yn cyflawni gwelliannau amgylcheddol yn ymwneud â pharcio, gwella diogelwch a gwella edrychiad ardaloedd yn gyffredinol.

DRAFT

## 4.2 Rhaglen Adeiladu Tai Cyngor

Mae Rhaglen Datblygu Tai Cyngor yr Awdurdod ar gyfer 2018-2022 yn cynnwys targedau i gynyddu'r stoc dai 170 uned dros y cyfnod 3 mlynedd nesaf.

Fe lansiwyd Rhaglen Ddatblygu'r Cyngor ym mis Ebrill 2018 a gwahoddwyd datblygwyr a thirfeddianwyr i gysylltu os oedd ganddynt gyfleon datblygu tai ac yn awyddus i gydweithio efo'r Cyngor.  Fe gafwyd nifer o ymatebion a cyflwynwyd ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd yng Nghaergybi, Moelfre ac Amlwch.

Yn ystod mis Mawrth 2019, fe arwyddwyd cytundebau adeiladu am 15 o unedau sef, 12 yng Nghaergybi a 3 yn Moelfre.

Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn ein ceisiadau i gronfa Rhaglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru yn ystod 2017/18 ar gyfer 4 o fynglos yng Nghaergybi ac yn 2018/19 ar gyfer 6 tŷ yng Nghaergeiliog.

Gweler isod luniau o'r mathau o unedau sydd ar safle yng Nghaergybi

DRAFT



(1) PROPOSED FRONT ELEVATION
1 : 100



(4) PROPOSED REAR ELEVATION
1 : 100

Yn ystod 2018/19 mi fyddwn wedi cychwyn ar 19 o unedau newydd yn ogystal a chwblhau pryniant o 12 o hen dai Cyngor a oedd wedi eu gwerthu yn y gorffennol drwy'r cynllun hawl i brynu sy'n dŵad a'r cynnydd yn ein stoc dai yn ystod y flwyddyn i 31 uned.

Dyma fydd ein rhaglen ddiwygiedig ar gyfer adeiladu tai cyngor yn ystod y tair blynedd nesaf:-

| **Blwyddyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|
| 2019/20 | 40 |
| 2020/21 | 45 |
| 2021/22 | 85 |
| Cyfanswm | 170 |

Byddwn yn cychwyn y broses datblygu trydydd cynllun tai gofal ychwanegol y sir yn ystod 2019/20 sef cynllun 40 uned yn ardal Seiriol bydd hyn yn cael ei ariannu drwy'r cyfrif refeniw tai a disgwyliwn weld y cynllun hwn yn cwblhau yn ystod 2021/22.

Yn ystod 2018/19 bu i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r cap benthyca oedd wedi ei osod ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai.

Mae'r map isod yn dangos yr ardaloedd ble mae cyfleon datblygu tai cyngor newydd wedi eu hadnabod.



## 5.1 Monitro a Gwerthuso

### 5.1.1 Rheoli Perfformiad

Mae dull corfforaethol o fesur ansawdd gwasanaethau ac adrodd ar berfformiad yn chwarterol trwy gerdyn sgorio perfformiad corfforaethol y Cyngor ac yn flynyddol wedyn trwy gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad. Caiff y ddau adroddiad eu sgriwtineiddio a'u herio gan Uwch Swyddogion ac yn gyhoeddus trwy'r Cyfarfod Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith / y Cyngor.

Cynhelir adolygiadau gwasanaethau ddwywaith y flwyddyn ac maent yn canolbwyntio ar eu rheolaeth ariannol (Mehefin) a'u perfformiad (Tachwedd).

Bydd Tim Rheoli'r Gwasanaeth Tai monitro canlyniadau perfformiad yn chwarterol yn erbyn ragodau gosodwyd am y flwyddyn

DRAFFT

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Gwasanaeth Tai

| | 2017-18 | 2018-19 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Canlyniad** | **Chwarter 1** | **Chwarter 3** | **Targed 2018/19** | **Perfformiad** |
| Cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan denantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent a gesglir am y flwyddyn ariannol ar gyfer llety parhaol | 2.07% (£335,641.38) | 2.44% (£423,326.63) | 1.81% (£315,042.01) | **2.15%** | ↑ |
| Cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan gyn-denantiaid fel canran o'r cyfanswm rhent y gellir ei gasglu am y flwyddyn ariannol ar gyfer llety parhaol | 1.50% (£243,098.59) | 1.45% (£251,676.19) | 1.42% (£247,559.70) | **1.40%** | ↑ |
| Cyfran y tenantiaid sydd â ôl-ddyledion dros naw wythnos (2017-18 yn 7 wythnos wedi ei newid ar gyfer 18-19 ar gyfer Credyd Cynhwysol) | 5.49% | 3.60% | 3.52% | **5.00%** | ↑ |
| Cyfartaledd ôl-ddyledion | £281.54 | £236.20 | £265.75 | **£275.00** | ↑ |
| Cyfartaledd ôl-ddyledion tenantiaeth pan ddaeth i ben | £528.41 | £432.44 | £527.14 | **£500.00** | ↑ |
| Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i osod unedau llety parhaol y gellir eu gosod yn ystod y flwyddyn ariannol | 31.3 | 27.0 | 29.6 | **30** | ↑ |
| Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i osod unedau llety parhaol y gellir eu gosod yn ystod y flwyddyn ariannol (heb gynnwys TAG) | 22.4 | 19.1 | 20.2 | **21** | ↑ |
| Nifer tai a ail-osodwyd ar y cynnig cyntaf | 69.58% | 63.77% | 67.18% | **80.00%** | ↑ |
| % o Atgyweiriadau arferol wedi'u cwblhau o fewn amserlen | 77.13% | 74.74% | 95.48% | **95.00%** | ↑ |
| % o denantiaid yn fodlon gydag atgyweiriadau ymatebol | 88.98% | 88.59% | 88.85% | **92.00%** | ↓ |
| % wedi ei cwblhau mewn un ymweliad | 99.39% | 93.60% | 95.22% | **90.00%** | ↓ |
| Yr amser cyfartalog a gymerir i gwblhau atgyweiriadau ymatebol nad ydynt yn rhai brys (Dyddiau Calendr) | 11.59 | 11.44 | 11.62 | **20** | ↓ |
| Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | 55.75% | 56.75% | 58.00% | **55%** | ↑ |
| Cyfartaledd o ddiwrnodau calendr a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) | 171.4 (234.4) | 156.4 (213.8) | 174.5 (192) | **175** | ↓ |

### 5.1.2 Perfformiad Meincnodi a Chostau

Crynodeb yw'r tabl isod o'n prif gostau, perfformiadau a'n mesurau boddhad ar gyfer 2017/18. Y chwartel yw ein lleoliad ar y mesur hwn o gymharu â'n grŵp cyfoedion.

Sylwch ein bod wedi darparu chwarteli lliw coch, ambr a gwyrdd ar gyfer mesuriadau cost yn y tabl hwn er mwyn ei gwneud yn haws i'w ddehongli.

| Headline Measure | Our Result | Quartile | Our Result | Quartile | Trend |
|---|---|---|---|---|---|
| Cost Headlines | 2016-17 | | 2017-18 | | |
| Overheads as a % of adjusted turnover | 7.04% | Upper | 7.27% | Upper | ↑ |
| Total Cost per Property (CPP) of housing Management | £497 | Middle Lower | £552.18 | Lower | ↓ |
| Total CCP of Responsive Repairs and Void Works | £1,073 | Lower | £971.63 | Middle Lower | ↑ |
| Total CCP of Major Works & Cyclical Maintenance | £2,574 | Lower | £1,839.85 | Middle Lower | ↑ |
| Operational performance headlines | | | | | |
| Rent arrears of current tenants net of unpaid HB as % of rent due | 2.4% | Middle Lower | 2.12% | Middle Lower | ↑ |
| Average re-let time in days (standard re-lets) | 38.4 days | Middle Lower | 31.3 days | Middle Higher | ↑ |
| Rent loss due to empty properties (voids) as % rent due | 1.19% | Middle Lower | 1.26% | Middle Lower | ↓ |
| Average number of calendar days taken to complete repairs | 12.26 days | Middle Lower | 10.27 days | Middle Lower | ↑ |
| percentage of properties with a valid gas safety certificate | 100% | Upper | 100% | Upper | ↔ |
| Staff turnover in the year % | 3.8% | Upper | 6.8% | Upper | ↓ |
| Sickness absence average working days/shifts lost per employee | 9.4 | Median | 8.1 | Middle Higher | ↑ |
| Satisfaction headlines (*) | | | | | |
| Satisfaction with the service provided (%) | 84.0% | Median | 84.0% | Median | ↔ |
| Satisfaction that views being listened to (%) | 67.0% | Middle Lower | 67.0% | Middle Lower | ↔ |
| Satisfaction with the repairs & maintenance service (%) | 76.0% | Middle Lower | 76.0% | Middle Lower | ↔ |
| Satisfaction with rent VFM (%) | 69.0% | Lower | 69.0% | Lower | ↔ |
| Satisfaction with quality of home (%) | 80.0% | Middle Lower | 80.0% | Middle Lower | ↔ |
| Satisfaction with neighbourhood (%) | 91% | Upper | 91% | Upper | ↔ |

* Satisfaction Figures for 2016-17 taken from STAR Survey undertaken in 2015-16. New Star Survey to be undertaken Apr-Jul 2019

DRAFT

### 5.1.3 Statws Gwaith Tenantiaid y Cyngor

Mae gwybodaeth am proffeil ein Tenantiaid yn dweud wrthym bod:

- 1605 o'n tenantiaid wedi ymddeol
- 489 ddim yn gweithio oherwydd salwch tymor hir neu anabledd
- 352 yn derbyn budd daliadau
- Mae 2217 o Denantiaid yn dweud eu bod yn Gymraeg ac 1321 yn Brydeinig Gwyn
- Mae 2070 o aelwydydd yn defnyddio Saesneg fel prif iaith ac 1559 yn defnyddio Cymraeg fel ei prif iaith
- 1131 o aelwydydd yn sengl ac 1045 wedi priodi

### 5.1.4 Yr Iaith Gymraeg

Mae gofyn statudol i Gyrff Cyhoeddus yng Nghymru i gydymffurfio gyda'r Mesur Iaith 2011 a'r Safonau Iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd megis:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn golygu y dylai Cyngor Sir Ynys Môn a sefydliadau eraill beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Hefyd dylid hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Pwrpas y safonau yma yw:

- ei gwneud hi'n eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg
- ei gwneud hi'n fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn yn ddiweddar ei fod yn bwriadu gweithio tuag at fod yn weinyddiaeth sy'n gweithredu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, tra'n parhau i barchu'r angen am ddarpariaeth ddwyieithog, ble bo'r angen.

Mae sawl her yn wynebu'r Cyngor er mwyn gwireddu'r nod yma, ac mae'r gwaith eisoes yn symud yn ei flaen, gyda nifer o gynlluniau mewn lle a chyfarfodydd monitro, craffu a thrafod cynnydd ac arfer da yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

DRAFFT

Un o'r cynlluniau sydd ar waith yw cynllun Peilot o fewn y Gwasanaeth Tai, i ysgogi staff i wneud fwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar yn gweithle. Bellach mae'r Cynllun yma wedi bod ar waith o fewn y gwasanaeth ers mis Chwefror 2017.

Heb os, mae cynnydd wedi i'w wneud o fewn y gwasanaeth, parthed defnydd o'r Gymraeg. Mae mwy o staff sy'n unai ail iaith neu'n ddysgwyr bellach yn barod i gyfathrebu gyda chydweithwyr yn y swyddfa ac mewn cyfarfodydd nac o'r blaen. Yn yr un modd mae mwy o Gymry Cymraeg oedd gynt yn anfoddog iawn i ysgrifennu adroddiad neu hyd yn oed e-bost mewn rhai achosion, bellach yn gwneud hyn.

## 6 Rheoli Risg

### 6.1 Cofrestr Risg Gorfforaethol

Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn adnabod y risgiau hynny allai effeithio ar allu'r Cyngor i gwrdd â'i nodau ac amcanion corfforaethol. Mae'n adnabod ffynhonnell ac effeithiau'r risg, a'r tebygrwydd y bydd yn digwydd, yr effaith y gallai gael, ac unrhyw gamau lliniaru y bernir eu bod yn angenrheidiol i reoli'r risg. Adolygir y Gofrestr Risg Gorfforaethol o leiaf bob chwarter bob blwyddyn ac yn sgil unrhyw newidiadau arwyddocaol.

### 6.2 Cofrestr Risg Tai

Mae'r holl Swyddogion yn gyfrifol am adnabod risgiau sy'n fygythiad i'w maes gweithgarwch. Mae'r Tîm Rheoli Tai yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu a rheoli'r risgiau.

Cymerir camau Rheoli Risg ar gyfer pob risg a nodir – ac mae unrhyw risgiau newydd yn cael eu cofnodi yng Nghofrestr Risg y Gwasanaeth. Mae'r prif risgiau yng Nghofrestr Risg y Gwasanaeth Tai yn cael eu cynnwys yng Nghofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor hefyd.

Y Risgiau Gweithredol Allweddol ar gyfer y Gwasanaeth Tai yw:-

- Cyfyngu ar renti – yn sgil yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr o ran rhenti
- Cynnydd mewn chwyddiant – fyddai'n arwain at gynyddu costau
- Chwyddiant mewn costau yn lleol
- Diwygio Lles

Profwyd cadernid y Cynllun Busnes er mwyn cymryd y risgiau i ystyriaeth, yn unigol a gyda'i gilydd, ac mae'r cynllun busnes yn parhau i fod yn hyfyw drwy gydol y cyfnod o 30 mlynedd (gweler yr atodiad).

DRAFT

## 6.3 Cynllun Parhad Busnes y Gwasanaeth Tai

Yn ystod 2018 / 2019 cynhyrchwyd Cynllun Parhad Busnes gan y Gwasanaeth Tai ochr yn ochr â Chynllun Busnes Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cynllun Parhad Busnes yn esbonio beth fyddem yn ei wneud petai rywbeth difrifol yn digwydd i'r Gwasanaeth Tai. Er enghraifft:

- petai swyddfeydd y Cyngor yn cael eu difrodi'n ddifrifol neu petaem yn colli llawer o staff, oherwydd salwch o bosib.
- Bygythiadau o ran darparu gwasanaeth y gellir eu rhagweld (megis TGCh, rheoli data, tywydd garw, nam difrifol ar linellau careline neu BT).
- Y camau i'w cymryd yn sgil achosion o E-bola, epidemig ffliw.
- Ffyrdd o leihau'r bygythiad / risg
- Camau adfer yn dilyn argyfwng a blaenoriaethau
- Camau cychwynnol i'w cymryd

Mae'r cynllun hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

# 7 Cynllun Ariannol CRT

### 7.1.1 Rhagdybiaethau Ariannol Sylfaenol

Mae'r rhagdybiaethau ariannol ar gyfer y Cynllun Busnes yn seiliedig ar y wybodaeth ganlynol

- Cafodd chwyddiant ei weithio allan gan ddefnyddio cyfradd darged y Llywodraeth o 2% y flwyddyn.
- Rhagdybir y bydd cynnydd o 1% uwchlaw'r targed chwyddiant ar y gwariant ar gynnal a chadw ac adeiladu tai newydd bob blwyddyn, ac eithrio rhwng 2022/23 a 2024/25 (pryd disgwylir y gallai fod prinder o gontractwyr) pryd disgwylir cynnydd o 3% uwchlaw'r targed chwyddiant yn y gwariant.
- Rhagwelir y bydd y rhent targed yn cynyddu 1% uwchlaw lefel chwyddiant bob blwyddyn o 2020/21. Am 2019/20 bydd yn cynyddu gan CPI yn unig.
- Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn 1.5% yn 2019/20 (pan ddisgwylir i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n llawn), ac y bydd yn gostwng 0.1% bob dwy flynedd hyd oni fydd y lefel yn dychwelyd i'r lefel o 0.6% fel yr oedd cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol.
- Disgwylir y bydd colledion oherwydd cyfnodau gwag ('voids') yn 1.25% y flwyddyn.
- Mae'r cynllun cyfalaf yn seiliedig ar yr Arolwg newydd o Gyflwr y Stoc gyda chydrannau'n cael eu hamnewid yn unol â rhaglen cylch oes y cydrannau hynny.
- Tybir y bydd y rhaglen i ddatblygu tai newydd a phrynu hen dai cyngor yn parhau. Yn 2019/20, disgwylir y bydd 40 o unedau'n cael eu datblygu, sef 25 o dai newydd a 15 o dai'n cael eu prynu gyda chyfanswm o 45 o unedau y flwyddyn wedyn. Bydd cynllun gofal ychwanegol 40 uned yn cael ei ddatblygu am gost o £8m ac yn cael ei gwblhau yn 2021/22.

DRAFFT

- Ac eithrio'r grantiau cyfalaf a ddyfernir yn ystod 2018/19, tybir y bydd y CRT yn cyllido'n llawn y rhaglen ddatblygu ar gyfer gweddill oes y cynllun.
- Tybir y bydd y gyfradd log ar falansau credyd yn 0.33% y flwyddyn. Tybir y bydd benthyciadau newydd yn cael eu cymryd am gyfnod o dros 50 mlynedd ar gyfradd log o 2.65%.
- Tybir na fydd dyledion yn cael eu had-dalu'n fuan
- Mae incwm arall yn cynnwys incwm o dariffau 'feed in' (National Grid), comisiwn o werthu yswiriant, taliadau carthffosiaeth a gwaith trwsio y gellir codi amdano.

### 7.1.2 Polisi Rheoli Trysorlys

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ymagwedd un-gronfa ar gyfer benthyciadau sy'n golygu bod y costau benthyca'n cael eu rhannu rhwng y gronfa gyffredinol a'r CRT mewn modd sy'n gymesur â'u gofynion cyllido unigol.

DRAFFT

# Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw 5 Mlynedd

## Cyllidebau Refeniw

| | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Rheoli | 3,080 | 3,142 | 3,204 | 3,269 | 3,334 |
| Trwsio a Chynnal a Chadw | 4,003 | 4,165 | 4,362 | 4,656 | 4,944 |
| Costau Eraill | | | 520 | | |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 2,926 | 2,851 | 2,949 | 3,006 | 3,113 |
| Cyfraniad i’r Rhaglen Gyfalaf | 7,600 | 14,528 | 9,544 | 11,742 | 11,405 |
| Ad-dalu Dyledion | 519 | 421 | | | |
| Cyfanswm Gwariant | 18,128 | 25,107 | 20,579 | 22,673 | 22,796 |
| | | | | | |
| Incwm Rhent Net | 17,696 | 18,505 | 19,791 | 21,091 | 21,967 |
| Incwm Arall | 565 | 554 | 563 | 574 | 588 |
| Llog ar Falansau | 30 | 20 | 10 | 8 | 6 |
| Grant AHG | 59 | 59 | 59 | 59 | 59 |
| Cyfanswm Incwm | 18,350 | 19,138 | 20,413 | 21,722 | 22,610 |
| | | | | | |
| Gwarged/(Diffyg) Refeniw | 222 | (5,969) | (166) | (951) | (186) |
| | | | | | |
| Balans a Ddygwyd Ymlaen | 8,876 | 9,098 | 3,129 | 2,963 | 2,012 |
| | | | | | |
| Balans a Gariwyd Drosodd | 9,098 | 3,129 | 2,963 | 2,012 | 1,826 |

## Cyllideb Cyfalaf

| | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2023/24 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwella a Chynnal a Chadw SATC | 7,400 | 6,695 | 6,896 | 7,241 | 11,565 |
| Tai Newydd | 4,392 | 10,493 | 10,808 | 6,761 | 7,099 |
| Adfywio/Ailfodelu'r stoc cyfredol | - | - | - | - | - |
| Gwariant Arall | - | - | - | 400 | - |
| Cyfanswm Gwariant Cyfalaf | 11,792 | 17,188 | 17,704 | 14,402 | 18,665 |
| Cyllido Cyfalaf | | | | | |
| Lwfans Gwaith Trwsio Mawr | 2,660 | 2,660 | 2,660 | 2,660 | 2,660 |
| Benthyca | - | - | 5,500 | - | 4,600 |
| Gwariant Cyfalaf a ariannwyd o'r CRT | 7,600 | 14,528 | 9,544 | 11,742 | 11,405 |
| Grant IHG | 1,532 | - | - | - | - |
| Cyfanswm Cyllido Cyfalaf | 11,792 | 17,188 | 17,704 | 14,402 | 18,665 |

DRAFT

## 8.0 CYNLLUN GWEITHREDU Blaenoriaethau Allweddol CRT 2019 / 2020

| CYNLLUN GWEITHREDU Blaenoriaethau Allweddol CRT 2019 / 2020 | | |
|---|---|---|
| **Camau Gweithredu** | **Cyfrifoldeb** | **Dyddiad targed** |
| | | |
| Cydweithio gyda Gwasanaethau Plant i ganfod dau eiddo addas i'w sefydlu fel Cartref Grŵp i blant sydd wedi eu lleoli tu allan i'r sir. | **Rheolwr Datblygu Tai Cyngor** | **Ebrill 19** |
| Yn dilyn ail fodelu Llawr y Dref symud ymlaen i osod y cynllun yn ei newydd wedd. | **Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol** | **Ebrill 19** |
| Cynllun Peilot i ryddhau tai 4 llofft o fewn ein stoc tai | **Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol** | **Ebrill 19** |
| Creu cyfleodd prentisiaeth o fewn ein gwasanaeth cynnal a chadw er mwyn cynyddu'r cyflenwad o weithwyr technegol | **Rheolwr Gwasanaethau Technegol** | **Mai 19** |
| Addasu'r Polisi Gosod er mwyn rhoi blaenoriaeth i gysylltiad lleol i ardaloedd penodol. | **Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth a Chomisiynu** | **Mehefin 19** |
| Ffurfioli trefniadau Gwasanaeth Cwsmer er mwyn sicrhau gwasanaethau rhagorol i'n tenantiaid a defnyddiwr gwasanaeth. | **Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol** | **Mehefin 19** |
| Adolygu'r arolwg o gyflwr modurdai y Cyngor cynhaliwyd yn 2016 gyda'r bwriad i gytuno blaenoriaethau o ran gwella a newid defnydd rhai o'r unedau. | **Rheolwr Gwasanaethau Technegol** | **Mehefin 19** |
| Cytuno cynllun prosiect ar gyfer datblygu trydydd Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yr ynys sydd i'w ddatblygu yn ardal Seiriol. | **Rheolwr Datblygu Tai Cyngor** | **Awst 19** |
| Datblygu ffyrdd i alluogi tenantiaid i gysylltu'n digidol drwy cyflwyno system Gwasanaethau Tenantiaid Digidol | **Rheolwr SG** | **Awst 19** |
| Cynnal Arolwg STAR ymysg ein tenantiaid er mwyn canfod lefelau bodlonrwydd tenantiaid | **Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol** | **Medi 19** |
| Datblygu safle stopio dros dro ar gyfer S&Th yn Star. | **Rheolwr Gwasanaethau Technegol** | **Medi 19** |
| Adolygu'r broses gweinyddu'r rhestr aros a'r cyfraniadau disgwyliedig gan ein RSL's | **Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth a Chomisiynu** | **Medi 19** |
| Creu adroddiadau rheolaidd ar osodiadau tai Cymdeithasol ynghyd a adroddiadau sy'n amlygu'r anghenion tai mewn ardaloedd. | **Rheolwr SG** | **Medi 19** |
| Paratoi ar gyfer gweithredu newidiadau cysylltiedig a'r Ddeddf Rhentu Cymru. | **Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth a Chomisiynu** | **Hydref 19** |
| Cynnal adolygiad o'n cynlluniau tai gwarchod er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn addas ac er mwyn edrych ar ffyrdd arloesol o gyflenwi'r angen. | **Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol** | **Rhagfyr 19** |
| Gwneud trefniadau gosod cyllideb ar sail "zero based" ar gyfer 2020/21 ymlaen | **Tim Rheoli** | **Rhagfyr 19** |
| Cynnal asesiad o'r anghenion tai lleol a llunio Strategaeth Tai Lleol 2019 – 2024. | **Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth a Chomisiynu** | **Ionawr 20** |
| Cynnal arolwg o anghenion S&Th drwy gynnal asesiad GTAA | **Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth a Chomisiynu** | **Ionawr 20** |
| Paratoi Strategaeth Lleihau Carbon er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio gydag anghenion grant MRA. | **Rheolwr Gwasanaethau Technegol** | **Ionawr 20** |
| Gwella perfformiad cysylltiedig ag atal Digartrefedd yn unol a Deddf Tai (Cymru) 2014. | | **Yn gyson drwy'r flwyddyn** |
| Parhau gyda rhaglen welliannau ar gyfer yr unedau sydd ddim yn cwrdd a Safonau Ansawdd Tai Cymru ar y sail methiannau derbyniol. | **Rheolwr Gwasanaethau Technegol** | **Yn gyson drwy'r flwyddyn** |
| Paratoi i gynyddu stoc tai y Cyngor drwy gael rhaglen datblygu tai Cyngor newydd a phrynu cyn dai Cyngor yn ôl. | **Rheolwr Datblygu Tai Cyngor** | **Yn gyson drwy'r flwyddyn** |

DRAFFT

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **25.3.2019** |
| **Pwnc:** | **Cymeradwyo Strategaeth Gomisiynu a Chynllun Gwario Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl.** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd Alun Mummery** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Ned Michael** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Arwel Jones, Prif Swyddog Datblygu, Gwasanaethau Tai**<br>**01248 752064** |
| **Aelodau Lleol:** | |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

1. Cymeradwyo argymhellion y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl 2019-20 a,

2. Cymeradwyo'r dyraniad o gyllid ar gyfer pob maes Gwasanaeth, fel yr amlinellir ar dudalen 14 o'r Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl.

## Rhesymau

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn fenter fframwaith polisi a chyllid gan Lywodraeth Cymru, sy'n darparu Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai ar gyfer amrywiaeth o grwpiau o bobl sydd yr un mor fregus â'i gilydd. Nid yw'r gwasanaethau yn cynnwys ariannu costau'r llety na'r gofal na'r ddarpariaeth iechyd.

1.2 Mewn llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2018, dywedwyd mai oddeutu £2,643,866 fyddai'r dyraniad i Ynys Môn ar gyfer 2019-2020. Bydd hyn yn weithredol o 1.4.18.19

1.3 Yn dilyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i uno Grant Rhaglen Cefnogi Pobl, Grant Atal Digartrefedd a Grant 'Rent Smart Wales', bydd y tri grant yn dod o dan enw Grant Cefnogaeth sy'n Ymwneud a Thai o Ebrill 2019. Dyrennir £64,923 ar gyfer Rhaglen Atal Digartrefedd a £6,209 ar gyfer Grant Gorfodi Rhentu Doeth

(Cymru). Bydd cyfanswm Grant Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai, felly ar gyfer Ynys Môn yn ystod 2019-20 yn £2,714,998.

1.4 Yn ogystal â Rhaglen Grant Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai, mae Llywodraeth Cymru wedi uno 7 grant unigol arall o dan enw Rhaglen 'Grant Plant a Chymunedau'. O Ebrill 1af 2019, bydd y rhaglen yma'n cynnwys y Grantiau canlynol.

- Dechrau'n Deg;
- Teuluoedd yn Gyntaf;
- Y Gronfa Waddol;
- Cymunedau am Waith a Mwy;
- Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc;
- Gofal Plant a Chwarae;
- Cronfa Dydd Gŵyl Dewi.

1.4 Trwy symud 10 grant unigol i ddwy raglen benodol, sy'n adlewyrchu ac yn hyrwyddo ymagwedd ataliol, mae disgwyliad gan Lywodraeth Cymru y byddwn fel Awdurdod Lleol yn gweithio'n agosach ar draws y naill raglen a'r llall, i ddiwallu anghenion rhai o'n hunigolion a theuluoedd mwyaf bregus ac anghenus o fewn ein cymdeithas.

1.5 Ystyrir blwyddyn ariannol 2019/20 fel un drosiannol, ac o ganlyniad bydd y drefn llywodraethiant ac adrodd ar ddeilliannau Rhaglen Cefnogi Pobl yn aros yr un fath am y deuddeg mis nesaf. Disgwylir y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ar drefniadau gweithredu Rhaglen Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai, yn ystod y flwyddyn, a bydd hyn yn cael effaith uniongyrchol ar Raglen Cefnogi Pobl, ac y dod yn weithredol o Ebrill 2020. Disgwylir y bydd Dogfen Ganllaw o'r newydd yn cael ei chreu a'r gyfer y Rhaglen Unedig, a bydd eto'n weithredol o Ebrill 2020.

1.6 Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn canolbwyntio ar gynllunio, comisiynu a monitro llety â chefnogaeth a gwasanaethau cefnogaeth ar wasgar a ddarperir gan wahanol ddarparwyr, ar draws amrywiaeth o ddeiliadaethau sy'n cynnwys llety hygyrch a fforddiadwy, stoc tai cyngor, stoc cymdeithasau tai, rhentu preifat, tai gwarchod, perchen ddeiliaid, byw â chefnogaeth, tenantiaethau â chefnogaeth a thai gofal ychwanegol.

1.4 Mae mathau cyffredin o ddarpariaethau cefnogaeth sy'n ymwneud â thai yn cynnwys:

- Cynorthwyo rhywun sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i ddod o hyd i rywle i fyw, o fewn 56 diwrnod iddynt gyflwyno mewn sefyllfa o'r fath.

- Darparu pecyn cefnogaeth er mwyn galluogi'r unigolyn bregus i gynnal tenantiaeth a lliniaru'r risg y bydd y denantiaeth yn torri lawr a / neu y bydd yr unigolyn yn cael ei droi allan o'r tŷ.
- Darparu cefnogaeth gyda dyledion rhent, rheoli dyledion a sgiliau cyllidebu.
- Cefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth i hawlio budd-daliadau lles a chynorthwyo a galluogi'r unigolyn i barhau i dderbyn y budd-daliadau y mae'n gymwys i'w derbyn a delio ag asiantaethau perthnasol.
- Cefnogi'r  defnyddiwr gwasanaeth i gadw eu llety'n ddiogel, e.e. egluro sut i gloi a rheoli mynediad priodol.
- Annog ac ysgogi'r defnyddiwr gwasanaeth i gadw unrhyw apwyntiadau sy'n berthnasol i wella eu gallu i reoli eu hunain yn eu llety.
- Annog ac ysgogi'r defnyddiwr gwasanaeth i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac i gael yr hyder angenrheidiol i deimlo'n rhan o'r gymuned ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o ddiddordeb.
- Hyrwyddo, annog ac ysgogi defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu'r sgiliau bywyd angenrheidiol, megis coginio, glanhau a golchi dillad.
- Darparu'r cymorth angenrheidiol, er mwyn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth briodol.
- Darparu cyngor mewn perthynas â chyfleoedd i symud ymlaen neu gyfleoedd am dai parhaol.

1.5 Un o ofynion cyllido Cefnogi Pobl yw'r angen i baratoi Cynllun Comisiynu er mwyn hysbysu Llywodraeth Cymru a'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid o'n bwriadau a'n blaenoriaethau comisiynu. Yn unol ag Arweiniad Llywodraeth Cymru mae'r Cynllun arfaethedig yn cynnwys Cylch Comisiynu 2018/21 ac mae'r ddogfen eleni yn adolygiad blynyddol o fewn y cylch uchod.

1.6 Mae Llywodraeth Cymru, unwaith yn rhagor wedi gwarchod lefelau cyllido grant Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer 2019/20, ledled Cymru ac wedi atal y rhaglen ailddosbarthu, am y tro, sydd wedi gweld cyllid Gogledd Cymru yn gostwng dros 23% yn ystod y 6 mlynedd flaenorol.  Serch hynny, mae posibilrwydd uchel y bydd rhaglen ail ddosbarthu newydd yn cael ei hail gyflwyno yn 2020,  ac fe all hyn beri ansicrwydd i ddarparwyr o ran cynaliadwyedd cynlluniau penodol a risg ariannol i ddyfodol y rhaglen a'r Cyngor, mewn cyfnod pryd y bo digartrefedd yn cynyddu'n sylweddol. Yn sicr pe byddai gostyngiad pellach yn y grant, ni fyddai'n bosib cynnal y ddarpariaeth bresennol, ac mae'n debyg y byddai'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd iawn ar ddyfodol ambell gynllun.

**Cefndir**

2.0 Mae'r Cynllun Comisiynu sydd ynghlwm, yn adlewyrchiad o'r gwaith sylweddol sydd wedi ei wneud ers 2012, pan weddnewidiwyd Rhaglen Grant Cefnogi Pobl i

ganolbwyntio ar wasanaethau sy'n cyfarch materion sydd ynghlwm â llety ac atal digartrefedd, yn hytrach na chanolbwyntio ar wasanaethau oedd yn pwyso tuag at ofal cymdeithasol. O ganlyniad mae'r Cynllun Comisiynu a'r Cynllun Gwariant yn barhad o'r flwyddyn flaenorol, gyda diwygiadau bychain yn hytrach na newidiadau sylweddol yn nhrefniant comisiynu a chontractio ar gyfer diwallu anghenion ym Môn.

2.1 Fe ellir nodi bod y newidiadau yng Nghynllun eleni, yn effeithio ar Y Grwpiau Gwasanaeth fel a ganlyn:

- **Iechyd Meddwl** – Cynyddu'r gwariant o £183,771 i £225,931. Bydd y newid yma yn adlewyrchu symud 5 uned oddi wrth maes gwasanaeth ar gyfer Pobl Sengl 25-54 oed, sydd angen cefnogaeth i mewn i faes Iechyd Meddwl. Bydd y ddarpariaeth yma yn parhau i gael ei gyflenwi, fel rhan o'r un cytundeb, sef Tai yn Gyntaf gan y Wallich, ond er pwrpas adrodd a chyflwyno'r Cynllun Gwariant i Lywodraeth Cymru, bydd yn cael ei gofnodi ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth Iechyd Meddwl. Bydd un uned ychwanegol o Lety â Chefnogaeth yn cael ei ddarparu yng Nghynllun Llawr Y Dref, Llangefni ar gost o £8,666. Bydd y ddarpariaeth arall o ran llety a chefnogaeth yn Heddfan, Llangefni ar gyfer 8 unigolyn ac un teulu yn Cybi Street, Caergybi a'r Gefnogaeth ar Wasgar ar gyfer 50 o unigolion yn parhau heb newid.

- **Pobl 25-54 Oed sydd angen Cefnogaeth** – Bydd y swm ar gyfer y Grŵp Gwasanaeth yma yn gostwng o £169,972 i £135,978, oherwydd y newid sydd wedi ei amlinellu u uchod o ran cynyddu'r ddarpariaeth Iechyd Meddwl.

- **Gwasanaeth Generig –** Er gwaethaf y ffaith bod Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai yn gallu ymestyn hyd at ddwy flynedd, mae gennym dystiolaeth gryf bellach, bod rhai o'n defnyddwyr gwasanaeth yn parhau'n fregus wedi'r cyfnod yma. Felly, er mwyn lleihau pryderon ac osgoi nad yw sefyllfaoedd o'r fath yn troi'n argyfyngau sydd angen ymyrraeth lefel uwch a chostus, megis darpariaeth statudol, mae gennym ddarpariaeth ychwanegol bellach fydd o fudd i'n defnyddwyr a'n ymyraethau mwy dwys. Bydd y Gwasanaeth Tai sydd eisoes yn darparu gwasanaeth generig ar gyfer hyd at 80 o bobl yr wythnos, hefyd yn darparu'r ymyrraeth barhaus yma i 60 o bobl ychwanegol. Bydd y gwasanaeth ar gael i bobl sydd wedi gadael darpariaeth flaenorol gyda deilliannau cadarnhaol, ddim hirach na 12 mis ynghynt, ac angen mynediad at gefnogaeth bellach. Bydd y gallu i gael mynediad at wasanaeth yn ôl a blaen am gyfnodau byr, er mwyn atal y perygl o argyfwng pellach ddigwydd. Bydd trefniadau monitro yn digwydd trwy'r Pwynt Mynediad Sengl er mwyn sicrhau nad yw'r ymyrraeth yn un hir dymor ac yn creu dibyniaeth.

- **Larymau Cymunedol**. Yn 2017 fe benderfynodd Grŵp Cynllunio Lleol Cefnogi Pobl i ddatgomisiynu ariannu darpariaeth larymau cymunedol hefo arian Cefnogi Pobl. Gwnaethpwyd y penderfyniad yma er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n

llwyr gydag argymhellion Adolygiad Aylward, ac er mwyn arall gyfeirio arian tuag at Gynlluniau sy'n benodol gysylltiedig ag atal digartrefedd  Bydd y cyfnod trosiannol yma'n dirwyn i ben ar 31.3.19, ac o'r 1.4.19, bydd angen i ddefnyddwyr unai ariannu'r ddarpariaeth o'u hincwm eu hunain neu dderbyn budd-dal neu gymorth gan Iechyd, os yn gymwys.

## 3.0 Meysydd Newydd ar gyfer Datblygiad

### 3.1 **Camdriniaeth Yn Y Cartref**

Mae Camdriniaeth yn y Cartref yn cael ei weld fel maes blaenoriaeth yn lleol ar Ynys Môn ac yn rhanbarthol yng Ngogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae lloches ar gyfer 4 teulu, ynghyd â lloches wasgaredig sengl, sy'n gallu darparu llety â chefnogaeth mewn argyfwng i ferched neu ddynion. Yn ychwanegol i hyn rydym yn comisiynu 6 uned o gefnogaeth ar wasgar ar gyfer goroeswyr camdriniaeth, ynghyd â gwasanaeth IDVA i fyny i hyd at 14 o bobl yr wythnos. Oherwydd cynnydd anffodus yn y nifer o ddioddefwyr / goroeswyr camdriniaeth yn y cartref, rydym wedi cynyddu'r niferoedd sy'n cael gwasanaeth cefnogaeth ar wasgar i fyny at 30 yr wythnos. Mae hyn wedi golygu bod arian ychwanegol o £31k wedi ei ddyrannu i'r darparwr i'w galluogi i gyflogi swyddog arall.

Wrth edrych ymlaen tuag at ail-fodelu'r ddarpariaeth gyfredol ac hanesyddol, rydym eisoes wedi sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen o randdeiliaid allweddol, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Wasanaethau Plant ac Oedolion, Gwasanaeth Prawf, Heddlu Gogledd Cymru, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r darparwyr lleol i edrych ar adnabod bylchau yn y gwasanaethau cyfredol. Rydym yn gweithio'n rhyng asiantaethol gan geisio dwyn adnoddau o'r Rhaglenni Grant Plant a Chymunedau, ynghyd â Grant Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai at ei gilydd, er mwyn llunio  gwasanaeth o'r newydd fydd yn:

- Fodern ac addas i bwrpas, gan roi ystyriaeth i ddefnyddio model 'tai diogel';
- Cynnig gwahanol opsiynau i deuluoedd ac unigolion sy'n dioddef neu oroesi camdriniaeth yn y cartref;
- Cynnig gwasanaeth holistaidd ac yn osgoi dyblygu;
- Rhoddi gwerth am arian;
- Darpariaeth 24/7 o fewn llochesi.

Bwriedir i gychwyn, cynnal cynllun peilot  am 3 mis fydd yn cynnig gwasanaeth holl gynhwysol trwy ymyrraeth ddwys ar fodel syn seiliedig ar Gynllun IFSS (Gwasanaeth Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd). Byddwn wedyn yn cymharu deilliannau a chanlyniadau yn erbyn y ffordd draddodiadol, ac ystyried opsiynau ar gyfer mynd allan i dendr. Rydym yn gobeithio gwahodd ceisiadau i ddarparu gwasanaeth trwy dendr agored ar Safle GwerthwchiGymru, gan anelu y bydd y gwasanaeth  yn weithredol ar ei newydd wedd, erbyn  1.10.19.

3.2 Mae ail ddatblygu Cynllun Tai Gwarchod ar safle Llawr Y Dref, Llangefni, wedi darparu cyfleoedd i fod yn arloesol a chynhwysol. Fel landlord, mae'r Cyngor eisoes

wedi cytuno i osod 2 eiddo ar gyfer diwallu anghenion pobl ag Anableddau Dysgu, gydag un ychwanegol ar gyfer anghenion iechyd meddwl. Darperir cefnogaeth gychwynnol yn y fan hyn ar gyfer pwrpas symud ymlaen i fyw'n annibynnol o fewn y gymuned, ac felly fe fydd lefel trosiant o fewn y tri eiddo yma o bosib yn uwch na'r unedau eraill ar y Cynllun. Cydnabyddir y bydd Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai yn ffactor allweddol o ran cyflawni'r amcan i unigolion bregus, allu cynnal eu tenantiaeth. Cynigir felly o fewn y cylch comisiynu hwn, yn dilyn cael cymeradwyaeth gan y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Lleol, y dylai Cefnogi Pobl gyfrannu tuag at gost y gefnogaeth, ac y bydd effaith terfynu'r arian cefnogaeth ar wasgar, fel yr amlinellwyd uchod, yn cael ei leihau drwy gomisiynu cefnogaeth fel y soniwyd yn flaenorol, hyd at werth o £26,000, sydd gyfystyr ag £8,666 y flwyddyn ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth.

3.7 Byddwn, yn parhau i ariannu Swydd Swyddog Un Pwynt Mynediad, sydd wedi bodoli ers mis Hydref 2017. Rhwng 1af Hydref a 31.12.18, derbyniwyd dros 1,200 o gyfeiriadau o wahanol asiantaethau, ar gyfer derbyn cefnogaeth sy'n ymwneud â thai, trwy arian Cefnogi Pobl. Yn ogystal rydym wedi gweld cynnydd o 77% o gyfeiriadau ers 1.1.19, gydag 159 o achosion wedi eu cyfeirio, ac os bydd tueddiad hyn yn parhau bydd nifer yr achosion wedi cynyddu ar gyfartaledd misol o 60 unigolyn i 106 am yr un cyfnod. Er ei bod efallai ychydig yn gynamserol i fod yn hollol sicr, ond ni ddylid diystyru'r cynnydd uchel a phryderus yma, hefo cyflwyno Credyd Cynhwysol i fudd-daliadau prif lif ar yr Ynys ers 4.12.18

3.8 Byddwn hefyd yn parhau i gyflogi Swyddog Adsefydlu Pobl sy'n Gadael Carchar o fewn y Gwasanaeth Tai. Mae'r cynllun yma wedi profi'n llwyddiannus, gyda'r swyddog presennol wedi adeiladu perthynas ystyrlon gyda'r pedwar prif garchar sêr, CEM Berwyn, CEM Altcourse, CEM Stoke Heath a CEM Styall. Mae hyn wedi golygu bod:

- nifer uchel o bobl sy'n gadael carchar wedi derbyn asesiadau digartrefedd cyn gadael y carchar, sydd wedi lleihau'r pwysau ar swyddogion opsiynau tai, trwy atal yr angen i'r unigolyn gyflwyno yn y Cyngor.
- Galluogi penderfyniad cynt i sefydlu os oes dyletswydd ar y Gwasanaeth Tai i letya ai peidio.
- Y Swyddog yn gallu gweithio hefo landlordiaid sector breifat a dod o hyd i eiddo priodol a fforddiadwy, pan fydd yr unigolyn yn dychwelyd o'r carchar i'r gymuned.
- Lleihau'r risg o ail droseddu a chynnig cyfeiriad dros dro neu barhaus y mae'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill hefyd wedi ei gymeradwyo.

## 4.0 Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol

4.1 Mae Aelodau o Bwyllgor Cydweithio Rhanbarthol Gogledd Cymru, sy'n cynnwys Deiliaid Portffolio a Phenaethiaid neu Uwch Reolwyr Gwasanaeth (Tai / Gwasanaethau Cymdeithasol) yn awyddus i barhau gyda'r trefniant rhanbarthol o ddefnyddio arian Grant Cefnogi Pobl ar gyfer y posibilrwydd o bwrcasu rhai

gwasanaethau a gomisiynir yn rhanbarthol o fewn meysydd penodol, megis camdriniaeth ddomestig, neu anghenion yn ymwneud â throseddu. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae wedi'i gynnig ar Lefel Ranbarthol ac wedi'i gymeradwyo mewn Byrddau Grwpiau Cynllunio Lleol ledled Gogledd Cymru y dylai pob Awdurdod Lleol wneud cyfraniad o 0.5% o'r dyraniad blynyddol Cefnogi Pobl yn uniongyrchol.

4.2 Yn seiliedig ar gyfraniad o 0.5%, byddai grant Ynys Môn ar gyfer darpariaeth leol yn lleihau £13,219.00 .

4.3 Blaenoriaethau'r Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn yw.

- Anableddau Dysgu
- Pobl Sy'n Gadael Carchar neu â Hanes o Droseddu
- Pobl Sy'n Cysgu'r Stryd
- Camdriniaeth yn y Cartref
- Iechyd Meddwl

**5.0 Cynnydd Mewn Cyfeiriadau i'r Un Pwynt Mynediad Cefnogi Pobl 1af Ionawr a 28ain, Chwefror 2019.**

Dylid hefyd nodi bod gwasanaethau craidd Cefnogi Pobl yn cynnig darpariaeth i 613 i ddefnyddwyr gwasanaeth yr wythnos, gyda 54 uned ychwanegol yn cael eu darparu ar hyn o bryd trwy Hafan Cymru a Digartref ( arian llithriant). Ar hyn o bryd dim ond 2 le allan o'r (667) 613 +54 uned sy'n wag ac mae hynny oherwydd na ellir lleoli 2 mewn un o eiddo CAIS, felly dim ond un sydd ynddo, ac i achos arall ddisgyn trwodd, yn ystod y dyddiau diwethaf, gan i un defnyddiwr gwasanaeth ddychwelyd i'r ddalfa.
Mae'n debygol y bydd gennym restrau aros am wasanaeth cyn bo hir, oni bai bod y cynnydd diweddar yn lleihau'n sylweddol. Y tebygrwydd yw y bydd y sefyllfa'n gwaethygu fel y bydd effaith Credyd Cynhwysol yn gafael ymhellach ymysg ein dinasyddion bregus.

**6.0 Manylion Cyflwyniadau i Dîm Opsiynau Tai 1af Ebrill 2018 – Chwefror 28 2019**

Yn ychwanegol dylid nodi bod **670** o bobl wedi cyflwyno i'r Gwasanaeth Tai yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol am unai gwybodaeth, cyngor neu gefnogaeth uniongyrchol. Mae'r 670 achos uchod wedi ei torri lawr fel a ganlyn yn unol â Rhannau perthnasol o fewn Deddf Tai (Cymru) 2014

- **244** o gyflwyniadau o dan Rhan 66 o'r Ddeddf ble mae dyletswydd ar y Gwasanaeth Tai i atal Digartrefedd (dyletswydd 'ataliol') pan yn gymwys ac o dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod.

- **181** o gyflwyniadau o dan Rhan 73 ble mae dyletswydd ar y Gwasanaeth Tai i gynorthwyo i ddod o hyd i lety, gan gynnwys y Sector Breifat ar gyfer person sy'n gymwys ac yn ddigartref ar y pryd.

- **95** o gyflwyniadau o dan Rhan 73 a 68 ble mae person sy'n ddigartref wedi eu lleoli mewn llety dros dro all gynnwys gwely a brecwast.

- **136** wedi cyflwyno o dan Rhan 60 o'r Ddeddf ble mae dyletswydd ar y Cyngor i gynnig Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth.

- **14** o achosion heb sefydlu pan ran o'r Ddeddf sy'n briodol ar hyn o bryd.

Dylid nodi bod y manylion parthed y cyflwyniadau uchod i'r Gwasanaethau Tai yn seiliedig ar yr amgylchiadau cychwynnol ac fe all amgylchiadau unigolion newid ar unrhyw bryd fyddai wedyn yn penderfynu o dan pa ran o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 y byddai pob achos unigol yn cael eu delio â hwynt.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Roedd y penderfyniadau yn seiliedig ar ymagwedd strategol a oedd yn canolbwyntio ar:

- Gymhwysedd yn unol ag Amodau Grant y Rhaglenni Cefnogi Pobl;
- Perthnasedd strategol yn unol â Nodau Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn a'r Gwasanaethau Tai;
- Ansawdd Gwasanaeth fel y gwiriwyd yn y rhaglen o adolygiadau manwl a ymgymerwyd â nhw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r tair mlynedd flaenorol. Cynhelir adroddiadau monitro pob chwe mis ac adolygiadau gwasanaeth cynhwysfawr pob tair blynedd;
- Gwerth am arian yn dilyn ymarfer manwl a gynhaliwyd ar draws yr holl ddarparwyr a lefelau'r angen a nodwyd gan ddarparwyr pan fydd defnyddwyr gwasanaeth ag amrywiaeth o faterion amrywiol a chymhleth sydd angen cefnogaeth;
- Sicrhau bod nodau ac amcanion Deddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu bodloni.

Mae'r ffactorau uchod yn amlinellu'r rhesymeg a ddefnyddiwyd wrth ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer lleihau cyllid mewn gwasanaethau penodol, ailfodelu eraill ac mewn rhai achosion, datgomisiynu yn llawn.

| |
|---|
| |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'n un o ofynion Amodau'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl a nodir gan Lywodraeth Cymru, fod y Cynllun Blynyddol yn cael ei gymeradwyo ar Lefel Aelodau Etholedig Lleol. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol – Mae Cefnogi Pobl yn Raglen Grant Llywodraeth Cymru. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cytuno gyda'r argymhellion gan ddatgan bod Gwasnaethau Cefnogi Pobl yn greiddiol er mwyn gallu diwallu anghenion pobl fregus Ynys Môn. . |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Gweler uchod. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Ychwanegu data sy'n dangos cynydd sylweddol mewn cyfeiriadau i'r Un Pwynt Mynediad Sengl Cefnogi Pobl a chyflwyniadau i'r Gwasanaeth Tai. Daeth y data yma i'n sylw yn dilyn cwblhau'r cynllun gwariant o fewn yr amser penodol ar gyfer ei anfon at Lywodraeth Cymru – teimlwyd y byddai ei gynnwys yn yr adroddiad yn ei gwneud yn haws i uniaethu ac yn fwy ystyrlon ar gyfer y gynulleidfa |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim Sylw |
| **5** | **Eiddo** | Ddim yn berthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | Ddim yn berthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | Ddim yn berthnasol |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Ddim yn berthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | Rydym wedi ymgynghori gyda'n holl ddarparwyr parthed y cynlluniau a'r datblygiadau arfaethedig |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Rhagwelir na fydd datgomisiynu y larymau yn llawn yn cael dim effaith economaidd o gwbl gan mai cost cyfalaf y monitro a'r cyfarpar oedd yn cael ei dalu o arian Cefnogi Pobl, ac y bydd hynny yn parhau, boed o ffynhonnell arall, neu wedi eu hunan ariannu gan y defnyddiwr gwasanaeth.<br><br>. |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Ni ragwelir unrhyw effaith uniongyrchol o ganlyniad i newidiadau er gallai newidiadau polisi cymdeithasol, yn enwedig diwygio lles, waethygu amgylchiadau ar gyfer rhai unigolion bregus a / neu unigolion a theuluoedd anhrefnus. Mae cynnydd sylweddol wedi ei gofnodi yn nifer yr achosion sydd wedi eu cyflwyno ym mis Ionawr a Chwefror 2019. Mae hyn yn gyson gyda phrofiad ardaloedd eraill ac yn dilyn ac yn rhoi rheswm i gredu y gall fod o ganlyniad i gyflwyno Credyd Uniongyrchol i mewn i drefn prif lif. |
| **3** | **Trosedd ac Anrhefn** | Dim effaith uniongyrchol o'r strategaeth. Fodd bynnag, byddai cynnydd mewn trosedd ac anrhefn o ganlyniad i newid mewn polisi cymdeithasol a mwy o dlodi yn golygu mwy o alw na chyflenwad ac anallu i fodloni anghenion sy'n cynyddu. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr ac yn enwedig o ystyried anghenion anhrefnus a chymhleth rhai o'r defnyddwyr gwasanaeth sydd angen cefnogaeth ac ymyrraeth aml-asiantaethol. Rydym eisoes dros y misoedd olaf, wedi gweld cynnydd yn y niferoedd sy'n gadael carchar angen cefnogaeth, ynghyd â chynnydd mewn camdriniaeth yn y cartref. |
| **4** | **Amgylcheddol** | Ddim yn berthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gynnwys o fewn y Strategaeth Comisiynu Leol a rannwyd yn flaenorol. |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Mae darparwyr Cefnogi Pobl yn gorfod glynu wrth fframwaith canlyniadau mandadol a ragnodir gan Lywodraeth Cymru. |
| **7** | **Arall** | Ddim yn Berthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Grant Rhaglen Cefnogi Pobl - Strategaeth Comisiynu Lleol Diweddariad 2019- 2020 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad** | **25.3.19** |
| **Pwnc** | **Diweddariad Blynyddol Cynllun Comisiynu 2019/20** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Ned Michael** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Elliw Llyr Rheolwr Gwasanaeth Uned Polisi, Comisiynu a Strategaeth Tai**<br><br>**Arwel Jones, Prif Swyddog Datblygu, Gwasanaethau Tai.** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Arwel Jones, Prif Swyddog Datblygu, Gwasanaethau Tai.** |

**1.0 Pwrpas**

Mae tri amcan i'r Adroddiad hwn ac mae'n darparu'r canlynol:

- Proffil o'r gwariant presennol yn seiliedig ar ddyraniad y Grant Rhaglen Cefnogi Pobl cyfredol ar gyfer Ynys Môn o £2,643,866. Ar hyn o bryd, mae 99.71% (£2,636,198.79) wedi ei glustnodi a rhagwelir y bydd tanwariant o £7,599 sydd gyfwerth â 0.29% o gyfanswm y grant a ddyrannwyd.
- Darparu cynllun gwariant arfaethedig ar gyfer 2019/20 yn seiliedig ar yr un dyraniad â'r 4 blynedd diwethaf, sef £2,643,866.
- Gweithredu fel y Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl ar gyfer 2019/20.

## 2.0 Cyllideb 2018/19

**2.1** Gellir gweld dadansoddiad o'r proffil gwariant a'r Cynllun Gwariant arfaethedig ar gyfer 2019/20 yn Atodiad 1 o'r ddogfen hon.

## 3.0 Anghenion Defnyddiwr Gwasanaeth a data allweddol arall

**3.1** Mae dadansoddiad o'r anghenion ar y pwynt o ofyn am wasanaethau, ynghyd â data allweddol arall mewn perthynas â demograffeg, digartrefedd a ffactorau cymdeithasol allweddol eraill i'w gweld yn Atodiad 2 o'r ddogfen hon.

## 4.0 Grwpiau Gwasanaeth

### 4.1 Camdriniaeth Ddomestig

Mae Camdriniaeth Ddomestig wedi'i adnabod fel maes blaenoriaeth lleol a rhanbarthol ar gyfer ei datblygu yn ystod 2019/20 yn dilyn cyflwyno Deddf VAWDASV 2015 a Byrddau Comisiynu a Llywodraethiant rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae gwaith yn parhau ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ail fodelu gwasanaethau ar gyfer y rhai hynny sydd wedi goroesi camdriniaeth ddomestig, tra hefyd yn cydnabod yr angen i weithio ar draws asiantaethau gyda'r rhai sydd wedi cyflawni troseddau. Mae'r diagram canlynol, sydd wedi'i gymryd o Gynllun Strategol Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 19/20 yn darparu trosolwg o'r argymhellion, cyraeddiadau a chynnydd a wnaed ar lefel ranbarthol yn ystod 2018.

| Argymhellion y cytunwyd arnynt yng Nghyd-bwyllgor Rhanbarthol Tachwedd 2017: | Cyraeddiadau / Cynnydd yn 2018 |
|---|---|
| Is-grwpiau RCC a Chydweithwyr Camdriniaeth Ddomestig i gynnal cyfarfod pellach er mwyn trafod canlyniadau'r Asesiad Anghenion a'r bylchau a gafodd eu hadnabod yn erbyn y ddarpariaeth bresennol sydd ar gael. | • Caderiydd RCC bellach yn aelod o'r Bwrdd VAWDASV, mae gan Bwrdd VAWDASV Grŵp Tasg a Gorffen Comisiynu ar y Cyd gyda Swyddogion Arweiniol Cefnogi Pobl, mae'r Asesiad Anghenion VAWDASV a ffurfiodd y Strategaeth VAWDASV wedi ei rannu yn y grŵp hwn. Mae'r Cydlynydd Camdriniaeth Ddomestig Rhanbarthol yn mynychu'r Is-grŵp RCC. Mae cysylltiadau wedi eu sefydlu ac ymgynghorwyd yn helaeth ar y Strategaeth VAWDASV gar draws yr RCC. |
| I bob Awdurdod Lleol ddyrannu canran o'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer unrhyw flaenoriaethau rhanbarthol yn y dyfodol. | • Mae pob Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddyrannu cyfran o'u grant Cefnogi Pobl tuag at gydweithio â'r Bwrdd VAWDASV, bydd yr ymwrwymiad hwn wedi ei ddyrannu i'r gwasanaeth IDVA Rhanbarthol a chaledu targed.<br>• MAE HYN YN DDIBYNNOL AR GADARNHAD Y GRŴP CYNLLUNIO CP |
| Gwasanaeth Ymgynghorwyr Camdriniaeth Ddomestig Annibynnol Rhanbarthol - i'r RCC gytuno i'r opsiwn hwn gael ei ymchwilio ymhellach gan yr Is-grŵp RCC. | • Cyfran o'r Grant Cefnogi Pobl wedi ei glustnodi ar gyfer y Gwasanaeth IDVA Rhanbarthol a Chaledu Targed YN AMODOL AR GADARNHAD<br>• Gwasaneth IDVA Rhanbarthol i ddechrau yn 2019 |

Mae trafodaethau yn parhau mewn perthynas â chomisiynu Gwasanaethau IDVA, y mae £12,000 wedi'i glustnodi ar ei gyfer o gyllideb CP Ynys Môn. Rhagwelir y bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu ar lefel ranbarthol yn ystod 2019/20. Mae'r union ddyddiad eto i'w gadarnhau a bydd unrhyw drosglwyddiad yn destun proses gaffael lawn, a arweinir gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

O safbwynt lleol, mae trafodaethau wedi dechrau gyda rhanddeiliaid allweddol, megis y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Addysg, y Gwasanaeth Prawf a Darparwyr 3ydd Sector, mewn perthynas ag ailfodelu'r gwasanaethau presennol ar yr Ynys. Rhagwelir y bydd rhanddeiliaid allweddol o fewn y Grant Cymorth Tai a'r Grant Plant a Chymunedau yn cytuno i gyfuno cyllidebau er mwyn creu gwasanaeth cyfannol a fydd yn cwmpasu gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety â chefnogaeth, ar y cyd ag ymyrraeth statudol yn cynnwys gwaith amddiffyn plant sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan ein Cydweithwyr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r ffurflenni CID 16 a gyflwynir gan yr Heddlu ynghyd â data rheoli perfformiad gan Gorwel (gweler atodiad 2), yn dynodi bod achosion o gamdriniaeth ddomestig yn parhau i gynyddu, gyda nifer o achosion yn dangos bod anghenion cymhleth a heriol yn bodoli ymysg y rhai hynny sydd wedi goroesi. Mae wedi bod yn amlwg ers peth amser bod Gorwel wedi bod yn darparu tua 25 i 30 uned o gymorth fel y bo'r angen bob wythnos, er mai dim ond contract ar gyfer 6 sydd ganddynt. Mae cyllid llithriant wedi ei ddarparu fel y gall Gorwel gyflogi staff ychwanegol er mwyn delio â'r angen cynyddol. Rhagwelir y bydd nifer yr achosion yn codi yn ystod 2019 oherwydd y cynnydd yn y problemau cymdeithasol economaidd a'r nifer gynyddol o deuluoedd sy'n byw mewn tlodi ar yr ynys. Mae angen ail dendro'r maes gwasanaeth hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 a hynny o ran sicrhau bod y trefniadau presennol ar gyfer darparu gwasanaeth yn bodloni'r anghenion lleol, ynghyd â'r angen i gydymffurfio â Rheolau Caffael Ewropeaidd.

Bwriedir drafftio'r amserlen ar gyfer y tendr i ddarparu gwasanaethau camdriniaeth ddomestig yn y dyfodol yn ystod Chwarter 1 o 2019/20, gyda'r nod o ddarparu'r ddarpariaeth a ail fodelwyd o tua Hydref 2019 ymlaen. Yn y cyfamser, argymhellir bod cyllid Cefnogi Pobl craidd ar gyfer y gwasanaeth hwn yn parhau ar yr un lefel, sef £162,752 y flwyddyn.

**Argymhelliad y Swyddog Arweiniol – Parhau â'r trefniadau ariannu fel y dangosir uchod.**

**Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo'r argymhelliad**

## 4.2 Anableddau Dysgu

Mae lefel y buddsoddiad Cefnogi Pobl o fewn Anableddau Dysgu wedi gostwng yn sylweddol dros y 5 mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd, mae anableddau dysgu yn cyfri am 18% o wariant Cefnogi Pobl, o gymharu â 33% 5 mlynedd yn ôl.

Er y gwaith sylweddol sydd wedi cael ei wneud ar draws y mwyafrif o Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru ers 2017 (fel y gwelir yn y diagram isod) mae

Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'r ymrwymiad i adolygu'r lefelau gwariant a fuddsoddwyd yn y grŵp gwasanaeth hwn. Disgwylir dogfen arweiniad newydd yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, a all arwain at risgiau pellach o ostyngiadau ychwanegol yn y gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu.

| | |
|---|---|
| Edrych ar y cyllid presennol a chymhwyster y gwasanaethau Cefnogi Pobl ar gyfer y grŵp hwn o gleientiaid. | • Mae Gogledd Cymru wedi adolygu eu gwasanaeth Anableddau Dysgu er mwyn sicrhau bod pawb sy'n derbyn y grant Cefnogi Pobl ar gyfer Anableddau Dysgu yn gymwys i'w gael |
| Dysgu'r arferion gorau gan bob Awdurdod | • Yn ystod datblygiad y gwaith hwn, rhannwyd arfeion gorau yng nghyfarfod Rhwydwaith Rhannu Gwybodaeth Cefnogi Pobl Gogledd Cymru a'r Cyfarfod Is-grŵp RCC. |
| Dadansoddi sut mae gwasanaethau presennol yn gysylltiedig â'r agenda atal digartrefedd a mynd i'r afael â thlodi | • Mae hyn wedi'i gyflawni - y weithred hon wedi ei hymgorffori yn y meini prawf cymhwyster mewn perthynas â darparu cyllid Cefnogi Pobl ar gyfer Anableddau Dysgu. |

Tra rydym yn disgwyl cadarnhad ac arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru, mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo ar lefel gorfforaethol ac ar lefel leol er mwyn ail fodelu'r ddarpariaeth bresennol fewnol ac allanol ar gyfer y grŵp defnyddwyr hwn.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae dwy uned llety symud ymlaen yn cael eu hailwampio ac mae'r gwaith bron â'i gwblhau, a hynny o fewn cynllun tai gwarchod sy'n berchen i'r Cyngor, gyda'r bwriad y bydd ar gael i bobl ag anableddau dysgu er mwyn eu cefnogi tuag at fod yn annibynnol.

Roedd cyfanswm y gyllideb a ddyrannwyd i bobl ifanc ag anableddau dysgu ar gyfer 2018/19 yn £479,266. Fodd bynnag, oherwydd i un gwasanaeth gael ei drosglwyddo i'r ddarpariaeth gofal iechyd parhaus, tra'n aros yn yr llety â chefnogaeth, ynghyd â gostyngiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer defnyddiwr gwasanaeth arall a phenderfyniad Gofal Cymdeithasol Oedolion i beidio â defnyddio Helidon, gan olygu bod 22 awr wedi eu digomisiynu; o ganlyniad, disgwylir gostyngiad o £48,531 yn y gwariant gwirioneddol. Bydd y swm hwn yn cael ei wrthbwyso yn erbyn dwy uned newydd yn Llawr y Dref ar gost gyfun o £17,333. Bydd y gyllideb a ddyrennir mewn perthynas â'r contractau presennol felly £27,996 yn uwch na'r gwariant presennol a ragwelir ar gyfer 2018/19 ond bydd dal yn llai na'r swm gwreiddiol a ddyrannwyd ar gyfer 2018/19, oherwydd y ffactorau a amlinellwyd uchod.

**Argymhelliad y Swyddog Arweiniol – Yn unol â'r trefniadau cytundebol presennol ac yn cynnwys 2 uned bellach o Lety â Chymorth yn Llawr y Dref, buddsoddi £458,730 ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu.**

**Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo'r argymhelliad**

### 4.3 Iechyd Meddwl

Ar adeg ysgrifennu, mae'r gwasanaeth penodol ar gyfer pobl sydd ag anghenion tai sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yn cael ei adolygu fel rhan o gylch 3 blynedd. Mae opsiwn yn y contract presennol i ymestyn y ddarpariaeth am 3 blynedd pellach ar drefniant blwyddyn ar flwyddyn, yn seiliedig ar gydymffurfiaeth â'r contract, darpariaeth gwasanaeth boddhaol a'r cyllid sydd ar gael.

Mae ymweliadau monitro a gynhaliwyd yn ystod y deuddeg mis diwethaf, ynghyd â data perfformiad, wedi dynodi bod y galw yn parhau i fod yn uchel. Yn wir, anghenion sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl yw'r rheswm a gofnodwyd fwyaf ar gyfer cyfeirio at y Pwynt Mynediad Sengl ar gyfer Cefnogi Pobl (gweler atodiad 2). Mae'r gwasanaeth wedi cyflawni nifer o ganlyniadau positif ar gyfer ei ddefnyddwyr gwasanaeth, a gellir priodoli sawl un ohonynt i'r Hybiau Llesiant o fewn y gymuned, a arweinir gan y defnyddwyr eu hunain.

Yn ychwanegol, mae 5 uned o ddarpariaeth Tai yn Gyntaf wedi cael eu trosglwyddo o'r Gwasanaethau ar gyfer Pobl Sengl 25-54 oed ar y Cynllun Gwariant ar Iechyd Meddwl, gan mai'r angen blaenorol yn hytrach na'r un diwethaf yw'r angen arweiniol dynodedig, er bod y ddau yn cael eu darparu gan y Wallich fel rhan o'r un prosiect. O ystyried y cysylltiad cryf rhwng anghenion iechyd meddwl a digartrefedd neu'r risg o ddigartrefedd, mae heb os yn parhau i fod yn faes gwasanaeth strategol berthnasol o fewn yr agenda atal digartrefedd.

Cytunwyd i ddechrau y byddai tair uned o lety â chymorth ar gael i Bobl ag Anableddau Dysgu ym mhrosiect newydd Llawr y Dref a fyddai'n cael ei ail agor cyn hir. Yn anffodus, ni fu modd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ond dyrannu unedau ar gyfer dau o bobl ag Anableddau Dysgu, felly yn dilyn trafodaethau pellach â'r Gwasanaethau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, cytunwyd i ddyrannu gweddill yr eiddo i unigolyn ag anghenion iechyd meddwl, unwaith eto at ddibenion symud ymlaen.

## Argymhelliad y Swyddog Arweiniol–

**Ymestyn y ddarpariaeth am 12 mis ychwanegol hyd nes y cynhelir adolygiad boddhaol.**

**Cynyddu lefel y buddsoddiad a ddangosir ar y Cynllun Gwariant ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl o £183,771 i £225,931 er mwyn adlewyrchu'r 5 uned a fydd yn cael eu trosglwyddo o'r Gwasanaethau Cefnogi ar gyfer Pobl Sengl 25-54 oed ynghyd ag 1 uned bellach ar gyfer symud pobl ymlaen yn Llawr y Dref.**

**Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo'r argymhelliad**

### 4.4 Troseddu / Camddefnyddio Sylweddau / Generig

Ar amser ysgrifennu, mae’r gwasanaeth dynodedig ar gyfer pobl ag anghenion tai sy’n gysylltiedig â Throseddu, Camddefnyddio Sylweddau ac anghenion generig, yn cael ei adolygu fel rhan o gylch 3 blynedd. Mae opsiwn yn y contract presennol i ymestyn y ddarpariaeth am 3 blynedd bellach, yn seiliedig ar gydymffurfiaeth â’r contract, darpariaeth gwasanaeth boddhaol a’r cyllid sydd ar gael.

Mae ymweliadau monitro a gynhaliwyd yn ystod y deuddeg mis diwethaf wedi dynodi bod y galw yn parhau i fod yn uchel ac ar adeg lle  mae cysylltiad amlwg rhwng yr anghenion uchod â’r lefelau cynyddol o ddigartrefedd. Mae’n rhesymol felly i gymryd bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn strategol berthnasol. Yn fwy na hynny, mae’r Swyddog Adsefydlu Carcharorion a gomisiynwyd yn flaenorol drwy’r Grant Atal Digartrefedd ers Ebrill 2018 wedi ei gomisiynu yn uniongyrchol drwy’r Grant Cefnogi Pobl. Mae’r trefniant hwn wedi gweithio’n dda ac wedi galluogi CAIS i ganolbwyntio ar gefnogaeth wedi’i dargedu ar gyfer y troseddwyr hynny sy’n byw yn y gymuned ac sydd â risg o aildroseddu. Mewn cymhariaeth, mae’r Swyddog Adsefydlu Carcharorion, sy’n gyflogedig gan y Cyngor, yn gallu canolbwyntio ar waith y mae angen ei wneud cyn i droseddwyr gael eu rhyddhau  gyda’r carchardai a’r troseddwyr ac yn gallu cydweithio’n agos â’r gwasanaeth Opsiynau Tai er mwyn dod o hyd i lety addas cyn y dyddiad rhyddhau. Am fwy o fanylion, gweler y paragraff ar y Swyddog Adsefydlu Carcharorion.

**Argymhelliad y Swyddog Arweiniol – Parhau â’r lefel bresennol o gyllid yn unol â’r cytundeb cytundebol £48,625.39, £135,065.88, a £102,439.00 ar gyfer darpariaeth generig. Ymestyn y ddarpariaeth am 12 mis ychwanegol yn amodol ar adolygiad boddhaol.**

**Cynnwys swydd y Swyddog Adsefydlu Carcharorion o fewn y Categori Grŵp Troseddwyr.**

**Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo’r argymhelliad**

### 4.5 Pobl ifanc

Yn dilyn yr ymarfer tendr a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017 a benderfynodd y byddai’r gwerth cytundebol rhwng 1.4.18 a 31.3.2021 yn £487,697.13, mae’r flwyddyn ariannol bresennol wedi bod yn un o gyfnerthiad pellach ar gyfer y maes gwasanaeth hwn. Mae’r galw yn parhau i fod yn hynod o uchel, gyda thystiolaeth anecdotaidd o’r cyfeiriadau a dderbyniwyd gan y Pwynt Mynediad Sengl bod y rhai sy’n cyflwyno eu hunain o fewn y grŵp oedran hwn, yn ymddangos fel petaent â lefelau cynyddol o anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol. Mae’n ymddangos mai camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl a hanes o droseddu yw’r prif faterion ymysg y grŵp defnyddwyr bregus hwn.

**Argymhelliad y Swyddog Arweiniol – Parhau i ddarparu'r Contract am y pris a gytunwyd, sef £497,697.**

**Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo'r argymhelliad**

#### 4.6 Rhieni Sengl Ifanc Bregus

Mae mwyafrif helaeth y rhieni sengl ifanc bregus a gefnogir fel rhan o'r contract hwn â phrofiad o gamdriniaeth ddomestig, a nodir fel angen eilaidd. O ystyried nifer yr anghenion eilaidd a gysylltir yn uniongyrchol â chamdriniaeth ddomestig, gwnaed argymhelliad yn flaenorol i uno'r gwasanaeth hwn gyda'r ddarpariaeth benodedig ar gyfer camdriniaeth ddomestig.

Adolygwyd y gwasanaeth hwn fel rhan o gylch tair blynedd cyn penderfynu ar y trefniadau comisiynu ar gyfer y dyfodol. Yn dilyn argymhellion y Swyddog Adolygu, mae nifer yr unedau a ddarperir bob wythnos wedi cynyddu o 12 i 15 am ddim cost ychwanegol i'r Rhaglen CP, tra bo nifer yr unedau llety â chefnogaeth yn parhau i fod yn 4 uned.

Fodd bynnag, bydd angen gwneud penderfyniad yn ystod Chwarter 1 a 2, 2019 o ran a fyddwn yn parhau â gwasanaeth penodol ar gyfer rhieni sengl bregus ai peidio ynteu a fyddwn yn dosbarthu rhan o'r cyllid neu'r holl gyllid i'r ddarpariaeth camdriniaeth ddomestig a / neu wasanaethau eraill.

Yn y cyfamser, argymhellir bod cynllun gwariant 2019/20 yn cynnwys y lefelau presennol o gyllid a'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer y grŵp / defnyddwyr gwasanaeth hwn.

**Argymhelliad y Swyddog Arweiniol – Parhau i ddarparu'r gwasanaeth am y pris cytundebol presennol a gytunwyd sef £74,189.00, tan i'r model camdriniaeth ddomestig gael ei gwblhau'n derfynol. Gallai hyn olygu un ai ail-gomisiynu neu ail-fodelu neu ddigomisiynu'r gwasanaeth yn llawn yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.**

**Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo'r argymhelliad**

#### 4.7 Cefnogaeth i Bobl Sengl 25-54 oed drwy'r Model Darparu Tai yn Gyntaf –

Cafodd y gwasanaeth Tai yn Gyntaf ei ail ddyfarnu i'r Wallich o Ebrill 2018, am gyfnod o 3 blynedd am £169,972.44 y flwyddyn. Darperir cyfanswm o 25 uned o gefnogaeth.

Ers ei gyflwyno, mae Tai yn Gyntaf wedi dangos ei werth drwy sicrhau bod y bobl sengl 25-54 oed sydd ag anghenion cymorth yn cael eu cynorthwyo a'u hannog i gynnal eu tenantiaethau gyda 79% o sampl o'r 119 o'r bobl gyntaf a gefnogwyd, wedi eu cofnodi fel rhai a oedd yn byw yn annibynnol ar ôl i'r gefnogaeth ddod i ben. Roedd y model mor llwyddiannus - o ran galluogi unigolion hynod fregus i allu llwyddo yn eu llety ac i beidio â chyflwyno eu hunain yn ddigartref - bod y ddarpariaeth bellach wedi ei hymestyn i gefnogi pobl ag iechyd meddwl fel angen arweiniol. Mae cyfanswm o 5 uned o'r 25 a ddarperir bob wythnos bellach wedi eu dynodi ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl. Er bod y Wallich yn derbyn un taliad misol ar gyfer y cyfan o'r 25 o unedau a ddarperir, mae angen i'r Cynllun Gwariant ar gyfer 2019/20 gael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r adnodd ychwanegol a fuddsoddwyd mewn iechyd meddwl gyda gostyngiad cyfatebol yn nifer y bobl sengl 25-54 oed sy'n derbyn cymorth.

**Argymhelliad y Swyddog Arweiniol – Gostwng lefel y buddsoddiad a ddangosir ar y Cynllun Gwariant ar gyfer Gwasanaethau i Bobl Sengl 25 – 54 oed £33,994 a throsglwyddo'r arian i'r categori Iechyd Meddwl.**

**Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo'r argymhelliad**

**4.8 Pobl Hŷn –**

Ar amser ysgrifennu, mae cynlluniau ar y gweill i ddechrau ar yr adolygiad tair blynedd o'r gwasanaeth deiliadaeth niwtral ar gyfer pobl hŷn. Ar yr amod fod canlyniad yr adolygiad yn foddhaol, gellir ymestyn y trefniadau presennol am dair blynedd pellach, ar sail blwyddyn ar flwyddyn, yn amodol ar gydymffurfio â'r contract, cyllid sydd ar gael a darpariaeth gwasanaeth o safon. Ers comisiynu'r gwasanaeth hwn i ddisodli'r gwasanaeth warden blaenorol a oedd ar gyfer tenantiaid y Cyngor yn unig, mae'r prosiect wedi tyfu o ran poblogrwydd gan gynnig mynediad cyfartal i unrhyw berson neu gwpwl dros 55 oed sydd angen cymorth i allu byw'n annibynnol neu sydd â risg o fod yn ddigartref. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi galluogi mynediad cyfartal a gwerth ychwanegol i weithgareddau cymdeithasol eraill megis gerddi llysiau, prosiectau clwb crefft a gwnïo ynghyd â hyrwyddo mynediad ac atgyfeirio at y 3 Clwb 'Heneiddio'n Dda' sydd wedi eu lleoli yn Llangefni, Amlwch a Brynsiencyn. Comisiynir y prosiect i ddarparu dwy awr o gefnogaeth wedi'i dargedu ar gyfer o leiaf 150 o bobl yr wythnos. Fodd bynnag, o ganlyniad i lefel y galw a'r gwahanol lefelau o angen, sefydlwyd o'r wybodaeth rheoli perfformiad a dderbyniwyd gan y Pwynt Mynediad Sengl, bod dros 180 o bobl yr wythnos wedi eu cefnogi a hynny am gyfnod sefydlog o amser.

Yn dilyn adolygiad gwasanaeth o Gynlluniau Tai â Chefnogaeth, Clwyd Alyn ym Mro Trehinon, Amlwch a Min Yr Afon, Benllech, argymhellwyd yn adroddiad y Swyddog Adolygu y dylid digomisiynu'r gwasanaethau hwn, o 1.4.19, ar y sail nad oedd y naill gynllun na'r llall yn bodloni'r meini prawf cymhwyster ar gyfer Cefnogaeth sy'n Gysylltiedig â Thai, a'i fod yn darparu gwasanaeth a oedd yn ymwneud mwy â

rheolaeth tai. Nodwyd arbediad o £8,877 i'w fuddsoddi mewn darpariaethau gwasanaeth amgen.

## Argymhelliad y Swyddog Arweiniol-

**1.Hyd nes y cynhelir adolygiad gwasanaeth boddhaol, ymestyn y cyfnod o gyllid ar gyfer y cymorth wedi'i dargedu ar gyfer pobl dros 55 oed am gyfnod o 12 mis pellach i ddechrau yn unol â'r cytundeb ar gyfer y swm o £340,853,59.**

**2. Fel y cytunwyd yn flaenorol gyda'r Grŵp Cynllunio SP, cwblhau'r broses ddigomisiynu ar gyfer Gwasanaeth Warden Clwyd Alyn, gan leihau buddsoddiad yn y grŵp defnyddwyr hwn £8,877.00**

**Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo'r argymhelliad**

### 4.9 Gwasanaethau Generig –

Mae Gwasanaeth Generig newydd parhaus wedi'i gomisiynu o 1.11.18 ac fe'i darperir gan y Gwasanaeth Tai yn fewnol. Yn ychwanegol at yr 80 uned o gymorth generig craidd mewn perthynas â thenantiaethau a ddarparwyd gan yr Adran Dai, bydd y cymorth parhaus newydd yn cynnig cefnogaeth i 50 o bob eraill yr ystyrir eu bod yn fregus ar ôl i'r cyfnod o gefnogaeth ar gyfer y prif angen ddod i ben. Yn ychwanegol at hynny, gall defnyddwyr gwasanaeth gael mynediad at y gwasanaeth newydd hwn, petai sbardun yn digwydd, ar yr amod eu bod wedi cael cymorth gan y gwasanaeth hwn neu ddarparwr arall sy'n cynnig cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai arall yn ystod y 12 mis diwethaf. Gall ymyrraeth mor fuan ar y pwynt hwn atal sefyllfa argyfyngus rhag datblygu ac atal ymyrraeth statudol gostus.

Darperir 34 uned bellach o gefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai gan CAIS fel rhan o'r contract hyblyg er mwyn cwrdd ag anghenion pobl sy'n camddefnyddio sylweddau a/neu'r rheini sydd â hanes o droseddu a / neu angen tenantiaeth generig.

Mae cyfanswm cost y ddarpariaeth generig hon, yn cynnwys y cymorth parhaus yn dod i £403,990.

## Argymhelliad y Swyddog Arweiniol– Parhau â'r trefniadau cyllido yn unol â'r uchod.

## Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo'r argymhelliad

**4.10 Larymau –** Penderfynodd Adolygiad Aylward y dylai'r holl wasanaethau Cefnogi Pobl fod yn seiliedig ar angen yn hytrach na daliadaeth. Mae'r holl gefnogaeth uniongyrchol bellach yn cydymffurfio â'r angen hwn. Fodd bynnag, mewn rhai eiddo, mae larymau cymunedol yn parhau i fod yn 'fyw' heb angen am hynny ac

o ganlyniad mae Galw Gofal yn codi am Ffi Monitro Galwadau a chost cynnal a chadw sy'n daladwy i Tunstall ac nad yw'n gymwys ar gyfer cyllid CP.

Yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Uwch Reolwyr o'r Gwasanaeth Tai, mae wedi'i gytuno **na ddylid** defnyddio'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl er mwyn cynorthwyo'r hyn sydd mewn gwirionedd yn wasanaeth anghymwys. Fel rhan o gynllun 2018/19 cafodd ei argymell a'i gytuno y dylid cyflwyno gostyngiad o 50% o fis Ebrill 2018 ymlaen ac y dylid diddymu gweddill y cymhorthdal o 50% o 2019/20. Roedd yr argymhelliad y cytunwyd arno yn caniatáu cyfnod o 12 mis er mwyn ymgymryd â'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu angenrheidiol â defnyddwyr gwasanaeth a fyddai'n cael eu heffeithio arnynt ac yn rhoi amser digonol i reoli'r newid yn y trefniadau i godi ffi am y gwasanaeth. Mae hysbysiad o'r bwriad i atal y cyllid eisoes wedi ei rannu yn ysgrifenedig â'r Pennaeth Gwasanaethau Tai, y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Swyddogion Grŵp Cynefin a Thenantiaid mewn perthynas â Phenucheldre a Llys Mair, Y Gilfach a Phont y Brenin.

**Argymhelliad y Swyddog Arweiniol – Gostyngiad pellach o £56,749.92 yn y contract gan ddod â holl fuddsoddiadau SP mewn Larymau Cymunedol ac unrhyw Offer Teleofal arall i ben.**

**Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo'r argymhelliad**

**4.11 Pwynt Mynediad Sengl (SPoA) -** Mae'r gwasanaeth SPoA wedi bod yn weithredol ers y 1af o Hydref 2017. Mae effeithlonrwydd a llwyddiant y SPoA yn amlwg oherwydd nid oes unrhyw restrau aros, ynghyd â lefelau isel neu ddim lefelau o gwbl o gyfnodau pan fo llety'n wag ar draws yr holl ddarparwyr ar gyfer prosiectau llety cymorth hyblyg a phrosiectau llety â chymorth yn ystod y flwyddyn. Ymhellach, o ystyried cymhlethdodau cynyddol nifer o atgyfeiriadau a dderbyniwyd, mae'n glod i effeithlonrwydd y prosiect mai dim ond dau banel anghenion cymhleth sydd wedi cael eu cynnal er bod nifer yr atgyfeiriadau dros 1,200.

Yn ogystal, rydym wedi gweld lefel is o bobl yn cael eu troi allan o'u tai, mynediad cyflymach i wasanaethau a hefyd wedi gallu atal yr angen i ddarparwyr gwblhau data rheoli perfformiad misol, y gellir bellach ei weld a'i ddadansoddi drwy'r gronfa ddata SPoA. Yn ogystal, mae'r prosiect wedi llwyddo i gynyddu proffil cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai a'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl yn benodol a bellach fe geir atgyfeiriadau gan asiantaethau megis DWP, Addysg a rhai disgyblaethau perthnasol nad oeddent yn ymwybodol o fodolaeth y grant yn y gorffennol. Cafodd ymarfer monitro SPoA ei gynnal yn ystod Hydref 2018, gyda'r adroddiad cysylltiedig yn amlygu effeithlonrwydd y prosiect, fel y nodwyd uchod.

**Argymhelliad y Swyddog Arweinol – Parhau i ariannu swydd y Swyddog SPoA fel prosiect Cefnogi Pobl (£35,432.27).**

**Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo'r argymhelliad**

**4.12 Swyddog Ailsefydlu Carcharorion (SAC) –** Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Swyddog Ailsefydlu Carcharorion wedi ei ariannu drwy'r Grant Cefnogi Pobl ers Ebrill 2018 a chyn hynny, roedd yn rhan o ddyraniad y Grant Atal Digartrefedd (S180).

Mae'r Swyddog dynodedig yn y swydd hon wedi'i gyflogi yn uniongyrchol gan CSYM ac yn uniongyrchol atebol i Arweinydd y Tîm Tai Generig a'r Cymorth parhaus a ddarperir yn fewnol. Rhan allweddol o'r rôl hon yw datblygu perthynas waith â charchardai sef CEM Berwyn (Wrecsam), CEM Altcourse (Lerpwl), CEM Styal (Manceinion) a CEM Stoke Heath (Pobl Ifanc) er mwyn hwyluso manylion rhyddhau o'r carchar a chefnogi gwaith cyn-denantiaeth â'r rhai hynny sy'n gadael carchar a hynny ymhell cyn iddynt gael eu rhyddhau. Gwelir hyn fel rhan allweddol o'r rôl lle bydd yr asesiad digartrefedd wedi ei gwblhau a'i rannu â'r tîm opsiynau tai cyn y dyddiad rhyddhau, gan alluogi'r adran opsiynau tai i benderfynu a oes dyletswydd arnynt i letya. Yn anffodus, nid yw hyn yn digwydd ym mhob achos, yn enwedig gyda'r rheini sy'n treulio cyfnodau byr yn y carchar, tri mis neu lai, lle gallai'r rhai sy'n gadael carchar gyflwyno eu hunain yn ddigartref gyda'r awdurdod lleol cyn iddynt dderbyn hysbysiad bod yr unigolyn yn cael ei ryddhau. Mae trafodaethau yn parhau gyda'r gwahanol garchardai er mwyn gwella trefniadau o ran rhannu gwybodaeth yn amserol a gobeithir y bydd hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol o ran lleihau'r angen i leoli pobl mewn llety dros dro, drud megis gwely a brecwast.

Ar adeg ysgrifennu, roedd deilydd y swydd yn cefnogi dros 30 o bobl. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y swyddog yn darparu cefnogaeth am gyfnod o hyd at 12 wythnos un ai cyn cau'r achos neu drosglwyddo'r achos i ddarparwr dynodedig arall, CAIS yn y rhan fwyaf o achosion, a hynny oherwydd natur yr anghenion y byddant yn darparu cefnogaeth.

**Argymhelliad y Swyddog Arweiniol - Parhau i ariannu'r Swydd drwy'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl ar gost flynyddol o £35,432.27**

**Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo'r argymhelliad**

**4.13 Pot Cyllid Rhanbarthol (0.5%) -** Tua Ebrill 2017, cytunodd y Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol y dylai pob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru gyfrannu 0.5% (£13,219 i Ynys Môn) o'i gyllid blynyddol er mwyn hwyluso cyfleoedd ar gyfer datblygu cydweithio gyda'r nod o gynyddu trefniadau comisiynu rhanbarthol a/neu isranbarthol. Roedd enghraifft o hyn yn cynnwys comisiynu'r adroddiad a oedd yn manylu ar y gwasanaethau sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael carchar. Rhagwelir y bydd ychydig o'r cyllid yn 2019 yn cael ei ddefnyddio i ddibenion y gwasanaeth camdriniaeth ddomestig rhanbarthol, a allai gynnwys canolbwyntio ar sefydlu gwasanaeth rhanbarthol ar gyfer dynion sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig.

**Argymhelliad y Swyddog Arweiniol – Cytuno i gyfraniad o 0.5% (£13,219) tuag at y Pot Rhanbarthol a fydd yn cael ei weinyddu gan RCC Gogledd Cymru.**

**Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo'r argymhelliad**

## 5.0 Trefniadau Cyllido Newydd Arfaethedig –

### 5.1 Anableddau Dysgu – Prosiect Llawr y Dref.

Mae ailddatblygu Cynllun Tai Gwarchod Llawr Y Dref wedi darparu cyfleoedd i fod yn arloesol a chynhwysol. Fel landlord, mae'r Cyngor yn awyddus i 3 eiddo fod ar gael i bobl ag Anableddau Dysgu gael eu cefnogi i fyw yn annibynnol o fewn y gymuned. Fodd bynnag, ni fydd ond yn bosibl bellach i ddyrannu dau eiddo i'r diben hwn tra bydd y llall, yn dilyn cytundeb â'r Gwasanaethau Tai, yn cael ei glustnodi ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl, gyda'r tri yn rhai at ddibenion symud ymlaen i lety parhaol. Cydnabyddir y bydd Cymorth Cysylltiedig â Thai yn ffactor allweddol wrth sicrhau'r amcan o allu unigolyn bregus i gynnal ei denantiaeth. Mae felly'n cael ei argymell bod Cefnogi Pobl yn cyfrannu tuag at y gost o gefnogi ac y bydd y gost yn gost niwtral i'r rhaglen yn dilyn adnabod arbedion mewn meysydd eraill fel y nodir uchod.

**Argymhelliad y Swyddog Arweiniol – Defnyddio'r**

**grant i ariannu 3 Uned o Gefnogaeth gwerth £26,000 y flwyddyn.**

**Penderfyniad SPPG: Cymeradwyo'r argymhelliad**

## 6.0 Casgliad

Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn parhau i wynebu ansicrwydd ac er bod y Grant wedi ei ddiogelu tan Mai 2021, mae dyfodol y rhaglen y tu hwnt i dymor presennol y llywodraeth yn parhau i fod yn ansicr. Cafodd y penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i gyfuno'r deg grant yn ddwy raglen yn hytrach nag un ei groesawu yn gyffredinol gyda'r cyntaf yn canolbwyntio ar anghenion plant a chymunedau a'r ail yn canolbwyntio ar  Gefnogaeth sy'n Gysylltiedig â Thai, ac yn enwedig atal digartrefedd.

Wrth symud ymlaen, mae bellach yn ofyniad gan Lywodraeth Cymru, fel ymarferwyr Tai, bod ein Strategaeth Atal Digartrefedd wedi ei hadlewyrchu o fewn ein Rhaglen Cefnogi Pobl ac fel arall. Yn fwy na hynny, fel comisiynwyr strategol, rhaid i ni weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr a rhanddeiliaid sy'n comisiynu ac yn darparu Gwasanaethau drwy'r Grant Plant a Chymunedau er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau strategol perthnasol o safon, sy'n cynnig gwerth am arian ac yn lleihau dyblygu diangen.

Ar adeg ysgrifennu, rydym yn disgwyl fframwaith canlyniadau wedi'i ddiweddaru a fydd yn berthnasol i'r Grant Cefnogaeth sy'n Gysylltiedig â Thai a'r Grant Plant a Chymunedau ac a fydd yn seiliedig ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rhagwelir y bydd gweithrediad y fframwaith canlyniadau newydd hwn yn lleihau'r baich biwrocrataidd o ran mecanweithiau adrodd ar gyfer comisiynwyr gwasanaethau o ddeg grant ar wahân i ddwy raglen benodol a dargedir. Fe ddylai Awdurdodau Lleol yn dilyn hynny gael mwy o ymreolaeth i allu cynllunio a

chomisiynu gwasanaethau er mwyn gallu bodloni anghenion eu dinasyddion mwyaf bregus, a allai yn ei dro ein galluogi ni i fabwysiadu ymagwedd ar y cyd er mwyn bodloni ein nodau corfforaethol sef:

- Creu’r amodau a fydd yn galluogi pawb i gyflawni eu potensial hirdymor
- Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a’u cadw’n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.

Arwel Jones
Prif Swyddog Datblygu
Gwasanaethau Tai
Cyngor Sir Ynys Môn
11.1.18.

**Atodiad 1**

**Cais Cyllideb CP "2019/20"**

**Cyfanswm Dyraniad Cyllideb ar gyfer y Flwyddyn = £2,643,866**

| **Maes Gwasanaeth** | **Gwir Wariant 2017/18** | **Cyllideb 2018/19** | **Cyllid Arfaethedig 2019/20** | **Addasiad** |
|---|---|---|---|---|
| Camdriniaeth Ddomestig | £191,317 | £162,752 | £162,752 | Dim |
| Anableddau Dysgu | £493,030 | £479,266 | £458,730 | -£20,536 |
| Iechyd Meddwl | £204,956 | £183,771 | £225,931 | +£42,160 |
| Troseddu | £48,625 | £83,698 | £83,698 | Dim |
| Camddefnyddio Sylweddau | £135,066 | £135,066 | £135,066 | Dim |
| Pobl Ifanc | £504,645 | £497,697 | £497,697 | Dim |
| Rhieni Sengl Bregus | £74,189 | £74,189 | £74,189 | Dim |
| Tai yn Gyntaf | £122,670 | £169,972 | £135,978 | -£33,994 |
| Pobl Hŷn | £349,179 | £349,731 | £340,854 | -£8,877 |
| F/S Generig | £284,544 | £284,535 | £403,990 | +£119,455 |
| Larymau | £114,160 | £54,178 | Dim | -£54,178 |
| Gwasanaeth SPoA | £39,782 (yn cynnwys Sefydlu) | £35,532 | £35,532 | Dim |
| Cyfraniad Rhanbarthol 0.5% | £13,219 | £13,219 | £13,219 | Dim |
| Trosglwyddiad Môn wedi'i gario drosodd | £18,000 | £0.00 | Dim | Dim |
| Swyddog Ailsefydlu Carcharorion | £0.00 | Dim | Dim (£35,432.27 Wedi'i gynnwys yn Troseddu | Dim |
| Cefnogaeth Barhaus yn ôl yr angen | Dim | £33,459 | Dim (wedi'i gynnwys yn Generig uchod) | Dim |
| Prosiectau sydd wedi llithro | Dim | £113,196 | Dim | |
| Cyfansymiau | £2,593,382 | £2,636,26 7 | £2,643,866 | |
| Tanwariant | £50,484 | £7,599. | £76,331 | Amh |

**Atodiad 2**

**Mewnbwn NME ar-lein ar gyfer blwyddyn 2017-2018**

**Paratowyd 20.04.2018**

Dadansoddiad wedi'i gwblhau o gyfanswm o 1157 NME a fewnbynnwyd ar-lein ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018:-

**Anghenion Perthnasol a ddynodwyd**




- Ar gyfer y flwyddyn hyd yma, y categori "Generig" oedd yr un a gofnodwyd fwyaf fel "Prif Angen" - 632 (30%) wedi'i ddilyn gan "Iechyd Meddwl" 462 (22%) gyda "Chamdriniaeth Ddomestig" wedi'i gofnodi fel y trydydd uchaf ar 225 (11%) dros y cyfnod hwn. *

**Prif Anghenion**




- Ar y cyfan mae'r "Prif Angen" wedi'i gofnodi fel "Generig" ar 471 (41%), wedi'i ddilyn gan "Iechyd Meddwl" 192 (17%) a "Chamdriniaeth Ddomestig" 171 (15%).
- Mae nifer o NME (18) nad oes unrhyw brif angen wedi'i gofnodi yn eu herbyn er bydd rhai wedi dynodi nifer o "anghenion perthnasol" ar y ffurflen heb nodi pa un yn union yw'r angen arweiniol.

**Ystod Oedran yr Ymgeiswyr**




- Yn ystod y cyfnod, yr ystod oedran â'r nifer uchaf o ymgeiswyr yw'r rhai 20-25 oed, 162 sy'n gyfystyr â 14% o gyfanswm allbwn NME.

Yn **Ddaearyddol** mae'r ardaloedd canlynol â'r nifer uchaf o geisiadau wedi eu cofnodi:-

**Caergybi – 409 (35.78%)**
**Llangefni – 113 (9.89%)**
**Amlwch– 49 (4.29%)**
**Porthaethwy – 47 (4.11%)**

**Niferoedd y Darparwyr a roddodd Fewnbwn**

- Mae nifer y mewnbwn NME fesul darparwr wedi eu harddangos isod, yn unol â'r anghenion Perthnasol a'r Prif Anghenion a ddynodwyd; Opsiynau Tai (Generig) a CSS (Iechyd Meddwl) a Gorwel (Camdriniaeth Ddomestig) yw'r uchaf.




## Statws Digartref pobl sy'n cyflwyno:-

**Dadansoddiad o'r holl gyflwyniadau**

**Statws Digartrefedd**




- O'r **1157** o bobl a gyflwynodd eu hunain yn ddigartref, cofnodwyd eu statws fel
  **21** – Amherthnasol
  **413** – yn ddigartref
  **717** – ddim yn ddigartref.
  **6** – dim statws digartrefedd wedi ei gofnodi.
- O'r **413** a oedd yn cyflwyno eu hunain fel bod yn ddigartref, nid oedd gan **122** le i aros y noson honno (Nid oedd gan **30%** o'r rhai hynny a oedd yn cyflwyno eu hunain fel eu bid yn ddigartref le i aros y noson honno).

**<u>Risg o Ddigartrefedd – 56 diwrnod</u>**




- O'r **1157** o bobl a oedd yn cyflwyno eu hunain, roedd eu risg o fod yn ddigartref fel a nodir isod:
  **470** – Amherthnasol (byddai **413** o'r rheini yn ddigartref yn barod)
  **253** – â risg o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod
  **424** – â dim risg o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod

- O'r **424** nad oedd â risg o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod, roedd **109** â risg o fod yn ddigartref yn y tymor hir (10% â risg o fod yn ddigartref yn y tymor hir, 27% â dim risg o fod yn ddigartref)

**Anghenion Llety**




- Cofnodwyd yr anghenion am lety fel y nodir uchod, cofnodwyd yr angen uchaf o ganlyniad i "Berthynas deuluol / perthynas wedi torri lawr" a oedd i gyfri am gyfanswm o **326 (43%)** o'r holl gyflwyniadau.

**Llety Presennol**




- Mae **33% (373)** o'r cyflwyniadau wedi eu cofnodi fel 'Ddim yn Berthnasol', gallai hyn fod o ganlyniad i'r ffaith nad oedd rhai defnyddwyr yn cwblhau'r data digartrefedd ar y ffurflenni mewnbwn ac yn unol â hynny efallai bod y categorïau sy'n weddill yn rhy isel.

- Mae **256 (22%)** o'r cyflwyniadau ar gyfer pobl sy'n byw mewn llety rhent preifat ar hyn o bryd a **234 (21%)** mewn Tai Cyngor.

Mae **142** o bobl wedi eu cofnodi fel rhai sy'n byw yng nghartrefi teulu neu ffrindiau yn hirdymor.

**Dim Cartref Sefydlog**




- Fel gyda'r adran "Llety Presennol" mae cyfran uchel o'r cyflwyniadau wedi eu cofnodi fel "Ddim yn Berthnasol". Gallai hyn fod yn gywir os nad yw'r categori yn berthnasol i'r ymgeiswyr neu fe allai fod nad yw'r darparwyr wedi cwblhau'r adran hon; fe allai fod yna raddau o danddatgan yn y categorïau sy'n weddill.
- Dim ond 278 o bobl a ddisgrifiwyd fel bod o "Ddim Cartref Sefydlog" er bod 407 o bobl wedi eu rhestru fel "Digartref".
- Mae **136** o bobl yn aros gyda theulu a ffrindiau ar sail dros dro.
- Mae **61** o bobl wedi eu cofnodi fel rhai sy'n "Cysgu Allan"

## Dadansoddiad o'r ymgeiswyr sy'n cyflwyno eu hunain fel bod yn ddigartref.

O'r **407** o bobl a gofnodwyd uchod fel bod yn Ddigartref, nododd **119** o'r rhain nad oedd ganddynt le i gysgu y noson honno.




- Roedd **55.04% (224)** o'r rhai a oedd cyflwyno eu hunain fel bod yn ddigartref yn dweud bod hynny o ganlyniad i berthynas Deuluol / Perthynas yn torri i lawr.




- Mae **275** yn cofnodi eu llety presennol fel "Ddim yn Berthnasol"...



- Mae **114** po bobl wedi eu cofnodi fel rhai sy'n byw â theulu / ffrindiau ar sail tymor hir sy'n cyfri am rai o'r rheini a gofnodwyd yn y categori 'Ddim yn Berthnasol'. Mae 50 ychwanegol gyda theulu / ffrindiau ar sail tymor byr.
- Mae **59** o bobl wedi eu cofnodi fel rhai sy'n cysgu allan.

## Dadansoddiad o'r rhai sy'n cyflwyno eu hunain fel bod â phosibilrwydd o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod.

Mae **248** o bobl wedi eu cofnodi fel bod â Risg o fod yn Ddigartref o fewn 56 diwrnod (roedd **3** o'r rhain hefyd wedi eu cofnodi fel eu bod yn ddigartref)




- Mae mwyafrif y bobl sydd â risg o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod yn y sefyllfa o ganlyniad i Rybudd o gael eu troi allan, yr ail uchaf yw oherwydd bod Perthynas neu Berthynas Deuluol yn torri lawr.




- Mae **44** o bobl wedi eu cofnodi fel rhai sy’n byw â theulu / ffrindiau ar sail tymor hir.
- Mae’r mwyafrif sydd â risg o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod mewn llety rhent preifat.




- Mae ‘Dim Cartref Sefydlog’ yn cyfri am y mwyafrif o’r ymgeiswyr hyn, gallai hyn fod oherwydd bod cleientiaid mewn llety ar hyn o bryd ond bod risg y byddant yn dod yn ddigartref.

## Dadansoddiad o’r ymgeiswyr sy’n cyflwyno eu hunain fel rhai a all fod yn ddigartref yn y tymor hir.

Mae **101** o bobl wedi eu cofnodi fel bod â Risg o fod yn Ddigartref yn y Tymor Hir.




- Mae mwyafrif y bobl sydd â risg o fod yn ddigartref yn y tymor hir yn y sefyllfa honno o ganlyniad i ôl-ddyledion Rhent / Morgais a Chyflwr / Pa mor Addas yw'r eiddo.




- Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref yn y tymor hir mewn llety Rhent Preifat neu lety'r Cyngor.

Mae'r holl ymgeiswyr wedi eu nodi fel "Ddim yn Berthnasol" yn y categori hwn oherwydd nad ydynt yn ddigartref ar hyn o bryd.

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **25ain Fawrth 2019** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Cynllun Grant Plant a Chymunedau 2019 – 2020** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd R. Meirion Jones – Dechrau'n Deg/Gofal Allan o Ysgol**<br>**Cynghorydd Llinos Medi Hughes – Teuluoedd yn Gyntaf, Cronfa Dydd Gwyl Dewi, Hybu Ymgysylltiad Gadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc sydd mewn peryg o droseddu**<br>**Cynghorydd Alun Mummery – Y Gronfa Waddol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Mr Arwyn Williams – Dysgu**<br>**Mr. Fon Roberts – Plant a Theuluoedd**<br>**Mr. Ned Michael – Tai** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Bethan H Jones, Supporting Families Unit Manager**<br>**01407767784**<br>**bethanhjones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Holl Aelodau Etholedig** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Cyfeiriwn at adroddiad blaenorol i'r Uwch Dim Arweinyddol: Strategaeth Ataliol Gorfforaethol, drafodwyd ar y 28ain o Ionawr 2019. Yn hwn cyfeiriwyd at y nifer o grantiau Llywodraeth Cymru i Gyngor Sir Ynys Môn, a bwriad y Llywodraeth i ymgorffori'r rhain fel 2 grant mawr. Un o'r grantiau ydi'r uchod ac sydd yn cynnwys y grantiau yma isod

| |
|---|
| Gofal Plant a Chwarae |
| Cymunedau am Waith a Mwy |
| Teuluoedd yn Gyntaf |
| Dechrau'n Deg |
| Y Gronfa Waddol |
| Hybu Ymgysylltu |
| Gronfa Dydd Gwyl Dewi |

Er bod pob rhaglen yn gweithredu yn annibynnol ac yna drodd yn unigol i'r Llywodraeth, mae'n amodol rŵan ir Cyngor gyflwyno un cais am y grantiau, sef y grant newydd Plant a Chymunedau.   Mae'r flwyddyn yma yn cael ei ystyried fel blwyddyn

| |
|---|
| trosiannol a mae gwaith ar y gweill yn barod i mapio, cydgysylltu gwasanaethau er mwyn gwella y gwasanaeth ir cwsmer ac allbynnau y rhaglenni.<br>Gofynnir ar sêl bendith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y Cynllun 2019 – 2020 ac y nod fydd dychwelyd ir Pwyllgor Gwaith gyda cynllun o 2020 mlaen unwaith fydd y gwaith wedi gwblhau i cydgordio a gwella y gwasanaethau sydd ar gael a chydfyd ac anghenion yr Ynys. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| I sicrhau fod Cyngor Sir Ynys Môn yn cydymffurfio gyda gofynion y grantiau gan y Llywodraeth. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Nid yw hyn groes i bolisi'r Cyngor. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Dim ystyriaethau cyllideb ychwanegol |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |

| | | |
|---|---|---|
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Cynllun Plant a Chymunedau drafft 2019 – 2020 |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Grant Plant a Chymunedau
# CAIS AM GYLLID 2019-20

**NODWCH FOD RHAID I BOB CAIS AM GYLLID GAEL EI GLIRIO A'I GYMERADWYO GAN Y PRIF WEITHREDWR CYN EI GYFLWYNO.**

| **Adran 1 - Cymeradwyaeth a Chydymffurfiaeth** | | | |
|---|---|---|---|
| **Ardal Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Ynys Môn** | | | |
| **Amcan-Ddyfarniad (£): £2,633,356.00** | | | |
| **Llofnod:** | Gwynne Jones | **Dyddiad** | **8/3/19** |
| **Enw mewn Priflythrennau:** | **Dr Gwynne Jones** | | |
| **Sefydliad a Swydd:**<br><br>**Cyngor Sir Ynys Môn – Prif Weithredwr** | | | |
| **Manylion cyswllt:**<br>**Vicky Jones, Cynorthwyydd Personol y Prif Weithredwr**<br>**VickyLJones@ynysmon.gov.uk**<br>**01248 752102** | | | |

## Adran 2 - Diben a chanllawiau ar gyfer llenwi'r ffurflen hon

**Diben:**

**Diben y grant Plant a Chymunedau fydd mynd i'r afael ag anghenion cymorth y plant ac oedolion sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys ymyrraeth gynnar, camau ataliol a mecanweithiau cefnogi. Bydd yn ceisio lliniaru anfanteision i bobl sy’n agored i niwed, neu gael gwared ar yr anfanteision er mwyn eu galluogi i gael yr un cyfleoedd bywyd â phobl eraill, a thrwy hynny gyfrannu at Gymru fwy cydradd.**

**Canllawiau:**

**Gweler y ddogfen 'Canllawiau ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau' am ragor o wybodaeth.**

**Cwblhewch Adrannau 3 hyd 10 ac adran 12 drwy ddefnyddio'r blychau isod.**

**Canolbwyntiwch ar y newidiadau a ddisgwylir o ganlyniad i ddull cyllido hyblyg y Grant Plant a Chymunedau. Nodwch nad oes uchafswm geiriau ar Adrannau 3 a 4, mewn cydnabyddiaeth o bwysigrwydd yr adrannau hyn.**

**Mae Adran 11 yn esbonio pa gynlluniau cyflawni eraill y mae disgwyl ichi eu cwblhau.**

**Nid oes angen ichi ddyblygu neu ailadrodd ymatebion yn y gwahanol adrannau. Os yw'n berthnasol, gallwch groesgyfeirio at rannau eraill o'r cynllun os ydych eisoes wedi darparu'r wybodaeth.**

**Dim ond i’w wario ar gyflawni diben y grant yma (a’r saith rhaglen gysylltiedig) y gellir defnyddio’r arian a ddyrannwyd o dan y grant Plant a Chymunedau ar gyfer 2019-20.**

## Adran 3 - Gweledigaeth

**Beth yw'r weledigaeth lefel uchel yn yr awdurdod lleol sydd y tu cefn i'r defnydd a wneir o'r grant hwn?**

**Ymateb:** *(Dim terfyn geiriau)*

Y weledigaeth lefel uchel ar gyfer Awdurdod Lleol Ynys Môn yw sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar effeithiol i oedolion a phlant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd, sy'n preswylio o fewn ein cymunedau.

Mae'r ethos cyffredinol y tu ôl i'n gweledigaeth wedi'i wreiddio yn y dyhead o atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, a darparu ymateb a gwasanaethau sy'n sy'n gallu rhoi cymorth ac sy'n sensitif i rai sydd wedi dioddef trawma.

Mewn trafodaethau diweddar â'n cymunedau, ein staff a'n haelodau etholedig, nodwyd y blaenoriaethau a ganlyn:

- Creu'r amodau i bawb iddynt gyflawni eu potensial hirdymor
- Rhoi cymorth i oedolion a theuluoedd sy'n agored i niwed i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol ag y bo modd
- Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol.

Mewn blynyddoedd diweddar, rydym wedi sylwi, ar adegau, bod strwythurau cyllid grant Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglenni yn cyfyngu'r modd yr hoffent ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl, plant a theuluoedd sy'n agored i niwed. Rydym felly'n croesawu'r symudiad tuag at ragor o hyblygrwydd, er mwyn i ni wneud y gorau o botensial y cyllid sydd ar gael, i'n galluogi i fynd ati, mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid allweddol a'n preswylwyr, i gynllunio gwell gwasanaethau a'u darparu i ddiwallu anghenion pobl yn ein cymunedau.

Mae'r galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn newid ac yn tyfu yng Nghymru, gydag achosion cynyddol o gam-drin domestig yn cael eu hadrodd, ynghyd â phobl hŷn gyda phroblemau o ran sylweddau a/neu alcohol, a phlant, pobl ifanc ac oedolion sydd angen cymorth ar gyfer anghenion iechyd meddwl, sydd â phroblemau llawer mwy cymhleth (e.e. oherwydd camddefnyddio sylweddau a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs)). Mae'r newidiadau hyn yn digwydd ar adeg o bwysau sylweddol o ran y gyllideb, ynghyd â datblygiadau o ran polisi a deddfwriaeth sy'n effeithio'r system wasanaethau ar gyfer y rheiny a effeithir gan gam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau ac alcohol ac iechyd meddwl gwael.

Mae meithrin gwydnwch ymhlith y cohort hwn sydd fwyaf agored i gyfleoedd bywyd gwael, a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau sy'n costio llawer, yn flaenoriaethau allweddol yng Nghynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn 2018i. Yn y cyd-destun hwn, mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn yn awyddus i asesu sut y mae'r system/llwybrau gwasanaeth presennol yn gweithredu, ar

draws y sbectrwm anghenion, ar gyfer unigolion a theuluoedd a effeithir gan gam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau a/neu alcohol a phroblemau iechyd meddwl; ynghyd â chanfod meysydd ar gyfer gwella llywodraethiant a chynllunio/comisiynu strategol.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu mewn amgylchedd sy'n newid yn gyflym, gyda ffactorau tynnu a gwthio yn effeithio'r ddarpariaeth o gymorth o ansawdd dda, sy'n seiliedig ar ganlyniadau, ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau/alcohol a cham-drin domestig. Ar yr un pryd, mae'r galw ar wasanaethau'n cynyddu'n gyflym, yn enwedig o ganlyniad i broblemau iechyd meddwl, cam-drin domestig a chymhlethdod anghenion. Nodir rhagor o fanylion isod o ran Ffigur 1 (ac ym mhenodau 2-4).

**Cyni yn wyneb heneiddio a lefelau cynyddol o angen**

Mae ADSS Cymru yn adrodd bod cynnydd o 0.7% yng nghyllidebau Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru mewn termau real ers 2008/09, tra bo cyllidebau'r Cyngor fel arall wedi gweld gostyngiad o 14.1% dros y cyfnod hwnnw. Er y warchodaeth hon ar gyfer cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol, nid yw'r cynnydd yn ddigon i gwrdd â'r gofynion cynyddol o ran gofal cymdeithasol, a lle bo'r lefel hon o warchodaeth yn anghynaliadwy o ganlyniad i'r mesurau cyni. Bydd y pwysau ar ofal cymdeithasol i oedolion yn unig yn cynyddu 4.1% y flwyddyn mewn termau real rhwng 2015 a 2030-31, o ganlyniad i ddemograffi, cyflyrau cronig a chostau cynyddol. Mae'r ADSS yn nodi effeithiau mawr yn sgil cyni fel a ganlyn:

• Mae awdurdodau lleol a phartneriaid eraill (e.e. Byrddau Iechyd) yn defnyddio meini prawf mwyfwy cyfyngol i bennu cymhwysedd am wasanaethau, y mae'r ADSS yn cydnabod sy'n effeithio ar iechyd a lles pobl (ac sydd mewn perygl o greu costau uwch ymhellach ymlaen, fel y mae problemau pobl yn dwysáu yn absenoldeb eu canfod a rhoi cymorth yn gynnar). Drwy'r ymchwil hon, atgyfnerthwyd hyn gyda mwy na 75% o gyfweledigion yn adrodd pryderon ynghylch mynediad i gymorth ar gyfer 'iechyd meddwl' (gweler Pennod Pump). O ran iechyd meddwl, nodwch mai diffiniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016a) a ddefnyddir drwy'r adroddiad, h.y. mae'r rheiny â phroblemau iechyd meddwl yn profi ymyraethau â'u gallu i wneud pethau pob dydd, ac mae salwch meddwl yn disgrifio problemau iechyd meddwl difrifol a pharhaol sydd, o reidrwydd, yn gorfod cael eu trin gan wasanaethau iechyd meddwl arbenigol.

• Nid yw darparwyr gofal yn gallu cwrdd â chynnydd mewn costau'n ddiderfyn (nac ychwaith drwy groes-gymhorthdal gan rai sy'n ariannu eu hunain), ac oni cheir datrysiad mwy strategol a chynaliadwy, bydd canlyniadau sylweddol ar draws y farchnad ofal cymdeithasol.

• Os yw gwasanaethau'n gorfod cynyddu'n barhaus yn nhermau niferoedd a chymhlethdod, bydd ansawdd yn dirywio onid oes mesurau ataliol effeithiol ar waith.

Mae newidiadau demograffig yn golygu bod y boblogaeth yn heneiddio'n gyflym, gyda ADSS yn adrodd, yn sgil y ffaith fod mwy o bobl yn byw ar eu pennau eu hunain (44% o bobl 65+ oed 2017 yn codi i 51% yn 2035), y bydd mwy o angen am ofal a chymorth gan yr awdurdod lleol, gyda phobl hŷn yn arbennig o agored i deimlo'n

unig ac yn ynysig. Mae Ynys Môn yn disgwyl cynnydd o 35% yn nifer y bobl 65+ oed erbyn 2039ii (17,000-23,000).
Ar yr un pryd, ceir niferoedd cynyddol o blant sy'n derbyn gofal (LAC) a phlant sydd angen ymyrraeth statudol. Ym Môn, o ran y sefyllfa ar 25 Ionawr 2019, rhestrir 156 o blant LAC (cynnydd o 73% o gymharu â 2015) ac 88 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (CAP). Mae gan y cohort hwn anghenion llawer mwy cymhleth (gweler Atodiad Tri) ac mae'r twf o ran y boblogaeth LAC yn achosi twf yn y dyfodol yn nifer y rheiny sy'n gadael gofal, y mae gan yr awdurdod lleol ac awdurdodau perthnasol eraill, gan gynnwys BIPBC, gyfrifoldeb statudol parhaus i roi cymorth iddynt hyd at eu bod yn 25 oed.

**Newidiadau i'r system lles yn creu tlodi ac yn gwneud unigolion yn fwy agored i fod yn ddigartref**

Mae'r cynnydd mewn tlodi o ganlyniad i newidiadau Llywodraeth y DU i'r system lles yn cael ei adlewyrchu yn yr angen i sefydlu banciau bwyd ym Môn, a arweinir gan y gymuned, ers 2013. Darparwyd cyflenwad brys o 1,256 o becynnau bwyd i bara tri diwrnod yn 2018, ac mae niferoedd cynyddol o aelwydydd mewn perygl o fod yn ddigartref fel y maent yn cael trafferth rheoli taliadau rhent ac yn gwneud ceisiadau i fynd ar y gofrestr tai cymdeithasol. Erbyn 2020, bydd gan fwy na 90% o aelwydydd Ynys Môn sydd o oed gweithio, sy'n derbyn incwm budd-daliadau, lai o incwm gwario o ganlyniad i newidiadau i'r system lles.
Mae effeithiau cyfunol diwygiadau mawr a weithredwyd cyn 2017, sef y tâl tanfeddiannu (y 'dreth ystafell wely' fel y'i gelwir yn gyffredinol), lleoleiddio cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor, a'r diffyg Lwfans Tai Lleol a'r ddau gap budd-daliadau, yn arwain at golled incwm enwol o ychydig dros £23 yr wythnos ar gyfer bob aelwyd o oedran gweithio. Ymhlith y rheiny a effeithir waethaf gan y newidiadau yn y system lles y mae:

• Teuluoedd â phlant. Erbyn 2020, bydd gan 84% o aelwydydd o oedran gweithio a fydd yn colli dros £50 yr wythnos blant, naill ai fel unig rieni neu gyplau.

• Rhai 18 i 21 oed.

• Pobl hŷn a phobl anabl. Gwaethygir hyn gan y stoc gyfyngedig o eiddo un a dwy ystafell wely yn sector tai cymdeithasol Ynys Môn. Tra bydd y cynllun 30 mlynedd yn cynyddu'r stoc o dai cymdeithasol (e.e. ychwanegir 60 eiddo i'r sector tai cymdeithasol yn 2019/20), mae'r galw'n fwy na'r cyflenwad sydd ar gael, ac felly mae gwaith gyda landlordiaid preifat yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r gofynion. Mae gwaith ardderchog yn cael ei wneud yn lleol fel hynny gan The Wallich sy'n effeithiol o ran ymgysylltu â landlordiaid preifat, ond gall fod angen gwneud gwaith pellach i archwilio cyfleoedd i landlordiaid preifat letya tenantiaid cymdeithasol. Bydd yr her hon yn fwy pe bai datblygiad Wylfa Newydd yn mynd yn ei flaen (sydd wedi dod yn fwy ansicr yn ystod y mis diwethaf), o ystyried yr effaith ar renti, e.e. yn ardal Hinkley Point, adroddwyd fod rhenti wedi treblu.
;r
• Gyda rhoi Credyd Cynhwysol (CC) ar waith, mae'r effaith ar aelwydydd sy'n gweithio, ynghyd ag unig rieni a chyplau heb blant, yn anghymesur.

Ar draws yr holl gohortau hyn, mae llawer mwy o bobl wedi'u heffeithio gan iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac alcohol a cham-drin domestig, ac mae'r effaith yn llawer gwaeth. Er enghraifft, gall olygu bod priod yn gorfod aros mewn aelwyd camdriniol oherwydd pryderon am arian a llety. Yn yr un modd, o ran llawer sydd ag anghenion o ran iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ac alcohol, mae eu bywydau yn llawer mwy caotig, ac o ganlyniad, mae pobl yn fwy tebygol o fethu apwyntiadau sy'n arwain at golli incwm, mae hysbysiadau am ddyledion rent yn cael eu gadael heb eu hagor, a'r gallu i ddiogelu a chynnal cyflogaeth yn llawer llai. Mae defnyddwyr cyffuriau, er enghraifft, yn fwy tebygol o gysgu allan a pheidio â defnyddio llochesau nos brys yng Ngogledd Cymru.

O ran cyfrifoldebau a chomisiynu cymorth i'r rheiny sydd ag anghenion o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau ac alcohol, gwneir hynny ar lefel ranbarthol, ac mae symudiad pellach o ran darparu rhagor o gymorth ar lefel ranbarthol ym maes cam-drin domestig hefyd.

O ran iechyd meddwl, mae gan y Bwrdd Partneriaeth Iechyd Meddwl rhanbarthol gyfrifoldeb strategol dros Strategaeth Iechyd Meddwl Gogledd Cymru ac mae'n cydlynu mentrau sy'n gofyn am waith cysylltiedig ar draws Gogledd Cymru, neu sy'n ffurfio rhan o fentrau ar lefel Cymru gyfan, tra bo gan Dimau Gweithredu Lleol (TGLl) gyfrifoldeb arweiniol dros weithredu Strategaeth Iechyd Meddwl Gogledd Cymru yn eu hardal hwy (y gorllewin, y canol a'r dwyrain). Gallant gronni eu hadnoddau a'u cyfrifoldebau ar draws ardaloedd ehangach drwy gytundeb lleol. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol hefyd yn comisiynu gwasanaethau iechyd meddwl. Ceir clytwaith mwy cymhleth o gyrff sy'n ymwneud â chomisiynu a darparu ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion iechyd meddwl na'r trefniadau rhanbarthol ac isranbarthol hyn. Gweler Pennod Pump.

Ym maes camddefnyddio sylweddau ac alcohol, ac eithrio'r gwasanaeth integredig cymorth i deuluoedd (IFSS, gofyniad Rhan 9 o'r DGCaLl) a gwasanaethau Cefnogi Pobl (drwy'r Grant Cymorth Tai), mae gwasanaethau craidd haen 1-4, o ran camddefnyddio sylweddau ac alcohol, yn gyfrifoldebau i'r Bwrdd Cynllunio Lleol, BIPBC a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi (HMPPS). Mae gan y Bwrdd Cynllunio Lleol strwythurau cynllunio a chomisiynu rhanbarthol, yn ogystal ag isranbarthol (y gorllewin, y canol a'r dwyrain). Gweler Pennod Dau.

Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn grymuso Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd i gomisiynu cymorth i ddioddefwyr (a thystion ac eraill) a effeithir gan droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, ochr yn ochr â'r corff rhanbarthol ar gyfer trais yn erbyn merched a genethod (VAWG), yn gyfrifol am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau cymorth ar gyfer y rheiny a effeithir gan gam-drin domestig, treisio a cham-drin rhywiol, er nad yw camau tuag at wasanaeth rhanbarthol sengl, neu'n seiliedig ar gonsortia, wedi digwydd eto ar gyfer cam-drin domestig.

Mae gwasanaethau statudol eraill yn rhoi cymorth i bobl a effeithir gan gam-drin domestig fel rhan o'u cyfrifoldebau, e.e. asesu a chynllunio gofal a chymorth gan yr awdurdod lleol a phartneriaid, mynychu digwyddiad gan y gwasanaethau brys, cymorth yn yr ysbyty gan y GIG ac ati. O fewn Cefnogi Pobl, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, ceir gofynion yn y rhaglenni o ran comisiynu cymorth i'r rheiny a effeithir gan gam-drin domestig, yn seiliedig ar anghenion lleol.

## Adran 4 - Dulliau Gweithredu Newydd

**Un amcan hanfodol i'r gwaith o gyfuno'r rhaglenni hyn yn un grant yw galluogi awdurdodau lleol i ymateb â dulliau arloesol o wella'r broses o gyflenwi gwasanaethau.**

**Canlyniadau gwell:**
**Dangoswch sut rydych yn bwriadu defnyddio'r elfennau hyblyg i yrru dulliau arloesol o weithio er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i bobl. Dangoswch:**

- **pa ddulliau gweithredu sy'n newydd ac yn cael eu profi**
- **pa ddulliau gweithredu a ddatblygwyd eisoes a**
- **sut mae'r dysgu yn cael ei drosglwyddo,**

**Llwyddo i wneud arbedion effeithlonrwydd o ran gweinyddu:**
**Dangoswch eich dull gweithredu o leihau'r gefnogaeth weinyddol sydd ei hangen ar gyfer y rhaglenni grant hyn gan gynnwys yr hyn rydych yn ei wneud i sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy brosesau comisiynu gwell (lle bo'n berthnasol)**

**<u>Ymateb:</u>** *(Dim terfyn geiriau)*

- **Rhoi ymagweddau newydd ar brawf**
- Comisiynwyd gwaith i fapio gwasanaethau a bylchau mewn perthynas â gwybodaeth ystadegol bod unigolion a theuluoedd yn agored i drais domestig, camddefnyddio alcohol a chyffuriau ac anawsterau iechyd meddwl pan fyddant yn cael eu hatgyfeirio at amryw raglenni ac asiantaethau.
- Bydd yr adroddiad hwn yn mynd i'r afael â sut y mae unigolion a theuluoedd yn cael eu cefnogi i gael mynediad i gymorth yn gynnar, pa strwythurau staffio sydd angen bod ar waith ar draws asiantaethau i gynorthwyo hyn, ynghyd â chyfyngiadau ariannol a blaenoriaethau a nodwyd i lefel strategol, yn enwedig o ran y BGC.
- Ar draws yr ynys, mae'r Cyngor yn ymgymryd ag ymagweddau cymunedol newydd tuag at yr agenda ataliol, drwy ddefnyddio lleoliadau cymunedol/ysgolion, creu hybiau cymunedol, cydleoli staff strategol, cyflogi cydlynwyr asedau cymunedol ar y cyd â'r Trydydd Sector.

- **Datblygiadau**
  Rhianta: alinio rhaglenni fel cyrsiau rhianta, a chyd-ddarparu lle'n bosibl.
  Strategaeth Hyfforddiant: hyfforddi staff i ddarparu'r un cyrsiau, siarad yn yr un modd gyda chleientiaid, e.e. roedd holl staff y Gwasanaethau Cymdeithasol a Dechrau'n Deg wedi cwblhau cwrs Adeiladu Teuluoedd Cryfach yn 2018.
- Mapio darpariaeth ar draws ystod o wasanaethau, nid yn unig y rhaglenni grantiau, ond yn strategol ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac ar y cyd â'r Trydydd Sector. Bydd hyn yn caniatáu i ni fynd ati ymhellach i gynllunio ar gyfer gwasanaethau ar ôl 2020, a defnyddio'r flwyddyn drosiannol hon i

sicrhau bod y cynllun cyffredinol a'r gwasanaethau'n diwallu anghenion dinasyddion Ynys Môn yn y tymor canolig i'r tymor hir.

- **Sut mae'r dysgu'n cael ei drosglwyddo.**
- Yn strategol drwy'r Bwrdd Strategol a'r strwythur llywodraethu, i gynnwys adrannau'r Cyngor ond hefyd asiantaethau allanol, yn enwedig Iechyd a'r Heddlu. Mae'r Hyb Ace (prosiect Camau Cynnar Gyda'n Gilydd) ym Môn eisoes yn arwain y ffordd yn y modd newydd hwn o alinio gwasanaethau a darparu ar gyfer ymyrraeth gynnar, sydd wedi'i thargedu.
- Diwrnodau gwybodaeth i staff: yn 2019, bydd gennym sawl digwyddiad i staff er mwyn ymgynghori a datblygu gwasanaethau gyda hwy, gan sicrhau bod rhai sy'n darparu gwasanaethau i unigolion a theuluoedd yn siapio'r gwasanaethau ar draws eu cymunedau.
- Diwrnodau gwybodaeth i gymunedau: yn 2019, bydd gennym ddigwyddiadau i ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau bod cymunedau'n ymwybodol o'u hasedau lleol/yn datblygu gwydnwch cymunedau, ac yn gweithio gyda'r trydydd sector.

Cwblhawyd gwerthusiad yn ddiweddar o wasanaethau a gomisiynwyd ym meysydd trais domestig, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl, a chynhaliwyd cyfarfod ar y 4ydd o Fawrth i drafod y canfyddiadau. O'r cyfarfod hwn, cytunwyd ar raglen waith gan y rheolwyr sy'n gyfrifol am y rhaglenni a ariannir gan grantiau ar draws y grantiau plant a chymunedau a chymorth tai.

Er yr ystyriwyd gostyngiad yn y cymorth gweinyddol, ni wnaed unrhyw gynlluniau i leihau nifer y staff gweinyddol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Bydd rolau staff gweinyddol i'r dyfodol yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn, a gall arwain at ostyngiad cyffredinol yn y staff sy'n monitro'r grant plant a chymunedau, neu newid mewn rolau o fewn datblygiadau newydd o fewn gwasanaethau. Mae'n bwysig nodi ei bod yn bosib y gallai'r cynnydd o ran gofynion adrodd ein harwain i ddod i'r casgliad y byddai'r cymorth gweinyddol yn parhau ar y lefel bresennol, gan fod adolygiad presennol yn dangos nad yw'r cymorth yn ormodol.

## Adran 5 – Ymgysylltu â'r Gymuned

**Sut yr ydych wedi a byddwch chi'n ymglymu ac ymgysylltu â chymunedau lleol a'u cynnwys a defnyddio'u hymatebion i lywio eich gweledigaeth hirdymor a'ch cynllun cyflawni?**

**Ymateb:** *(Hyd at 500 gair)*

Mae strategaeth yr Awdurdod Lleol ar gyfer ymgysylltu â'n cymunedau yn amrywiol ac yn cynnwys yr Asesiad Anghenion Lleol, Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn, ac Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru ar lefel ranbarthol. Mae'r broses o ymgynghori cyhoeddus wrth lunio'r dogfennau hyn yn sylweddol,

gyda chynnal cyfarfodydd cyhoeddus ac ymgynghori ar-lein ar draws cymunedau. Defnyddir yr holl ddogfennau hyn fel pwynt cyfeirio ar gyfer y weledigaeth hirdymor, gan eu bod yn nodi'r materion sy'n bwysig i gymunedau lleol ac yn dangos yn lle mae angen canolbwyntio adnoddau.

Mae gwasanaethau wedi ymgysylltu â chymunedau yn y meysydd a ganlyn hefyd:

a. ACE'au. Trwy'r rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, dangosir ffilm i gymunedau o'r enw 'The Biology of Stress and the Science of Hope'. Bydd hyn yn rhoi cyflwyniad i gymunedau i ACE'au a sut y gallwn ymateb fel asiantaethau, teuluoedd unigolion a chymunedau i'r profiadau niweidiol hynny yn ystod plentyndod. Defnyddir ymateb y gynulleidfa i ffurfio ein cynlluniau i'r dyfodol o ran rhannu'r neges hon.
b. Bydd cymunedau'n chwarae rhan mewn datblygu cynllun lleol i fynd i'r afael â gordewdra mewn plant. Arweinir y rhaglen gan yr Awdurdod Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.
c. Darperir cyfle i deuluoedd werthuso'r gwasanaethau a dderbyniwyd ganddynt gan bob gwasanaeth ataliol. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i gymunedau rannu eu syniadau o ran sut y gellid gwella ein gwasanaethau, beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella.

Ar lefel fwy lleol, bu'r Awdurdod yn ddiweddar yn gweithio mewn partneriaeth gyda Medrwn Môn a Chynghorau Cymuned ar draws nifer o wardiau ym Môn i ddarparu Rhaglen Llunio Lle. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus ac ymgymerwyd â phroses o ymgysylltu â chymunedau lleol i nodi blaenoriaethau ar gyfer cymunedau lleol a bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth, a fydd yn y diwedd yn arwain at gymunedau'n comisiynu eu darpariaeth eu hunain. Gallai'r gwaith parhaus a chanlyniadau'r ymgynghori ddarparu ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol o ran llunio cynlluniau darparu ar gyfer y dyfodol.

O ran rhai o'r rhaglenni allweddol o dan y Grant Plant a Chymunedau, mae cymunedau eisoes yn chwarae rhan sylweddol mewn dylanwadu ar ddarpariaeth. Darperir Cymunedau am Waith a Mwy mewn lleoliadau yn y gymuned, a defnyddir adborth gan gleientiaid i deilwra'r gwasanaeth i fod yn addas i anghenion unigol.

Yn 2019/20, gofynnir i ddefnyddwyr gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cymunedau am Waith a Mwy am eu hadborth ar ddarpariaeth gwasanaeth ac anghenion i'r dyfodol. Bydd uno'r cyllid yn arwain at newidiadau o ran sut y darperir gwasanaethau wrth fynd ymlaen, ond mae'n hanfodol eu bod yn briodol ar gyfer anghenion.

O ran y grant Teuluoedd yn Gyntaf, ymgynghorir â'r holl deuluoedd sy'n derbyn y gwasanaethau drwy holiadur sy'n mesur eu barnau ar ansawdd yr ymyrraeth a gofyn beth allwn ni ei wneud yn well? Bu'r cyngor yn cydweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a'r rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod o fewn asiantaethau ac yn y gymuned. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni werthuso ein hymateb i rai sy'n agored i niwed fel yr ydym yn ceisio darparu gwasanaethau mewn modd lle'r ydym yn

ymwybodol o ACE's ac yn sensitif i anghenion rhai sydd wedi dioddef trawma. Mae Teulu Môn (gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth Ynys Môn) yn parhau i fynychu digwyddiadau fel diwrnodau hwyl, nosweithiau rhieni a dyddiau agored, sy'n gyfle i ni ymgynghori gyda theuluoedd am y gwasanaethau a dderbynnir ganddynt neu y dymunent iddynt gael eu datblygu.

O fewn rhaglen Dechrau'n Deg, mae rhieni'n gwerthuso elfennau'r rhaglen yn barhaus, e.e. ar ôl bob cwrs a'r diwrnodau a gynhelir i deuluoedd, a dangosir sut y mae'r rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu teuluoedd. Gwerthusir yr adborth er mwyn gwella neu wneud newidiadau i'r modd y darperir y rhaglen. Bydd gofal plant yn cael ei werthuso drwy holiadur i rieni bob tymor, ac mae'r adborth yn llywio ac yn datblygu'r gwasanaeth. Mae'r adborth yn cael ei goladu a'i rannu gyda rhieni, ac yn cael ei ddefnyddio fel cyhoeddusrwydd da i annog rhieni i wneud defnydd o'r elfen ofal plant.

Bydd datblygu swyddi dau gydlynydd asedau lleol ar gyfer y gwasanaethau plant yn darparu cyswllt gwell ar ein cyfer gyda grwpiau cymunedol, y sector gwirfoddol a chynghorau cymuned. Bydd hyn yn fodd o gynyddu capasiti er mwyn i ni allu ymgynghori'n barhaus â chymunedau Ynys Môn ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael a'r rheiny y mae angen eu datblygu.

Mae gan y cyngor fforwm cymunedol a gwirfoddol sydd wedi'i hen sefydlu, sy'n cyfarfod bob tri mis. Mae'r fforwm hwn yn gwahodd cynghorau cymuned a grwpiau gwirfoddol i drafod ac ymgynghori ynghylch datblygiad gwasanaethau ar draws yr ynys ar gyfer oedolion a phlant.

Mae gan y cyngor system sefydledig ar gyfer coladu cwynion a chanmoliaeth er mwyn datblygu gwasanaethau ar draws yr awdurdod, ynghyd â chanfod bylchau a phroblemau o fewn ein cymunedau.

## Adran 6 – Gweithio mewn Partneriaeth

**Dangoswch sut mae'r modd rydych yn defnyddio'r grant yn cyd-fynd ag amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac amcanion partneriaid allweddol eraill a sut y mae tystiolaeth o'r cynlluniau llesiant a'r asesiadau o anghenion wedi cael ei hymgorffori. Mae'n bwysig dangos nad yw'r grant hwn yn cymryd lle rhywbeth a ddylai fod yn digwydd eisoes, ond yn hytrach ei fod yn darparu cymorth ychwanegol i'r rhai mwyaf difreintiedig.**

**Ymateb:** *(Hyd at 500 gair)*

Mae'r BGC yn fwrdd ar y cyd â Gwynedd. Ymgymerwyd ag Asesiad Llesiant yn 2015, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Ymgymerwyd ag asesiad anghenion cynhwysfawr, a ystyriwyd fel rhan o ddatblygiad Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 – 2022.

Mae'r defnydd o'r holl grantiau'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor a Chynllun Llesiant 2015 y BGC, fel a ganlyn:

- Creu'r amodau i bawb gyflawni eu potensial hirdymor.
- Cefnogi oedolion a theuluoedd sy'n agored i niwed er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl.
- Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol.

Y nod cyffredinol yw "gweithio tuag at Ynys Môn fydd yn iach, yn ffynnu ac yn llewyrchus". Mae'r defnydd o'r Gymraeg wedi'i nodi hefyd fel ffactor allweddol ar gyfer preswylwyr Ynys Môn, a'n nod yw hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gyflawni'r cynnig yn weithredol ar draws y rhaglen gyfan, gan gyflogi staff sy'n siarad Cymraeg i ddarparu ein gwasanaethau'n ddwyieithog.

Nodwyd themâu tebyg yng Nghynllun y BGC:

Roedd negeseuon allweddol yr asesiad fel a ganlyn:
1. Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach
2. Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol
3. Deall effaith newidiadau demograffig
4. Gwarchod a hybu'r Iaith Gymraeg
5. Hybu'r defnydd o adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn y tymor hir
6. Gwella cysylltiadau cludiant i alluogi mynediad i wasanaethau a chyfleusterau
7. Yr angen am swyddi o ansawdd dda a chartrefi fforddiadwy i bobl leol
8. Effaith tlodi ar lesiant
9. Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo

Mae gan y BGC 6 blaenoriaeth allweddol sef tlodi, yr iaith Gymraeg, newid hinsawdd, cartrefi i bobl leol, ac iechyd a gofal ar gyfer pobl ifanc a phobl hŷn. Ein nod fydd cysoni'r gwaith a ymgymerir ar draws y blaenoriaethau hyn, gan ganolbwyntio ar lefel leol a sut y mae'r rhaglenni'n cyfrannu ar draws y sir.

Bydd pob un o'r rhaglenni grant yn nodi sut, a beth sy'n cyfrannu at y canlyniadau yng nghynlluniau'r Cyngor / BGC. Cytunir y rhain gan y Pwyllgor Gwaith yn Ebrill 2019 a bydd cynnydd yn cael ei fonitro'n chwarterol.

## Adran 7 - Ymglymiad Trydydd Sector

**Disgrifiwch sut mae'r cynllun cyffredinol hwn yn cynnwys a chefnogi'r trydydd sector o fewn yr awdurdod lleol.**

**Ymateb:** *(Hyd at 500 gair)*

Bydd y Grŵp Strategol o fewn ein strwythur Llywodraethu yn ymgorffori cynrychiolydd o'r Trydydd Sector.

Ar draws y rhaglenni gwaith gofal plant a Dechrau'n Deg, rydym yn gweithio ar hyn o bryd â sefydliadau ymbarél gofal plant i gynorthwyo ein dyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Gofal Plant 2006 a'r rhaglen gofal plant 30 awr. Mae'r rhaglenni'n cyfrannu hefyd at yr agenda waith ar Ynys Môn.

Mae'r Awdurdod Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gweithio ar y cyd â'r Awdurdod ar draws ystodau oedran a gwasanaethau eang sydd â'r nod o atal, cefnogi a herio dulliau darparu gwasanaeth sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae awydd i gyd-ddarparu a chynllunio gwasanaethau ar draws y rhaglenni ac yn ehangach ym Môn, ac mae hwn yn faes ar gyfer datblygu parhaus.

Darperir Cymunedau am Waith a Mwy a'r Cyllid Gwaddol drwy Cymunedau Ymlaen Môn (Môn CF) sy'n Gwmni Cyfyngedig drwy Warant, ac mae 100% o'r cyllid yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol iddynt hwy. Mae Môn CF yn sefydliad darparu allweddol i'r Awdurdod Lleol ar gyfer nifer o brosiectau sy'n rhoi cymorth ar gyfer cyflogaeth, ac mae'n sefydliad trydydd sector pwysig.

Mae cyllid y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn comisiynu gwasanaethau gan Gorwel, sy'n rhoi cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig, ynghyd â Gweithredu Dros Blant sy'n rhoi cymorth i blant ym maes lles emosiynol. Ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn datblygu swyddi dau gydlynydd asedau lleol a fydd yn gweithio gyda theuluoedd, yn sicrhau eu bod yn cael mynediad i wasanaethau ataliol ar draws yr ynys.

## Adran 8 - Cydraddoldebau

**Amlinellwch sut yr ydych yn sicrhau bod y cynllun yn canolbwyntio ar sicrhau mynediad cydradd at wasanaethau i bawb, gan gynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau penodol o bobl. Byddwch cystal ag amgáu copi o'ch Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'ch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, os ydych wedi'u llunio. Os nad ydych wedi'u llunio, byddwch cystal ag amgáu manylion y gwaith o'u datblygu.**

**Ymateb**: *(Hyd at 500 gair)*

Gan fod hon yn flwyddyn drosiannol gydag ychydig iawn o newidiadau i'r ddarpariaeth, bwriadwn gwblhau AEG ac AEHP erbyn Rhagfyr 2019, pryd y byddwn mewn sefyllfa well i benderfynu pa fath o wasanaethau a rhaglenni a fydd yn cael eu darparu ar draws y Cyngor ac yn allanol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grant Plant a Chymunedau sy'n dwyn ynghyd Gofal Plant a Chwarae, Cronfa Waddol Cymunedau yn Gyntaf, Cymunedau am Waith a Mwy, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc sydd mewn Perygl o Droseddu a Chronfa Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r grantiau hyn yn cynnwys canolbwyntio ar roi cymorth i blant, pobl ifanc, rhieni, teuluoedd ac

oedolion sydd mewn mwy o berygl o gael canlyniadau gwael, a gan ein bod mewn blwyddyn o newid, y buddiolwyr arfaethedig yw'r rheiny sy'n dod o dan y rhaglenni presennol, e.e. Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc sydd mewn Perygl o Droseddu ac ati.

Byddwn yn cyflenwi'r grant hwn drwy gorff llywodraethu newydd sy'n dwyn ynghyd gwasanaethau allweddol o ar draws yr awdurdod lleol a chanddynt gyfrifoldeb dros roi cymorth i blant, pobl ifanc, rhieni, teuluoedd ac oedolion sydd mewn mwy o berygl o ganlyniadau gwael. Trwy'r grŵp hwn, rydym yn sefydlu mesurau llwyddiant allweddol fel tystiolaeth o effaith ein hymagwedd tuag at ymyrraeth gynnar a mesurau ataliol.

Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ymgysylltu gyda phobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cymerwyd y camau a ganlyn gennym i ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn cyflawni'r nod hwn.

Mae'r gweithgareddau ymgynghori'n cynnwys:

(a) gweithgareddau fel rhan o ddatblygu Cynllun Gweithredu Digartrefedd Ynys Môn (a gytunwyd gan y Cabinet)

(b) Gwaith gyda gofalwyr ifanc a'u teuluoedd fel rhan o ail-ddylunio'r Gwasanaeth i Ofalwyr Ifanc yn Awst 2018.

(c) gweithgareddau ymgynghori gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2018.

(d) adborth gan blant, pobl ifanc, rhieni, teuluoedd ac oedolion a gipiwyd mewn modd dynamig gan staff a thrwy fonitro gwasanaethau, e.e. adolygu adborth gan rieni sy'n mynychu rhaglenni rhianta Dechrau'n Deg, monitro adroddiadau gan wasanaethau a gomisiynwyd gan Teuluoedd yn Gyntaf, gan Gorwel a Gweithredu Dros Blant, cyfarfodydd panel Ad-Trac ac ati.

(e) adolygiad annibynnol gyda theuluoedd a gefnogwyd gan IFSS a TAF yn 2018

(f) gwaith cynllunio a wnaed drwy ein corff llywodraethu newydd sy'n dwyn ynghyd gwasanaethau allweddol ym Môn i ddatblygu a gweithredu strategaeth atal y cyngor (sy'n cynnwys y Grant Plant a Chymunedau).

Y negeseuon allweddol o'n gwaith ymgynghori yw bod angen i ni symleiddio prosesau mynediad i wasanaethau, gan sicrhau bod gwasanaethau'n fwy hygyrch o fewn cymunedau lleol a'n bod yn gwneud mwy i ymyrryd yn gynt, yn enwedig yn achos bod gan bobl anghenion iechyd meddwl.

Mae gennym dystiolaeth foddhaol a dyna pam yr ydym yn cymryd ymagwedd bwyllog yn ystod 2019/20 er mwyn adolygu, a chynllunio ar gyfer 2020/21. Tystiolaeth allweddol yw:

- Data ynghylch gweithgareddau a chanlyniadau gan ein rhaglenni, yn ogystal â data ar y galw am Wasanaethau Plant, Gwasanaethau Oedolion, Ad-Trac a Chyfiawnder Ieuenctid.

- StatsCymru sy'n darparu proffiliau o anghenion plant a theuluoedd sy'n cyflwyno i wasanaethau plant statudol, ynghyd â gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion a phlant a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

- Ymgymerwyd ag adolygiad gennym o'r holl ddarpariaeth iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac alcohol a cham-drin domestig o fewn Ynys Môn a fu'n adrodd yn Chwefror 2019. Mae hyn yn dod ag ystod o ffynonellau data ynghyd sy'n berthnasol i'r anghenion hyn, ac maent yn helpu i fapio darpariaeth gwasanaeth ar gyfer plant, teuluoedd ac oedolion sydd ag anghenion ar draws holl sbectrwm iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac alcohol a cham-drin domestig.

- Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru 2017

Fel y nodwyd yn y polisi, hyrwyddir cyfle cyfartal drwy sicrhau darpariaeth sy'n berthnasol ar gyfer grwpiau a chymunedau gwarchodedig yn benodol, e.e. plant, pobl ifanc, rhai sy'n gadael gofal, pobl ag anableddau, oedolion sydd allan o waith a rhieni sydd ag ystod o anghenion. Mae hyn yn cynnwys parodrwydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth pwrpasol a gynigir mewn modd sy'n berthnasol i ofynion yr unigolyn, e.e. y cynnig dwyieithog, cyfleoedd ac addasiadau penodol i sut y cynigir gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl anabl, darparu gwasanaethau yng nghartrefi pobl neu mewn lleoliadau yn y gymuned.

Mae gwahaniaethu o ganlyniad i anabledd yn digwydd pan fo'r unigolyn yn cael ei drin mewn modd anffafriol oherwydd rhywbeth sy'n gysylltiedig â'i anabledd ac na ellir ei gyfiawnhau. Mae gwahaniaethu anuniongyrchol ar sail anabledd yn digwydd pan fo rheol, polisi neu hyd yn oed ymarfer sy'n berthnasol i bawb, ond sy'n creu anfanteision i bobl sydd ag anabledd penodol yn arbennig, o gymharu â phobl nad oes ganddynt yr anabledd hwnnw, ac na ellir dangos y gellir cyfiawnhau hynny o ran mai'r bwriad yw cyflawni amcan dilys mewn modd teg, cytbwys a rhesymol. O ran y ddarpariaeth o ofal plant drwy Dechrau'n Deg ac elfennau Gofal Plant a Chwarae y Grant Plant a Chymunedau, nid ydym yn derbyn y gwahaniaethu hwn, ac felly rydym yn hytrach wedi cynyddu'r cymarebau staff i blant fel bod plant yn cael eu cynnwys yn fwy ac nid yn llai.

Mae Cymunedau Dros Waith a Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar wella canlyniadau ar gyfer cymunedau sydd dan anfantais, ac felly drwy helpu i leihau anghydraddoldebau, maent yn hybu cydlyniant cymunedol ar lefel ehangach. Mae'r un peth yn wir o ran y grantiau eraill sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n berthnasol i unigolion a theuluoedd.

Bydd y Polisi'n cael ei ddatblygu, ei fonitro a'i adolygu ymhellach fel rhan o swyddogaeth lywodraethu'r bwrdd.

**Asesiad o’r effaith ar hawliau plant**

**Cam 1. Beth yw’r darn o waith a’i amcan(ion)?**

Mae Grant Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru’n cwmpasu Dechrau’n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Gronfa Waddol, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, Cymunedau Dros Waith a Mwy a Gofal Plant a Chwarae.

Nod y gwaith hwn oedd dwyn ynghyd y grantiau i gryfhau gallu awdurdodau lleol a’u partneriaid i gyflenwi gwasanaethau ataliol sy’n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ar gyfer y rheiny sydd â’r anghenion mwyaf. Ar lefel Ynys Môn, ein nod yn 2019/20 yw adolygu a chynllunio ein cynnig o ran ymyrraeth gynnar, er mwyn iddo fod yn fwy effeithiol o ran meithrin gwydnwch a lles ymhlith y rheiny sydd â’r anghenion mwyaf.

**Cam 2. Dadansoddi’r effaith**

Gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi newid y meini prawf ar gyfer grantiau unigol, mae Cynllun Cyflawni Plant a Chymunedau 2019/20 yn cynnal y ddarpariaeth a gafwyd gennym. Ond yn 2019/20, byddir yn canolbwyntio ar adolygu a chynllunio ein cynnig o ran ymyrraeth gynnar fel ei fod yn fwy effeithiol yng nghyswllt meithrin gwydnwch a llesiant ymhlith y rheiny sydd â’r anghenion mwyaf, drwy arloesi o fewn gwasanaethau a’u gwneud yn fwy effeithlon yn 2020/21. Yr elfennau allweddol o’n gwasanaethau sy’n berthnasol i blant a phobl ifanc yw:

**1.** Dechrau’n Deg, sy’n rhoi cymorth i blant 0-4 oed, gan gynnwys mynediad i ofal plant o ansawdd dda, datblygiad iaith, gwasanaeth ymwelwyr iechyd dwys, rhianta ac elfen o allgymorth.

**2.** Teuluoedd yn Gyntaf, sy’n rhoi cymorth i rieni gyda phlant a darpariaeth benodol ar gyfer plant anabl, gofalwyr ifanc a phobl ifanc sydd ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl, sydd angen cymorth mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau/iechyd meddwl ac sydd angen cymorth i feithrin perthnasau iach.

**3.** Cronfa Dydd Gŵyl Dewi sy’n canolbwyntio ar rai sy’n gadael gofal.

**4.** Mae Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc yn rhoi cymorth i bobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu neu sydd yn troseddu, drwy ddarparu gweithgareddau llwyddiannus i’w difyrru.

**5.** Mae Cymunedau Dros Waith yn darparu cymorth i bobl ifanc sydd ag anghenion o ran cymorth i gael cyflogaeth, sy'n byw o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

**Cam 3. Sut y mae eich darn o waith yn rhoi cymorth ac yn hybu hawliau plant?**

Rhoddwyd ystyriaeth i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Bydd ein cynigion yn mynd ati'n gadarnhaol i gefnogi sawl un o erthyglau CCUHP. Mae'r rhain yn cynnwys:

Erthygl 1-6: Bydd y camau yn y cynllun yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Yn y pen draw, gallai oedolion a phlant yn y gymuned gael cyfleoedd bywyd llawer gwell a fydd yn golygu eu bod yn goroesi ac yn datblygu'n iachach.

Erthyglau 9-10, 18-21 a 25: Mae ein cynlluniau'n cefnogi hawliau plant sy'n dod i mewn i'r system ofal. Ein nod yw rhoi cymaint o gymorth ag y bo modd i blant aros o fewn eu teuluoedd, ond lle nad yw hyn yn bosibl, byddwn yn cadw plant yn ddiogel ac yn eu cynnwys yn yr holl waith cynllunio o ran eu hanghenion gofal a chymorth.

Erthyglau 12-13 Mae gan blant yr hawl i ddweud beth maent yn meddwl ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n eu heffeithio, ac i sicrhau bod eu barnau'n cael eu hystyried. Fel yr ydym yn ail-ddylunio gwasanaethau sy'n effeithio plant a phobl ifanc, byddant yn cael eu cynnwys yn sut y bydd hyn yn cael ei wneud.

Erthyglau 18, 27, 28 a 29 Trwy Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, byddwn yn rhoi cymorth i rieni fod yn rhieni effeithiol sy'n gallu diwallu anghenion corfforol a meddyliol eu plant, ynghyd â'u helpu i ddatblygu eu personoliaeth, eu talentau a'u galluoedd meddyliol a chorfforol. Ceir cymorth arall fel Cymunedau Dros Waith, sy'n helpu i oresgyn problemau rhieni o ran cyflogaeth.

Erthygl 19 (diogelu rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod) ac Erthyglau 33-37 a 39 (mathau eraill o gamdriniaeth, trais rhywiol, camfanteisio ac ati) - nid yw hyn yn agored i drafodaeth, a diogelu plant yw ein blaenoriaeth bennaf. Rydym hefyd yn helpu i addysgu plant am sut i reoli eu diogelwch eu hunain yn well drwy ein rhaglenni, fel Gweithiwr Perthnasau Iach Teuluoedd yn Gyntaf a'r Tîm o Amgylch y Teulu.

Erthygl 24 Mae Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar, o ran rhoi cymorth i rieni a gwella cyfleoedd bywyd plant drwy atal problemau yn hytrach na mynd i'r afael â hwy'n ddiweddarach.

Erthygl 30 Mae gan blant yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, ac rydym yn arbennig o falch bod ein holl ddarpariaeth yn ddwyieithog, ac yn ymrwymedig i sicrhau hynny.

Erthygl 31 Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau. Mae gennym ddarpariaeth a ariannir gan Teuluoedd yn Gyntaf i helpu plant anabl, ac mae darpariaeth Cronfa Dydd Gŵyl Dewi yn

helpu rhai sy'n gadael gofal gyda chyfleoedd i gael mynediad i ystod eang o weithgareddau.

## Adran 9: Llywodraethiant a Threfniadau Cyfathrebu

**Amlinellwch y trefniadau llywodraethiant a wnaed i sicrhau y cytunir ar / y cyflawnir y cynllun hwn ac i ddatblygu eich cynnig ynghylch eich agenda drawsnewid (fel a nodwyd yn y gwerthusiad annibynnol). Hefyd, amlinellwch eich cynllun ar gyfer cyfathrebu â staff o fewn eich awdurdod (ar bob lefel).**

**Ymateb**: *(Hyd at 500 gair)*

Bydd y rhaglenni a datblygiadau strategol eraill o fewn y Cyngor yn cael eu goruchwylio gan y Bwrdd Strategol a fu'n weithredol ers 2 flynedd o dan oruchwyliaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Darperir y strwythur fel atodiad. Mae'r Bwrdd Strategol yn cynnwys Rheolwyr Rhaglen ar gyfer bob un o'r rhaglenni, ac o safbwynt gweithredol, maent yn gyfrifol am grisialu gwybodaeth a'i rhannu â'u timau perthnasol. Mae rheolwyr y rhaglenni'n gyfrifol am gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith, ac maent yn gwbl ymwybodol o'r cyfeiriad strategol ac yn cael eu cynnwys yn hynny o fewn y Cyngor, ac fydd trefn atebolrwydd clir o hyn ymlaen.
O safbwynt gweithredol, mae bob un o'r rhaglenni grant yn cael cyfarfodydd tîm rheolaidd sy'n lledaenu gwybodaeth a hefyd adborth ar lwyddiannau / newidiadau / datblygiadau rhaglenni, er mwyn i staff fod yn gwbl ymwybodol o newidiadau a gallu gwneud sylwadau ar ddatblygiad rhaglenni a bylchau mewn gwasanaethau y maent yn ymwybodol ohonynt. Mae ymgynghori ac ymgysylltu â staff yn gyffredinol, ynghyd â hierarchaeth Cyngor Sir Ynys Môn, yn bwysig.

Mae'r Bwrdd yn atebol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith. Mae mecanwaith ar waith eisoes ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor Gwaith ynghylch canlyniadau a chyllid y rhaglen. Byddir yn adrodd i'r bwrdd strategol bob chwarter, gydag adroddiadau ychwanegol i'r gweithgorau yn fisol.

Mae gan yr Adran Plant a Theuluoedd gyfarfod gwasanaeth sydd wedi'i hen sefydlu, sy'n cyfarfod bob mis. Cynigiwn ein bod yn casglu barnau gweithwyr ar ddatblygiad gwasanaethau o fewn y cyfarfodydd hyn, fel y buom yn gwneud dros y 18 mis diwethaf. Mae gan yr Arweinyddion Ymarfer rôl arbennig yn hyn, a byddir yn ymgynghori â hwy hefyd ynghylch datblygiadau a chynlluniau ar gyfer gwasanaethau. Mae Arweinyddion Ymarfer yn cael cyfarfodydd penodol lle mae datblygu gwasanaethau yn eitem sefydlog.

Mae gan yr Adran Addysg gyfarfod gwasanaeth sydd wedi'i hen sefydlu, sy'n cyfarfod yn fisol, a bydd gwybodaeth ynghylch rhaglen Dechrau'n Deg a gofal plant, sy'n cynnwys y grant 30 awr, yn cael ei lledaenu a'i chysoni ag amcanion addysgol a strategol.

Bydd ymgynghori â staff a defnyddwyr gwasanaeth yn ffurfio rhan o raglen waith y flwyddyn ariannol nesaf.

Appendix D governance.docx

## Adran 10 – Cysylltiadau â'r Grant Cymorth Tai

**Amlinellwch sut y mae'r cynllun cyflawni hwn ar gyfer y Grant Plant a Chymunedau yn cysylltu â'ch cynlluniau ar gyfer y Grant Cymorth Tai.**

**Ymateb**: *(Hyd at 500 gair)*

Gweledigaeth a dyhead Ynys Môn ar lefel leol, o ran darparu'r Grant Cymorth Tai yw:

Grymuso pobl sy'n agored i niwed sydd angen cymorth i fyw yn annibynnol drwy'r ddarpariaeth o wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai, sydd o ansawdd uchel, ac i gyflawni hyn drwy weithio mewn partneriaeth â defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill fel y gallwn wella ansawdd bywyd, sicrhau bod cymaint o ddewis â phosibl a sicrhau gwerth am arian.

Bydd gwasanaethau atal digartrefedd ar flaen agenda gynllunio a chomisiynu'r Grant Cymorth Tai. Wrth gadw at y gofyniad cyfreithiol o ran cydymffurfio gyda Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, cymerwn bob cyfle i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr a rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am weinyddu a darparu'r Grant Cymorth Tai. Ein bwriad yw ategu ymyrraeth gynnar allweddol a'r ddarpariaeth o wasanaethau ataliol, o fewn y Grant Plant a Chymunedau, drwy ddarparu cymorth hanfodol mewn perthynas â thenantiaethau, ynghyd â gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol i bobl sy'n agored i niwed. Bydd gwasanaethau o'r fath yn cael eu teilwra tuag at y rheiny sy'n 16 neu drosodd o fewn lleoliadau teuluoedd, yn ogystal ag ar gyfer unigolion sy'n byw bywydau caotig, sydd wedi'u hynysu ac sy'n anodd eu cyrraedd o fewn y gymuned, ac sydd efallai'n cyflwyno fel rhai sy'n ddigartref, neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod. Byddwn hefyd yn ymestyn ein trefniadau cydweithio i ddarparu cymorth i'r rheiny sy'n cael eu lletya mewn lleoliadau sefydliadol fel trefniant dros dro, fel hosteli, llochesau, llety dynodedig â chymorth ar gyfer grwpiau gwasanaeth dynodedig fel Iechyd Meddwl a/neu Gamddefnyddio Sylweddau, ac mewn achosion eithriadol, y rheiny sy'n disgwyl am gael eu rhyddhau o'r carchar yn ôl i'r gymuned.

Mae gwaith wedi dechrau eisoes ymhlith Rheolwyr Rhaglen o'r ddau grant, ynghyd â rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr gwasanaeth presennol, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Prawf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac ati, i ailfodelu'r ddarpariaeth o wasanaethau i bobl sydd ag anghenion sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig. Ein nod fydd cronni cyllid o'r ddau grant er mwyn bod mor effeithlon ag y bo modd, gan ddatblygu ymagwedd gyfannol tuag at ddarpariaeth gwasanaeth, a fydd yn

cynnwys ymgysylltu â theuluoedd cyfan lle bo'n briodol, yn ogystal â darparu ymyrraeth allweddol i oroeswyr a chyflawnwyr cam-drin domestig, er mwyn lleihau'r risg o batrymau ymddygiad mynych. Ein bwriad hefyd yw sicrhau bod llai o ddarpariaeth yn cael ei dyblygu ar draws y gwasanaethau gyda mwy o gydlynu, a'r posibilrwydd o sefydlu gwasanaeth integredig, a fydd yn cwmpasu'r holl asiantaethau perthnasol.

Os yn llwyddiannus, byddwn yn ystyried modelau darparu tebyg yn y dyfodol wrth gomisiynu gwasanaethau ar gyfer grwpiau defnyddwyr eraill fel pobl hŷn, iechyd meddwl a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

## Adran 11 – Cynlluniau sy'n benodol i'r rhaglenni

**Anfonwch y cynlluniau unigol ar gyfer pob un o'r rhaglenni a gynhwysir yn y tabl isod hefyd. Rydym wedi amgáu'r templedi ar gyfer eu cwblhau.**

**Nodwch nad oes angen cyflwyno cynlluniau ar wahân ar gyfer rhaglenni â chyfanswm gwariant (dros Gymru gyfan) o lai na £10 miliwn. Dylid cynnwys camau gweithredu ar gyfer y rhain yn y cynllun cyflawni cyffredinol hwn.**

| Y Rhaglen | Cymhwysiad / Cynllun Cyflawni |
|---|---|
| Dechrau'n Deg | CCG - Flying Start Delivery Plan 2019.2 |
| Teuluoedd yn Gyntaf | CCG - Families First Delivery Plan 2019-2 |
| Cymunedau am Waith a Mwy | CCG - Communities for Work Plus CfW+ |

## Adran 12 – Cynlluniau'n ymwneud â'r Gronfa Waddol, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, Gofal Plant a Chwarae a Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc

**Cadarnhewch beth yw eich cynlluniau ynghylch y rhaglenni uchod a sut y byddwch yn integreiddio'r rhain â rhaglenni eraill y Grant Plant a Chymunedau (e.e. a fyddent yn parhaol o'r gweithgareddau yn 2018-19?)**

**Ar gyfer Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc, sydd yn gweithredu ar sail ranbarthol, esboniwch sut y byddech yn cynnal y trefniant gweithio rhanbarthol, os yn berthnasol.**

**Ymateb**: *(Hyd at 500 gair)*

Bydd y grant Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol yn parhau i gael ei ariannu fel yn 2018 - 19 ac yn parhau i gefnogi datblygiad rhaglen gofal plant am ddim 30 awr Llywodraeth Cymru. Ceir newidiadau i'r gwaith ariannu sy'n disgwyl cymeradwyaeth gan y Tîm Gofal Plant a Chwarae.

Bydd y Cyllid Gwaddol yn parhau i gefnogi costau gweithredol craidd Môn CF, sef sefydliad trydydd sector a sefydlwyd i gyflawni'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae Môn CF yn sefydliad trydydd sector allweddol a leolir o fewn y gymuned, ac sy'n darparu'r isadeiledd ar gyfer darparu Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy. Gan fod 2019-20 yn flwyddyn drosiannol, mae'r Awdurdod wedi cytuno y bydd y trefniadau darparu presennol ar gyfer 2018-19 yn parhau am 12 mis arall.

Tra bo'r cyllid ar gyfer Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i Gyngor Sir Ynys Môn, bydd y ddarpariaeth o wasanaethau'n parhau i gael ei rheoli gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yng Ngwynedd, fel y mae ar hyn o bryd.

Cronfa Dydd Gŵyl Dewi - Defnyddiwyd y gronfa i roi cymorth i bobl ifanc sydd, neu sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol, i gael mynediad i gyfleoedd a fydd yn eu harwain tuag at fywydau annibynnol a llwyddiannus.

Yn ystod 2018-19, defnyddiwyd y gronfa ar gyfer taliadau untro ar gyfer offer cyrsiau, help gyda threfniadau a threuliau teithio, talu am wersi gyrru a chymorth ariannol ar gyfer sefydlu cartref, gan gynnwys bondiau/blaendaliadau a chyngor ar sut i gyllidebu a thalu biliau.

Bydd cynnydd yn ein dyraniad ar gyfer 2019-20, a bwriadwn ddefnyddio rhan o'r gronfa i sefydlu grŵp cyfranogi ar gyfer rhai sy'n gadael gofal, gyda chymorth gan Voices from Care.

PPE. Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Gwynedd a Môn wedi creu nifer o brosiectau a mentrau a ariannir gan grant Llywodraeth Cymru, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol. Tra bo gan bob prosiect gerrig milltir arbennig o ran perfformiad, allbynnau a chanlyniadau, maent oll yn gweithredu i ategu a chefnogi'r egwyddor o "Atal troseddu ac aildroseddu" gan bobl ifanc. Mae'r cynlluniau a ganlyn yn weithredol ar hyn o bryd ac wedi'u cadarnhau ar gyfer 2019-20:-

Atal ac Ymyrryd yn Gynnar - mae'r cynllun yn ffurfio rhan o'r ymagwedd ymyrraeth gynnar, atal a difyrru, ac yn ceisio lleihau nifer y rhai sy'n mynd i mewn i'r System Cyfiawnder Troseddol am y tro cyntaf. Prif nodau'r cynllun yw gwella darpariaeth Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (AHCh) yn ystod amser unigolion yn y cynllun, lleihau aildroseddu, a sicrhau, yn y mwyafrif helaeth o achosion, bod y mwyafrif yn cwblhau'r holl ymyraethau, wrth gynyddu'r niferoedd sy'n cael eu hatgyfeirio i'r prosiect. Mae'r cynllun yn ffurfio rhan o'r agenda Atal ac yn ymestyn cymorth i'r holl warediadau llys ac atgyfeiriadau atal.

Iechyd a Lles - Mae'r cynllun yn cynnig cymorth o ran Iechyd a Lles ac Ymyraethau ar gyfer pobl ifanc sydd wedi'u nodi a'u neilltuo ar gyfer cymorth arbenigol drwy

banel iechyd wythnosol y GCI. Mae'r atgyfeiriadau'n amrywiol, ond yn bennaf, mae'r cymorth yn canolbwyntio ar gamddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, perthnasau iach, cadw'n ddiogel a hybu ffordd iach o fyw.

Cyfiawnder Adferol Estynedig - Mae'r cynllun yn rhoi cyfle i ddioddefwyr chwarae mwy o ran yn y broses gyfiawnder adferol, a hefyd yn ceisio annog a hyrwyddo'r defnydd o gyfiawnder adferol gyda phobl ifanc ar draws y sbectrwm o waith GCI, o warediadau y tu allan i'r llys i orchmynion cadw a hyfforddi. Prif nodau'r prosiect yw cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n troseddu a'r dioddefwyr sy'n cymryd rhan mewn cynadledda wyneb yn wyneb, cyfiawnder adferol uniongyrchol, proses gyfryngu 'shuttle mediation' neu ysgrifennu llythyrau ymddiheuro gan y cyflawnwr i'r dioddefwyr, yn ogystal â lleihau aildroseddu.

Adsefydlu a Throsglwyddo - Mae'r cynllun yn cynnig cymorth i bobl ifanc sy'n profi elfennau o drosglwyddo neu sydd angen cymorth i adsefydlu. Gall hyn fod o ran y trosglwyddiad traddodiadol o'r ddalfa i'r gymuned, cymorth ôl-oruchwyliaeth ar sail wirfoddol, neu bobl ifanc yn trosglwyddo i gartref neu gymuned newydd. Mae'r prosiect hefyd yn ymestyn i gynnwys LAC sy'n cael darpariaeth y tu allan i'w sir mewn cartrefi plant preswyl yng Ngwynedd a Môn.

Hybu Cyfranogiad - Nod y prosiect yw hybu ymgysylltiad a llais pobl ifanc o fewn y System Cyfiawnder Troseddol. Mae'r prosiect yn ceisio dyfeisio dulliau arloesol a chreadigol o ddatblygu perthnasau cadarnhaol gyda phobl ifanc, i sicrhau bod eu barnau'n cael eu gwerthfawrogi, ac i roi cymorth iddynt gydymffurfio â gofynion eu gorchymyn/gwarediad a chwblhau eu gorchymyn yn llwyddiannus. Y prif nodau yw cynyddu cyfranogiad ac ymgysylltiad, lleihau achosion o dorri gorchmynion, a chael tystiolaeth bod llais y plentyn yn ganolog i bob agwedd ar ymyraethau a chymorth ar gyfer pobl ifanc.

Mynediad i Lety - Nod y prosiect yw sicrhau bod pobl ifanc sy'n derbyn cymorth a goruchwyliaeth gan y GCI yn cael eu lletya mewn llety addas a phriodol. Gwneir atgyfeiriadau'n dilyn asesu anghenion pobl ifanc o ran tai, ac yn nodweddiadol, cynigir cymorth i oresgyn sefyllfaoedd lle bo teuluoedd wedi chwalu/tensiynau teuluol trwy gyfryngu, ymyraethau brys, cymorth yn achos digartrefedd neu, yn syml, rhoi cymorth i unigolyn ifanc aros o fewn yr uned deulu neu o fewn llety byw'n annibynnol. Mae'r prosiect yn ymestyn i gymorth ataliol (gwirfoddol) i bobl ifanc sy'n wynebu problemau o ran digartrefedd ar ôl eu rhyddhau o'r ddalfa.

Gwella mynediad i Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth (AHCh) - Nod y prosiect yw gwella mynediad i bobl ifanc i Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth. Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar dargedu pobl ifanc NEET, neu sydd mewn perygl o fod yn NEET. Mae'r prosiect yn darparu cymorth yn ffurf mentora a hyfforddiant i gynorthwyo pobl ifanc, lle bynnag y bo modd, i gael mynediad i AHCh neu ddarpariaeth amgen, priodol. Prif nodau'r cynllun yw cynyddu cyfranogiad pobl ifanc mewn rhaglenni achrededig, cynyddu oriau mynychu AHCh a lleihau achosion o droseddu neu aildroseddu.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **25ain Mawrth, 2019** |
| **Pwnc:** | **Polisi Cludiant Ysgol Diwygiedig** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng. R Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Arwyn Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Arwyn Williams**<br>**01248 752916**<br>**ArwynWilliams2@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn berthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Argymhellion:**
Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:
**A1** Fabwysiadu'r Polisi Cludiant Ysgol diwygiedig i'w weithredu o ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd (Medi 2019)
**A2** Nodi sylwadau'r Panel Sgriwtini Cyllid.

**1. Cefndir / Cyd-destun:**

1.1 Cyhoeddwyd adroddiad archwiliad ar Gludiant Ysgol ym Medi 2017 yn amlygu meysydd gwella. Roedd un o'r meysydd hyn yn cynnwys adolygiad o'r Polisi Cludiant Ysgol.

1.2 Nid oes unrhyw newidiadau sylfaenol wedi bod i'r meini prawf cymhwystra ar gyfer cludiant ysgol. Mae'r polisi diwygiedig yn darparu eglurhad manwl ynglŷn ag :-

- Ysgolion Cymwys
- Meini Prawf Pellter
- Ysgolion Bwydo
- Dewis Ysgol Rhieni / Gofalwyr
- Llwybrau Peryglus
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Plant Mewn Gofal (PMG)

1.2.1 Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant am ddim i ddysgwyr sy'n cwrdd â'r meini prawf cymhwystra. Mae'r meini prawf yn cynnwys :-

**1)** Meini Prawf Pellter – yn amlinellu sut mae'r awdurdod lleol yn cydymffurfio â Theithio gan Ddysgwyr (Cymru) wrth ddarparu cludiant am ddim ond ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol os yw'r pellter o'r cartref i'w hysgol addas agosaf o leiaf:

a) 2 filltir i ddisgyblion Ysgol Gynradd
b) 3 milltir i ddisgyblion Ysgol Uwchradd

1.2.2 Mesuriad o Bellter –
I ddysgwyr sy'n gymwys dan y meini prawf uchod, bydd y daith i'r ysgol yn cael ei mesur o ffin y cartref i'r giât ysgol agosaf, ac fe all gynnwys llwybrau troed cyhoeddus a llwybrau eraill yn ogystal â ffyrdd sydd wedi eu mabwysiadu. Nid yw o angenrheidrwydd y pellter byrraf ar hyd y ffordd.
I ddysgwyr nad ydynt yn gymwys dan y meini prawf pellter a nodir uchod, mesurir y pellter o'r cartref i'r ysgol addas agosaf ar hyd y daith ffordd fyrraf sydd ar gael, h.y. o ffin y cartref i'r giât ysgol agosaf drwy ddefnyddio pecyn meddalwedd dewisedig yr Awdurdod.

1.2.3 Llwybrau Peryglus –
Ar gyfer dysgwyr sydd yn byw islaw y pellter cymhwyster statudol ddangosir uchod, bydd yr Awdurdod lleol yn darparu cludiant i'r ysgol os tybir bod y llwybr yn beryglus. Asesir llwybrau peryglus gan swyddog priodol Cyngor Sir Ynys Môn gan ddilyn arweiniad a ddarperir yn Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol Mehefin 2014.

1.2.4 Anghenion Dysgu Ychwanegol –
Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnig darpariaeth addysgol addas a pherthnasol ar gyfer pob plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu datblygu i'w llawn botensial. Er hynny, efallai na ddarperir cludiant os yw rhieni / gofalwyr wedi ymarfer eu hawl i ddewis ysgol sydd ddim yr ysgol addas agosaf.

1.2.5 Plant Mewn Gofal –
Mae gan blant mewn gofal (yn ôl diffiniad Deddf Plant 1989) yr un hawl i gymorth gyda chludiant ag unrhyw blentyn arall. Pan wneir cais am gludiant gan y Gwasanaethau Plant, darperir cludiant os nad yw Gwasanaethau Plant yn dewis cadw'r plentyn yn yr ysgol flaenorol er bod darpariaeth addas i'w gael mewn ysgol agosach o fewn y dalgylch. Mewn achosion o'r fath, y Gwasanaethau Plant fydd yn gyfrifol am y costau cludiant.

1.2.6 Dewis Ysgol Rhieni / Gofalwr
Mae gan rieni / gofalwyr yr hawl i ddewis unrhyw ysgol ar gyfer mynediad i'w plentyn, yn amodol ar argaeledd llefydd. Os derbynnir y cais, bydd y rhiant / gofalwr yn colli eu hawl i gludiant am ddim os nad honno yw'r ysgol addas agosaf iddynt neu os nad

| |
|---|
| honno yw'r ysgol uwchradd ddynodedig ar gyfer yr ysgol gynradd fwydo yr oeddent wedi ei mynychu.<br><br>1.2.7 Cludiant Ôl-16<br>Nid oes unrhyw newid wedi bod ym mholisi'r Awdurdod Lleol ar ddarpariaeth cludiant ôl-16. Mae'r polisi diwygiedig felly'n nodi nad yw cludiant am ddim ar gael i ddysgwyr 16 i 19 oed. |

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Opsiwn 1 – Gwneud dim – Ni ystyriwyd hwn fel opsiwn hyfyw gan fod angen adolygu ein Polisi Cludiant Ysgol cyfredol.<br>Opsiwn 2 – Creu polisi newydd – Ni ystyriwyd hwn fel opsiwn gan mai'r angen oedd ehangu'r wybodaeth oedd yn y polisi cyfredol.<br>Opsiwn 3 – Adolygu'r polisi cyfredol – Dewiswyd yr opsiwn hwn er mwyn cwrdd â gofynion y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ac i ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr i randdeiliaid o'r hawl i drafnidiaeth. Bydd yr opsiwn yma hefyd yn sicrhau gweithrediad effeithiol gan y Gwasanaeth Dysgu a'r Gwasanaeth Trafnidiaeth wrth ddarparu'r gwasanaeth. Yn ogystal â hyn, bydd yn sicrhau gwerth am arian a gwasanaeth o ansawdd i randdeiliaid. |

| **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Er mwyn cydymffurfio â chyfansoddiad y Cyngor. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydyw |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydyw – Rhagwelir y bydd gweithrediad lawn o'r Polisi Cludiant Ysgol diwygiedig yn arwain at effeithlonrwydd. |

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ymgynghorwyd ag aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddol, ac adlewyrchwyd eu sylwadau. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Ymgynghorwyd ag Adran 151 fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddol. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Ymgynghorwyd â'r Swyddog Monitro fel aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddol. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | N/A |
| **5** | **Eiddo** | N/A |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | N/A |
| **7** | **Caffael** | Bu i'r Gwasanaeth fod mewn cysylltiad cyson gyda swyddogion Caffael y Cyngor (ers Hydref 2017) wrth weithio ar y ffrwd gwaith yma. |
| **8** | **Sgriwtini** | Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i effaith gyllidol y polisi cludiant diwygiedig arfaethedig gan y Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2019, a nodwyd y pwyntiau canlynol:<br>• Digwyddodd llawer o waith cysoni llwybrau tacsis dros y cyfnod diwethaf er mwyn cadarnhau mai ond plant cymwys yn unol â'r polisi oedd yn derbyn y gwasanaeth<br>• Nifer y plant yn derbyn gwasanaeth wedi gostwng o 347 i 297 yn sgil y gwaith cysoni. Mae gan y Gwasanaeth bellach ddarlun clir o'r gwir angen am wasanaethau cludiant<br>• Gwir yw dweud fod y gyllideb hanesyddol yn annigonol i gwrdd â chostau'r galw am wasanaethau<br>• Gwaith partneriaethol sylweddol bellach mewn lle rhwng y Gwasanaethau Dysgu, Priffyrdd ac Adnoddau |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bu i'r Panel hefyd edrych ar unrhyw sgôp y Sytem One i greu rhagor o arbedion i'r gyllideb cludiant ysgol i'r dyfodol. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | N/A |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | N/A |

| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Cwblhawyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb cyflawn, a bydd mesurau lliniaru'n cael eu gweithredu i leihau unrhyw risgiau a adnabuwyd (gweler Atodiad 2 am gopi o'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb) |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| 1. Polisi Cludiant Ysgol Diwygiedig<br>2. Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Arwyn Williams, Pennaeth Dysgu, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, LL77 7TW |

**Adran Dysgu**

# Polisi Cludiant Ysgol

**Chwefror 2019**

**CYNNWYS**

**1.0 CYFLWYNIAD**

**2.0 CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL**

2.1 Ysgolion Cymwys
2.2 Meini Prawf Pellter
2.3 Yr Ysgol Addas Agosaf
2.4 Ysgolion Bwydo
2.5 Mesuriad o Bellter
2.6 Cludiant Ysgolion Cynradd ac Uwchradd
2.7 Dewis Ysgol Rhieni / Gofalwyr
2.8 Mynediadau i Ysgolion
2.9 Mannau Casglu
2.10 Llwybrau Peryglus
2.11 Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
2.12 Plant Mewn Gofal (PMG)
2.13 Preswyliaeth Ddeuol

**3.0 CLUDIANT YSGOL DEWISOL**

3.1 Trefniadau Dewisol
3.2 Ysgolion Ffydd
3.3 Trefniadau Ysgolion Bwydo
3.4 Cludiant Wedi 16 Oed
3.5 Aildrefnu Ysgolion
3.6 Symud Cartref
3.7 Trosglwyddiadau Ysgol Sydd Wedi'u Rheoli
3.8 Dilead Cludiant Dewisol
3.9 Darpariaethau Dewisol Eraill

**4.0 GWNEUD CAIS AM GLUDIANT**

**5.0 GWYBODAETH ARALL**

5.1 Addysg Feithrin
5.2 Clybiau y Tu Allan i'r Ysgol
5.3 Hyd y Daith
5.4 Newidiadau Polisi
5.5 Effaith Cludiant
5.6 Dulliau Teithio Cynaliadwy

**6.0 DARPARIAETH CLUDIANT**

6.1 Darpariaeth Cludiant y Cyngor
6.2 Cludiant Consesiynol
6.3 Taliadau Cludiant
6.4 Yr Hawl i Ddileu Cludiant
6.5 Ymddygiad ar y Cludiant
6.6 Amodau Defnydd Tocynnau Teithio
6.7 Monitro'r Gwasanaethau
6.8 Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG / 'DBS')
6.9 Amodau Tywydd Anffafriol

**7.0 APELIADAU**

**8.0 MANYLION CYSWLLT**

**9.0 CYSYLLTIADAU I DDOGFENNAETH BERTHNASOL**

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae dyletswydd ar Gyngor Sir Ynys Môn i ddarparu cludiant ysgol yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol 2014. Mae'r Polisi Teithio gan Ddysgwyr hwn yn amlinellu sut mae'r Awdurdod yn darparu cludiant ar gyfer disgyblion ysgol a disgyblion coleg Cyngor Sir Ynys Môn, a'r meini prawf cymhwyster.

1.2 Er mwyn cwrdd â'r gofyniad hwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried y canlynol wrth wneud trefniadau ar gyfer dysgwyr sydd fel arfer yn preswylio yn Ynys Môn:

- Oed y dysgwr;
- Y pellter o'r cartref i'r ysgol;
- Natur y daith o'r cartref i'r ysgol;
- Ceisiadau am addysg ar sail ffydd;
- Anghenion dysgwyr gydag anableddau neu ag anghenion dysgu ychwanegol;
- Anghenion dysgwyr sydd yn cael eu 'hedrych ar eu hôl' gan yr Awdurdod Lleol;
- Anghenion dysgwyr sydd â phreswyliaeth ddeuol.

1.3 Nid yw'r rhestr yma'n gynhwysfawr ac mae'n rhaid i'r Awdurdod ystyried amgylchiadau unigol pob dysgwr, gan ystyried unrhyw gynrychiolaethau gan rieni / gofalwyr ac arbenigwyr perthnasol. Mae'r Mesur yn caniatáu, mewn rhai amgylchiadau, i'r Awdurdod Lleol ddefnyddio disgresiwn mewn perthynas â'r gwasanaeth â ddarperir. Amlinellir yr elfennau dewisol hyn yn adran 3 o'r polisi hwn.

1.4 Darperir cludiant i Golegau Addysg Bellach (A.B.) ar gyfer myfyrwyr dros 16 oed fel trefniant **dewisol** o dan y polisi.

1.5 Mae'n rhaid i'r Awdurdod ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol mewn rhai amgylchiadau. Amlinellir yr amgylchiadau hyn yn adran 2. Ni fydd y ddyletsywdd i ddarparu cludiant o'r fath yn berthnasol oni bai bod y plentyn, fel arfer, yn breswyliwr o fewn ardal yr Awdurdod.

1.6 Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu bob amser i ddarparu cludiant diogel, effeithlon a chost effeithiol ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n gymwys dan y polisi hwn.

1.7 Efallai y bydd amgylchiadau ble bydd trefniadau cludiant ychwanegol neu amgen yn profi i fod yn fwy cost effeithlon na'r ddarpariaeth nodir yn y polisi. **Mae'r Awdurdod Lleol felly â'r hawl i ddefnyddio**

**disgresiwn, ble mae hynny'n addas, os gellir dangos bod y dewis arall yn fwy cost effeithiol ac effeithlon.**

1.8 Darperir cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer dysgwyr cymwys rhwng eu **cyfeiriad cartref neu'r man casglu dynodedig,** a'r ysgol gymwys ble maent wedi eu cofrestru. **Ni ddarperir cludiant am ddim o neu i gyfeiriadau aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau, gyfeiriadau gweithle'r rhiant neu gyfleusterau gofal plant o unrhyw fath.**

1.9 Mae'r Polisi hwn yn weithredol o **Awst 2019.** Bydd trefniadau cludiant sydd wedi eu hasesu a'u darparu o dan bolisi blaenorol Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau oni bai bod newid materol mewn amgylchiadau fyddai'n golygu bod angen gwneud cais newydd, e.e. symud cartref neu ysgol / coleg addysg bellach. Amlinellir fanylion ar sut i wneud cais o'r fath yn adran 4.

## 2.0 CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL

### 2.1 Ysgolion Cymwys

Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn darparu cludiant am ddim i ddysgwyr sydd yn cwrdd â'r meini prawf hawl sydd wedi eu gosod allan yn y polisi hwn. Mae'r polisi'n cyfeirio at gludiant i ac o ysgolion cymwys yn y categorïau canlynol:

- ysgol gymunedol, ysgol dan reolaeth neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir;
- ysgol arbennig nas cynhelir;
- ysgol annibynnol sydd wedi ei henwi mewn datganiad o anghenion addysgu arbennig;
- ysgol ymddiriedolaeth a gynorthwyir yn wirfoddol.

### 2.2 Meini Prawf Pellter

Mae Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn mynnu bod cludiant am ddim ond i gael ei ddarparu ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol os yw'r pellter o'r cartref i'w hysgol addas agosaf o leiaf:

(a) 2 filltir ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd;
(b) 3 milltir ar gyfer disgyblion Ysgolion Uwchradd.

### 2.3 Yr Ysgol Addas Agosaf

Yr ysgol addas agosaf yw ysgol sy'n darparu addysg sy'n addas i oedran a gallu'r dysgwr ac unrhyw anghenion dysgu sydd ganddynt.

Bydd, fel arfer, yn ysgol yn yr ardal ble mae'r dysgwr yn preswylio, neu ysgol arall, os yw hon yn agosach i'r cartref. Gall preswylwyr Ynys Môn ddod o hyd i'w hysgol leol agosaf drwy ymweld â https://mapiau.ynysmon.gov.uk/anglesey_cy.aspx

2.4 **Ysgolion Bwydo**

Mae'r Awdurdod yn adnabod bod rhai Ysgolion Cynradd yn ysgolion bwydo naturiol ar gyfer rhai Ysgolion Uwchradd. Dangosir y cydberthynasau rhwng yr ysgolion hyn yn Atodiad 1.

2.5 **Mesuriad o Bellter**

Ar gyfer asesiadau o dan y meini prawf pellter yn adran 2.2, bydd y cyfrifiad o'r cartref i'r ysgol yn glynu i'r arweiniad sydd wedi ei ddarparu yn Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol 2014. Bydd y daith i'r ysgol yn cael ei mesur o ffin y cartref i'r giât ysgol agosaf, ac fe all gynnwys llwybrau troed cyhoeddus a llwybrau eraill yn ogystal â ffyrdd sydd wedi eu mabwysiadu. Nid yw o angenrheidrwydd y pellter byrraf ar hyd y ffordd.

Ble mae'n rhesymol i ddisgwyl i ddysgwyr gerdded i'r ysgol, mesurir y pellter ar y daith fyrraf sydd ar gael y gallai plentyn, yng nghwmni oedolyn yn ôl yr angen, gerdded yn rhesymol o ddiogel, tra hefyd yn ystyried oed ac anghenion y plentyn. Os yw'r eiddo ar ffordd sydd heb ei mabwysiadu bydd yn cael ei fesur o'r man ble mae'r eiddo'n cyfarfod priffordd sydd wedi ei mabwysiadu neu lwybr sydd wedi ei fabwysiadu. Gwneir yr holl gyfrifiadau o bellter drwy ddefnyddio pecyn meddalwedd dewisedig yr Awdurdod.

Ar gyfer asesiadau sydd dros y meini prawf pellter nodwyd yn adran 2.2, mesurir y pellter o'r cartref i'r ysgol addas agosaf ar hyd y daith ffordd fyrraf sydd ar gael, h.y. o ffin y cartref i'r giât ysgol agosaf drwy ddefnyddio pecyn meddalwedd dewisedig yr Awdurdod. Ond, os yw'r eiddo ar ffordd sydd heb ei mabwysiadu bydd yn cael ei fesur o'r man ble mae'r ffordd sydd heb ei mabwysiadu yn cyfarfod y briffordd sydd wedi ei mabwysiadu.

Ar gyfer yr holl gyfrifiadau, bydd y mesuriad o bellter i'r 0.1 o filltir agosaf, fel y'i mesurir gan becyn meddalwedd dewisedig yr Awdurdod.

**Noder**: Dylai rhieni / gofalwyr hefyd gyfeirio at adran 5.6 ar gyfer gwybodaeth am ddulliau cludiant cynaliadwy i'r ysgol.

## 2.6 Cludiant Ysgolion Cynradd ac Uwchradd

Ar gyfer Ysgolion Cynradd ac Uwchradd, bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol addas agosaf yn unol â meini prawf y polisi hwn. Gallai darpariaeth dewisol hefyd fod yn weithredol, yn unol â'r meini prawf ddangosir yn adran 3.

## 2.7 Dewis Ysgol Rhieni / Gofalwyr

Mae gan rieni / gofalwyr yr hawl i ddewis unrhyw ysgol ar gyfer mynediad i'w plentyn, yn amodol ar argaeledd llefydd. Os derbynnir y cais, bydd y rhiant / gofalwr yn colli eu hawl i gludiant am ddim os mai nid honno yw'r ysgol addas agosaf iddynt neu os nad honno yw'r ysgol uwchradd ddynodedig ar gyfer yr ysgol gynradd fwydo yr oeddent wedi ei mynychu.

Mae hyn yn gyson â chwrdd â'r gofynion amlinellwyd yn Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol Mehefin 2014.

**PWYSIG – Cynghorir rhieni / gofalwyr i ystyried goblygiadau cludiant ysgol cyn datgan eu dewis ar gyfer lle mewn ysgol. Gweler adran 2.3 ar gyfer yr ysgol addas agosaf ac adran 5.5 ar effaith cludiant.**

## 2.8 Mynediadau i Ysgolion

Os nad yw rhieni / gofalwyr wedi gallu sicrhau lle ar gyfer eu plentyn yn eu hysgol addas agosaf, neu bod eu hysgol uwchradd ddynodedig (i'r ysgol gynradd fwydo briodol) yn llawn, yna bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i'r ysgol addas agosaf nesaf, cyn belled â bod hyn yn cwrdd â'r meini prawf pellter yn adran 2.2.

## 2.9 Mannau Casglu

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried, yn gyffredinol, y gall darpariaeth mannau casglu wedi'u rhannu fod yn rhan o drefniant cludiant addas o fewn ystyr adran 3 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Ar gyfer dysgwyr sydd yn gymwys ar gyfer cludiant, bydd disgwyliad eu bod yn cychwyn o fan casglu sydd wedi ei benderfynu o flaen llaw, oni bai ei fod wedi ei ddatgan fel arall pan mae'r cais yn cael ei brosesu. Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i leoli mannau casglu sydd yn rhesymol agos i gartrefi dysgwyr, a ddim mwy na'r pellteroedd statudol sydd wedi eu dangos yn adran 2.2. Mae hyn oherwydd y

disgwyliad y gall rhieni / gofalwyr wneud defnydd o'u man casglu dynodedig er mwyn sicrhau taith ddiogel ac amserol i ac o'r ysgol ar gyfer eu plentyn. Bydd unrhyw fesuriad o bellter yn dilyn yr egwyddorion amlinellir yn adran 2.5. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd llwybrau peryglus i ystyriaeth, yn dilyn yr egwyddorion osodwyd allan yn adran 2.10.

**Cyfrifoldeb y rhiant / gofalwr yw i sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd y man casglu mewn modd amserol a'u bod yn mynd ar y cerbyd yn ddiogel. Mae angen hefyd iddynt sicrhau bod oedolyn cyfrifol yno i gyfarfod y plentyn ar y siwrnai yn ôl, os yw oedran neu anghenion y plentyn yn galw am ddarpariaeth Cymhorthydd Teithiwr.**

**Os na fydd oedolyn cyfrifol yno i gyfarfod plentyn, sydd o oedran neu ag anghenion sydd yn galw am ddarpariaeth Cymhorthydd Teithiwr, yna bydd costau ychwanegol yn daladwy, oherwydd y posibilrwydd y bydd angen i Swyddogion geisio arweiniad gan y Gwasanaethau Plant ac, os bydd angen, trefnu i fynd a'r plentyn i le diogel yr Awdurdod Lleol.**

**Noder**: Nid oes unrhywbeth yn y Polisi hwn yn creu y disgwyliad y dylai pob plentyn allu cerdded i'r mannau casglu, gan y bydd hyn yn anaddas mewn rhai achosion. Mae'r Awdurdod yn cadw rhestr o'r llwybrau peryglus hysbys, ac mae'r rhestr hon yn ffurfio rhan o'r ystyriaeth roddir wrth asesu ceisiadau cludiant. Er hynny, os yw rhiant / gofalwr yn credu nad yw'r defnydd o fan casglu yn addas ar gyfer eu plentyn, dylent ddod a'u pryderon i sylw'r Awdurdod, fydd wedyn yn archwilio'r amgylchiadau er mwyn penderfynu os oes angen trefniadau ychwanegol neu amgen ar gyfer y plentyn dan sylw, er mwyn sicrhau cwrdd â gofynion Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Mae'r Awdurdod Lleol â'r hawl i adolygu'r mannau casglu i sicrhau bod llwybr diogel yn cael ei gynnal bob amser ac i sicrhau fod y ddarpariaeh mwyaf cost effeithiol yn ei le.

Unwaith mae cymhwyster ar gyfer cludiant ysgol wedi ei gadarnhau, bydd yr Adran Trafnidiaeth yn hysbysu'r ysgol gyda chais i'r ysgol rannu'r wybodaeth berthnasol gyda'r rhieni / gofalwyr.

Ble defnyddir gwasanaethau bwydo i gludo dysgwyr i'r mannau casglu, mae'n rhaid i ddysgwyr aros gyda'r tacsi nes bod y cerbyd i'w cludo ymlaen wedi cyrraedd. Mae disgwyl i yrrwyr adrodd i'r Adran Trafnidiaeth ar unrhyw ddysgwyr sydd yn gwrthod gwneud hyn.

Mae contractwyr sy'n darparu'r gwasanaethau hyn wedi'u cyfarwyddo i aros gyda dysgwyr er mwyn sicrhau eu mynediad i'r cerbyd sydd yn eu cludo ymlaen. Anogir rhieni / gofalwyr hefyd i adrodd i'r Adran Trafnidiaeth ynghylch unrhyw achosion ble nad yw gyrrwyr yn gwneud hyn.

## 2.10 **Llwybrau Peryglus**

Ar gyfer dysgwyr sydd yn byw islaw y pellter cymhwyster statudol ddangosir yn adran 2.2, bydd yr Awdurdod lleol yn darparu cludiant i'r ysgol os tybir bod y llwybr yn beryglus. Asesir llwybrau peryglus gan swyddog priodol Cyngor Sir Ynys Môn gan ddilyn arweiniad ddarperir yn Teithio gan Ddysgwyr: Darpariaeth Statudol ac Arweiniad Gweithredol Mehefin 2014.

Ble defnyddir mannau casglu, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried os oes llybrau peryglus allai, yn rhesymol, rwystro dysgwyr rhag cerdded i'r lleoliadau hyn, yng nghwmni oedolyn cyfrifol yn ôl yr angen. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr Awdurdod Lleol, yn dilyn asesiad, yn darparu cludiant o'r cartref i'r man casglu, neu i'r ysgol yn uniongyrchol (pa bynnag un yw'r mwyaf effeithlon).

Mae wedi ei nodi, ble mae rhieni / gofalwyr wedi ymarfer eu hawl i ysgol drwy ddewis rhiant / gofalwr (gweler adran 2.7), mai cyfrifoldeb y rhiant / gofalwr yw trefnu cludiant o'r cartref i'r ysgol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cadw cofrestr o holl lwybrau Ynys Môn sydd wedi eu hasesu, ac wrth asesu llwybrau newydd bydd y rhain hefyd yn cael eu hychwanegu i'r gofrestr. Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r gofrestr gyflawn bob 5 mlynedd er mwyn sicrhau bod yr holl lwybrau yn parhau i fod wedi eu categoreiddio'n gywir.

Os yw rhiant / gofalwr yn credu bod llwybr penodol yn beryglus, dylent ddod a'u pryderon i sylw'r Awdurdod fydd wedyn yn archwilio i benderfynu os oes angen trefniadau cludiant ychwanegol neu amgen.

## 2.11 **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnig darpariaeth addysgol addas a pherthnasol ar gyfer pob plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu datblygu i'w llawn botensial.

Asesir lefel yr angen gan weithwyr proffesiynol perthnasol yn Adran Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn, gyda hyn yn hysbysu'r math o gludiant a

ddarperir. Darperir cludiant wedyn, yn unol â’r cyngor roddwyd ac **fe’i adolygir yn rheolaidd**.

Os oes gan blentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), Cynllun Datblygu Unigol (CDU) neu Cynllun Gofal Iechyd Unigol (CGIU), **efallai** y bydd cludiant ysgol yn cael ei gynnwys fel rhan o’r darpariaethau tu allan i addysg a wneir ar gyfer y plentyn fel rhan o’u Datganiad / Cynllun CDU / CGIU. Os ydyw, yna bydd cludiant yn cael ei ddarparu.

**Er hynny, efallai na ddarperir cludiant os yw rhieni / gofalwyr wedi ymarfer eu hawl i ddewis ysgol sydd ddim yr ysgol addas agosaf (gweler adran 2.7).**

Os nad yw cludiant ysgol yn gynwysedig yn Natganiad / CGIU / CDU y plentyn, yna, efallai, y byddent yn parhau i fod â’r hawl i gludiant o’r cartref i’r ysgol o dan y polisi os ydynt yn mynychu’r ysgol addas agosaf sydd â lle, neu os ydynt wedi mynychu ysgol gynradd fwydo ddynodedig ar gyfer ysgol uwchradd benodol; yn amodol ar gwrdd â’r meini prawf cymhwyster.

## 2.12 Plant Mewn Gofal (PMG)

Plentyn Mewn Gofal yw’r term ddefnyddir o fewn Deddf Plant 1989 i ddisgrifio plant sydd o dan 18 oed ac sydd yn derbyn darpariaeth gofal a llety gan adran Gwasanaethau Plant yr Awdurdod Lleol; yn aml gyda gofalwyr maeth.

Mae gan blant mewn gofal (yn ôl diffiniad Deddf Plant 1989) yr un hawl i gymorth gyda chludiant ag unrhyw blentyn arall. Pan wneir cais am gludiant gan y Gwasanaethau Plant, darperir cludiant os nad yw Gwasanaethau Plant yn yn dewis cadw’r plentyn yn yr ysgol flaenorol er bod darpariaeth addas i’w gael mewn ysgol agosach o fewn y dalgylch. Mewn achosion o’r fath, y Gwasanaethau Plant fydd yn gyfrifol am y costau cludiant.

Os mai’r unig ddarpariaeth addysgol addas ar gyfer disgybl PMG gyda Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yw i barhau i fynychu’r un ysgol, bydd cludiant anghenion arbennig yn cael ei ddarparu yn heb gost i’r Gwasanaethau Plant.

Os yw’r Plentyn Mewn Gofal yn mynychu ysgol sydd yn agosach na’r isafswm pellter nodir yn adran 2.2, ni ddarperir cludiant am ddim.

2.13 **Preswyliaeth Ddeuol**

Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cludiant ar gyfer dysgwyr allai, oherwydd eu hamgylchiadau teuluol, fod yn preswylio mewn mwy nac un cartref; gydag o leiaf un cartref wedi ei leoli yn Ynys Môn. Er hynny, mae hyn ar yr amod mai'r ysgol fynychir yw'r ysgol addas agosaf o'r prif gartref, neu bod cytundeb mai honno yw'r ysgol fwyaf addas wedi ystyriaeth o leoliadau'r ddau gartref. **Mae'n rhaid darparu tystiolaeth o breswyliaeth ddeuol a'r prif gartref, fel arfer, yw'r un ble telir y budd-dal plant.**

**Os yw'r ail gartref o fewn ardal Awdurdod Lleol arall, yna cyfrifoldeb yr Awdurdod hwnnw yw i ystyried trefniadau trafnidiaeth ar gyfer y llwybr hwnnw i'r ysgol. <u>Dylai rhieni / gofalwyr felly wneud cais i'r Awdurdod Lleol priodol.</u>**

## 3.0 CLUDIANT YSGOL DEWISOL

### 3.1 Trefniadau Dewisol

O dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, gellir gwneud trefniadau dewisol dan adran 6 o'r Mesur. <u>Mewn rhai achosion gellir gwneud cost y fath drefniadau yn daladwy gan y rhiant / gofalwr sydd yn gyfrifol</u>.

### 3.2 Ysgolion Ffydd

Bydd yr Awdurdod, ar **sail dewisol**, yn ystyried ceisiadau am gludiant i'r ysgol Ffydd addas agosaf os mai hyn mae'r rhieni / gofalwyr yn ei ffafrio. Bydd hyn yn berthnasol hyd yn oed os nad yr ysgol honno yw'r ysgol addas agosaf ond ei bod o fewn ardal yr Awdurdod Lleol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol wrth wneud ei benderfyniad terfynol.

Mae'r meini prawf pellter yn adran 2.2 yn parhau i fod yn berthnasol.

### 3.3 Trefniadau Ysgolion Bwydo

Mae'r Awdurdod yn adnabod, ar sail dewisol, bod rhai ysgolion Cynradd yn ysgolion bwydo naturiol ar gyfer rhai ysgolion Uwchradd. Felly, mewn perthynas ag addysg Uwchradd, gellir darparu cludiant ysgol am ddim nail ai i'r ysgol Uwchradd addas agosaf neu i'r ysgol Uwchradd fwydo gydnabyddedig; cyn belled â bod y dysgwr yn byw dros y pellter yn y meini prawf yn adran 2.2, a bod cytundeb fod y daith yn rhesymol; dangosir y meini prawf hyn isod.

Mae’r Awdurdod â’r hawl i roi prawf rhesymoldeb i’r rhieni / gofalwyr hynny sydd yn gwneud cais am gludiant ysgol uwchradd ar sail ysgolion bwydo. Er mwyn derbyn cludiant am ddim ar y sail hwn mae’n rhaid i’r dysgwr:

- Fod wedi mynychu eu hysgol gynradd addas agosaf o leoliad eu cartref yn ôl yr asesiad ar yr adeg mynediad;

- Gwrdd â’r meini prawf pellter yn adran 2.2 ar gyfer ysgolion uwchradd.

- Os yw dysgwyr yn symud tŷ cyn dechrau yn yr ysgol uwchradd, bydd angen ail-asesu eu hawl, yn unol â’r meini prawf ddangosir yn adran 2;

- **Mewn achosion ble nad yw dysgwyr wedi mynychu eu hysgol gynradd addas agosaf drwy ffafriaeth rhieni / gofalwyr, <u>ni fydd</u> adran 3.3 yn weithredol.** Bydd yr asesiad o geisiadau ar gyfer cludiant ysgol wedyn yn cael eu sylfaenu ar yr ysgol uwchradd addas agosaf yn unig.

### 3.4 Cludiant Wedi 16 Oed

**<u>Nid</u> yw cludiant am ddim ar gael ar gyfer dysgwyr 16 i 19 oed.** Er hynny, gallai myfyrywr brynu Cerdyn Sedd Wag gan yr awdurdod addysg. Bydd angen iddynt dalu ffi (Adolygir y ffi yn flynyddol felly gwelwch y Wybodaeth i Rieni ddiweddaraf ar gyfer y ffi gyfredol, os gwelwch yn dda).

Darperir cludiant am ddim i ac o’r sefydliad addysgu agosaf sydd yn cynnig cwrs addas i ddisgyblion sydd ag AAA ble mae eu hasesiad o angen yn parhau i ddangos na allent ddefnyddio’r cludiant arferol a ddarperir, er eu bod wedi derbyn hyfforddiant symudedd / annibyniaeth. Nid yw’r ALI yn darparu hyfforddiant symudedd / annibyniaeth ar gyfer dysgwyr sy’n wynebu anawsterau gyda chludiant ond darperir hyfforddiant o’r fath gan yr ysgol / coleg ble bo’r angen.

Cyhoeddir cardiau Myfyrwyr Coleg gan safle priodol Grŵp Llandrillo Menai (Llangefni, Bangor and Glynllifon).

Cyhoeddir cardiau disgyblion ysgol gan y Swyddog Cludiant Addysg yn yr Adran Cludiant, Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Ffôn - 01248 752458.

Fe all bod cludiant ar gael o'r cartref i'r ysgol / coleg addas agosaf ar gyfer dysgwyr sydd:

- yn breswylwyr yn Ynys Môn;
- yn fyfyrwyr llawn-amser (h.y. sydd yn derbyn cyfarwyddyd ffurfiol am leiafswm o 15 awr yr wythnos);
- dan 19 oed ar Awst 31 neu sy'n dilyn cwrs sydd wedi dechrau cyn iddynt gyrraedd 19 oed;
- yn byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol / coleg addas agosaf yn ôl mesuriad o'r llwybr byrraf.

Tybir mai'r ysgol / coleg addas agosaf yw:

- Ysgol uwchradd y dalgylch;
- Yr ysgol uwchradd agosaf i'r cartref os nad ydyw o fewn dalgylch yr ysgol;
- I sefydliad addysg bellach cymeradwy o fewn y sir neu wedi ei leoli o fewn 15 milltir (wedi ei fesur ar hyd ffyrdd).

Darperir cludiant i ac o'r ysgol / coleg ar ddechrau a diwedd arferol y diwrnod ysgol. Fe all myfyrwyr sydd yn teithio i'r ysgol / coleg ar gerbydau sy'n cael eu gweithredu gan weithredwyr sydd yn rhedeg gwasanaethau eraill ar yr un llwybr gael y cynnig i deithio y tu allan i'r oriau hyn.

Mae'n rhaid i ddisgyblion chweched dosbarth ysgol sydd yn gwneud cais am gerdyn bws wneud hynny unwaith maent wedi derbyn eu canlyniadau TGAU.

Fe all disgyblion o deuluoedd incwm isel sydd am barhau mewn addysg y tu hwnt i'r oed statudol gadael ysgol wneud cais am Lwfans Cynhaliaeth Addysg Llywodraeth Cymru. Gellir defnyddio hwn wedyn i gyfrannu tuag at gostau cludiant. Gwefan LCA yn www.studentfinancewales.co.uk / Llinell Gymorth 0845 602 8845.

## 3.5 Aildrefnu Ysgolion

Mewn achosion ble mae aildrefnu ysgol wedi cymryd lle, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried yr opsiynau mwyaf addas ar gyfer cludiant ysgol. Gallai hyn gynnwys darparu cludiant am ddim am gyfnod amser

penodedig yn ddibynnol ar yr amgylchiadau. Bydd trefniadau o'r fath yn cael eu darparu **ar sail dewisol** a'u cofnodi o fewn y broses aildrefnu; fel bod ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni / gofalwyr perthnasol, ac unrhyw randdeiliaid eraill oll yn ymwybodol o dermau'r trefniant.

## 3.6 Symud Cartref

Mewn achosion ble mae dysgwr, sydd wedi bod yn derbyn cludiant ysgol am ddim, yn symud cartref rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn academaidd, bydd y cludiant yn dod i ben os nad ydynt bellach yn mynychu eu hysgol addas agosaf.

Os ydynt ran o'r ffordd drwy flwyddyn TGAU (blynyddoedd ysgol 10 ac 11) bydd yr Awdurdod yn parhau i ddarparu cludiant **dewisol** nes cwblhau'r blynyddoedd academaidd, h.y. hyd diwedd blwyddyn 11.

Mae'r ymgymeriad hwn yn ddibynnol ar i'r dysgwr fod yn preswylio fel arfer o fewn ardal yr Awdurdod. **Noder: Mae'r Awdurdod Lleol â'r hawl i brofi rhesymoldeb y cais am gludiant o dan yr amod hwn, gan ystyried y pellter, amser y daith a'r agosrwydd at sefydliadau addas eraill.**

Bydd pob ailasesiad arall o gymhwyster yn dilyn y meini prawf sydd wedi eu gosod allan yn adran 2. Ni fydd yr adran yma'n berthnasol ble mae rhieni / gofalwyr wedi ymarfer eu dewis yn unol â'r manylion yn adran 2.7.

## 3.7 Trosglwyddiadau Ysgol Wedi'u Rheoli

Ble mae trosglwyddiadau ysgol wedi'u rheoli yn cael eu cefnogi gan bennaeth yr ysgol gyrchfan a'r Gwasanaethau Addysg, bydd y rhieni / gofalwyr yn ymwybodol o'r gweithredu hwn ac yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau hyn ar lefel ysgol. Fe all cludiant ysgol gael ei gefnogi ar **sail dewisol** yn yr amgylchiadau hyn ble mae'n ffurfio rhan o'r gweithredu gyda chytundeb yr holl bartïon er mwyn mynd ar drywydd newid ysgol er budd y dysgwr.

Cyfrifoldeb y rhiant / gofalwr yw sicrhau eu bod yn ymgysylltu'n llawn gyda'r Awdurdod a'r ysgol wrth fynd ar drywydd trosglwyddiad wedi'i reoli. Mae angen dilysu'r materion hyn ac i dystiolaeth fod ar gael. Mae hyn yn galluogi i'r Adran Dysgu wneud penderfyniad gwybodus yn seiliedig ar y dystiolaeth sy'n cefnogi'r cais am gludiant.

Ble nad oes tystiolaeth ar gael, ac / neu ble mae rhiant / gofalwr yn gwrthod ymgysylltu gyda'r ysgol a'r Gwasanaethau Addysg, yna bydd

y cais am gludiant yn cael ei wrthod. Bydd hyn yn seiliedig ar ddiffyg argaeledd tystiolaeth er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus.

**3.8 Diddymiad Cludiant Dewisol**

Gall Awdurdod Lleol ddiddymu darpariaethau cludiant ysgol dewisol, cyn belled â'i fod wedi cytuno a chyhoeddi'r newidiadau perthnasol i'r polisi cyn Hydref 1af y flwyddyn flaenorol i'r flwyddyn academaidd pan fydd y newidiadau yn dod i rym.

**3.9 Darpariaethau Dewisol Eraill**

Gellir gwneud trefniadau dewisol eraill ynglŷn â chludiant ysgol o dan adran 6 o'r Mesur. Gall y Pennaeth Dysgu ddefnyddio'r pwerau hyn ar gyfer cludiant am ddim mewn achosion megis:

- Diogelu dysgwr, neu ble mae'n debygol y bydd effaith niweidiol arwyddocaol ar les y dysgwr hwnnw / honno;

- Gall cludiant ar sail feddygol hefyd fod yn berthnasol o dan y meini prawf hyn, yn cynnwys achosion ble mae anabledd ar y rhiant sydd yn cyfyngu gallu dysgwr i deithio i'r ysgol heb gludiant **am gyfnod o amser**; neu ble mae dysgwr yn analluog **dros dro** drwy salwch neu anaf;

- Cartrefu teulu dros dro y tu allan i'r ardal breswyl flaenorol oherwydd argyfwng, drwy Wasanaeth Tai yr Awdurdod fel arfer, er mwyn lleihau'r amhariad i'r addysg.

Nid yw'r rhestr yma'n gynhwysfawr ac efallai y bydd amgylchiadau eraill ble gellir defnyddio disgresiwn; er hynny, er mwyn sicrhau cysondeb mewn ymagwedd o ran disgresiwn, **gellir gofyn am dystiolaeth gan weithwyr proffesiynol perthnasol ac fe gofnodir yr asesiad.**

Ble rhoddir trefniadau tymor byr gyda disgresiwn yn eu lle bydd yr Awdurdod yn hysbysu rhieni / gofalwyr ynghylch pryd bydd y trefniadau hyn yn dod i ben.

## 4.0 GWNEUD CAIS AM GLUDIANT

4.1 Mae angen cais am gludiant ysgol / coleg addysg bellach pan yn:

- Dechrau yn yr Ysgol Gynradd **(nid meithrin);**
- Dechrau yn yr Ysgol Uwchradd;

- Mynd o flwyddyn 11 i'r chweched dosbarth / coleg addysg bellach; neu
- Newid lleoliad y cartref neu ysgol.

4.2 Gellir gwneud ceisiadau am gardiau bws drwy gael y ffurflen berthnasol gan yr ysgol neu, fel arall, drwy gysylltu â'r Adran Trafnidiaeth 01248 752458 / 01248 752456.

Gwneir ceisiadau ar gyfer cludiant tacsi **drwy'r ysgol / coleg** – **ni dderbynir ceisiadau ar gyfer cludiant tacsi sydd wedi eu gwneud yn uniongyrchol i'r Awdurdod gan rieni / gofalwyr.**

4.3 Bydd yr Awdurdod yn eich hysbysu (neu'n hysbysu'r ysgol / coleg os yw'r cais mewn perthynas â chludiant tacsi) ynghylch canlyniad y cais o fewn **15 diwrnod gwaith** wedi iddynt dderbyn y cais.

4.4 Os yw eich amgylchiadau yn newid yn ystod y flwyddyn ysgol, mae'n rhaid i chi hysbysu'r Awdurdod Lleol. Os, fel esiampl, eich bod yn symud cartref yn ystod y flwyddyn ysgol, yna bydd eich trefniadau cludiant cyfredol yn cael eu dileu a bydd angen i chi ail-wneud cais am gludiant ysgol ar yr adeg honno. Os ydych yn gwneud cais am gludiant yn ystod y flwyddyn ysgol, gwnewch hynny mor fuan ac y gallwch wedi cadarnhad am eich cyfeiriad newydd os gwelwch yn dda.

**PWYSIG** – Cynghorir rhieni / gofalwyr i ystyried goblygiadau cludiant ysgol. Mae adran 2.3 yn darparu gwybodaeth ar yr ysgol addas agosaf ac adran 3.6 ar symud cartref.

4.5 Mae manylion llawn ynghylch yr holl faterion sy'n gysylltiedig â chludiant i'w cael yn nogfen Gwybodaeth i Rieni Cyngor Sir Ynys Môn.

## 5.0 GWYBODAETH ARALL

### 5.1 Addysg Feithrin

Nid yw'r Awdurdod yn darparu cludiant ar gyfer plant sy'n mynychu ysgol feithrin na dosbarthiadau meithrin pan maent yn 3 neu 4 oed. Darperir cludiant ar gyfer plant cymwys o ddechrau'r flwyddyn ysgol ble mae'r plentyn yn cyrraedd 5 oed ac yn dechrau mewn addysg llawn amser, fel arfer yn y dosbarth derbyn.

## 5.2 Dosbarthiadau y Tu Allan i'r Ysgol

Ni fydd yr Awdurdod yn darparu cludiant y tu allan i'r ysgol (h.y. clwb brecwast, clybiau ar ôl ysgol a.y.y.b.) neu weithgareddau allgyrsiol sydd y tu hwnt i'r cwricwlwm statudol. Cyfrifoldeb y rhiant / gofalwr yw sicrhau bod trefniadau cludiant addas yn eu lle os ydynt yn gwneud defnydd o'r gwasanaethau hyn.

## 5.3 Hyd y Daith

Ble mae'n bosib, mae'r Awdurdod yn cadw at Teithio gan Ddysgwyr: Arweiniad Gweithredol gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae hwn yn caniatáu uchafswm o 60 munud o amser teithio ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd, ac uchafswm o 45 munud o amser teithio ar gyfer disgyblion ysgol gynradd. Tybir bod taith gerdded o 1 filltir i fan codi'r bws yn rhesymol.

## 5.4 Newidiadau Polisi

Os bydd yn angenrheidiol i newid y polisi hwn, mae 'n rhaid i'r Awdurdod ddilyn y gofynion fel y maent wedi eu gosod allan yn Rheoliadau Gwybodaeth Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol ar yr Awdurdod i ymgynghori, cytuno a chyhoeddi newidiadau i'r polisi cyn Hydref 1af y flwyddyn flaenorol i'r flwyddyn academaidd pan fydd y newidiadau yn dod i rym.

Os bydd angen, gall yr Awdurdod hefyd roi arweiniad eglurhad ychwanegol ochr yn ochr â'r polisi hwn. Bydd unrhyw arweinia o'r fath ar gael ar wefan yr Awdurdod.

## 5.5 Effaith Cludiant

Dylai rhieni / gofalwyr ystyried goblygiadau eu dewis o ysgol ar y defnydd o geir preifat a'r effaith y gallai hyn ei gael ar draffic y tu allan i'r ysgol o ddewis. Mae'r Awdurdod yn annog rhieni / gofalwyr i ystyried cludiant llesol a chynaliadawy i'r ysgol o ddewis. Gweler adran 5.6 isod.

Anogir ysgolion hefyd i weithio gyda rhieni / gofalwyr a'r Awdurdod i ystyried opsiynau ar gyfer datblygu cyfleusterau 'bws gerdded' llesol a diogel i'r ysgol. Dylai rhieni / gofylwyr gysylltu â'u hysgol i ymholi ynghylch darpariaethau o'r fath. Mae swyddogion Diogelwch Ffyrdd a Thrafnidiaeth Cynaliadwy yr Awdurdod hefyd ar gael i ddarparu arweiniad.

## 5.6 Dulliau Teithio Cynaliadwy

Dylai rhieni / gofalwyr ystyried opsiynau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol. Darperir dolenni perthnasol yn adran 9 i wybodaeth ar Lwybrau Teithio Llesol ar wefannau Ynys Môn a Sustrans, sydd yn dangos llwybrau beicio ar draws y sir.

## 6.0 DARPARIAETH CLUDIANT

### 6.1 Darpariaeth Cludiant y Cyngor

Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i ddarparu'r dull cludiant mwyaf addas ar gyfer pob dysgwr cymwys sydd yn ddiogel ac yn rhoi'r dull cludiant mwyaf cost effeithiol. Efallai y bydd hyn ar fws, coets, bws mini, neu gytundebau tacsi, neu ar gludiant cyhoeddus sy'n bodoli eisioes.Trefnir a rheolir y gwasanaethau a'r cytundebau cysylltiedig gan Adran Trafnidiaeth Ynys Môn.

### 6.2 Cludiant Consesiynol

Os nad yw dysgwr yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol am ddim yn unol â'r polisi hwn, a ble mae seddi gwag ar gael ar wasanaeth bws yr Awdurdod gellir cynnig y seddi hyn fel seddi consesiynol ('*concessionary seats*'). Bydd yr amodau canlynol yn berthnasol:

- Bydd taliad tymhorol rhesymol yn cael ei osod. Adolygir hyn yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ysgol newydd. Os yw'r Awdurdod yn caniatáu consesiwn, yna codir taliad ar sail tymhorol ar y rhieni / gofalwyr. Os yw dysgwr ond yn defnyddio'r gwasanaeth yn rhannol, h.y. ddim ond yn y bore neu'r prynhawn ar ddyddiau penodol, yna bydd y taliad tymhorol llawn yn parhau i fod yn daladwy.

- Gall rhieni / gofalwyr wneud cais am gonsesiwn ar gyfer eu plentyn ar unrhyw adeg. Delir gyda cheisiadau yn y drefn y maent wedi eu derbyn ac mae'n rhaid i'r rhai hynny sydd wedi eu cytuno dalu yn dymhorol. Os yw rhiant / gofalwr yn llwyddiannus wrth wneud cais mewn blwyddyn flaenorol, yna nodir eu gofyniad parhaus o flaen ceisiadau newydd. Er hynny, ni ellir sicrhau consesiynau hyd nes y bydd y nifer o seddi gwag wedi ei benderfynu, unwaith y bydd dysgwyr cymwys wedi cyfrif ar gyfer cerbyd penodol. Ni all yr Adran Drafnidiaeth felly gadarnhau consesiynau cyn dechrau'r flwyddyn academaidd ac fe all gymryd nifer o wythnosau i benderfynu argaeledd seddi gwag ar unrhyw wasanaeth penodol.

- Gellir dileu consesiynau ar fyr rybudd os na fydd seddi ar gael neu os bydd eu hangen ar gyfer dysgwr cymwys. Mewn achosion o'r fath, bydd cyfrifiad o'r ad-daliad cyfrannol ac fe fydd yn cael ei ddychwelyd i'r rhiant / gofalwr. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhoddir rhybudd ysgrifenedig o saith diwrnod.

- Ni ellir cyhoeddi cardiau consesiynol ar fyr rybudd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd oherwydd bod angen adnabod os oes seddi gwag ar gerbydau sydd wedi eu contractio.

- Ni fyddai seddi consesiynol fel arfer yn cael eu cynnig ble mae cludiant cyhoeddus yn rhedeg ochr yn ochr â chludiant ysgol neu ble mai cludiant cyhoeddus yw'r unig opsiwn sydd ar gael. Yn y fath amgylchiadau, disgwylir i rieni / gofalwyr wneud defnydd o'r cludiant cyhoeddus sydd ar gael.

## 6.3 Taliadau Cludiant

Efallai y bydd amgylchiadau ble gellir cynnig taliad enwol *('nominal')* i rieni tuag at y gost o gludo eu plant. Mae hwn yn opsiwn a ddefnyddir mewn **amgylchiadau eithriadol** yn unig, ac os oes anawsterau wrth drefnu cludiant ysgol ar gyfer dysgwyr cymwys. Nid oes unrhyw orfodaeth ar rieni / gofalwyr i dderbyn y cynnig o ad-daliad a fyddai fel arfer yn gyfradd y filltir wedi ei osod am y ddwy daith yn ôl ac ymlaen yn ddyddiol. Er hynny, mae'n bosib y tybir mai hwn yw'r dull cludiant mwyaf rhesymol.

## 6.4 Yr Hawl i Ddileu Cludiant

Os caiff ei ddarganfod yn ddiweddarach bod cludiant am ddim wedi ei ddarparu mewn camgymeriad, e.e. llwybr wedi ei fesur yn anghywir, mae gan y Cyngor yr hawl i ddileu'r cludiant, yn amodol ar roi rhybudd rhesymol (fel arfer hyd diwedd y tymor ble darganfyddir y camgymeriad).

Ble mae amgylchiadau wedi newid, e.e. ble mae llwybrau newydd wedi eu darparu a.y.y.b. mae gan y cyngor yr hawl i ddileu cludiant am ddim ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

## 6.5 Ymddygiad ar Gludiant

Mae disgwyl i ddysgwyr sydd yn teithio ar gerbydau gwasanaeth neu gontract sydd yn cael eu darparu gan yr Awdurdod ymddwyn yn dda bob amser ac i gydymffurfio â gofynion y Côd Ymddygiad Wrth Deithio, gweler Atodiad 2.

**Fe all unrhyw ddysgwyr sydd yn camymdwyn, yn achosi, neu sydd mewn perygl o achosi, difrod neu anaf i'r cerbyd, i'r gyrrwr neu i'r teithwy, neu fygwth diogelwch teithwyr eraill ac / neu'r cerbyd, mewn unrhyw ffordd gael eu cymhwyster ar gyfer cludiant wedi ei ddileu.** Bydd unrhyw ddysgwyr sydd ddim yn gymwys i dderbyn cludiant ysgol am ddim ond sydd yn teithio ar wasanaethau contract as sail consesiynol, hefyd yn amodol ar yr un rheolau.

Mae ymddygiad dysgwyr ar wasanaethau cludiant ysgol o'r pwysigrwydd uchaf, felly disgwylir i rieni / gofalwyr gefnogi'r Awdurdod, yr ysgolion, gweithredwyr cludiant a'u staff er mwyn cynnal ymddygiad da. **Dylid deall yn eglur mai'r sancsiwn terfynol <u>yw i ddileu yr hawl i dderbyn cludiant.</u> Mewn achosion o'r fath, bydd y cyfrifoldeb a'r llawn gost am gludiant i ac o'r ysgol wedyn yn syrthio ar y rhiant / gofalwr.**

Mae'r Awdurdod yn annog adborth gan ddarparwyr gwasanaeth ac ysgolion ynglŷn â'r defnydd o'r gwasanaethau cludiant ysgol a ddarperir. Cynhelir gofnod o'r digwyddiadau ac unrhyw archwiliadau cysylltiedig. Os oes angen, hysbysir rhieni / gofalwyr ynghylch unrhyw ddigwyddiadau os gellir dangos mai plentyn neu blant sydd wedi bod yn gyfrifol am achosi problemau.

**Dylai rhieni fod yn ymwybodol y gall bysiau ysgol fod wedi eu gosod â chamerâu CCTV sydd yn cael eu gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol.**

## 6.6 Amodau defnyddio Cardiau Teithio

Mae'n rhaid cyflwyno cardiau teithio i'r gyrrwr bws ar ddechrau pob taith a wneir. Gellir gwrthod cludiant os na ddangosir y cerdyn teithio. Nid yw cardiau teithio yn drosglwyddadwy, ac maent yn ddilys ar gyfer y dysgwr enwebedig yn unig ac ar gyfer y siwrnai ddangosir ar y cerdyn yn unig. Bydd camddefnydd neu ddefnydd twyllodrus o'r cerdyn teithio yn cael ei drin yn ddifrifol iawn, a gallai arwain at ddysgwr yn gwynebu gweithdrefn ddisgyblu yr ysgol / coleg yn ychwanegol i golli eu hawl i deithio.

Os yw unrhyw fanylion yn newid o'r ffurflen gais wreiddiol, mae'n rhaid i chi gysylltu ag Adran Trafnidiaeth yr Awdurdod ar unwaith, er mwyn galluogi diwygio'r manylion ac ailasesu'r cymhwyster ar gyfer cludiant os oes angen. Os oes angen cerdyn teithio newydd fe canlyniad i newid o'r fath, mae'n rhaid dychwelyd y cerdyn presennol ynghyd â'r cais. Os nad oes angen y cerdyn mwyach, dychwelwch y cerdyn i

Adran Trafnidiaeth yr Awdurdod, os gwelwch yn dda, oherwydd gallai bod dysgwyr eraill sy'n dymuno cymryd y sedd sydd wedi ei neilltuo.

6.7 **Monitro'r Gwasanaethau**

Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i wirio, ar hap, wasanaethau cludiant ysgol i sicrhau bod y rhai hynny sydd yn teithio i gyd yn gymwys. Ble canfyddir bod dysgwyr sydd ddim yn gymwys yn teithio, bydd yr Adran Trafnidiaeth yn cofnodi'r achosion hyn ac yn cysylltu â'r rhieni / gofalwyr perthnaol er mwyn eu hysbysu am eu dewisiadau.

6.8 **Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG / *'DBS'*)**

Mae Adran Trafnidiaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn rheoli ac yn trefnu yr holl gytundebau cludiant ysgol angenrheidiol gyda'r darparwyr gwasanaeth priodol. Mae hyn yn cynnwys cwblhau gwiriadau GDG ar gyfer pob gyrrwr ac ar gyfer pob Cymhorthydd Teithiwr ysgol. Noder: cyflogir Cymorthyddion Teithiwr, ble tybir yn addas, ar Wasanaethau Ysgol Cynradd yn unig, neu os yw Anghenion Dysgu Ychwanegol y plentyn yn golygu ei fod yn addas.

6.9 **Amodau Tywydd Anffafriol**

Gall tywydd anffafriol gael effaith ar wasanaethau cludiant ysgol a'u darpariaeth barhaus; felly, gyda diogelwch o'r pwysigrwydd blaenaf, bydd y darparwyr cludiant yn cymryd y penderfyniad yn y pen draw os bydd gwasanaeth yn gweithredu. Mewn tywydd difrifol, yn enwedig os yw rhagolygon yn rhagfynegi tywydd yn gwaethygu, cynghorir contractwyr i beidio rhedeg eu gwasanaethau.

Bydd yr Adran Trafnidiaeth yn gwneud pob ymdrech i hysbysu ysgolion pan mae'n debygol y bydd amhariad i gludiant o'r cartref i'r ysgol. Bydd manylion am newidiadau o'r fath hefyd ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol bod rhai ysgolion â'r gallu i decstio rhieni / gofalwyr gyda gwybodaeth unwaith mae'r Adran Trafnidiaeth wedi eu hysbysu. Mae'n bwysig felly bod rhieni / gofalwyr yn sicrhau bod eu manylion cyswllt sydd gan yr ysgol yn gyfredol bob amser.

Mae'n ofynnol ar y contractwyr hynny sydd yn darparu gwasanaethau tacsi bwydo hefyd i gysylltu â rhieni / gofalwyr yn uniongyrchol gydag unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau yn ystod tywydd anffafriol, neu am unrhyw reswm arall. Bydd gwybodaeth am gau ysgolion oherwydd tywydd anffafriol, neu oherwydd unrhyw reswm arall, hefyd yn cael ei bostio ar wefan Ynys Môn. Anogir rhieni / gofalwyr i edrych ar y wefan ar gyfer diweddariadau o'r fath.

## 7.0 APELIADAU

7.1 Hysbysir y rhiant / gofalwr, fel arfer, yn ysgrifenedig, o fewn 15 diwrnod gwaith os yw cais am gludiant ysgol yn aflwyddiannus. Bydd yr Awdurdod hefyd yn cynnig y cyfle i'r rhiant / gofalwr apelio'r penderfyniad ac yn cynghori ar y broses isod.

7.2 **Cam 1 – Adolygiad o'r Penderfyniad**

Mae'n rhaid gyrru cais i adolygu penderfyniad Cludiant Dysgwr i'r Awdurdod o fewn 20 diwrnod gwaith yn dilyn dyddiad y gwrthodiad cychwynnol. Dylai rhieni / gofalwyr ysgrifennu at yr Awdurdod yn nodi eu dymuniad i adolygu'r penderfyniad.

Dylid gyrru'r cais hwn at addysg@ynysmon.gov.uk gan ddatgan y rhesymau a nodi unrhyw amgylchiadau perthnasol allai effeithio'r penderfyniad. Dylid darparu hefyd unrhyw dystiaeth i gefnogi'r amgylchiadau hyn i'r Awdurdod Lleol. Gellir postio'r wybodaeth ychwanegol yma a'r apêl i'r cyfeiriad a ganlyn:

**Adran Dysgu**
**Cyngor Sir Ynys Môn,**
**Swyddfeydd y Cyngor**
**Llangefni**
**LL77 7TW**

O fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn y cais ysgrifenedig, bydd Uwch Swyddog o Cefnogaeth Addysg yn adolygu'r penderfyniad gwreiddiol ac yn ymateb gan fanylu ar y canlyniad. Bydd yr ymateb hwn yn amlinellu:

- Natur y penderfyniad;
- Sut cynhaliwyd yr adolygiad;
- Gwybodaeth am adrannau / asiantaethau eraill yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r broses;
- Pa ffactorau a ystyriwyd;
- Y rhesymeg dros y penderfyniad;
- Gwybodaeth ynghylch cynyddu i Cam 2, os yn briodol

Nodwyd y bydd cofnodion adolygiadau ac apeliadau blaenorol yn cael eu cadw gan Cefnogaeth Addysg er mwyn sicrhau cysondeb ymagwedd. Os yw unrhyw wybodaeth gefnogol ychwanegol ddarparwyd gan rieni / gofalwyr yn gyson ag adolygiadau blaenorol

sydd wedi eu cadarnhau, yna efallai na fydd angen apêl Cam 2 ac, yn dilyn asesiad, fe hysbysir y rhiant / gofalwr perthnasol o'r canlyniad.

### 7.3 Cam 2 – Apêl

O fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn hysbysiad penderfyniad Cam 1, gall rhieni / gofalwyr wneud cais i gynyddu'r mater i Apêl Cam 2.

O fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn cais Cam 2, cynullir banel apêl annibynnol i ystyried yr apêl.

Bydd panel o swyddogion annibynnol yn ystyried yr apêl yn erbyn y polisi Cludiant Ysgol and yn gwneud penderfyniad yn seiliedig ar y wybodaeth ddarparwyd. Ni fydd unrhyw aelod o'r panel apêl wedi bod yn rhan o'r penderfyniad cludiant gwreiddiol. Bydd cyfarfod y panel yn cael ei gofnodi a'r cofnodion ar gael. Bydd y panel yn ystyried yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd wedi ei ddarparu i gefnogi'r apêl. Os dymunent hynny, gall rhieni / gofalwyr fynychu'r cyfarfod er mwyn rhoi crynodeb o'r apêl. Bydd cyfle hefyd i swyddogion Cefnogaeth Addysg roi manylion eu hasesiad hwy i'r panel.

Yn dilyn gwrandawiad yr apêl, hysbysir y rhiant / gofalwr yn ysgfifenedig o'r canlyniad gan Cefnogaeth Addysg. Bydd yr ymateb yn gosod allan y wybodaeth a ganlyn:

- Natur y penderfyniad;
- Sut cynhaliwyd yr adolygiad;
- Gwybodaeth am adrannau / asiantaethau eraill yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r broses;
- Pa ffactorau a ystyriwyd;
- Y rhesymeg dros y penderfyniad;
- Gwybodaeth ynghylch cynyddu i'r Ombwdsmon Llywodraeth Lleol

Yn dilyn y penderfyniad hwn nid oes seiliau pellach i apelio i'r Awdurdod Lleol. Byddai unrhyw gynnydd pellach i'r Ombwdsmon Llywodraeth Lleol

## 8.0 MANYLION CYSWLLT

### 8.1 Ceisiadau Cludiant

Ar gyfer ymholiadau sy'n gysylltiedig â cheisiadau:

Cardiau Bws: IWHHT@ynysmon.gov.uk / ampht@ynysmon.gov.uk

Tacsi: cysylltwch â'r ysgol berthnasol neu addysg@ynysmon.gov.uk os gwelwch yn dda

8.2 **Adran Trafnidiaeth**

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â materion gwasanaeth gweithredol, ebostiwch IWHHT@ynysmon.gov.uk / ICXPL@ynysmon.gov.uk os gwelwch yn dda, neu ffoniwch 01248 752458 / 01248 752455.

8.3 **Cludiant 14-19**

Ar gyfer ymholiadau cludiant rhyng-sefydliad ar gyfer y rhwydwaith dysgu 14-19 learning network, ebostiwch: ElfedMorris@gwynedd.llyw.cymru os gwelwch yn dda, neu ffoniwch 01286 679925.

8.4 **Cwynion Cludiant**

Os dymunwch wneud cwyn, ebostiwch IWHHT@ynysmon.gov.uk / ICXPL@ynysmon.gov.uk os gwelwch yn dda, neu ffoniwch 01248 752458 / 01248 752455.

8.5 **Mynediadau Ysgol**

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â Mynediadau Ysgol ebostiwch DAJED@ynysmon.gov.uk / 01248 752915 os gwelwch yn dda.

8.6 **Cludiant ADY**

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â Chludiant ADY cysylltwch ar 01286 679007 os gwelwch yn dda.

## 9.0 CYSYLLTIADAU I DDOGFENAETH BERTHNASOL

**The Learner Travel (Wales) Measure 2008**
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2/pdfs/mwa_20080002_en.pdf
Ar gael yma

**Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**
http://www.legislation.gov.uk/mwa/2008/2/pdfs/mwa_20080002_we.pdf
Ar gael yma

**Learner Travel Statutory Provision and Operational Guidance 2014**
http://gov.wales/docs/dcells/publications/140616-ltog-en-v2.pdf
Ar gael yma

**Teithio gan Ddysgwyr Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol Mehefin 2014**
http://gov.wales/docs/dcells/publications/140616-ltog-cy-v2.pdf
Ar gael yma

**The Travel Behaviour Code**
http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/LArner-travel/travel-code/?lang=en
Ar gael yma

**Côd Ymddygiad wrth Deithio**
http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/LArner-travel/travel-code/?skip=1&lang=cy
Ar gael yma

**Learner Travel Information (Wales) Regulations 2009.**
**Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009**
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/569/pdfs/wsi_20090569_mi.pdf
Ar gael yma

**Learner Travel Information (Wales) Regulations 2009.**
**Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009**
http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/569/pdfs/wsi_20090569_mi.pdf
Available by clicking here

**Links to Active Travel pages on the Anglesey website:**

**Active Travel (Wales) Act 2013**
http://www.anglesey.gov.uk/transport-and-roads/active-travel/
Available by clicking here

**Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**
http://www.ynysmon.gov.uk/trafnidiaeth-a-ffyrdd/teithio-llesol?redirect=false
Available by clicking here

**Tudalennau diogelwch ar y ffyrdd/cycling:**

**Road Safety - Cycling**
http://www.anglesey.gov.uk/transport-and-roads/public-rights-of-way/walking-cycling-and-horseriding/road-safety-cycling/100346.article
Ar gael yma

**Diogelwch ar y Ffordd - Beicio**
http://www.ynysmon.gov.uk/trafnidiaeth-a-ffyrdd/hawliau-tramwy-cyhoeddus/cerdded-beicio-a-marchogaeth/diogelwch-ar-y-ffordd-beicio/346.article?redirect=false
Ar gael yma

## 10.0 ATODIAD 1 – YSGOLION BWYDO

## 11.0 ATODIAD 2 – CÔD YMDDYGIAD BWS YSGOL

Cyngor Sir Ynys Môn - **Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb**

| **Hanes adolygu:** | | |
|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Crynodeb o'r newidiadau** |
| | | |
| | | |
| | | |

| **Cam 1: Y Cefndir** | |
|---|---|
| **1 - Beth sy'n cael ei asesu?** | Effaith y Polisi Cludiant newydd |
| **2 - Ydy'r cynnig hwn yn un newydd neu'n un sydd eisoes yn bodoli?** | Newydd |
| **3 - Beth yw nodau a phwrpas y cynnig hwn?** | Diweddaru'r polisi cyfredol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb, tegwch a gwerth am arian o ran gweithredu ein dyletswyddau statudol. |
| **4 - Pwy sy'n gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?** | Gwasanaeth Dysgu |
| **5 - Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?** | Enid Christie / Arwyn Williams |
| **6 - Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad hwn?** | Bethan Edwards |

| Cam 1: Y Cefndir | |
|---|---|
| **7 – A oes cyswllt rhwng y cynnig hwn a meysydd gwaith eraill?**<br><br>Er enghraifft, oes una unrhyw gynigion neu bolisïau eraill y dylid eu hystyried wrth asesu'r effaith? | - |
| **8 - Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig/cynigion (yn negyddol neu'n gadarnhaol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol)?** | Teuluoedd nad ydynt bellach yn gymwys am gludiant am ddim. |

| 9 – A yw'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus mewn perthynas â phobl sy'n cael eu gwarchod gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? | Ydy' | Nac ydy' |
|---|---|---|
| **Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu** | √ | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | √ | |
| **Meithrin perthynas dda** | √ | |
| **Diogelu a hyrwyddo hawliau dynol** | √ | |
| Noder: Fel rheol, mae unrhyw gynnig sy'n effeithio pobl yn debygol o fod yn berthnasol ar draws pob grwp a warchodir. | | |

| **Cam 2: Casglu gwybodaeth** | |
|---|---|
| **10 - A yw'r cynnig hwn yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor Sir?** | Ydy |
| **11 - Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a / neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd?** | Amherthnasol |
| **12 – A fydd y maes gwaith hwn yn gwneud ymdrech ragweithiol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg i ddefnyddwyr?** | Cymhwysedd iaith yn faen prawf yn y broses dendr |
| **13 – A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?** | Bydd, hefyd yn cyflogi cwmnïau lleol |
| Mae **Atodiad 1** i'r Canllawiau Asesu Effaith yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylid eu hystyried wrth edrych sut bydd cynigion yn effeithio ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol. Bydd pa mor berthnasol yw'r cwestiynau hyn yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Y bwriad yw gwneud i chi feddwl am effaith neu gyfraniad ehangach posibl ac mae modd eu defnyddio fel sail i ystyried cwestiynau 10 - 13 uchod.<br><br>Fodd bynnag, wrth edrych ar sut fyddai **prif** bolisïau a strategaethau'r Cyngor yn effeithio ar y Gymraeg, argymhellir y dylid ystyried y cwestiynau hyn yn fwy manwl er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr – **mae templed ar wahân ar gael gyda'r papurau hyn ar MonITor, i chi gwblhau os fyddai hynny'n briodol.** | |
| **14 – A oes unrhyw faterion sydd angen eu hystyried o ran Hawliau Dynol? Os oes, beth yw'r materion hyn?**<br>(Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu a diogelu'r hawl i breifatrwydd?)<br><br>(Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn Atodiad 1). | N/A |

| Cam 2: Casglu gwybodaeth | | |
|---|---|---|
| **15 – A yw'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**<br><br>(Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn Atodiad 2) | Cymru lewyrchus | √ |
| | Cymru gydnerth | √ |
| | Cymru iachach | √ |
| | Cymru sy'n fwy cyfartal | √ |
| | Cymru o gymunedau cydlynus | √ |
| | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | √ |
| | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | √ |
| **16 - Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn o ran cyfranogiad ac ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig yma?** | Wedi ymgynghori gyda rhanddeiliaid | |
| **17 – Ydych chi wedi defnyddio unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r cynnig fel rhan o'ch asesiad? Os hynny, nodwch y manylion yma.** | - | |
| **18 – A oes unrhyw fylchau yn yr wybodaeth a gasglwyd hyd yma?<br>Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?** | - | |

## Cam 3: Asesu’r effaith debygol ac adnabod camau lliniaru

**19 - Nodwch isod unrhyw effaith debygol o safbwynt cydraddoldeb ar y grwpiau unigol, ynghyd ag adnabod pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella’r effeithiau hyn.**
*Er mwyn penderfynu natur yr effaith debygol, dewiswch un o’r canlynol os gwelwch yn dda – **Negyddol / Cadarnhaol / Dim effaith**

| Y grwp a warchodir | *Yr effaith debygol | Manylion am yr effaith | Camau i liniaru effaith negyddol |
|---|---|---|---|
| **Oed** | | Dim effaith neilltuol ar unrhyw grwp unigol | |
| **Anabledd** | | | |
| **Rhyw** | | | |
| **Newid Rhyw** | | | |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | | | |
| **Hil / Ethnigrwydd / Cenedligrwydd** | | | |
| **Crefydd neu Gred** | | | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | | | |
| **Yr iaith Gymraeg** | | | |
| **Hawliau Dynol** | | | |
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** | | | |
| **Unrhyw fater arall perthnasol, e.e. tlodi, mynediad at wasanaethau mewn ardaloedd gwledig** | | | |

| Cam 4: Canlyniad yr asesiad | |
|---|---|
| **20 - Nodwch y prif effeithiau sydd wedi cael eu hadnabod a sut y bwriedir lliniaru'r effeithiau negyddol** (sef crynodeb o'r tabl uchod). | Dim effaith |
| **21 – A oes strategaeth ar gyfer delio gydag unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nac eu lliniaru?** | Anghenion disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn cael eu trafod gan y fforwm addysg. A darperir cludiant addas yn ôl y gofyn. |
| **22 - Disgrifiwch unrhyw weithredu a wnaed neu a fwriedir i wneud y mwyaf o'r cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a/neu nodau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynaliadwyedd).** **(**Rhestrir y saith nod llesiant yn Atodiad 2) | Gweithredu yn cyd-fynd â'r amcanion. |
| **23 - A oes angen ail-ystyried y cynnig o ganlyniad i gynnal yr asesiad yma?**<br><br>(Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os rydych chi wedi adnabod effaith negyddol, dylid ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma). | Na |
| **24 - A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth? Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?** | Gwasanaeth Dysgu mewn ymgynghoriad a'r Uwch Dim Arweinyddiaeth / Aelodau Etholedig |
| **25 - Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?** | Monitro'n parhau gan y Gwasanaeth Dysgu |

## Cam 5 – Cynllun Gweithredu

**Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach**

| Cyf | Gweithrediadau arfaethedig | Swyddog arweiniol | Amserlen |
|---|---|---|---|
| | Dim newidiadau | | |
| | | | |
| | | | |

## Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Fe'u rhestrir isod:

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)
Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
Erthygl 3: Gwahardd artaith
Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
Erthygl 12: Yr hawl i briodi
Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i gael addysg
Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd
Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

## Atodiad 2 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.  Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| **Cymru gydnerth** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| **Cymru iachach** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| **Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

This page is intentionally left blank

DDIM I'W GYHOEDDI

# NOT FOR PUBLICATION

**Moderneiddio Ysgolion Môn – Ysgol gynradd newydd yn Llangefni yn lle Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir**
**Modernising Anglesey Schools – New primary school in Llangefni to replace ysgol Bodffordd and Ysgol Corn Hir**

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph 14 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae'r ABLl sy'n atodol yn cynnwys gwybodaeth masnachol sensitif am y prosiect.<br><br>The attached FBC contains commercially sensitive information. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fasnachol unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod sy'n dal yr wybodaeth).<br><br>Information relating to the financial or business affairs of any particular of any particular person (including the authority holding that information). |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn llai o bwys na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption does not outweigh the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

This page is intentionally left blank

Yn rhinwed paragraff(au) 14 Rhan 1 o Atodlen 12A
o Ddeddf Llywordraeth Leol 1972.



Document is Restricted

This page is intentionally left blank